Cyngor Sir Penfro

# Cynllun Datblygu Lleol*

# Cynllunio Dyfodol Sir Benfro

(hyd at 2021)



Mabwysiadwyd 28ain Chwefror 2013

*Ar gyfer y Sir ac eithrio Parc Cenedlaethol Arfodir Penfro

*Darparwyd y ffotograff ar y clawr blaen gan Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau*

---

I gael copi o'r cyhoeddiadd hwn mewn print bras, Braille, ar dâp sain neu mewn iaith arall, cysylltwch â Chyngor Sir Penfro ar 01437 776613.

This document is also available in English, please contact the LDP Team on 01437 775 391, ldp@pembrokeshire.gov.uk for a copy.

# Rhagair

Fi yw'r Aelod Cabinet ar gyfer Priffyrdd, Cynllunio, Trafnidiaeth a Digwyddiadau Mawr, ac felly mae'n bleser gennyf gyflwyno Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro, a fabwysiadwyd, yn y fan a'r lle, gan y Cyngor Sir ar 28 Chwefror 2013.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn disodli Cydgynllun Datblygu Unedol ar gyfer Sir Benfro, a fabwysiadwyd yn 2006 ar gyfer pob rhan o Sir Benfro sydd y tu allan i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol hwn yn fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau hyd at 2021 ar sut y caiff tir ei ddefnyddio a'i ddatblygu, er enghraifft, pa fath o ddatblygiad sy'n briodol neu'n ddymunol o ran economi, cymunedau ac amgylchedd Sir Benfro a beth yw'r ffordd orau o sicrhau gwydnwch o ran newid yn yr hinsawdd ac i gyflwyno tai fforddiadwy drwy'r System Gynllunio. Mae'n ffrwyth llafur darn pwysig o waith sydd wedi cynnwys ymgysylltu â'r gymuned, rhanddeiliaid ac aelodau etholedig dros nifer o flynyddoedd ac mae ei gwblhau a'i fabwysiadu'n garreg filltir arwyddocaol ar gyfer y Cyngor Sir.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn sail gadarn i gyflwyno datblygu cynaliadwy hyd at 2021, wedi'i ategu gan dystiolaeth, yn gyson â pholisi cenedlaethol a chynlluniau datblygu lleol mabwysiedig / arfaethedig awdurdodau Cynllunio lleol cyfagos.

Nod y Cynllun yw ceisio datblygu rhwydwaith o gymunedau trefol a gwledig cadarn, ynghyd â sicrhau cydbwysedd rhesymol o ran dosbarthiad datblygiadau newydd rhwng ardaloedd trefol a gwledig ac wedi'u cyfeirio at anheddiadau yn unol â'r ddarpariaeth seilwaith presennol a disgwyliedig a lefelau darpariaeth gwasanaethau.

Rwy'n hyderus y bydd y Cynllun yn fframwaith ar gyfer penderfynu cyson a bod modd darparu tir a ddyrennir ar gyfer datblygiadau newydd o fewn cyfnod y Cynllun. Caiff cynnydd o ran cyflwyno'r Cynllun ei fonitro a cheir darpariaeth ar gyfer ei adolygu.

**Cynghorydd Rob Lewis,**

*Dirprwy Arweinydd a Llefarydd y Cabinet dros Briffyrdd, Cynllunio, Trafnidiaeth a Digwyddiadau Mawr*

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Pennod 1: Cyflwyniad | 9 |
| Diben y Cynllun Datblygu Lleol | 9 |
| Strwythur y ddogfen | 10 |
| Sut mae defnyddio'r ddogfen hon | 11 |
| Cynnwys y Gymuned wrth Baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol | 12 |
| Proses y Gwerthusiad Cynaliadwyedd (GC) a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) | 12 |
| Gwerthusiad Rheoliadau Cynefinoedd | 12 |

| | |
|---|---|
| Pennod 2: Cynlluniau a strategaethau allweddol sy'n effeithio ar Sir Benfro | 13 |
| Fframwaith Polisi: Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol | 13 |
| Strategaethau Cenedlaethol | 13 |
| Strategaethau Rhanbarthol | 16 |
| Strategaethau Lleol | 18 |

| | |
|---|---|
| Pennod 3: Y Tueddiadau a'r Materion Allweddol | 25 |
| Tueddiadau a Materion Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol Allweddol | 25 |
| Cymunedau Cynaliadwy | 26 |
| Economi Wledig a Threfol Gref | 29 |
| Seilwaith, Trafnidiaeth a Hygyrchedd | 31 |
| Yr Amgylchedd | 33 |

| | |
|---|---|
| Pennod 4: Gweledigaeth ac Amcanion | 37 |
| Gwireddu'r Weledigaeth | 38 |
| Cyflawni'r Amcanion | 40 |

| | |
|---|---|
| Pennod 5: Strategaeth y Cynllun | 47 |
| SP 1 Datblygu Cynaliadwy | 48 |
| SP 2 Datblygu yn ymwneud a Phorthladdoedd ac Ynni | 49 |
| SP 3 Gofynion Tir Cyflogaeth | 51 |
| SP 4 Hyrwyddo Datblygiadau Manwerthu | 52 |
| SP 5 Economi Ymwelwyr | 53 |
| SP 6 Mwynau | 54 |
| SP 7 Gofynion Tai | 56 |
| SP 8 Targed Tai Fforddiadwy | 57 |
| SP 9 Yr Iaith Gymraeg | 59 |

| | |
|---|---|
| SP 10 Seilwaith Trafnidiaeth a Hygyrchedd | 61 |
| SP 11 Gwastraff | 62 |
| SP 12 Hierarchaeth Aneddiadau | 64 |
| SP 13 Ffiniau Aneddiadau | 66 |
| SP 14 Trefi Ffocws | 67 |
| SP 15 Aneddiadau Gwledig | 69 |
| SP 16 Cefn Gwlad | 72 |

| | |
|---|---|
| Pennod 6: Polisïau Cyffredinol | 75 |
| GN.1 Polisi Datblygu Cyffredinol | 75 |
| GN.2 Dylunio Cynaliadwy | 79 |
| GN.3 Seilwaith a Datblygiadau Newydd | 82 |
| GN.4 Effeithlonrwydd Adnoddau a Chynigion Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel | 84 |
| GN.5 Dyraniadau Cyflogaeth | 86 |
| GN.6 Cynigion Cyflogaeth | 88 |
| GN.7 Dyraniadau Defnydd Cymysg | 88 |
| GN.8 Diogelu Safleoedd ac Adeiladau Cyflogaeth | 90 |
| GN.9 Estyniadau i Safloedd Cyflogaeth | 91 |
| GN.10 Arallgyfeirio ar Fferm | 91 |
| GN.11 Addasu neu Newid Defnydd Adeiladau Amaethyddol | 93 |
| GN.12 Datblygu Canol Trefi | 95 |
| GN.13 Dyraniadau Manwerthu | 96 |
| GN.14 Datblygiadau Mawr y Tu Allan i Ganol y Dref | 97 |
| GN.15 Manwerthu ar Raddfa Fach | 98 |
| GN.16 Atyniadau Ymwelwyr a Chyfleusterau Hamdden | 98 |
| GN.17 Llety Hunanddarpar a Llety â Gwasanaeth | 99 |
| GN.18 Safleoedd Carafannau Teithio a Phebyll | 100 |
| GN.19 Safleoedd Carafannau Sefydlog | 102 |
| GN.20 Cyfleusterau Safle ar Safleoedd Carafannau a Gwersylla Presennol | 104 |
| GN.21 Marinas | 105 |
| GN.22 Cloddio'r Adnodd Mwynau Ymlaen Llaw | 106 |
| GN.23 Gwaith Mwynau Newydd | 107 |
| GN.24 Nwyddau Gwastraff wedi'u Hailgylchu ac Agregau Eilaidd | 109 |
| GN.25 Ardaloedd byffer o amgylch Safleoedd Mwynau | 109 |
| GN.26 Datblygiadau Preswyl | 110 |
| GN.27 Dyraniadau Preswyl | 113 |
| GN.28 Tai Fforddiadwy Anghenion Lleol | 116 |
| GN.29 Safleoedd Eithriedig ar gyfer Tai Fforddiadwy Anghenion Lleol | 118 |

| | |
|---|---|
| GN.30 Llety Arbenigol a Llety â Chymorth | 118 |
| GN.31 Polisi Safleoedd a Lleiniau Sipsiwn-Teithwyr | 119 |
| GN.32 Safleoedd a Lleiniau Sipsiwn-Teithwyr | 120 |
| GN.33 Cyfleusterau Cymunedol | 121 |
| GN.34 Gwarchod a Chreu Ardaloedd Hamdden Awyr Agored | 123 |
| GN.35 Gwarchod Safleoedd Agored sydd â Gwerth Amwynder | 124 |
| GN.36 Lletemau Glas | 125 |
| GN.37 Gwarchod a Gwella Bioamrywiaeth | 126 |
| GN.38 Gwarchod a Gwella yr Amgylchedd Hanesyddol | 127 |
| GN.39 Llwybrau Trafnidiaeth a Gwelliannau | 129 |
| GN.40 Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Newydd | 131 |
| GN.41 Lleihau, Ailddefnyddio, Adfer, Compostio a Thrin Gwastraff | 133 |
| GN.42 Gwaredu Gwastraff ar Dir | 135 |

| | |
|---|---|
| **Pennod 7: Gwireddu'r Weledigaeth: Gweithredu a Monitro** | 137 |
| Cyflwyniad | 137 |
| Gweithrediad | 138 |
| Monitro | 139 |
| Adolygu'r Cynllun | 142 |

| | |
|---|---|
| **Atodiadau** | |
| Atodiad 1: Geirfa | 145 |
| Atodiad 2: Gwaith Mwynau Cyfredol | 156 |
| Atodiad 3: Gofynion a Chyflenwad Tai, 2011 – 2021 | 157 |
| Atodiad 4: Darpariaeth Tai Fforddiadwy | 158 |
| Atodiad 5: Y Fframwaith Monitro | 159 |
| Atodiad 6: Polisi GN.39 – Llwybrau Trafnidiaeth a Gwelliannau Cynllun a manylion rhaglennu ar gyfer Cynlluniau trafnidiaeth wedi'u diogelu | 177 |

| | |
|---|---|
| **Ffigurau:** | |
| Ffigur 1: Amcanion strategol | 39 |
| Ffigur 2: Perthynas rhwng Materion, Amcanion, Polisïau a Monitro | 42 |
| Ffigur 3: Diagram Allweddol | 46 |
| Ffigur 4: Canrannau sy'n Siarad Cymraeg yn ôl Cyngor Cymuned | 60 |
| Ffigur 5: Rhwydwaith Trafnidiaeth Allweddol | 61 |

# Pennod 1: Cyflwyniad

## Diben y Cynllun Datblygu Lleol

1.1. Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (y Ddeddf) yn gofyn bod pob awdurdod Cynllunio lleol yng Nghymru yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl, y Cynllun), gyda'r amcan o gyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy.

1.2. Mae'r Cynllun yn sefydlu strategaeth a pholisïau yn seiliedig ar weledigaeth er mwyn rhoi arweiniad i ddatblygu a defnyddio tir yn Sir Benfro[1] o adeg ei fabwysiadu i 2021. Mae'n darparu'r cyd-destun polisi ar gyfer cyfeirio gwaith datblygu i leoliadau priodol, gan warchod yr amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol, a chan ddarparu sylfaen i wneud penderfyniadau rhesymol a chyson ar geisiadau Cynllunio. Y dyddiad sylfaenol ar gyfer dyraniadau defnyddio tir y Cynllun yw 2011.

1.3. Mae'r Cynllun hwn yn ategu Cynllun Gofodol Cymru[2] a Chynllun Cymunedol Sir Benfro[3]. Mae'n ddibynnol ar bolisi cenedlaethol, a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 5, Tachwedd 2012, Polisi Cynllunio Mwynau Cymru 2000, ynghyd â'r gyfres ategol o Nodiadau Cyngor Technegol a Chylchlythyrau fel cyd-destun ar gyfer penderfyniadau ar gynllunio defnydd tir lle nad oes polisi CDLl sy'n benodol yn lleol[4]. Bydd y rhain a'r holl Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) a fabwysiadir sy'n cefnogi'r Cynllun hwn yn ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu ar gynigion datblygu perthnasol.

1.4. Er cyfleustra, yn y ddogfen hon cyfeirir fel arfer at ardal y Cynllun hwn fel "Sir Benfro", a dylid cymryd hyn i olygu'r Sir ac eithrio'r Parc Cenedlaethol. Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn ddarostyngedig i CDLl gwahanol ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol sy'n gyfrifol am hwnnw.

1.5. Daw'r Cynllun Datblygu Lleol hwn yn lle'r polisi Cynllunio blaenorol fel y mae yn y Cyd-Gynllun Datblygu Unedol a'r Datganiad Darparu Tai Fforddiadwy. Seiliwyd y dadansoddiadau a'r cyfrifiadau yn y Cynllun ar gyfnod Cynllun tybiedig o 2011 i 2021.

---

1 Ac eithrio Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
2 Adolygiad Cyntaf Cynllun Gofodol Cymru, 2008
3 Cynllun Cymunedol Sir Benfro 2010
4 CDLl Cymru paragraff 2.2

**Strwythur y ddogfen**

1.6 Mae'r bennod hon (Pennod Un) yn esbonio'n gryno y broses o gynhyrchu CDLl, sut a ble y caiff ei gymhwyso a'r dull o fonitro ei gyflawniadau. Cafodd y Cynllun hwn ei ffurfio drwy gynnwys y gymuned a thrwy brosesau Gwerthusiad Cynaliadwyedd, Asesiad Amgylcheddol Strategol (GC/AAS), Rhestr Wirio Ansawdd Bywyd Cyngor Sir Penfro a Gwerthusiad Rheoliadau Cynefinoedd (GRhC) – cyflwynir y prosesau hyn yn y bennod hon.

1.7 Mae Pennod Dau yn disgrifio sut mae'r Cynllun hwn yn rhoi ystyriaeth i strategaethau, Polisïau a rhaglenni perthnasol megis Cynllun Gofodol Cymru a Chynllun Cymunedol Sir Benfro.

1.8 Ym Mhennod Tri ceir amlinelliad o'r materion sy'n effeithio ar ddatblygiad Sir Benfro i'r dyfodol a chafodd y rhain eu ffurfio drwy ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'n egluro'r cydweithio a wnaed â meysydd gwasanaeth eraill, awdurdodau lleol cyfagos a sefydliadau rhanddeiliaid.

1.9 Mae Pennod Pedwar yn manylu ar y Weledigaeth a'r Amcanion ar gyfer y Cynllun hwn. Mae'n gosod y weledigaeth o ran pa fath o le y dylai Sir Benfro fod yn 2021 ac mae'n darparu fframwaith manwl o amcanion defnydd tir, hynny yw, yr hyn y mae'r Cynllun yn ceisio ei gyflawni. Datblygwyd yr amcanion hyn ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgynghori â'r cyhoedd.

1.10 Ym Mhennod Pump, gosodir y strategaeth ofodol a'r Polisïau sy'n rhoi arweiniad ynghylch datblygiadau a defnydd tir i'r dyfodol yn Sir Benfro yn ystod cyfnod y Cynllun.

1.11 Mae Pennod Chwech yn nodi Polisïau Cyffredinol a gaiff eu defnyddio i roi arweiniad i ddatblygiadau ac asesu ceisiadau Cynllunio i'r dyfodol.

1.12 Ym Mhennod Saith, rhoddir y trefniadau ar gyfer monitro a gweithredu'r Cynllun ac ymyriadau os nad yw amcanion y Cynllun yn cael eu cyflawni.

1.13 Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiodd yr Awdurdod wrth baratoi'r Cynllun hwn ar gael i'r cyhoedd.

## Sut mae defnyddio'r ddogfen hon

1.14 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys Datganiad Ysgrifenedig a Map Cynigion. Mae'r Cynllun wedi'i ddylunio i ategu polisi[5] a chyfarwyddyd cenedlaethol a allai gael eu defnyddio wrth benderfynu os yw'n berthnasol i gais a heb ei ailadrodd. Dylid darllen y Cynllun hwn ar y cyd â Pholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5, Tachwedd 2012) sy'n nodi'r agweddau hynny lle na ddylai datganiadau clir ynghylch polisi rheoli datblygu cenedlaethol gael eu hailadrodd fel Polisïau lleol o fewn y Cynllun hwn.

1.15 Mae'r Datganiad Ysgrifenedig (y ddogfen hon) yn gosod y weledigaeth o ran sut bydd Sir Benfro yn datblygu dros gyfnod y Cynllun gan nodi amcanion er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon. Mae Polisïau Strategol a chyffredinol yn nodi'r ymagwedd at ddatblygu a ddylai sicrhau y cyflawnir yr amcanion a'r weledigaeth.

1.16 Mae'r Map Cynigion yn dangos lleoliad daearyddol a maint y datblygiad sy'n ymwneud yn benodol â'r safle a pholisïau gwarchod ar sail Arolwg Ordnans. Mae'n rhan o'r Cynllun hwn er y caiff ei gyhoeddi fel dogfen ar wahân er hwylustod. Mae'n cynnwys holl ardal y Cynllun. Petai unrhyw anghysondeb rhwng y Datganiad Ysgrifenedig a'r Map Cynigion bydd y testun ysgrifenedig yn cael blaenoriaeth. Casglwyd y dyraniadau a ddangosir ar y Map Cynigion ynghyd trwy ddefnyddio System Wybodaeth Ddaearyddol (GIS) a'i ddigideiddio ar raddfa o 1:2500. Dylai unrhyw esboniad neu ddehongliad manwl o ffin dyraniad a ddangosir gael ei ddatrys trwy gyfeirio at y GIS ar raddfa o 1:2500.

1.17 Mae geirfa wedi'i chynnwys yn Atodiad 1 i esbonio ystyr termau technegol.

1.18 Yn y Cynllun, cyfeirir at amryw ddogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) a baratowyd gan y Cyngor Sir, neu a fydd yn cael eu paratoi. Mae'r dogfennau hyn yn rhoi manylion a chyfarwyddyd penodol pellach a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau.

1.19 Mae nifer o bolisïau'r Cynllun yn gydberthnasol a gallai sawl polisi fod yn berthnasol i unrhyw gynnig datblygu unigol. Mae'n bwysig, felly, y darllenir y Cynllun yn ei gyfanrwydd ac y caiff ei ddefnyddio ar y cyd â pholisi a chanllawiau cenedlaethol a CCA lleol.

1.20 Mae'r Cynllun hwn yn cyflwyno Polisïau ar gyfer y prif fathau o ddatblygu sy'n debygol o ddigwydd yn ardal y Cynllun yn ystod cyfnod y Cynllun, ynghyd â pholisïau cyffredinol a pholisïau yn seiliedig ar feini prawf sy'n rhoi sylfaen i werthuso cynigion eraill.

---

[5] Llawlyfr CDLl (Llywodraeth Cymru 2006) paragraff 2.3.5 a 5.3.1

## Cynnwys y Gymuned wrth Baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol

1.21 Mae Cynllun Cynnwys y Gymuned[6] yn gosod trefniadau'r Awdurdod o ran cynnwys rhanddeiliaid a'r gymuned leol wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae rhanddeiliaid o amryw gefndiroedd wedi helpu i baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Maent yn cynnwys sefydliadau sy'n ymwneud yn aml â datblygiadau megis darparwyr seilwaith, asiantaethau cenedlaethol megis Asiantaeth yr Amgylchedd, cynghorau tref a chymuned, grwpiau buddiant ac unigolion. Parheir i gynnwys y gymuned yn y Cynllun hwn wrth iddo gael ei weithredu a'i fonitro. Mae'r "Adroddiad Ymgynghori" yn cofnodi'r amryw gyfleoedd a digwyddiadau a alluogodd y gymuned a rhanddeiliaid i helpu i ffurfio'r Cynllun hwn.

## Proses y Gwerthusiad Cynaliadwyedd (GC) a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)

1.22 Rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol helpu i gyflawni ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy. I ddangos y cyflawnwyd hyn a bod y cyfarwyddyd a'r Polisïau Strategol yn gynaliadwy, cafodd y Cynllun hwn ei fesur neu'i brofi yn erbyn meini prawf economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Cyfeirir at hyn fel y Gwerthusiad Cynaliadwyedd (GC).

1.23 Mae ddeddfwriaeth Ewrop[7] yn mynnu bod blaenoriaeth uchel i ddiogelu'r amgylchedd trwy gydol paratoad y Cynllun drwy broses y cyfeirir ati fel Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS).

1.24 Mae'r broses hon wedi'i hymgorffori yn rhan o'r GC ac mae wedi'i gosod ynghyd â'r canlyniadau yn yr Adroddiad Gwerthusiad Cynaliadwyedd atodedig.

1.25 Aseswyd y Polisïau Strategol gan ddefnyddio Pecyn Cymorth Asesu Ansawdd Bywyd y Cyngor Sir, i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag egwyddorion allweddol y Cynllun Cymunedol.

## Gwerthusiad Rheoliadau Cynefinoedd

1.26 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol hefyd yn ddarostyngedig i Werthusiad Rheoliadau Cynefinoedd, sy'n ofynnol o dan gyfraith Ewrop[8]. Datblygwyd y ddeddfwriaeth hon er mwyn sicrhau y rhoddir y lefel uchaf o warchodaeth i safleoedd dynodedig Ewropeaidd; sef Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Cyhoeddwyd Gwerthusiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun hwn fel dogfen ategol.

---

[6] Rhan o'r Cytundeb Cyflenwi, 2007 gyda diweddariad i'r amserlen, 2009/2010

[7] Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC a droswyd gan Reoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004

[8] Fel un o ofynion y Cyfarwyddeb Cynefinoedd 92/43/EEC a droswyd gan Reoliadau Cadw Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010

# Pennod 2: Cynlluniau a strategaethau allweddol sy'n effeithio ar Sir Benfro

### Fframwaith Polisi: Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol

2.1. Mae'r Cynllun hwn yn rhan o gynlluniau, strategaethau a datganiadau polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer Cynllunio yn Sir Benfro. Mae'n bwysig y caiff y strategaethau a'r Polisïau hyn eu deall a'u hintegreiddio gyda'r Cynllun hwn i sicrhau bod y Cynllun yn gadarn, yn seiliedig ar wybodaeth ddigonol ac yn rhan o fframwaith cyson wrth ffurfio dyfodol y Sir. Wrth baratoi'r Cynllun hwn, rhoddwyd ystyriaeth i strategaethau a rhaglenni perthnasol lleol, rhanbarthol a Llywodraeth Cymru.

### *Strategaethau Cenedlaethol*

### Polisi a Chanllawiau Cynllunio

2.2. Mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5, Tachwedd 2012) a Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru (2000), ynghyd ag amryw Nodiadau Cyngor Technegol pwnc benodol (TANs a MTANs) a Chylchlythyrau yn gosod Polisïau Cynllunio defnydd tir cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Bydd polisi a chanllawiau Cynllunio a gyhoeddir gan Adrannau Llywodraeth y DU sy'n ymwneud â materion Cynllunio sydd heb eu datganoli yn ystyriaethau perthnasol.

### Pobl, Lleoedd, Dyfodol – Diweddariad o Gynllun Gofodol Cymru 2008

2.3. Mae'r Diweddariad o Gynllun Gofodol Cymru 2008 yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu gofodol Cymru i'r dyfodol. Mae'n ceisio mynd i'r afael â heriau sy'n gysylltiedig â newid demograffig, hygyrchedd a dyrannu adnoddau dros yr 20 mlynedd nesaf.

2.4. Mae 'Sir Benfro – Yr Hafan' yn ardal a nodir yn y Cynllun Gofodol. Nodir tri Ffocws strategol sydd iddynt swyddogaeth ranbarthol bwysig a dylai'r rhain fod yn ganolbwynt ar gyfer buddsoddi i'r dyfodol. Un Ffocws yw 'Trefi'r Hafan', sef Hwlffordd (gan gynnwys Pont Myrddin), Aberdaugleddau, Neyland, Penfro a Doc Penfro. Caerfyrddin (yn Sir gyffiniol Sir Gaerfyrddin) yw'r ail Ffocws, ac mae iddi swyddogaeth ganolog rhwng tair ardal Cynlluniau Gofodol gwahanol. Y trydydd Ffocws a nodir yw Abergwaun ac Wdig sydd yn sbardun pwysig i economi gogledd Sir Benfro.



2.5. Mae'r Cynllun Gofodol hefyd yn nodi aneddiadau canolog allweddol, sef Dinbych-y-pysgod (ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro), Arberth yn Sir Benfro a Hendy-gwyn ar Daf a Sanclêr yn Sir Gaerfyrddin ac Aberteifi yng Ngheredigion. Mae i'r rhain swyddogaethau Canolfannau Gwasanaeth, cyflogaeth a thwristiaeth. Nodir Canolfannau Lleol yn Saundersfoot (y Parc Cenedlaethol), Tyddewi (y Parc Cenedlaethol), Crymych (yn bennaf o fewn CDLl Sir Benfro ond sydd yn croesi'r ffin â'r Parc Cenedlaethol, Cilgeti, Trefdraeth (y Parc Cenedlaethol) a Threletert yn Sir Benfro a Thalacharn / Pentywyn a Chastellnewydd Emlyn yn Sir Gaerfyrddin.

2.6. Mae strategaeth y Cynllun hwn yn adlewyrchu hierarchaeth yr aneddiadau a sefydlwyd gan Gynllun Gofodol Cymru a'i flaenoriaethau, gan roi pwyslais penodol ar ddatblygu swyddogaethau ategol y Trefi Ffocws a chefnogi cymunedau gwledig.

### Cynllun Gofodol Cymru ardal benodol: Astudiaeth Ategol Sir Benfro yr Hafan

2.7. Cynhaliwyd Astudiaeth Ategol sy'n cydnabod y materion trawsffiniol pwysig sy'n bodoli rhwng aneddiadau yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro fel y nodir yng Nghynllun Gofodol Cymru, gan bob un o'r tri awdurdod Cynllunio a Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn nodi sut y gall y gwahanol aneddiadau o fewn ardal 'Sir Benfro - Yr Hafan' gyflawni gwahanol swyddogaethau ac yn argymell camau gweithredu allweddol i'r dyfodol, ac mae rhai ohonynt i'w cyflawni drwy'r Cynllun hwn.

### Strategaeth Amgylchedd Cymru (2006)

2.8. Mae Strategaeth Amgylchedd Cymru yn amlinellu strategaeth hirdymor (20 mlynedd) Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd yng Nghymru.

2.9. Y weledigaeth yw gweld amgylchedd Cymru yn ffynnu ac yn cyfrannu at les economaidd a chymdeithasol ac iechyd pobl Cymru. Er mwyn gwireddu hyn, mae'r strategaeth yn nodi bod yn rhaid i ni reoli'r pwysau a roddwn ar ein hamgylchedd yn fwy effeithiol a mynd i'r afael â heriau megis newid hinsawdd.

2.10. Mae strategaethau a pholisïau'r Cynllun hwn yn cefnogi'r potensial i Sir Benfro ddatblygu ei heconomi mewn meysydd megis ynni adnewyddadwy ac adeiladu sy'n effeithlon yn amgylcheddol, a sicrhau y caiff datblygiadau eu dylunio a'u hadeiladu mor effeithlon â phosibl, gan gyfrannu at weledigaeth Strategaeth Amgylchedd Cymru.

**Cymru: Economi yn Ffynnu (2005)**

2.11. Mae Cymru: Economi yn Ffynnu yn rhoi amlinelliad o strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni twf economaidd cynaliadwy i Gymru. Mae'r dull o weithredu yn golygu adeiladu ar gryfderau craidd Cymru: gweithlu sy'n gynyddol grefftus, arloesol ac entrepreneuraidd, sylfaen ddatblygedig o ran technoleg a gwybodaeth, cymunedau cryf, amgylchedd naturiol gwych ac ansawdd bywyd rhagorol.

2.12. Mae'r Cynllun hwn yn ymgorffori llawer o'r themâu sydd yn y strategaeth genedlaethol, gyda pholisïau sy'n cefnogi busnesau presennol sy'n dymuno tyfu, cyfleoedd i greu adeiladau busnes a thrwy ddyrannu tir ar gyfer datblygiadau masnachol mawr a strategol.

**Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd (2010)**

2.13. Lansiwyd rhaglen Adnewyddu'r Economi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn ymateb i newidiadau yn yr hinsawdd economaidd fyd-eang. Mae'n nodi newid yn null gweithredu ac agwedd y Llywodraeth tuag at gefnogi'r economi, gan symud oddi wrth gymorth ariannol uniongyrchol tuag at greu a chynnal amgylcheddau cefnogol ac sy'n galluogi, y gall busnesau lwyddo ynddynt. Ei gweledigaeth ar gyfer economi gynaliadwy yw 'adeiladu ar gryfderau a sgiliau pobl ac amgylchedd naturiol Cymru; a gaiff ei chydnabod gartref a thramor fel gwlad hyderus, greadigol ac uchelgeisiol; lle gwych i fyw a gweithio ynddo'. Mae'r Cynllun hwn yn adlewyrchu'r uchelgais hwn drwy greu hinsawdd sy'n addas i hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac annog arloesed ac entrepreneuriaeth.

**Cynllun Datblygu Gwledig Cymru, 2007-2013**

2.14. Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig yn gosod strategaeth gyffredinol ar gyfer datblygu yng Nghymru wledig, ac mae'n cynnwys dadansoddiad o'r sefyllfa bresennol a rhaglenni 'echel' (neu flaenoriaeth) sy'n seiliedig ar amcanion yr UE ar gyfer datblygu gwledig, ac mae i bob un amryw dargedau ac amcanion. Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig hefyd yn ystyried cyfatebolrwydd gydag offerynnau cyllido cymunedol eraill.
Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig yn cyflwyno amryw faterion gan gynnwys:

- Cyfraddau cyflogaeth, cynhyrchiant a gweithgarwch isel;
- Oedolion ifanc yn allfudo; a
- Bywiogrwydd cymunedau.

Lluniwyd Cynllun Datblygu Gwledig lleol sy'n nodi materion sydd yn fwyaf perthnasol i Sir Benfro (gweler paragraff 2.41).

### Rhaglen Gydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 2007 – 2013

2.15. Mae Sir Benfro yn rhan o ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, sy'n gymwys i dderbyn cyllid gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop trwy'r rhaglenni Cydgyfeirio ar gyfer y cyfnod 2007 i 2013. Defnyddir y cyllid hwn i hybu datblygu economaidd yr ardal, gan gynnwys Sir Benfro.

2.16. Blaenoriaethau ar gyfer Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yw'r economi wybodaeth, gwella cystadleurwydd busnes, datblygu seilwaith strategol, amgylchedd busnes cynaliadwy deniadol, ac adeiladu cymunedau cynaliadwy.

2.17. Blaenoriaethau ar gyfer Cronfa Gymdeithasol Ewrop yw darparu sgiliau i bobl ifanc ar gyfer cyflogaeth, cynyddu cyflogaeth a lleihau anweithgarwch economaidd, gwella lefelau sgiliau a hyblygrwydd y gweithlu a moderneiddio a gwella gwasanaethau cyhoeddus.

### *Strategaethau Rhanbarthol*

### Cynnydd mewn Partneriaeth – Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru, 2010-2015 – (2009)

2.18. Mae Consortiwm Cludiant Integredig De-Orllewin Cymru (NEWID)[9] wedi datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru. Mae hwn yn sefydlu'r polisi trafnidiaeth rhanbarthol ac yn gweithredu fel dogfen ymgeisio am gyllid trafnidiaeth ar gyfer y cyfnod 2010-2015 gyda'r nod o gyflawni gwelliannau i fynd i'r afael â phroblemau trafnidiaeth a nodwyd yn y rhanbarth. Gweledigaeth Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru yw 'gwella trafnidiaeth a mynediad yn y rhanbarth a thu hwnt er mwyn hwyluso datblygu economaidd a defnyddio dulliau teithio sy'n fwy cynaliadwy ac iachach'. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi amcanion strategol, strategaeth hirdymor a rhaglen o brosiectau i gyflawni'r strategaeth a'r amcanion.

2.19. Mae'r Cynllun hwn yn adlewyrchu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer De-Orllewin Cymru, drwy geisio sicrhau datblygu economaidd cynaliadwy ac annog defnyddio dulliau teithio sy'n fwy cynaliadwy ac iachach.

---

[9] Mae NEWID yn cynnwys pedwar awdurdod lleol: Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Dinas a Sir Abertawe

**Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer yr Ardal a gwmpesir gan Weithgor Agregau De Cymru – (Hydref 2008)**

2.20. Mae'r Datganiad hwn, sy'n ofynnol yn sgil MTAN 1, yn rhoi sylfaen strategol ar gyfer Polisïau Cynllunio mwynau CDLl, gyda'r amcanion perthnasol canlynol:

- Gwneud y mwyaf o ddefnyddio deunyddiau eilaidd, deunyddiau wedi'u hailgylchu a gwastraff mwynau.
- Diogelu mwynau y gallai fod eu hangen yn yr hirdymor.
- Caniatáu ymestyn chwareli agregau presennol os yw hynny'n gynaliadwy.
- Sicrhau bod ardaloedd newydd o gyflenwad agregau yn dod o leoliadau sydd â chyfyngiadau amgylcheddol isel a chan ystyried oblygiadau trafnidiaeth.
- Cynnal cyflenwad o agregau morol yn gyson â gofynion y Polisi Dros Dro ar Garthu Agregau Morol (IMADP).

**Adolygiad 1af o Gynllun Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru (2008)**

2.21. Mae'r Cynllun hwn yn nodi ystyriaethau ar gyfer rheoli gwastraff i'r dyfodol yn y rhanbarth, gan gynnwys lleihau gwastraff a rheoli gwastraff yn fwy cynaliadwy.

2.22. Mae'r Adolygiad 1af o'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol yn rhoi fframwaith Cynllunio defnydd tir ar gyfer rheoli gwastraff yn gynaliadwy gan gynnwys gwybodaeth strategol ar y mathau o leoliadau sy'n debygol o fod yn dderbyniol ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd.

2.23. Mae'r Cynllun hwn yn rhoi ystyriaeth i anghenion rheoli gwastraff rhanbarth ehangach de-orllewin Cymru i'r dyfodol yn unol â'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol, er mwyn sicrhau bod tir addas digonol ar gael i ddatblygu cyfleusterau a fydd yn cynnal cyfleusterau rheoli mwy cynaliadwy, megis safleoedd compostio ac ailgylchu deunyddiau.

**Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru (2010) Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylchoedd Afonydd Arfordirol Cleddau a Sir Benfro (2006) Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru**

2.24. Mae Sir Benfro yn dod o dan Ardaloedd Basn Afon Gorllewin Cymru. Mae'r Cynllun Rheoli Basn Afon yn nodi'r pwysau sy'n wynebu'r amgylchedd dŵr yn yr ardal basn afon hon, a'r camau gweithredu a fydd yn mynd i'r afael â hwy. Mae Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylchoedd Afonydd Arfordirol Cleddau a Sir Benfro (2006) yn dangos y gall

afonydd Sir Benfro, o'u rheoli'n ofalus, gynnal y lefelau presennol o dynnu dŵr a chynnal ansawdd amgylcheddol a buddiannau hamdden a bywyd gwyllt.

2.25. Mae'r Cynllun hwn yn annog effeithlonrwydd adnoddau a dull polisi sy'n gwarchod yr amgylchedd naturiol rhag datblygu amhriodol.

**Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Diwygiedig Drafft Dŵr Cymru Hydref 2011.**

2.26 Mae Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr Diwygiedig Drafft Dŵr Cymru (Hydref 2011) yn nodi datrysiad a ffefrir (a dewis i droi ato gan ystyried effeithiau ARhC posibl) i fynd i'r afael â materion ynglŷn â chapasiti adnoddau dŵr o ganlyniad i drwyddedau tynnu dŵr diwygiedig ym Mharth Adnoddau Dŵr Sir Benfro ac mae'n nodi eu tybiaeth na fydd y gostyngiadau arfaethedig yn y trwyddedau tynnu dŵr wedi eu gweithredu cyn 2020, oherwydd yr amser dirwyn sylweddol sydd ei angen i weithredu datrysiadau. Yn dilyn yr ymgynghori a chwblhau'r Cynllun, bydd angen i unrhyw effeithiau gan y datrysiad arfaethedig, sy'n debygol o fod wedi 2020, fwydo i mewn i adolygiad y Cynllun.

***Strategaethau Lleol***

**Cynlluniau Partneriaeth Statudol yn Sir Benfro Cynllun Cymunedol i Sir Benfro (2010 – 2025)**[10]

2.27 Mae'r Cyngor Sir yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i wella ansawdd bywyd pobl Sir Benfro. Mae'r Cynllun Cymunedol 2010/25 yn nodi blaenoriaethau hirdymor i sicrhau gwell ansawdd bywyd, gan nodi sut bydd partneriaid yn gwella lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Sir Benfro ac yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy ledled y Deyrnas Unedig. Y themâu y mae'r amcanion strategol yn gorwedd ynddynt yw lles, yr amgylchedd, yr economi, y gymuned, tai, dysgu, mynediad a diogelwch. Caiff yr amcanion strategol ar gyfer gwella dros y 15 mlynedd nesaf eu hategu gan gynllun gweithredu sydd â mesurau llwyddiant wedi'u nodi.

2.28 Mae'r Cynllun Cymunedol yn un o nifer fach o gynlluniau partneriaeth statudol (mae'r lleill yn canolbwyntio ar iechyd, gofal cymdeithasol a lles, plant a phobl ifanc a diogelwch cymunedol) gyda'r Cynllun Cymunedol yn darparu fframwaith trosfwaol ar gyfer y Cynlluniau a'r strategaethau partneriaeth mwy manwl hyn, ac ar gyfer y Cynllun hwn.

[10] Y fframwaith statudol ar gyfer y Cynllun hwn yw Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

2.29 Mae'r strategaeth ar gyfer y Cynllun hwn yn ceisio bodloni dyheadau llunio lleoedd y Cynllun Cymunedol, sef y rhannau hynny o'r Weledigaeth Cynllun Cymuned a'r blaenoriaethau sy'n ymwneud â'r datblygiad a'r defnydd o dir.

2.30 Mae'r **Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles 2008-2011** yn pwysleisio pwysigrwydd gofalu am iechyd a lles ac annog pobl i gael ffyrdd iachach o fyw. Nod y strategaeth yw gwella iechyd a lles trwy atal afiechyd yn y lle cyntaf a thrwy wella darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol Sir Benfro ar gyfer preswylwyr y mae angen gwasanaethau arnynt.

2.31 Nod y **Cynllun Plant a Phobl Ifanc** 2008-2011 yw cydweithio i gyflawni'r canlyniadau gorau i bob plentyn a pherson ifanc yn Sir Benfro. Y nodau craidd yw: sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael dechrau teg mewn bywyd; yn cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu; yn mwynhau'r iechyd gorau posibl ac nid ydynt yn cael eu cam-drin, eu herlyn na'u cam-fanteisio; yn cael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol; yn cael eu clywed, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod; yn cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol ac yn osgoi bod yn ddifreintiedig oherwydd tlodi.

2.32 Blaenoriaethau'r **Strategaeth Diogelwch Cymunedol** yw lleihau troseddi, ofn troseddau a mynd i'r afael â cham-drin sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

2.33 Mae'r Cynllun hwn yn cefnogi gweithredu'r Cynlluniau partneriaeth statudol trwy alluogi'r ddarpariaeth o dai newydd addas, gwarchod mannau agored ar gyfer hamdden a galluogi datblygu cyfleusterau cymunedol newydd neu wedi'u haddasu sydd mewn lleoliadau addas i wasanaethu anghenion cymunedau. Bydd y Cynllun yn sefydlu gwell safonau ar gyfer dylunio da, cynaliadwy ac amgylcheddau cynhwysol, hygyrch sy'n hybu diogelwch cymunedol.

### Cynlluniau Partneriaeth Anstatudol yn Sir Benfro

### Strategaeth Tai Lleol Cyngor Sir Penfro 2007 - 2012

2.34 Mae ymrwymiad y Cyngor Sir i wella tai sector cyhoeddus a phreifat wedi'i osod yn y strategaeth hon, sy'n tynnu at ei gilydd yr holl faterion sy'n ymwneud â thai, yn pennu'r camau gwella sydd i'w cymryd yng nghyd-destun Strategaeth Tai Cenedlaethol Cymru ac yn nodi blaenoriaethau o ran camau gweithredu ar gyfer y pum mlynedd, y deng mlynedd a'r pymtheng mlynedd nesaf, gan hyrwyddo'r blaenoriaethau sydd eisoes wedi'u nodi yn y Cynllun Cymunedol.

2.35 Mae'r blaenoriaethau a nodwyd yn cynnwys gwneud y gorau o gyflenwi tai fforddiadwy, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, er mwyn helpu i gynnal cymunedau; cynyddu'r lefel o gyflenwi tai fforddiadwy drwy'r system gynllunio; darparu ystod eang o opsiynau tai i bobl agored i niwed; opsiynau tai i bobl hŷn; gwella cyflwr stoc tai Sir Benfro, adfywio cymdogaethau ac annog tai newydd ac wedi'u hadnewyddu sy'n ecogyfeillgar. Mae'r CDLl yn adlewyrchu'r blaenoriaethau hyn gan roi pwyslais ar gyflenwi tai fforddiadwy, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, a chanolbwyntio ar ddylunio da, cynaliadwy.

### Strategaeth Twristiaeth Cyngor Sir Penfro (2006 - 2012)[11]

2.36 Dyma weledigaeth Strategaeth Twristiaeth Cyngor Sir Penfro: "Caiff Sir Benfro ei chydnabod yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel cyrchfan arfordirol nodedig, sy'n darparu profiadau o ansawdd da i ymwelwyr a thrigolion, wrth gefnogi'i chymunedau a gwarchod ei hamgylchedd drwy dwf cynaliadwy diwydiant twristiaeth llewyrchus drwy gydol y flwyddyn".

2.37 Mae'r Strategaeth yn gosod themâu allweddol i hyrwyddo a datblygu twristiaeth ledled y Sir, ac mae'r Cynllun hwn yn rhoi ystyriaeth iddynt. Dyma'r themâu:

- Hygyrchedd;
- Ansawdd a gwerth;
- Partneriaeth; a
- Chynaliadwyedd.

2.38 Mae'r Cynllun hwn yn cyflawni prif themâu'r strategaeth drwy annog datblygiadau mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n cyfrannu at amrywiaeth ac ansawdd yr atyniadau, yn adlewyrchu nodweddion nodedig lleol ac sydd er budd i gymunedau lleol.

### Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLl) Sir Benfro

2.39 Mae CGBLl Sir Benfro yn ddogfen Sir gyfan sy'n gosod fframwaith i gynnal a gwella cynefinoedd a rhywogaethau o flaenoriaeth drwy nodi a gosod Cynlluniau gweithredu ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd o flaenoriaeth yn y Sir. Mae Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau a Chynefinoedd[12] manwl yn nodi'r camau gweithredu hynny sydd eu hangen er mwyn i'r rhywogaethau a'r cynefinoedd hynny sydd o flaenoriaeth ennill 'cyflwr ffafriol'.

[11] Adolygiad Gwanwyn 2010*
[12] Mae rhaglen barhaus yn ei lle ar gyfer eu paratoi

2.40 Mae'r Cynllun hwn yn adlewyrchu'r CGBLl drwy nodi a gwarchod dynodiadau natur a darparu fframwaith o bolisïau i warchod a gwella'r amgylchedd naturiol ehangach.

**Cynllun Datblygu Gwledig – Sir Benfro Ymlaen 2007-2013**

2.41 Mae'r strategaeth hon yn sefydlu sut y caiff Cynllun Datblygu Gwledig Cymru ei weithredu yn Sir Benfro. Blaenoriaeth drosfwaol Strategaeth Datblygu Lleol Sir Benfro, yn arbennig o ran sut y mae'n perthyn i Echel 3 Cynllun Datblygu Gwledig Cymru, yw "creu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy a sefydlu'r amodau sydd eu hangen ar gyfer twf economaidd cynaliadwy."

2.42 Mae blaenoriaethau strategol a nodir yn y Cynllun Datblygu Gwledig sydd yn berthnasol i'r Cynllun hwn yn cynnwys: canolbwyntio ar sectorau amaeth, pysgodfeydd a bwyd o ansawdd a sector twristiaeth o ansawdd; ynni (gan gynnwys ynni adnewyddadwy) a nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol; manteisio i'r eithaf ar fuddion band eang; gwella diogelwch cymunedol; annog cymunedau gwledig gweithgar sy'n gytbwys o ran oed; gwarchod a gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig a naturiol; gwella mynediad i gefn gwlad a'r arfordir; cynyddu bioamrywiaeth a gwella'r arfer o reoli cynefinoedd; sefydlu enw da yn rhyngwladol fel ardal o fusnesau gwybodaeth a chreu cysylltiadau gyda rhanbarthau a gwledydd eraill a all ychwanegu gwerth.

2.43 Mae canolbwyntio ar greu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy gyda phwyslais ar y blaenoriaethau strategol uchod yn ystyriaeth bwysig ar gyfer y Cynllun hwn a chaiff ei chyflawni drwy ddyraniadau a pholisïau sy'n seiliedig ar feini prawf.

**Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2009-2013**

2.44 Mae Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn gynllun statudol a baratowyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro er mwyn cyflawni dibenion Parc Cenedlaethol a meithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau'r Parc Cenedlaethol wrth geisio'r dibenion hynny. Mae cyflawni'r Cynllun yn golygu cydgysylltu ymdrechion amrywiaeth eang o sefydliadau, gan gynnwys y Cyngor Sir.

2.45 Mae'r Cynllun Rheoli yn gosod y cyfeiriad strategol a'r amcanion gweithredol ar gyfer rhaglenni gwaith Awdurdod y Parc Cenedlaethol a rhai ei bartneriaid wrth gyflawni dibenion parc cenedlaethol. Mae hefyd yn gosod y cyd-destun ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Awdurdod y Parc Cenedlaethol, gan gyflawni swyddogaeth ategol Cynllun Cymunedol Sir Benfro o fewn y Parc Cenedlaethol.

**Prif Gynllun Porthladd Aberdaugleddau**

2.46 Dechreuodd Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau baratoi Prif Gynllun[13] ar gyfer y Porthladd yn gynnar yn 2010. Diben y Prif Gynllun yw egluro Cynllunio strategol y porthladd ei hun ar gyfer y tymor canolig i'r tymor hir, i gynorthwyo cyrff Cynllunio lleol a rhanbarthol a darparwyr rhwydweithiau trafnidiaeth wrth iddynt baratoi ac adolygu strategaethau datblygu ac i hysbysu defnyddwyr a gweithwyr y porthladd a chymunedau lleol ar y modd y gallai'r porthladd datblygu dros y blynyddoedd mewn ymateb i'r farchnad a chyfleoedd i gryfhau cynhyrchiant diwydiannol, defnyddio mwy ar y seilwaith presennol a chyflawni enillion amgylcheddol seiliedig ar logisteg fwy a rhwydweithiau cynhyrchu mwy effeithiol. Mae'r Cynllun yn cynnwys dyheadau datblygu ar gyfer yr Hafan, lle bo'r rhain yn ddigon datblygedig. Bydd Cynigion Datblygu sydd wedi'u hadnabod gan Brif Gynllun y Porthladd yn cael eu hystyried wrth i'r Cynllun hwn gael ei adolygu yn y dyfodol.

**Cynlluniau Datblygu Awdurdodau Cynllunio Lleol Cyfagos**

2.47 Sicrhawyd cyfatebiaeth eang o bolisïau trawsffiniol â pholisïau awdurdodau Cynllunio lleol cyfagos drwy gydweithio ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chynghorau Sir Caerfyrddin a Cheredigion. Bydd CDLlau awdurdodau cyfagos yn disodli'r Cynlluniau Datblygu presennol yn yr ardaloedd hynny unwaith y cânt eu mabwysiadu.

**Cynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (daw i ben yn 2021)**[14]

2.48 Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir Benfro wedi rhoi ystyriaeth i'r rhyngberthynas agos â Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae'r Cynllun yn gydnaws â ChDLl y Parc Cenedlaethol o ran gweledigaeth, amcanion a pholisïau ac ymagwedd at feysydd polisi allweddol, gan gynnwys adeiladu cymunedau cynaliadwy, hybu economi gynaliadwy, gwarchod yr amgylchedd, sicrhau hygyrchedd cynaliadwy a pharchu nodweddion nodedig pob ardal y Cynllun a'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardaloedd hynny ac sy'n ymweld â hwy.

---

[13] Cynllun anstatudol wedi'i argymell gan yr Adran Drafnidiaeth

[14] Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ym Medi 2010.

### Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Gaerfyrddin[15]

2.49 Mae ardal Cynllun Cyngor Sir Caerfyrddin yn ffinio ag ardal Cynllun Cyngor Sir Penfro, sicrhawyd cysondeb eang o ddulliau polisi Cynllunio yn y priod ardaloedd, gan gydnabod pwysigrwydd y fframwaith polisi penodol sy'n ymateb i anghenion a nodweddion nodedig pob ardal Cynllun unigol. Mae Cynllun Sir Gaerfyrddin hefyd o arwyddocâd penodol oherwydd pwysigrwydd rhanbarthol Caerfyrddin, a nodwyd[16] i fod yn lleoliad 'Ffocws' sy'n gwasanaethu Sir Benfro ochr yn ochr â threfi Hafan Sir Benfro a 'Ffocysau' Abergwaun / Wdig.

### Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion[17]

2.50 Mae ardal Cynllun Cyngor Sir Ceredigion yn ffinio ag ardal Cynllun Cyngor Sir Penfro a sicrhawyd cysondeb eang o ddulliau polisi Cynllunio, gan gydnabod pwysigrwydd y fframwaith polisi penodol sy'n ymateb i anghenion a nodweddion nodedig pob ardal Cynllun unigol. Mae swyddogaeth Aberteifi fel canolfan wasanaethau, cymunedol a chyflogaeth sy'n gwasanaethu pentrefi yng ngogledd-ddwyrain Sir Benfro o arwyddocâd penodol.

---

[15] Strategaeth Ddewisol a gyhoeddwyd yn nhymor yr hydref 2009, amserlen ar gyfer Cynllun Adnau Gaeaf 2010; cyflwyno 2011

[16] Yn y Diweddariad ar Gynllun Gofodol Cymru 2008

[17] Strategaeth Ddewisol Ceredigion a gyhoeddwyd yn nhymor y gwanwyn 2009, amserlen ar gyfer y Cynllun Adnau tymor yr hydref 2010; cyflwyno 2011

# Pennod 3: Tueddiadau a Materion Allweddol

## Tueddiadau a Materion Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol Allweddol

3.1 Cafodd tueddiadau a materion allweddol y dylai'r Cynllun hwn fynd i'r afael â nhw eu nodi ar ôl ystyried y canlynol:

- Adolygiad o wybodaeth economaidd, gymdeithasol ac amgylcheddol llinell sylfaen;
- Canlyniadau ymgynghoriad cyn-adneuo â rhanddeiliaid allweddol;
- Canlyniadau Ymarferiad Cwmpasu y Gwerthusiad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol.

3.2 Mae'r materion a nodwyd drwy'r broses hon wedi cyfarwyddo strategaeth y Cynllun hwn yn uniongyrchol.

## Ymgynghoriad Cyn-Adneuo

3.3 Yn yr ymgynghoriad cyn-adneuo amlygwyd y materion hynny y mae rhanddeiliaid allweddol yn eu hystyried o bwysigrwydd pennaf o ran Cynllunio defnydd tir yn Sir Benfro. Mae'r materion hyn wedi'u grwpio i'r categorïau canlynol:

1. Cymunedau cynaliadwy;
2. Economi wledig a threfol gref;
3. Seilwaith, trafnidiaeth a hygyrchedd: ac
4. Yr amgylchedd.

3.4 Mae rhestr fanwl o'r materion hynny a nodwyd drwy'r broses ymgynghori wedi'i chynnwys yn y Crynodeb o Faterion o Ddigwyddiadau Ymgynghori Cyhoeddus (Mawrth 2010) ac mae'n rhan o'r sylfaen dystiolaeth.

## Cefndir

3.5 Mae Sir Benfro yn Sir wledig yn bennaf, gyda dylanwad arforol cryf ac mae iddi hanes o ddatblygu yn seiliedig ar amaethyddiaeth, twristiaeth, amddiffyn, ynni a gweithgarwch porthladd wedi'i ganoli ar Ddyfrffordd Aberdaugleddau. Mae'r ardal wedi'i nodweddu gan gyfres o aneddiadau gwahanol ond rhyngddibynnol. Mae'r amgylchedd unigryw a'r ymdeimlad arbennig o gymuned yn atyniadol i drigolion ac ymwelwyr ac yn darparu ymdeimlad nodedig o le. Mae porthladdoedd Sir Benfro a Dyfrffordd Aberdaugleddau yn asedau rhyngwladol sy'n allweddol i ddiogelwch ynni y DU i'r dyfodol.

### 1. Cymunedau Cynaliadwy

**Materion**

- Mewnfudo
- Diffyg tai fforddiadwy i ateb y galw yn lleol
- Goblygiadau poblogaeth sy'n heneiddio
- Goblygiadau nifer gynyddol o ail gartrefi / cartrefi gwyliau
- Maint a lleoliad twf sy'n briodol i'r Sir
- Addasrwydd llety sipsiwn a theithwyr - y galw yn uwch na'r lle sydd ar gael
- Angen mewn rhai ardaloedd am gyfleusterau ysgol newydd neu well cyfleusterau ysgol
- Cyfleoedd cyfyngedig i barhau ag addysg / addysg a hyfforddiant i oedolion
- Diffyg cyfleusterau cymunedol
- Colli gwasanaethau gwledig
- Newidiadau strwythurol i ddarpariaeth iechyd/gofal cymdeithasol
- Diffyg cyfleoedd chwaraeon a hamdden
- Cynnal y Gymraeg a diwylliant Cymru
- Ffiniau Aneddiadau - mewnlenwi / llyfnhau (datblygu mewn ardaloedd gwledig)
- Cynlluniau defnydd cymysg
- Anghydraddoldebau iechyd neu gymdeithasol

Amcan Strategol sy'n deillio o'r materion hyn:

- datblygu cymunedau bywiog gan ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o dai a gwasanaethau lleol (D)

3.6 Poblogaeth Sir Benfro ac eithrio'r Parc Cenedlaethol yw 91,589 (Cyfrifiad 2001). Dwysedd poblogaeth y Sir gyfan yw 71 i bob km$^2$. Mae pocedi o amddifadedd yn bodoli ym Mhenfro, Doc Penfro a Hwlffordd ac mae dwy ward ymhlith y 10% mwyaf amddifad yng Nghymru yn 2008. Mae gan y Sir boblogaeth sy'n heneiddio, gydag 19.2% dros 65 oed (Sir gyfan) o gymharu ag 17.4% yng Nghymru (Cyfrifiad 2001). Ceir allfudiad net uchel o bobl iau (16-24 oed), a gaiff ei gydbwyso â lefel uchel o fewnlifiad o bobl dros 45 oed.

3.7 Rhagwelir y bydd poblogaeth Sir Benfro yn tyfu yn ystod cyfnod y Cynllun[18]. Mae newid naturiol yn isel, gydag ychydig yn rhagor o farwolaethau na genedigaethau, ond ceir mewnlifiad net sylweddol a hwn yw prif sbardun y cynnydd yn y boblogaeth. Mae amcanestyniadau Llywodraeth Cymru[19] o boblogaeth Sir Benfro ac eithrio'r Parc Cenedlaethol yn awgrymu y bydd y boblogaeth yn tyfu o oddeutu 97,147 yn 2011 i 102,626 yn 2021 – cynnydd o 5,479.

---

[18] Papur Cefndir Graddfa a Lleoliad Twf (2010) a Phapur Atodol Graddfa a Lleoliad Twf (2011)
[19] Rhagamcaniadau seiliedig ar boblogaeth Ystadegau/Llywodraeth Cymru 2008 – ar gyfer Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Mai 2010.

3.8 Y materion mwyaf arwyddocaol sydd angen mynd i'r afael â nhw o ran poblogaeth Sir Benfro yw goblygiadau proffil poblogaeth sy'n heneiddio ar faint yr aelwyd, tai a chynnydd yn y galw am ofal cymdeithasol i oedolion. Ceir amcanestyniad y bydd nifer y bobl dros 65 oed yn cynyddu o 20,636 yn 2011 i 26,458 yn 2021. Mae hwn yn gynnydd o 28%. Mae'r cynnydd yn y boblogaeth sydd dros 85 oed hyd yn oed yn uwch, gyda chynnydd disgwyliedig o 43.5% dros yr un cyfnod. Mae amcanestyniadau yn awgrymu y bydd 26% o'r holl boblogaeth yn hŷn na 65 erbyn 2021 (Cyngor Sir Penfro, 2008)[20]. Mae'r cynnydd a ragwelir yn anghenion dibyniaeth cysylltiedig y boblogaeth sy'n heneiddio yn gofyn am weithredu cydgysylltiedig gan asiantaethau sector cyhoeddus a gwirfoddol. Mae hefyd angen rhoi sylw i'r allfudo net uchel o bobl iau a'r amrywiaeth o gyfleoedd sydd angen eu datblygu i'w hannog i aros yn y Sir.

3.9 Disgwylir i amcanestyniad y niferoedd yn y gweithlu barhau bron yn statig dros y pymtheg mlynedd nesaf[21].

3.10 Mae ychydig dan hanner holl boblogaeth Sir Benfro, sef 117,100 (2010), yn byw yn y pum prif dref, sef Abergwaun, Hwlffordd, Aberdaugleddau, Penfro a Doc Penfro. Yn 2010 roedd amcangyfrif o 52,574 o aelwydydd ledled ardal Asesiad Marchnad Dai Leol Sir Benfro (a oedd yn cynnwys y Parc Cenedlaethol) a maint cyfartalog aelwydydd yr ardal honno oedd 2.23. Mae gan Sir Benfro gyfradd uwch o lawer o dai sengl (41.5%) na Chymru (27.1%) neu Loegr (22.8%). Mae 85.8% o'r stoc dai yn berchen neu wedi'u rhentu yn breifat, ac mae 14.2% yn dai cymdeithasol (tai cyngor a thai rhent cymdeithasol eraill).[22] Mae angen gwella cyflwr y stoc dai yn Sir Benfro a hynny ym mhob maes deiliadaeth, yn benodol er mwyn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru a mynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae Cyngor Sir Penfro ar y trywydd iawn i gyrraedd y safonau hyn o fewn ei stoc tai a reolir ei hun erbyn 2012. Mae 6.1% o'r holl leoedd aelwydydd yn Sir Benfro yn cael eu defnyddio fel ail breswylfeydd/ / cartrefi gwyliau.[23] Mae'r ffigur hwn yn amrywio'n sylweddol rhwng adrannau etholiadol yn y Sir, ond mae'n sylweddol uwch na ffigur Cymru (1.2%).

---

[20] Amcanestyniadau Poblogaeth, Aelwydydd a'r Gweithlu CSP, 2008
[21] Proffil Economaidd Sir Benfro CSP (2008)
[22] STATSCYMRU LIC – Ystadegau Tai 2010
[23] Cyfrifiad 2001

3.11 Mae Tai Fforddiadwy yn fater allweddol i Sir Benfro. Yn Natganiad Darparu Tai Fforddiadwy Sir Benfro 2007-11 (2009) a gyhoeddwyd ar y cyd rhwng Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, nodwyd bod angen tua 3,000 o dai fforddiadwy yn bennaf seiliedig ar dystiolaeth o'r Gofrestr Tai Gyffredin. Cafwyd cymhareb fforddiadwyedd o 7.4:1 ar gyfer cyfartaledd pris tŷ o gyfateb ag incwm yn Sir Benfro yn 2008 (arolwg Gwerthwyr Tai Halifax). Mae prisiau tai wedi cynyddu yn yr ardal ac er y dirywiad diweddar, maent yn parhau'n uchel. Mae prisiau tai uchel yn atal rhai ar incwm isel a phrynwyr tro cyntaf rhag ymuno â'r farchnad dai. Mae'r ffactorau sydd wedi sbarduno lefel uchel o alw am dai yn Sir Benfro yn cynnwys mewnlifiad o rai a ddenwyd i'r Sir fel lleoliad i ymddeol ynddo, twf cyflogaeth a pherchnogaeth ail gartrefi.

3.12 Erbyn 2021, disgwylir y bydd 30% o aelwydydd Sir Benfro yn cynnwys un person[24]. Bydd angen i'r CDLl ddarparu amrywiaeth o dai gan gynnwys cymysgedd o dai fforddiadwy a fydd yn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer yr aelwydydd un person.

3.13 Disgwyliad oes menywod yn Sir Benfro yw 81 oed a 75.9 oed i ddynion; mae hyn yn unol â chyfartaledd Cymru. Canran y boblogaeth sydd â salwch hirdymor ac sydd â'i hiechyd yn gyffredinol 'ddim yn dda' yw 22.3% ac 11.2% yn ôl eu trefn, o gymharu â 23% a 12.5% yn ôl eu trefn yng Nghymru. Canran yr oedolion sy'n ordew neu dros bwysau yw 55% sydd 1% yn uwch na'r ganran genedlaethol.

3.14 Yn gyffredinol, mae gan 25.2% o drigolion Sir Benfro sydd o oed gweithio o leiaf gymhwyster NVQ4 neu uwch yn 2008 o gymharu â 26.5% yng Nghymru a 29% ym Mhrydain[25]. Er bod cyraeddiadau academaidd yn gyffredinol dda, ceir diffyg sgiliau arbenigol yn yr ardal a diffyg o ran darparu cyfleoedd addysg bellach ac uwch o ansawdd da sy'n gysylltiedig â chyfleoedd cyfyngedig o ran cyflogaeth. Mae angen cyfateb y sgiliau sydd ar gael â'r galw (Cynllun Gofodol Cymru).

3.15 Sir Benfro yw'r 8fed Sir fwyaf yng Nghymru o ran canran sy'n siarad Cymraeg (21.8%), a gwelwyd gwelliant o ran niferoedd a safle yn y blynyddoedd diwethaf, sy'n adlewyrchu'r diddordeb cynyddol yn yr iaith a'r diwylliant yn Sir Benfro, y traddodiad cryf o siarad Cymraeg yng ngogledd y Sir a pholisïau addysg.

[24] Asesiad Marchnad Dai Leol (2007)
[25] Data arolwg poblogaeth blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Ionawr 2008 – Rhagfyr 2008)

## 2. Economi Wledig a Threfol Gref

**Materion**

- Canol trefi yn perfformio'n wael
- Diffyg darpariaeth/cyfleoedd manwerthu
- Newidiadau strwythurol yn y diwydiant amaethyddiaeth / arallgyfeirio ar ffermydd
- Diffyg cyfleoedd cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig
- Pobl ifanc medrus yn gadael y Sir
- Economi ymwelwyr yn tanberfformio
- Angen ehangu gweithgarwch diwydiannol/porthladdoedd
- Angen ateb galw lleol, rhanbarthol a chenedlaethol am fwynau - adnoddau economaidd arwyddocaol
- Angen diogelu'r cyflenwad bwyd
- Lefelau cyflog / swyddi tymhorol
- Galw am weithio o'r cartref / unedau byw gweithio
- Galw am / angen diweddaru llety gwersylla/carafannau
- Sylfaen sgiliau annigonol a/neu amhriodol yn y gweithlu lleol

Amcanion Strategol sy'n deillio o'r materion hyn:

- cynnal a gwella'r economi wledig a threfol (C)
- datblygu economi ymwelwyr o ansawdd yn seiliedig ar amgylchedd naturiol ac adeiledig rhagorol (H)
- cefnogi trefi Sir Benfro i ddatblygu'u swyddogaeth nodedig, yn arbennig o fewn Ffocws yr Hafan (F)
- adfywio Canol Trefi (G)
- adeiladu ar leoliad strategol y Sir o ran datblygu yn ymwneud ag ynni a phorthladdoedd (E)

3.16 Mae Amaethyddiaeth, twristiaeth, ynni a gwasanaethau cyhoeddus yn dominyddu economi bresennol Sir Benfro. Dros y 30 mlynedd diwethaf mae sylfaen economaidd Sir Benfro wedi newid yn sylweddol wrth i sefydliadau pŵer, olew ac amddiffyn gau; rhesymoli mewn gwasanaethau cyhoeddus, amaethyddiaeth a physgota; a newidiadau parhaus ym maes twristiaeth. Bu rhywfaint o ddatblygu economaidd i adfer y sefyllfa, er enghraifft datblygu terfynfeydd LNG a Charreg Las a dechrau ar y gwaith o adeiladu Gorsaf Bŵer newydd ym Mhenfro. Yn gyffredinol, y diwydiant twristiaeth yw diwydiant a chyflogwr mwyaf y Sir, ond mae llawer o'r swyddi hyn yn rhan amser ac yn dymhorol eu natur. Mae lefel y gweithgarwch yn y sectorau gweithgynhyrchu, ariannol a busnes yn llai na hanner y cyfartaledd cenedlaethol. Ceir cyfran uchel o gyflogwyr bach a chyfran cymharol fawr o bobl sy'n hunangyflogedig o gymharu â lefelau cenedlaethol. Mae cyflogau yn Sir Benfro yn cyfateb yn fras â chyfartaledd Cymru (ONS, Enillion 2009 yn ôl data gweithleoedd - canolrif enillion mewn punnoedd ar gyfer cyflogeion sy'n gweithio yn yr ardal) ar £440 yr wythnos o gymharu â £440.8 yng Nghymru. Mae cyfran o gyflogaeth yn dymhorol, gyda lefelau uwch o ddiweithdra y tu allan i gyfnodau brig yr haf[26].

---

[26] Proffil Economaidd Sir Benfro (2008)

3.17 Bu Canol Trefi Sir Benfro yn tangyflawni yn y blynyddoedd diwethaf ac mae angen adfywio a gwella'r amgylchedd mewn nifer o drefi, yn ogystal â chynyddu amrywiaeth a gwella ansawdd y cyfleoedd siopa[27].

3.18 Mae gwaith datblygu diwydiannol wedi'i ganoli'n bennaf ar hyd arfordir gogleddol a deheuol Dyfrffordd Aberdaugleddau, lle mae porthladd Aberdaugleddau yn bwysig dro ben, yn arbennig ar gyfer y diwydiant ynni, gan ei fod yn gwasanaethu dwy burfa, storfeydd tanciau a datblygiadau Liquefied Natural Gas (LNG) ac ar gyfer gwasanaethau fferi, hamdden môr a gweithgareddau eraill cysylltiedig â'r porthladd. Hwlffordd, tref a chanolfan weinyddol y Sir, yw'r ardal gyflogaeth allweddol yn Sir Benfro, gan mai yma y mae prif gyflogwyr y sector cyhoeddus wedi'u lleoli, sef y Cyngor Sir, Coleg Sir Benfro a'r Bwrdd Iechyd Lleol.

3.19 Mae mwynau yn adnoddau pwysig yn Sir Benfro, mae'n angenrheidiol ar gyfer twf economaidd, mae'n sector cyflogaeth pwysig ac yn adnodd astudio daearegol. Mae 15 chwarel yn ardal y Cynllun (gyda rhai yn croesi'r ffin â'r Parc Cenedlaethol)[28], ac mae tri o'r rhain yn segur ar hyn o bryd. Maent yn cynnwys cymysgedd o adnoddau, ond carreg galed a gloddir yn bennaf. Mae tywod a graean sy'n cael eu codi o'r môr, a ddaw i mewn trwy Ddoc Penfro, yn adnodd sy'n gwneud cyfraniad sylweddol.

3.20 Mae disgwyliad[29] y gwneir cyfraniad priodol tuag at ddiwallu anghenion lleol, rhanbarthol a'r DU o ran mwynau drwy'r Cynllun hwn.

3.21 Mae banc tir 10 mlynedd o garreg galed a banc tir 7 mlynedd o dywod a graean yn ofynion polisi cenedlaethol drwy gydol cyfnod y Cynllun. Yn ardal y Cynllun, datblygwyd Polisïau mwynau gan ddefnyddio ffigur wrth gefn y Sir, sy'n cynnwys cynhyrchiant â chaniatâd o fewn a'r tu allan i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro[30].

---

[27] Papur Cefndir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol: Manwerthu, Prif Drefi, Gorffennaf 2008, Astudiaeth Capasiti Manwerthu Sir Gyfan (2010)

[28] Mae rhai o'r cwarrau hyn yn croesi ffiniau awdurdodau cynllunios

[29] Trosolwg o Weithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru

[30] Cytunwyd ar y dull hwn gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol fel dull dros dro tra disgwylir i gynhyrchiant mwynau ddod i ben yn yr hirdymor yn y Parc Cenedlaethol ac iddo gael ei ailddosrannu i rannau eraill o'r rhanbarth (nid o anghenraid yng gweddill Sir Benfro yn unig).

### 3. Seilwaith, Trafnidiaeth a Hygyrchedd

**Materion**
- Darpariaeth gyfyngedig o drafnidiaeth gyhoeddus
- Llefydd parcio ceir cyfyngedig
- Angen lleihau lefelau teithio
- Cyfyngiadau o ran seilwaith ar faint a lleoliad datblygiadau – capasiti carthffosiaeth / materion draenio
- Swyddogaeth gyfyngedig y maes awyr
- Ansawdd ac argaeledd amrywiol seilwaith TGCh – cwmpas ac ansawdd rhyngrwyd band eang
- Angen cynnal a gwella cysylltiadau rheilffordd
- Mynediad annigonol, i'r Sir, o'r Sir ac o fewn y Sir
- Angen nodi lleoliadau a sicrhau darpariaeth ar gyfer cyfleusterau ailgylchu

Amcanion Strategol sy'n deillio o'r materion hyn:
- gwella'r cyfle i fanteisio ar nwyddau a gwasanaethau (I)
- lliniaru ac ymateb i newid hinsawdd (A)

3.22 Mae tair Cefnffordd allweddol sy'n rhedeg i mewn i Sir Benfro, sef yr A40 (T), A477 (T) ac A487 (T). Maent yn cysylltu â'r ddwy derfynfa fferi, yn Noc Penfro (A477 (T)) a Harbwr Abergwaun (A40 (T) ac A487 (T)). Mae'r A4076 (T) yn Gefnffordd bwysig arall, sy'n cysylltu Hwlffordd ac Aberdaugleddau. Mae 65.6% o bobl yn teithio i'r gwaith mewn car, er hyn nid oes gan 21.7% o aelwydydd gar ac iddynt hwy mae darparu trafnidiaeth gyhoeddus yn hanfodol. Mae'r defnydd a wneir o drafnidiaeth gyhoeddus i deithio i'r gwaith yn isel; mae 0.38% yn cymudo ar drên ac mae 3.01% yn teithio ar fws, bws mini neu goets (Cyfrifiad, 2001). Fodd bynnag mae cyfran uwch o bobl yn gweithio gartref yn Sir Benfro nag yng Nghymru a Lloegr neu yng Nghymru gyfan[31]. Mae darparu cludiant ysgol yn benodol o bwysigrwydd mawr. Mae CSP wedi nodi bod angen buddsoddi'n sylweddol mewn seilwaith trafnidiaeth, er enghraifft gwneud yr A40 yn ffordd ddeuol a gwella'r A477.

3.23 Ceir hefyd gysylltiadau rheilffordd strategol i Sir Benfro ac o'r Sir. Mae'r prif goridor rheilffordd o'r dwyrain yn rhedeg i Hwlffordd ac Aberdaugleddau. Mae cangen yn rhedeg o'r llinell hon tua'r gogledd i Harbwr Abergwaun. Hefyd, ceir llinell bellach i Arberth, Dinbych-y-pysgod, Penfro a Doc Penfro. Mae gwasanaeth teithwyr yn weithredol ar bob un o'r llinellau hyn ac mae'r rhan fwyaf yn cario rhywfaint o draffig nwyddau.

3.24 Porthladd Aberdaugleddau yw'r porthladd prysuraf yng Nghymru a'r 3ydd porthladd pwysicaf yn y DU (Adroddiad Blynyddol Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau 2009). Gyda 25% o anghenion petrol a disel y wlad a hyd at 30% o'i nwy yn dod drwy'r porthladd,

[31] Papur Cefndir y CDLl: Maint a Lleoliad Twf (2010)

Aberdaugleddau yw Prifddinas Ynni'r DU (Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau 2008). Yn ystod 2009, daeth ychydig dros 59m tunnell gros o longau i'r porthladd, sy'n golygu mwy na 39m tunnell o nwyddau. Hefyd, ceir cysylltiadau pibellau pwysig o borthladdoedd Aberdaugleddau i rannau eraill o Gymru a Lloegr. Mae dwy derfynfa fferi Môr Iwerddon yn Sir Benfro, yn Abergwaun a Doc Penfro, sy'n darparu cysylltiadau pwysig o ran nwyddau a theithwyr i Iwerddon ac oddi yno. Bu nifer y teithwyr sy'n teithio ar y môr i Iwerddon ac oddi yno yn lleihau ond gwelwyd cynnydd yn y nwyddau a gludir. Mae i'r cynnydd hwn mewn nwyddau oblygiadau i'r rhwydwaith trafnidiaeth. Mae maes awyr yn Hwlffordd a ddefnyddir yn bennaf at ddibenion hedfan preifat, clwb hedfan, hyfforddiant a derbyn cyflenwadau meddygol. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn dynodi Maes Awyr Hwlffordd (Y Llwyn Helyg) yn un o dri Maes Awyr bach rhanbarthol yn ne orllewin Cymru. Gellid ehangu ychydig ar gyfleusterau ategol yn y maes awyr yn ystod cyfnod y Cynllun, gyda thwf mwy sylweddol mewn gweithgarwch wedi ei gyfyngu gan alluedd / aliniad y rhedfeydd ac oherwydd bod Sioe Sir Benfro yn defnyddio rhan o'r maes awyr bob blwyddyn.

3.25 Mae capasiti'r[32] seilwaith carthffosiaeth a draenio oddi ar safle yn fater pwysig i rai lleoliadau yn Sir Benfro gyda gwaith datblygu mewn rhai ardaloedd yn ddibynnol ar ddiweddaru'r seilwaith carthffosiaeth ac uwchraddio/diweddaru gwaith trin dŵr gwastraff.

3.26 Mae pryderon yn dod i'r amlwg o ran a yw capasiti adnodd dŵr Sir Benfro yn ddigonol ac yn ogystal gallai rhai problemau cysylltu lleol godi. Mae rhywfaint o bosibilrwydd y collir adnoddau[33] yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu, yn bennaf o ganlyniad i oblygiadau'r adolygu caniatâd o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Mae Dŵr Cymru Welsh Water[34] wedi nodi mesurau i ddatrys y materion hyn, a fydd yn gofyn cyllido rheoleiddiol i gyflawni diwygiadau yn debygol o fod yn weithredol wedi 2020.

3.27 Mewn rhai ardaloedd yn Sir Benfro mae cyfyngiadau daearyddol sylweddol ar fynediad at ryngrwyd band eang cyflym a pherfformiad rhyngrwyd band eang. Mewn ardaloedd lle ni cheir mynediad, mae goblygiadau i fusnesau ac i allu pobl i weithio o gartref. Mae'r Cyngor Sir yn ymrwymedig i gydweithio â Llywodraeth Cymru a'r gymuned fusnes er mwyn datrys yr anawsterau hyn.

[32] Ar gyfer draenio budr mae hyn yn cynnwys capasiti biolegol a hydrolig.
[33] Nodwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
[34] Cynllun Adnoddau Dŵr drafft diwygiedig DCWW (2011)

## 4. Yr Amgylchedd

**Materion**
- Defnydd effeithlon o adnoddau
- Angen dylunio cynaliadwy o ansawdd uchel er mwyn gwella'r amgylchedd ac iechyd a lles pobl
- Cyfle i fanteisio ar ofod hamdden agored/gwyrdd digonol
- Cyrraedd targedau cenedlaethol o ran ynni adnewyddadwy
- Effeithiau newid hinsawdd
- Llifogydd
- Effaith llygredd ar yr amgylchedd ac iechyd a lles pobl
- Colli asedau treftadaeth a bygythiadau iddynt
- Nodweddion nodedig lleol yn erydu
- nefinoedd a bygythiadau iddynt
- Effaith datblygu ar dirwedd a'r amgylchedd
- Blaenoriaethu safleoedd tir llwyd i'w datblygu dros safleoedd maes glas
- Gwella ansawdd a chadwraeth dŵr
- Angen lleihau gwastraff a'i reoli'n briodol

Amcanion Strategol sy'n deillio o'r materion hyn:
- gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig (J)
- sicrhau rhagoriaeth o ran dylunio ac ansawdd amgylcheddol (B)
- lliniaru ac ymateb i newid hinsawdd (A)
- gwella'r cyfle i fanteisio ar nwyddau a gwasanaethau (I)
- datblygu economi ymwelwyr o ansawdd sy'n seiliedig ar amgylchedd naturiol ac adeiledig rhagorol (H)

3.28 Mae lluosogrwydd y safleoedd dynodedig yn y Sir yn dangos ei phwysigrwydd, yn rhyngwladol ac yn genedlaethol ar draws amrywiaeth gyfoethog o gynefinoedd, gan gynnwys afonydd, môr, rhostiroedd isel a choetiroedd derw lled-naturiol a rhai ardaloedd arfordirol a morydol. Mae angen rheoli'r asedau hyn yn ofalus er budd lleol a chenedlaethol ac er mwyn gwarchod yr amgylchedd unigryw yn ogystal â safleoedd morol a seiliedig ar dir sef Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (AAC), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC), Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLl) a Gwarchodfa Bywyd Gwyllt[35]. Gellid dynodi safleoedd newydd yn ystod cyfnod y Cynllun trwy broses o ymgynghori gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW)[36].

3.29 Yn ogystal â chynefinoedd, mae llawer o rywogaethau pwysig yn bresennol ledled y Sir yn gyffredinol ac mae dyfrgwn, ystlumod, pathewod, adar tir y fferm, a'r gloÿnnod byw britheg y gors a'r frithribin frown i'w cael yn lleol. Er mai cyfanswm yr ardal sydd wedi'i dynodi ar gyfer bioamrywiaeth yw 35.3 $km^2$ (3530 ha) neu 3.4% o'r tir, mae llawer o rywogaethau yn bodoli ac yn mudo ledled y Sir yn gyfan a thu hwnt.  Mae i'r CDLl swyddogaeth bwysig wrth

[35] Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwarchodfeydd Natur De a Gorllewin Cymru

[36] Mae gwybodaeth ddiffiniol ynglŷn â dynodiadau natur i'w chael gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru  http://www.ccw.gov.uk/Splash.aspx

wella bioamrywiaeth ledled y Sir yn gyfan a gwarchod safleoedd a rhywogaethau dynodedig a 'choridorau' cysylltedd ecolegol hanfodol i fioamrywiaeth rhag datblygu niweidiol. Mae rhai cynefinoedd yn bwysig oherwydd eu hecosystemau sy'n ddibynnol ar ddŵr daear, mater a nodwyd gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (ar gyfer) Dŵr Cymru 2012, sy'n nodi bod adnoddau dŵr yn fater o bwys i ran o'r Sir, ond sy'n nodi datrysiadau arfaethedig.

3.30 Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr hefyd yn nodi bod angen cynnal safon dŵr ledled ardal y Cynllun, gan gynnwys afonydd, dyfrhaenau cynradd, ardaloedd diogelu tarddiad dŵr, aberoedd a'r arfordir.

3.31 Mae afonydd megis Cleddau Orllewinol (yn Hwlffordd er enghraifft), afon Ritec a Theifi isaf yn dueddol o orlifo. Mae 2.2% o'r eiddo preswyl presennol wedi'u lleoli ar orlifdir. Mae wedi'i nodi bod tai mewn perygl mawr o lifogydd yn Nodyn Cyngor Technegol 15 ac mae angen i'r Cynllun hwn sicrhau bod datblygiadau i'r dyfodol wedi'u Cynllunio'n dda er mwyn osgoi effeithiau yn y dyfodol. Mae'r Cyngor Sir yn ymrwymedig i gydweithio â sefydliadau partner i sicrhau bod datblygu i'r dyfodol yn rhoi ystyriaeth i beryglon llifogydd, sydd yn gynyddol bwysig.

3.32 Mae yn Sir Benfro amrywiaeth ddaearegol gyfoethog sydd angen ei gwarchod rhag datblygiadau a fyddai'n ei niweidio, gan gynnwys safleoedd sydd wedi'u rhestru yn rhestr Safleoedd Daearegol a Geomorffaidd Pwysig Rhanbarthol (dynodiadau anstatudol), Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a ddynodwyd oherwydd eu nodweddion daearegol neu eomorffolegol a nifer o safleoedd Adolygiad Cadwraeth Daearegol.

3.33 Mae gan y Sir nifer fawr o asedau treftadaeth. Mae gan ardal y Cynllun 1632 o adeiladau rhestredig a 236 o Henebion Cofrestredig. Mae yn y Sir 20 o Barciau a Gerddi Hanesyddol, dwy Dirwedd Hanesyddol, 24 o Ardaloedd Cadwraeth - gyda Menter Treftadaeth Treflun (yn Noc Penfro), dau barc gwledig ac 8.64km$^2$ o faes pentref a thir comin, sydd gyda'i gilydd yn ychwanegu at nodweddion naturiol arbennig a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal. Mae'r ardaloedd hyn yn rhan bwysig o'r hyn sy'n gwneud ardal y Cynllun yn nodedig.

3.34 Mae yn Sir Benfro amrywiaeth o dir a ddatblygwyd yn flaenorol (tir llwyd). Un o'r materion dan sylw yn Sir Benfro yw'r posibilrwydd nad yw llawer o'r safleoedd hyn, megis meysydd awyr blaenorol, yn addas i'w datblygu oherwydd eu lleoliad a/neu eu

maint. Dylid blaenoriaethu tir llwyd sydd o fewn aneddiadau presennol neu'n ffinio â hwy ac sy'n addas i'w datblygu dros feysydd glas yn unol â pholisi Cynllunio cenedlaethol. Mae gan rai safleoedd tir llwyd yn ardal y Cynllun broblemau llygredd y bydd angen eu datrys wrth fynd ati i'w hailddatblygu.

3.35 Mae Erthygl 5.2 o Gyfarwyddeb Tirlenwi'r UE (1999) yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU gyrraedd targedau mewn perthynas â lleihau gwastraff a gaiff ei dirlenwi a mabwysiadwyd y targedau hyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Erbyn 2020, mae hyn yn golygu na ellir gwaredu drwy dirlenwi/tirgodi mwy na 35% o'r gwastraff trefol bioddiraddadwy a gynhyrchwyd ym 1995. Mae Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff (diwygiedig) 2008/98/EC yn gosod mesurau pellach ac yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru gynhyrchu strategaeth gwastraff yn unol â gofynion y Gyfarwyddeb. Mae Strategaeth Gwastraff Genedlaethol Cymru (diwygiedig) 2010 yn gosod targedau newydd a llymach, gan gynnwys targed i ailddefnyddio / ailgylchu / compostio 70% erbyn 2024/25. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio pwerau i wahardd / gosod cyfyngiadau ar dirlenwi o dan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 arfaethedig. Mae'r Cynllun hwn yn darparu ar gyfer nodi lleoliadau ar gyfer cyfleusterau ailgylchu a gwaredu yn ôl gofynion Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru (Adolygiad 1af, 2008) ac er mwyn ateb gofynion tebygol y targedau newydd hyn.

# Pennod 4: Gweledigaeth ac Amcanion

4.1. Wrth ystyried sut y dylai'r Cynllun hwn fynd i'r afael â materion allweddol sy'n effeithio ar y Sir, a nodir ym Mhennod 3, ac arwain a rheoli datblygiadau i'r dyfodol, mae'n bwysig sicrhau gweledigaeth ac amcanion clir ar gyfer sut le y dylai'r Sir fod erbyn diwedd cyfnod y Cynllun - 2021[37].

4.2. Mae gweledigaeth gyffredinol y Cynllun hwn yn disgrifio elfennau defnyddio tir gweledigaeth Sir Benfro fel y mae wedi'i nodi yng Nghynllun Gofodol Cymru (Pobl, Lleoedd, Dyfodol: Diweddariad o Gynllun Gofodol Cymru 2008) a Chynllun Cymunedol Sir Benfro (Diweddariad[38] 2009).

## Gweledigaeth

'Rhwydwaith o gymunedau cryf sy'n cael eu cefnogi gan economi amrywiol, gynaliadwy a chadarn sy'n ychwanegu gwerth uchel, ac a gynhelir gan amgylchedd unigryw'r Ardal, y mynediad i'r môr a chyfleoedd ym maes ynni a thwristiaeth sy'n bwysig yn rhyngwladol' (Gweledigaeth Sir Benfro - yr Hafan - Cynllun Gofodol Cymru 2008)

Sicrhau bod Sir Benfro yn ffynnu a'i bod yn parhau yn rhywle bywiog ac arbennig. (Cynllun Cymunedol Sir Benfro 2010)

**Gweledigaeth y CDLl:**

***"Sicrhau bod Sir Benfro yn ffynnu ac yn parhau yn rhywle bywiog ac arbennig drwy greu: rhwydwaith o gymunedau trefol a gwledig mewn Trefi Ffocws, Canolfannau Gwasanaethol, Pentrefi Gwasanaethol a Phentrefi Lleol sy'n cael eu cefnogi gan economi amrywiol, gynaliadwy a chadarn sy'n ychwanegu gwerth uchel, ac a gynhelir gan amgylchedd unigryw'r Ardal, y mynediad i'r môr yn Nyfrffordd Aberdaugleddau a Harbwr Abergwaun a chyfleoedd ym maes ynni a thwristiaeth sy'n bwysig yn rhyngwladol."***

4.3. Mae heriau sylweddol yn wynebu Sir Benfro yn y cyfnod sy'n arwain at 2021. Amlygwyd nifer o'r rhain ym Mhennod 2 sy'n nodi'r prif faterion y bydd angen i'r Cynllun hwn fynd i'r afael â nhw. Mae'r Cynllun hwn yn ategu Polisïau cenedlaethol a lleol eraill sy'n berthnasol i Sir Benfro, yn arbennig Cynllun Gofodol Cymru a'r Cynllun Cymunedol ac mae'n synhwyrol y dylai gydsynio â'u prif weledigaeth.

---

[37] "Dylai'r CDLl fod yn seiliedig ar weledigaeth o'r dyfodol a ddylai fod yn glir, realistig, ac yn seiliedig ar amcanion a blaenoriaethau'r strategaeth gymunedol berthnasol" (Para 2.10 Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru 2005).


[38] "Mae Cynllun Gofodol Cymru yn darparu'r fframwaith polisi trosfwaol er mwyn paratoi CDLl. Mae gofyn i Awdurdodau Cynllunio Lleol roi ystyriaeth i'r weledigaeth a'r gosodiadau sydd wedi'u nodi yn y ddogfen" (Para 2.33, Llawlyfr CDLl 2006).

## Gwireddu'r Weledigaeth

4.4. Mae'r weledigaeth yn disgrifio'r math o le y mae'r Cyngor yn dymuno i Sir Benfro fod erbyn 2021. Er mwyn cyflawni hyn mae o gymorth i dorri'r weledigaeth i lawr er mwyn nodi'r elfennau allweddol a fydd yn ei gwireddu.

4.5. Nodir mai'r egwyddor allweddol er mwyn cyflawni'r Cynllun yw datblygu cynaliadwy; mae'r amcanion sy'n cynnal yr egwyddor allweddol hon a'r Weledigaeth yn cael eu nodi, ynghyd ag is-amcanion, ar y tudalennau canlynol.

**Ffigur 1: Amcanion Strategol er mwyn Gwireddu'r Weledigaeth – Dangosir Is-Amcanion sy'n eu Datblygu yn Ffigur 2.**



**Cyflawni'r Amcanion**

4.6. Mae deg o amcanion strategol yn dod i'r amlwg o wahanol elfennau'r weledigaeth fel yr amlygir yn Ffigur 1.

4.7. Mae datblygu cynaliadwy yn egwyddor drosfwaol sy'n elfen allweddol er mwyn gweithredu'r Cynllun. Mae'r amcanion strategol a'r is-amcanion (a ddangosir yn Ffigur 2) yn cyfuno i gyflawni hyn a byddant yn mynd i'r afael â nifer o'r materion a nodwyd yn flaenorol yn y Cynllun.

4.8. Ceir cysylltiadau rhwng nifer o'r amcanion. Er enghraifft mae 'adfywio canol trefi Sir Benfro' yn creu cyfleoedd swyddi yn y trefi a gwell gwasanaethau i bobl leol ac ymwelwyr.

4.9. Bydd cyflawni'r egwyddor a'r weledigaeth o ddatblygu cynaliadwy yn broses gymhleth ac er mwyn cyflawni hyn rhaid i Gyngor Sir Benfro gydweithio â sefydliadau partner er mwyn ymateb yn gadarnhaol i newid hinsawdd, un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu cymdeithas. Mae'r amcan i liniaru ac ymateb i her newid hinsawdd yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer cyflawni'r Cynllun.

4.10. Mae sicrhau datblygu cynaliadwy yng nghyd-destun newid hinsawdd yn golygu meddwl yn ofalus am leoliad a dyluniad datblygiadau newydd. Mae hyn yn golygu lleoli datblygiadau newydd mewn lleoliadau priodol sy'n golygu na fydd angen eu hadleoli yn y dyfodol yn sgil materion megis llifogydd, a hynny heb achosi cynhyrchwyr tripiau ychwanegol yn ddiangen[39]. Bydd Cynllunio gofalus yn arbed y gymdeithas rhag wynebu costau i'r dyfodol a fyddai'n tanseilio datblygu cynaliadwy a thwf economaidd. Yn ogystal â lleoliad, mae'r amcan o sicrhau rhagoriaeth dylunio yn elfen allweddol o ddatblygu cynaliadwy. Er mwyn lleihau costau rhedeg hirdymor ac atal yr angen i wneud gwaith addasu drud yn y dyfodol, mae dylunio rhagorol ar y cam cyntaf yn hanfodol.

4.11. Mae'n anochel y bydd sawl penbleth a gwrthdaro yn dod i'r amlwg wrth wireddu'r weledigaeth ar gyfer y Sir. Er mwyn sicrhau cymunedau cryf ledled y Sir, mae gofyn cryfhau cymunedau gwledig a threfol. Mae hyn yn golygu cefnogi'r gwaith o ddatblygu cymunedau gwledig a gallai hynny

[39] Nododd Adroddiad Stern (2006) y gallai colledion blynyddol yn sgil llifogydd yn unig yn y DU gynyddu o 0.1% o'r CMC heddiw i 0.2-0.4% o'r CMC unwaith i'r cynnydd mewn tymheredd cyfartalog byd-eang gyrraedd 3 neu 4 gradd Celsius.

gynyddu'r angen i deithio. Er hyn, gellir lliniaru a lleihau effeithiau o'r fath drwy ddatblygu fframwaith sy'n hybu cyflogaeth, gwasanaethau ac opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig ac sy'n canolbwyntio ar gymunedau gwledig sydd â gwasanaethau yn bresennol. Bydd effeithiau eraill ar dirwedd a bioamrywiaeth sy'n debygol o ddod i'r amlwg wrth ganolbwyntio ar ddatblygu mwy gwledig yn cael eu lliniaru gan bolisïau sy'n canolbwyntio ar ddylunio da, maint priodol i'r datblygiad, a sicrhau mesurau gwarchod tirwedd a bioamrywiaeth yn ôl yr angen.

4.12. Mae Ffigur 2 isod yn dangos sut y bydd y Cynllun hwn yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd, sut mae amcanion y Cynllun wedi'u trosi i ddulliau polisi a sut y caiff y rhain eu monitro.

## Ffigur 2: Perthynas rhwng Materion, Amcanion, Polisïau a Monitro

| Mater Allweddol | Amcan | Is-amcan | Cyflawni gan ddull polisi | Canlyniadau monitro allweddol |
|---|---|---|---|---|
| Pynciau'n cael eu nodi drwy ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ac o'r sylfaen dystiolaeth | Testun pryder y bydd y Cynllun yn mynd i'r afael ag ef | Elfen / dadansoddiad manwl o'r hyn sy'n destun pryder | Polisi ar gyfer mynd i'r afael â'r maes pryder. | Asesu a yw'r Cynllun yn gweithio |


| Mater Allweddol | Amcan | Is-amcan | Cyflawni gan Ddull Polisi | Canlyniadau monitro allweddol |
|---|---|---|---|---|
| Yr Amgylchedd (4)<br><br>Trafnidiaeth a Hygyrchedd (3) | Lliniaru ac ymateb i newid hinsawdd (A)<br><br>a<br><br>Gwella'r cyfle i fanteisio ar nwyddau a gwasanaethau (l) | • Cadw tir amaethyddol o'r ansawdd gorau at ddibenion cynhyrchiol.<br><br>• Lleihau hyd yr eithaf ar waith datblygu ar ardaloedd o dir lle ceir perygl o lifogydd | Nodi safleoedd dynodedig mewn lleoliadau cynaliadwy ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygu.<br><br>Polisi ar sail meini prawf i asesu a yw cynigion yn briodol o ran natur a lleoliad | 1. Mae gwaith datblygu yn cael ei gynnal yn unol â strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol.<br><br>2. Nid oes unrhyw berygl o lifogydd sylweddol ychwanegol yn deillio o waith datblygu. |
| | | • Hybu datblygu tai mewn aneddiadau lle y mae lefelau gwasanaeth da eisoes yn bodoli i leihau'r angen i deithio<br><br>• Lleihau'r angen i deithio i gyrraedd gwaith, gwasanaethau a nwyddau | Nodi Ffiniau Aneddiadau ar gyfer aneddiadau lle yr ystyrir bod gwaith datblygu yn briodol.<br><br>Dull hierarchaeth aneddiadau yn cyfarwyddo dyraniadau tai a safleoedd ar hap i aneddiadau sydd â lefel dda o nwyddau a gwasanaethau.<br><br>Polisïau yn seiliedig ar feini prawf yn galluogi cyfleusterau gwasanaeth a chymunedol newydd i agor mewn aneddiadau ledled yr hierarchaeth.<br><br>Nodi dyraniadau cyflogaeth lle y bo angen a pholisïau yn seiliedig ar feini prawf yn galluogi safleoedd cyflogaeth newydd i agor mewn aneddiadau ledled yr hierarchaeth | 3. Cyflawni gwaith datblygu yn unol â hierarchaeth yr aneddiadau |
| | | • Bod yn effeithlon o ran defnyddio adnoddau ac ynni. | Polisi yn seiliedig ar feini prawf yn gofyn bod cynigion datblygu yn lleihau hyd yr eithaf ar y galw am ynni, yn gwella effeithlonrwydd ac yn hybu ynni a grëir gan adnoddau adnewyddadwy.<br><br>Polisi yn seiliedig ar feini prawf ar ddylunio cynaliadwy. | |

| Mater Allweddol | Amcan | Is-amcan | Cyflawni gan Ddull Polisi | Canlyniadau monitro allweddol |
|---|---|---|---|---|
| Economi Wledig a Threfol Gref (2)<br><br>Seilwaith, Trafnidiaeth a Hygyrchedd (3) | Adeiladu ar leoliad strategol y Sir o ran datblygu yn ymwneud ag ynni a phorthladdoedd (E) | • Sicrhau bod digon o dir ar gael ar gyfer technolegau porthladd ac ynni/ynni adnewyddadwy ar gyfer ymchwil a darparu mewn safleoedd allweddol ar yr Hafan ac yn y Trefi Ffocws. | Safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd i alluogi datblygiadau sy'n ymwneud ag ynni ar gyfer ymchwil a datblygu ar yr Hafan ac yn y Trefi Ffocws.<br><br>Polisi yn seiliedig ar feini prawf sy'n gefnogol i gynigion datblygu yn ymwneud â phorthladdoedd. | 4. Sicrhau argaeledd a defnydd tir cyflogaeth ar gyfer sectorau sy'n ymwneud â Phorthladd ac ynni / ynni adnewyddadwy. |
| | | • Gwella cysylltedd ledled y Sir yn enwedig i'r Trefi Ffocws a'r Hafan | Nodi ffyrdd a chyfleusterau i ddiogelu seilwaith trafnidiaeth y dyfodol | 5. Darparu lefelau o seilwaith newydd yn ystod y Cynllun a bwrw ymlaen â blaenoriaethu / ariannu a datblygu Cynlluniau trafnidiaeth strategol allweddol a chysylltedd TGCh gwell. |
| | | • Darparu'r seilwaith angenrheidiol er mwyn galluogi gwaith datblygu i ddigwydd. | Fframwaith polisi sy'n hwyluso gwelliannau i'r seilwaith cyfathrebu.<br><br>Polisi yn seiliedig ar feini prawf sy'n sicrhau y darperir seilwaith angenrheidiol gyda phob datblygiad. | |
| Economi Wledig a Threfol Gref (2) | Cefnogi'r gwaith o ddatblygu swyddogaeth nodedig trefi Sir Benfro, yn arbennig o fewn Ffocws yr Hafan, (F)<br><br>Ac<br><br>Adfywio Canol Trefi (G) | • Cryfhau a gwella'r ddarpariaeth manwerthu.<br><br>• Cryfhau swyddogaeth Hwlffordd yn ganolfan isranbarthol. | Polisi yn seiliedig ar feini prawf ar ddylunio cynaliadwy.<br><br>Polisi yn seiliedig ar feini prawf ar amgylcheddau hanesyddol.<br><br>Ffiniau Canol Trefi i'w nodi gyda dull polisi sy'n gwarchod ardaloedd craidd ar gyfer manwerthu.<br><br>Nodir dyraniadau manwerthu priodol yn y Trefi Ffocws (Canol Trefi) a Chanolfannau Gwasanaeth) (Canolfannau Manwerthu Lleol) i ddatblygu swyddogaeth nodedig canol trefi a chryfhau swyddogaeth Hwlffordd yn ganolfan isranbarthol. | 6. Mae canol trefi a chanolfannau lleol Sir Benfro yn fywiog ac amrywiol. Mae swyddogaeth Hwlffordd yn ganolfan isranbarthol wedi'i chryfhau. |

| Mater Allweddol | Amcan | Is-amcan | Cyflawni gan Ddull Polisi | Canlyniadau monitro allweddo |
|---|---|---|---|---|
| Economi Wledig a Threfol Gref (2)<br><br>Yr Amgylchedd (4) | Datblygu economi ymwelwyr o ansawdd yn seiliedig ar ymdeimlad nodedig o le ac amgylchedd naturiol ac adeiledig rhagorol (H) | • Annog datblygu sy'n ategu at yr amgylchedd naturiol ac adeiledig.<br><br>• Gwella amrywiaeth ac ansawdd atyniadau a llety. | Polisi yn seiliedig ar feini prawf ar gynigion twristiaeth sy'n galluogi i gynnal datblygiadau newydd priodol ac yn caniatáu gwaith uwchraddio ar gyfleusterau presennol. | 7. Mae amrywiaeth o lety gwyliau ac atyniadau ar gael i ddiwallu anghenion yr ymwelwyr. |
| Economi Wledig a Threfol Gref (2) | Cynnal a gwella'r economi wledig a threfol (C) | • Lleihau'r angen i deithio i'r gwaith.<br><br>• Hwyluso arallgyfeirio amaethyddol mewn ardaloedd gwledig. | Dyrennir safleoedd cyflogaeth a safleoedd defnydd cymysg newydd mewn lleoliadau priodol.<br><br>Polisïau yn seiliedig ar feini prawf ar yr economi (gan gynnwys ar safleoedd cyflogaeth a chyfleusterau cymunedol) sy'n galluogi datblygu mewn aneddiadau ledled yr hierarchaeth. Polisi yn seiliedig ar feini prawf i warchod safleoedd cyflogaeth presennol.<br><br>Dull polisi yn seiliedig ar feini prawf i reoli arallgyfeirio amaethyddol. | 8. Mae safleoedd cyflogaeth a defnydd cymysg newydd ar gyfer unedau byw/gweithio wedi'u darparu mewn ardaloedd trefol a gwledig ac mae safleoedd presennol wedi'u gwarchod.<br><br>9. Mae amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth yn bodoli mewn ardaloedd trefol a gwledig. |
| | | • Diogelu'r adnodd mwynau a rheoli ei ddatblygiad. | Adnodd mwynau a ddiogelwyd gyda chlustogfeydd priodol ar fapiau cynigion a fframwaith polisi ar fwynau. | 10. Ni chaniateir datblygu a fyddai'n tanseilio'r adnodd mwynau a ddiogelwyd. |
| Cymunedau Cynaliadwy (1) | Datblygu cymunedau bywiog sy'n darparu amrywiaeth a chymysgedd o gartrefi a gwasanaethau lleol (D) | • Darparu tir digonol er mwyn diwallu anghenion tai a gwyd o fewn ardal Cynllunio'r Cyngor Sir.<br>• Darparu tai sy'n fforddiadwy | Caiff tir ei nodi yn y Cynllun ar gyfer 5700 o anheddau.<br><br>Polisi yn seiliedig ar feini prawf yn sefydlu targedau ar gyfer tai fforddiadwy. Pob datblygiad mewn Pentrefi Lleol Categori 2 i fod ar gyfer tai fforddiadwy. | 11. Mae amcangyfrif o 5700 o anheddau newydd wedi'u darparu ac mae 980 o leiaf ohonynt yn dai fforddiadwy. |
| | | • Gwarchod y diwylliant a'r iaith leol. | Polisi yn seiliedig ar feini prawf ar yr iaith Gymraeg. | 12. Mae datblygu yn sensitif i anghenion cymunedau ieithyddol sensitif, o ran graddfa a natur |
| | | • Galluogi'r ddarpariaeth o gyfleusterau cymunedol | Dyraniadau wedi'u nodi ar gyfer cyfleusterau cymunedol. Polisi yn seiliedig ar feini prawf i warchod a darparu cyfleusterau cymunedol. | 13. Mae cyfleusterau cymunedol presennol wedi'u gwarchod a'r ddarpariaeth wedi gwella. |

| Mater Allweddol | Amcane | Is-amcan | Cyflawni gan Ddull Polisi | Canlyniadau monitro allweddo |
|---|---|---|---|---|
| Yr Amgylchedd (4) | Sicrhau rhagoriaeth o ran dylunio ac ansawdd amgylcheddol (B)<br><br>a<br><br>Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig (J) | • Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol, yn enwedig safleoedd natur dynodedig a rhywogaethau a chynefinoedd a warchodir ledled ardal y Cynllun. | Safleoedd natur dynodedig wedi'u nodi ar y mapiau cynigion.<br><br>Lletemau glas wedi'u nodi ar y mapiau cynigion.<br><br>Polisi meini prawf i warchod tirwedd, bioamrywiaeth a chynefinoedd. | 14. Caiff ansawdd, amrywiaeth a nodweddion unigryw y tirwedd eu cynnal.<br><br>15. Nid yw gwaith datblygu yn amharu ar statws cadwraeth ffafriol rhywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd Ewropeaidd a lle bynnag y bo modd mae'n cyfoethogi bioamrywiaeth. |
| | | • Rheoli gwastraff yn effeithlon | Polisi yn seiliedig ar feini prawf i asesu cynigion rheoli gwastraff.<br><br>Dyraniadau ar gyfer cyfleusterau gwastraff newydd.<br><br>Polisi meini prawf ar ddefnyddio agregau wedi'u hailgylchu ac eilaidd.<br><br>Polisi meini prawf ar adennill ac ailddefnyddio gwastraff. | 16. Cyfleusterau gwastraff i ddiwallu anghenion y Sir. |
| | | • Gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol.<br><br>• Cyflawni dylunio da a chynaliadwy | Dull polisi yn seiliedig ar feini prawf i asesu cynigion datblygu a fyddai'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol ac adeiledig.<br><br>Polisi dylunio cynaliadwy o ansawdd uchel | 17. Amgylchedd hanesyddol ac adeiledig llewyrchus<br><br>18. Dylunio cynaliadwy o ansawdd uchel |

Ffigur 3


Key Diagram
Diagram Allweddol
LEGEND - ALLWEDD
Hub
Ffocws
Hub Town
Trefi Ffocws
Rural Town
Tref Wledig
Service Centre
Canolfan Wasanaethol
Service Village
Pentref Wasanaethol
Settlement Outside Plan Area
Aneddiad tu allan i Ardal y Cynllun
Strategic Road Network
Rhwydwaith Ffyrdd Strategol
Passenger Railway
Rheilffordd i Deithwyr
PCC LDP Area
Ardal Gynllunio Cyngor Sir Penfro
Adjoining Local Planning Authority LDP Areas
Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol CDLl Cyffiniol
Ferry Terminal
Terfynfa Fferi
Pembrokeshire Boundary
Ffin Sir Benfro
Haverfordwest Airport
Maes Awyr Hwlffordd
Ferry Route
Llwybr Teithio Llongau Fferi
Cardigan
Aberteifi
St Dogmaels
Llandudoch
Cilgerran
Abercych
Boncath
Blaenffos
Bwlchygroes
Tegryn
Crymych
Hermon
Eglwyswrw
Newport
Trefdraeth
Fishguard
Abergwaun
Goodwick
Wdig
Maenclochog
Puncheston
Cas-mael
Letterston
Treletert
Wolfscastle
Cas-blaidd
Mathry
Mathri
Croesgoch
St Davids
Tyddewi
Pont-yr-Hafod
Hayscastle Cross
Croes Cas-lai
Spittal
Simpson Cross
Roch
Y Garn
Clarbeston Road
Llandissilio
Llandysilio
Clunderwen
Llanddewi Velfrey
Llanddewi Efelffre
To Carmarthen
I Gaerfyrddin
Crundale
Cryndal
Haverfordwest
Hwlffordd
Robeston Wathen
Llangwathen
Narberth
Arberth
Tavernspite
Tafarn Ysbyty
Templeton
Tredeml
Begelly
Begeli
Kilgetty
Cilgeti
Pentlepoir
Jeffreyston
Broadmoor
New Hedges
Llan-Fair
Tenby
Dinbych-y-Pysgod
St Florence
Penally
Penalun
Carew/Sageston
Caerew a Sageston
Milton
Lamphey
Llandyfai
Cosheston
Pembroke
Penfro
Pembroke Dock
Doc Penfro
Hundleton
Neyland
Hook
Llangwm
Houghton
Johnston
Rosemarket
Rhosfarced
Tiers Cross
Milford Haven
Aberdaugleddau

# Pennod 5: Strategaeth y CDLl

## Strategaeth y CDLl

5.1 Mae'r Strategaeth wedi'i dylunio i wireddu'r weledigaeth ar gyfer Sir Benfro, cyflawni amcanion y Cynllun hwn ac ymateb i'r materion a nodwyd er mwyn sicrhau datblygu cynaliadwy. Mae'n deillio o egwyddorion polisi cenedlaethol a rhanbarthol ac o werthusiad o ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a'r materion a'r nodweddion allweddol sy'n gwneud Sir Benfro yn unigryw.

5.2 Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar alluogi gwaith datblygu yn unol ag amcanion ac is-amcanion a sefydlwyd yn Ffigwr 2 Pennod 4: Mae'n cynnwys strategaeth aneddiadau sy'n ceisio sicrhau cydbwysedd o ran dosbarthu datblygiadau newydd rhwng ardaloedd trefol a gwledig Sir Benfro. Oddi mewn i'r ardal wledig, mae twf wedi'i ganolbwyntio ar yr aneddiadau hynny sydd â lefel dda o ddarpariaeth gwasanaethau Rhagwelir y bydd 60% o dai wedi eu hadeiladu yn yr ardaloedd trefol a 40% yn yr ardaloedd gwledig[40].

5.3 Roedd y Strategaeth a Ffefrir yn ystyried strategaethau amgen. Roedd y dewisiadau amgen hyn yn cynnwys strategaeth sy'n canolbwyntio'r twf yn bennaf ar y Trefi Ffocws, ac un arall sy'n cyfeirio'r twf at aneddiadau cysylltiedig mewn ardaloedd gwledig sydd, gyda'i gilydd, yn darparu amrywiaeth o wasanaethau. Penderfynwyd mai strategaeth o geisio cydbwysedd o ran dosbarthu twf, gan dargedu'r aneddiadau hynny sydd ag amrywiaeth dda o wasanaethau a chyfleusterau, yw'r dull gweithredu gorau o fynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu Sir Benfro ac er mwyn gwireddu gweledigaeth y Cynllun a chyflawni ei amcanion[41].

5.4 Caiff y strategaeth hon ei gweithredu drwy ddatblygiadau sy'n cydymffurfio ag 16 o bolisïau strategol sydd wedi'u cynnwys yn y bennod hon a chaiff ei chefnogi gan Bolisïau Cyffredinol a dyraniadau, a nodir yn y bennod ganlynol. Mae'r Polisïau Strategol yn cynnwys:

- Polisi Strategol trosfwaol ar ddatblygu cynaliadwy sy'n berthnasol i bob cynnig.

---

[40] Mae Atodiad 3 yn cynnig rhagor o wybodaeth.

[41] Mae tystiolaeth i gefnogi'r strategaeth a ddewiswyd wedi'i chynnwys mewn amryw bapurau cefndir a dogfennau ategol, gan gynnwys:

- Papur Maint a Lleoliad Twf, 2010
- Crynodeb o Faterion o Ymgynghoriadau Cyhoeddus
- Adroddiad Arolwg o Gyfleusterau Gwledig, 2008
- Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, 2007
- Gwerthusiad Cynaliadwyedd y CDLl 2010

- Polisïau Strategol sy'n ymwneud â defnyddiau tir penodol a phynciau sydd o dan ddylanwad y system gynllunio. Mae'r Polisïau hyn yn nodi'r swyddogaeth sydd gan ddefnydd tir neu bwnc penodol o ran gwireddu'r weledigaeth a chyflawni'r amcanion i Sir Benfro dros gyfnod y Cynllun.
- Nifer fach o bolisïau strategol yn seiliedig ar ardal, a fydd yn sicrhau agweddau gofodol y weledigaeth a'r amcanion, gan nodi graddfeydd priodol a lleoliadau manwl ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

5.5 Mae'r Diagram Allweddol yn dangos elfennau'r strategaeth ofodol gan gynnwys lleoliad a statws yr aneddiadau yn yr hierarchaeth aneddiadau a llwybrau trafnidiaeth a Ffocysau pwysig.

**SP 1 Datblygu Cynaliadwy**

**Rhaid i bob cynnig datblygu ddangos sut y cyflawnir effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cadarnhaol a sut y sicrheir y bydd yr effeithiau andwyol cyn lleied â phosibl.**

*Mae pob mater allweddol yn berthnasol.*

*Bydd y Polisi Strategol hwn yn cyfrannu tuag at gyflawni Amcan(ion): A, B, C, D a J*

*Mae'r Polisïau Cyffredinol canlynol yn rhoi canllawiau manylach ar y Polisi Strategol hwn: GN.1 – GN.4, GN.33 – GN.38*

5.6 Mae'r system Cynllunio yn darparu ar gyfer rhagdybiaeth sy'n ffafrio datblygiad cynaliadwy ac mae polisi Cynllunio cenedlaethol yn darparu diffiniad o ddatblygiad cynaliadwy yng Nghymru[42]. Nod trosfwaol y Cynllun yw sicrhau Datblygu Cynaliadwy. Mae hyn yn golygu sicrhau bod y mathau o ddatblygiadau a wneir yn briodol i'w lleoliad ac y cânt eu hadeiladu a'u dylunio mewn modd sy'n cyflawni effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cadarnhaol. Bydd Polisïau manwl megis Polisïau Cyffredinol GN.1 i GN.4 a GN.33 I GN.38 y Cynllun yn hanfodol o ran sicrhau y cyflawnir y Polisi Strategol hwn. Mae'r Polisïau hyn yn canolbwyntio ar sicrhau bod cynigion yn briodol o ran maint a natur i wahanol leoliadau, bod y gwaith dylunio yn sicrhau amgylcheddau diogel, deniadol a chynhwysol sy'n gynaliadwy ac yn gwneud y mwyaf o ddefnydd ac effeithlonrwydd ynni ac yn cynnwys technolegau ynni adnewyddadwy os yw hynny'n ddichonadwy, gan fynd i'r afael ag anghenion tirweddu a seilwaith unrhyw ddatblygiad.

[42] Gweler adrannau 4.1 a 4.2 o Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5)

5.7 Mae targedau'r Llywodraeth a newidiadau cysylltiedig i'r Rheoliadau Adeiladu, y 'Cod Tai Cynaliadwy' perthynol a gofynion BREEAM, yn sbardun i sicrhau datblygu di-garbon a defnydd ehangach o dechnoleg garbon isel a di-garbon mewn prosiectau adeiladu newydd. Mae'r polisi hwn yn ategu'r mentrau hyn, a fydd gyda'i gilydd yn helpu i sicrhau datblygiadau newydd sy'n gynaliadwy.

## Polisïau Strategol yn Seiliedig ar Bwnc

5.8 Mae'r Polisïau Strategol canlynol yn ymwneud ag amrywiaeth o ddefnyddiau tir a phynciau a fydd yn cyfrannu tuag at sicrhau newid a datblygu cadarnhaol yn Sir Benfro. Maent yn ymwneud â phynciau a nodir o dan amcanion y Cynllun hwn a dylent gyfrannu tuag at gyflawni'r amcanion hyn.

**SP 2 Datblygu yn ymwneud â Phorthladdoedd ac Ynni**

**Caniateir datblygiadau ym Mhorthladdoedd Aberdaugleddau ac Abergwaun ar gyfer cyfleusterau a seilwaith yn ymwneud â'r porthladdoedd, gan gynnwys datblygiadau yn ymwneud ag ynni.**

*Materion allweddol cysylltiedig:*
*Economi wledig a threfol gref*
*Seilwaith, Trafnidiaeth a Hygyrchedd*

*Bydd y Polisi Strategol hwn yn cyfrannu tuag at gyflawni Amcan(ion): A, C ac E*

*Mae'r Polisïau Cyffredinol canlynol yn rhoi canllawiau manylach ar y Polisi Strategol hwn: GN.4, GN.6, GN.9, GN.21, GN.35-GN.39 ac GN.41*



5.9 Mae Phorthladd Aberdaugleddau (sy'n cynnwys ardaloedd y dociau yn Aberdaugleddau a Doc Penfro) yn darparu cyfleusterau porthladd dŵr dwfn prin o bwysigrwydd rhyngwladol mewn lleoliad cysgodol. Yn Harbwr Abergwaun (Wdig) a Phorthladd Aberdaugleddau, bydd gwelliannau i gyfleusterau a seilwaith o fudd i'r economi leol a chenedlaethol a bydd o fudd i wledydd eraill, yn arbennig Gweriniaeth Iwerddon. Mae'r ardaloedd hyn wedi eu diffinio'n ofodol ar y Mapiau Cynigion. Mae'r ardal ofodol sydd wedi ei diffinio yn cydnabod yr ardaloedd hynny sydd fwyaf addas ar gyfer y mathau hyn o ddatblygiad, ond nid oes bwriad i'r polisi amddiffyn y cyfryw ardaloedd ar gyfer y cyfryw ddatblygu yn unig. Bydd cynigion unigol a ddaw ymlaen o dan bolisi SP2 yn gofyn Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd ar lefel prosiect er mwyn ystyried eu heffeithiau sylweddol tebygol ar nodweddion yr AGA. Ffin arferol rheolaeth ar gynllunio i gyfeiriad y môr yw'r nod distyll cymedrig (yn Noc Penfro nod canol y sianel ydyw). Mae cynigion datblygu islaw'r nod hwn (neu heibio i nod canol y sianel yn Noc Penfro) y tu allan i gwmpas y system gynllunio, wedi eu rheoleiddio gan ddarpariaethau deddfwriaeth arall.

5.10 Mae Porthladd Aberdaugleddau eisoes yn gartref i osodiadau a seilwaith sylweddol yn ymwneud ag ynni ac mae potensial i ddatblygu'r swyddogaeth hon ymhellach. Mae hefyd yno derfynfa fferi, yn Noc Penfro, sy'n cynnig cysylltiadau â Gweriniaeth Iwerddon ar gyfer teithwyr a nwyddau. Yn ogystal â therfynfa'r fferi, mae hefyd ardaloedd eang o dir cyflogaeth ar Iard Longau Penfro, ynghyd ag ardaloedd llai a ddefnyddir i ddibenion eraill. Ar Iard Longau Penfro, mae lleiniau annibynnol o dir ar gael i'w hailddefnyddio ar gyfer cyflogaeth ac/neu i ddibenion sy'n ymwneud â'r porthladd. At hyn, gellid cynnig ail-ffurfweddu ardaloedd a ddefnyddir ar hyn o bryd, ar y cyd â chynigion datblygu trawsnewidiol. Yn Nociau Milffwrd, defnyddir y tir ar hyn o bryd i sawl pwrpas, yn cynnwys cyflogaeth, hamdden, marina, tai, manwerthu, angorfeydd i gychod pysgota a gwaith peirianneg ar gyfer y porthladd. Mae rhagor o dir yn yr ardal hon ar gael i'w hailddefnyddio ac mae'n bosibl, fel ar Iard Longau Penfro, y gellid cynnig ail-ffurfweddu ardaloedd a ddefnyddir ar hyn o bryd ar y cyd â chynigion datblygu trawsnewidiol.

5.11 Terfynfa fferi yw Harbwr Abergwaun yn bennaf ac fel Doc Penfro, mae'n cynnig cysylltiadau â Gweriniaeth Iwerddon.

**SP 3 Gofynion Tir Cyflogaeth**

**Darperir 173 hectar o dir datblygu fel tir cyflogaeth ar amrywiaeth o safleoedd cyflogaeth strategol a lleol. Mae safleoedd cyflogaeth strategol wedi'u nodi yn y lleoliadau canlynol:**

| Enw'r Lleoliad | Cyfeirnod y Safle | Arwynebedd (ha) | Defnyddio Derbyniol |
|---|---|---|---|
| Blackbridge, Aberdaugleddau | S/EMP/086/LDP/01 | 33.45 | B1, B2, B8 |
| Parc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro, Doc Penfro | S/EMP/096/00001 | 22.38 | B1 |
| Parc Busnes y Llwyn Helyg, Hwlffordd | S/EMP/040/00001 | 20.61 | B1 |
| Trecŵn | S/EMP/136/0001 | 21.11 | B1, B2, B8 |

**Y dulliau defnyddio penodedig yw'r rhai a ganiateir ar y safleoedd rhestredig. Lle bo'n briodol, gellid hefyd caniatáu mathau eraill o ddefnyddio ar gyfer cyflogi neu ddefnyddiau cydnaws unigryw (neu gyfuniadau o ddulliau o ddefnyddio fel hyn).**

*Materion allweddol cysylltiedig:*
*Economi wledig a threfol gref*
*Seilwaith, Trafnidiaeth a Hygyrchedd*

*Bydd y Polisi Strategol hwn yn cyfrannu tuag at gyflawni Amcan(ion): C ac E*

*Mae'r Polisïau Cyffredinol canlynol yn rhoi canllawiau manylach ar y Polisi Strategol hwn: GN.5 – GN.9, GN.40 a GN.41*

5.12 Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5, Tachwedd 2012), mae'r polisi hwn yn darparu amrywiaeth o safleoedd mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n addas i'w datblygu at ddibenion menter a chyflogaeth.

5.13 Mae Diweddariad 2008 o Gynllun Gofodol Cymru yn nodi fel blaenoriaeth strategol y nod o ddatblygu economi mwy amrywiol, entrepreneuraidd, yn seiliedig ar wybodaeth, a nodir bod ynni a'r amgylchedd yn allweddol er mwyn sicrhau llwyddiant yn yr ardal hon.

5.14 Er mwyn cefnogi gwaith datblygu i'r dyfodol mewn gweithgarwch sy'n ymwneud â phorthladdoedd ac ynni yn agos at Ddyfrffordd Aberdaugleddau, dyrennir safleoedd cyflogaeth strategol yn Blackbridge (Aberdaugleddau) ac ym Mharc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro (Doc Penfro). Mae'r sector ynni (technoleg ynni adnewyddadwy yn benodol) yn bwysig fel sector twf posibl yn ardal y Ddyfrffordd.

5.15 Darperir safle cyflogaeth strategol arall yn y Llwyn Helyg (Hwlffordd), a fydd yn cefnogi twf cyflogaeth yn y dref Sirol. Mae'r safle hwn ar y rhwydwaith ffyrdd strategol sy'n darparu cyswllt gydag Abergwaun i'r gogledd a rhannau eraill o dde a gorllewin Cymru i'r dwyrain.

5.16 Mae safle sy'n cynnig cyfleoedd mawr yn bodoli yn Nhrecŵn hefyd (cyn safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn).

5.17 Bydd polisi GN.37 yn arbennig o berthnasol ar gyfer cyflenwi safleoedd cyflogaeth strategol, i sicrhau yr osgoir effaith niweidiol sylweddol trwy gynnal a gwella rhywogaethau a warchodir a rhywogaethau blaenoriaeth, eu cynefinoedd a safleoedd dynodedig. Mae Polisi GN.37 yn nodi hefyd gofyn am ddarpariaethau lliniaru mewn achosion priodol.

5.18 Nodir safleoedd cyflogaeth lleol mewn amrywiaeth o leoliadau eraill yn y Trefi Ffocws a hefyd mewn rhai aneddiadau gwledig. Bydd hyn yn cefnogi twf y Cynllun a'r strategaeth dosbarthu mewn modd cynaliadwy.

5.19 Anogir datblygu safleoedd cyflogaeth mewn aneddiadau gwledig, gan sicrhau y bydd rhagor o gyfleoedd ar gyfer y boblogaeth wledig i weithio'n agosach at eu cartrefi gan felly lleihau'r galw am deithio i mewn i brif drefi Sir Benfro. Mae gan Sir Benfro eisoes lefel uchel o unigolion hunangyflogedig - llawer ohonynt yn gweithio gartref - ac anogir hyn ymhellach. Bydd gwell seilwaith, rhwydweithiau trafnidiaeth a chyfathrebu yn bwysig o ran annog twf o'r fath.

5.20 Yn ychwanegol at y safleoedd cyflogaeth a nodwyd bydd dull polisi yn seiliedig ar feini prawf yn cynnig cyfleoedd i gynigion cyflogaeth newydd ddod gerbron ar dir heb ei ddyrannu mewn aneddiadau, neu sy'n berthynol dda i aneddiadau, ac mewn lleoliadau gwledig pan fo lleoliad o'r fath yn hanfodol i'r fenter.

**SP 4 Hyrwyddo Datblygiadau Manwerthu**

**Dyma'r hierarchaeth manwerthu ar gyfer Sir Benfro:**

| | |
|---|---|
| Canol Tref Isranbarthol | Hwlffordd |
| Canol Trefi: | Doc Penfro, Penfro, Aberdaugleddau, Abergwaun, Arberth |
| Canolfannau Manwerthu Lleol: | Wdig, Neyland, Crymych, Treletert, Johnston, Cilgeti |

**Dylai pob datblygiad manwerthu a hamdden newydd fod yn gyson o ran maint a natur â maint a chymeriad y Ganolfan a'i swyddogaeth yn yr hierarchaeth fanwerthu.**

**Ni chaniateir cynigion a fyddai'n tanseilio'r Hierarchaeth Fanwerthu.**

*Materion allweddol cysylltiedig: Economi wledig a threfol gref*

*Bydd y Polisi Strategol hwn yn cyfrannu tuag at gyflawni Amcan(ion): D, F, G ac I*

*Mae'r Polisïau Cyffredinol canlynol yn rhoi canllawiau manylach ar y Polisi Strategol hwn: GN.12 – GN.15*

5.21 Bydd disgwyl i gynigion manwerthu adlewyrchu lefel hierarchaeth lleoliad y cynnig, o ran maint a natur. Mae pob Canol Tref wedi'i dynodi yn rhannol fel Ardal Gadwraeth a rhaid bod cynnal cymeriad unigol y Trefi hyn yn elfen bwysig o unrhyw gynnig datblygu.

5.22 Dylai cynigion oddi mewn i dref Hwlffordd wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at ei swyddogaeth fel tref y sir a chanol tref isranbarthol. Bydd cynigion sy'n gwella'r ddarpariaeth, yn arbennig o ran siopau tebyg mwy, o fewn Canol y Dref yn cael eu hannog a gwneir dyraniad ar gyfer unedau o'r fath fel rhan o'r Cynllun.

5.23 Dylai cynigion yn Noc Penfro adlewyrchu swyddogaeth y dref fel y ganolfan fanwerthu bwysig yn ne Sir Benfro. Bydd cynigion sy'n adeiladu ar y cysylltiadau rhwng y dref a'r marina yn cael eu hannog yn ogystal â gwell cysylltiadau i gerddwyr rhwng canol y dref a'r datblygiadau ar Ffordd Llundain. Mae cyfle'n bodoli i ailddatblygu Canolfan Sant Gofan yng Nghanol y Dref.

5.24 Disgwylir y bydd cynigion yn Aberdaugleddau, Penfro, Abergwaun ac Arberth yn llai o faint na'r rhai a gynigir yn Hwlffordd a Doc Penfro. Bydd disgwyl i gynigion yn Arberth, y lleiaf o blith canol y trefi, adlewyrchu natur fanwerthu arbenigol canol y dref yn bresennol.

5.25 Ni ddylai cynigion yn y Canolfannau Manwerthu Lleol danseilio nac effeithio ar fywiogrwydd na hyfywedd Canol y Trefi o amgylch, ond dylent gynnal darpariaeth gwasanaethau'r aneddiadau hyn a pharhau i ddarparu cyfleusterau ar gyfer yr ardaloedd gwledig o amgylch.

**SP 5 Economi Ymwelwyr**

**Caiff cynigion datblygu yn ymwneud â'r economi ymwelwyr eu cefnogi cyhyd â'u bod mewn lleoliadau cynaliadwy, yn cyfrannu tuag at amrywiaeth ac ansawdd llety ac atyniadau, yn parchu a gwarchod yr amgylchedd ac er budd cymunedau lleol.**

*Materion allweddol cysylltiedig: Economi wledig a threfol gref, Yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a Hygyrchedd*

*Bydd y Polisi Strategol hwn yn cyfrannu tuag at gyflawni Amcan(ion): H*

*Mae'r Polisïau Cyffredinol canlynol yn rhoi canllawiau manylach ar y Polisi Strategol hwn: GN.16 – GN.21, GN.34 a GN.35*

5.26 Mae'r Polisïau Cyffredinol yn sefydlu'r lleoliadau a ystyrir yn briodol ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygu a'r meini prawf y bydd disgwyl i gynigion eu cyrraedd er mwyn gwella cynaliadwyedd Sir Benfro yn gyrchfan ymwelwyr.

5.27 Mae amgylchedd naturiol ac adeiledig Sir Benfro wedi denu ymwelwyr ers llawer o flynyddoedd, i'r Parc Cenedlaethol ac ymhellach o'r arfordir wrth iddynt gael eu denu gan afonydd, mynyddoedd, treftadaeth a threfi a phentrefi hanesyddol y Sir. Yr economi ymwelwyr yw un o'r sbardunau mwyaf sylweddol i'r economi leol bellach ac mae Diweddariad 2008 o Gynllun Gofodol Cymru a Strategaeth Twristiaeth Cyngor Sir Penfro (2006-2012) yn nodi pwysigrwydd y sector i'r Sir.

5.28 Elfen i ganolbwyntio arni i'r dyfodol yw darparu diwydiant cryf ac amrywiol gydol y flwyddyn yn seiliedig ar gyrchfan o ansawdd uchel y bydd ymwelwyr eisiau ailymweld â hi. Nodwedd hanfodol er mwyn cyflawni hyn yw sicrhau y caiff yr agwedd sy'n denu ymwelwyr - ansawdd yr amgylchedd - ei gwella gan unrhyw ddatblygiad a wneir. Er mwyn sicrhau y cyflawnir hyn, mae'n ofynnol bod cynigion am atyniadau ymwelwyr a chyfleusterau hamdden yng nghefn gwlad yn dangos bod lleoliad o'r fath yn hanfodol.

**SP 6 Mwynau**

**Sicrheir y cyfrennir tuag at anghenion cenedlaethol, rhanbarthol a lleol o ran cyflenwad parhaus o fwynau drwy'r canlynol:**

1. **Cynnal cronfa wrth gefn o graig galed a thywod a graean yn ystod cyfnod y Cynllun;**
2. **Gwarchod adnoddau glo ac agregau sy'n wybyddus[43] (gan gynnwys tywod a graean a charreg galed) rhag datblygiadau parhaol ac eithrio rhai mewn aneddiadau; a**
3. **Gwarchod y glanfeydd ar gyfer tywod a graean sy'n codi o'r môr.**

*Materion allweddol cysylltiedig: Economi wledig a threfol gref*

*Bydd y Polisi Strategol hwn yn cyfrannu tuag at gyflawni Amcan(ion): C*

*Mae'r Polisïau Cyffredinol canlynol yn rhoi canllawiau manylach ar y Polisi Strategol hwn: GN.22 – GN.25*

5.29 Mae Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 ar Agregau (2004) yn ei gwneud yn ofynnol i fanciau tir gael eu cynnal drwy gydol cyfnod y Cynllun (cyflenwad 10 mlynedd o garreg galed a chyflenwad 7 mlynedd o dywod a graean).

[43] Mewn lleoliadau brig

5.30 Nid oes gofyn i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro gynnal banc tir o garreg galed neu dywod a graean a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd disgwyl iddynt gyfrannu tuag at y cyflenwad.

5.31 Ar sail cytundeb ‘mewn egwyddor’ rhwng y Cyngor ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol, mae cronfa wrth gefn ledled Sir Benfro yn darparu banc tir cyfunol o 36.47 mlynedd o garreg galed a 17.86 mlynedd o dywod a graean fel ag yr oedd yn 2012, gyda 28.82 mlynedd o gyflenwad carreg galed a 8.36 mlynedd tywod a graean ar gael erbyn 2021[44] [45].

5.32 Mae’r polisi hwn yn gwarchod adnodd mwynau ardal y Cynllun (glo, carreg galed, tywod a graean) a’r glanfeydd ar gyfer gweithio ar y môr, yn unol â pholisi cenedlaethol[46] a rhanbarthol[47], i sicrhau ei fod ar gael i genedlaethau’r dyfodol a sicrhau y gall yr adnodd yn Sir Benfro gyfrannu at y galw am fwynau yn genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Rhestrir safleoedd gweithio mwynau presennol yn Atodiad 2 a dangosir maint yr ardaloedd a warchodir[48] ar y Map Cynigion.

5.33 Mae'r Cyngor yn cydnabod y cyfeiriad polisi o ran canolbwyntio gweithio mwynau y tu allan i'r Parc Cenedlaethol. Y mae wedi nodi'r adnodd tywod a graean49 am gyfnod y Cynllun a bydd yn sicrhau'r banc tir tywod a graen yn gynyddol, trwy adolygu'r Cynllun hwn, a sbardun monitor cysylltiedig, i gynnal banc tir uwchlaw'r isafbwynt. Mae'r banc tir ar gyfer craig galed yn doreithiog a bydd banc tir hael ar ôl ar ddiwedd cyfnod y cynllun.

5.34 Nid yw’r diwydiant mwynau wedi rhoi awgrym o’i flaenoriaeth ar gyfer safleoedd cynhyrchu tywod a graean yn y dyfodol yn ardal y Cynllun ac yn y cyd-destun hwnnw, nid yw dyraniadau gweithio tywod a graean nac ychwaith nodi Ardaloedd a Ffefrir ar gyfer gwaith yn y dyfodol yn briodol ar gyfer y Cynllun hwn. Yn hytrach, nodir Ardal Chwilio ar gyfer gweithio tywod a graean yn y dyfodol, sef yr ardal adnodd tywod a graean a ddiogelwyd. Mae hyn yn elfen o’r adnodd mwynau a ddiogelwyd a ddangosir ar y Map Cynigion.

---

[44] Cymryd i ystyriaeth yr estyniad a gymeradwywyd i’r chwarel Pant Gwyn a Chwarel Trefigin

[45] Cyfrifiadau Banc Tir Mwynau (yn seiliedig ar ddata Rhagfyr 2008) Datganiad Cryno ar gyfer Cyngor Sir Penfro – Diweddariad, Gorffennaf 2012.

[46] Polisi Cynllunio Mwynau Cymru (2000), Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1 (2004) a 2 (2009)

[47] y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer yr ardal a gwmpesir gan Weithgor Agregau De Cymru (2008)

[48] Prosiect Mapio Mwynau Cymru, LICC (Arolwg Daearegol Prydain), 2010

[49] Arolwg Daearegol Prydain, Mapio Mwynau Cymru 2010

5.35 Bydd trafodaethau pellach yn awr yn digwydd yn y rhanbarth rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol a gweithwyr mwynau er mwyn dod o hyd i'r lleoliadau posibl gorau ar gyfer gweithio tywod a graean yn y dyfodol yn Sir Benfro a de orllewin Cymru. Bydd y rhain yn archwilio i natur a chwmpas cyflenwadau amgen posibl, gan gynnwys cyfleoedd i ddefnyddio cynnyrch eilaidd wedi'i ailgylchu. Mae'r CDLl felly yn cyflwyno sefyllfa interim o ran cynhyrchu mwynau, yn enwedig o ran tywod a graean. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i beidio â llaesu dwylo er mwyn dod â chynhyrchu mwynau i ben yn y pen draw ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro a bydd yn gweithio'n gydweithredol i helpu i ddatrys y mater hwn, gan gydnabod na fydd hyn wedi ei gyflawni'n llwyr hyd nes bydd y chwareli a ganiateir yn y Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd yn hysb neu fod cynhyrchu yn dod i ben am resymau eraill. Pe amlygir unrhyw ddiffyg yn y gronfa wrth gefn trwy fonitro blynyddol, asesir ceisiadau Cynllunio yn yr Ardaloedd Chwilio yn erbyn Polisi GN.23.

**SP 7 Gofynion Tai**

**Mae darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer oddeutu 7,300 o anheddau yn ystod cyfnod y Cynllun, er mwyn gallu darparu 5,700 o anheddau.**

*Materion allweddol cysylltiedig: Cymunedau Cynaliadwy*

*Bydd y Polisi Strategol hwn yn cyfrannu tuag at gyflawni Amcan(ion): D*

*Mae'r Polisïau Cyffredinol canlynol yn rhoi canllawiau manylach ar y Polisi Strategol hwn: GN.11, GN.26 – GN.32*



5.36 Mae'r gofyn am dai yn y CDLl yn deillio o amcanestyniadau tyeidiau Llywodraeth Cymru seiliedig ar 2008[50]. Mae amcanestyniadau o'r aelwydydd yn awgrymu bod angen 5,724 o gartrefi newydd o 2011-2021, ar gyfradd o 572 y flwyddyn[51]. Un o brif sbardunau'r galw am dai yw'r lleihad mewn maint cyfartalog aelwydydd, ac yn benodol, y cynnydd yn nifer yr aelwydydd un person. Mae'r natur newidiol hon yn y ddarpariaeth dai yn un agwedd ar y cynnydd yn y galw am gartrefi.

5.37 Caiff cartrefi newydd eu datblygu yn bennaf ar dir a ddyrannwyd yn benodol ar gyfer tai ac mewn lleoliadau cynaliadwy o fewn Ffiniau Aneddiadau diffiniedig, gan roi gofal i warchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. Bydd maint a dosbarthiad y datblygiadau tai yn Sir Benfro yn ceisio mynd i'r afael â'r anghydbwysedd ym mhroffil oedran y boblogaeth, er enghraifft, drwy gynorthwyo pobl ifanc i sefydlu aelwydydd newydd mewn pentrefi gwledig.

5.38 Sicrheir bod tir preswyl digonol ar gael i ddiwallu anghenion cymunedau i'r dyfodol o ran tai'r farchnad a thai fforddiadwy. Ar sail safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer tai o dan Bolisi GN.27, yn ogystal â rhai a gwblhawyd, unedau sydd ar waith a chaniatáu ar gyfer safleoedd ar hap, safleoedd bach, addasiadau, dymchweliadau a sicrhau bod eiddo gwag yn cael eu defnyddio yn fuddiol eto, mae'r Cynllun yn darparu ar gyfer 7,329 o anheddau. Mae hyn yn darparu ar gyfer 1,605 yn rhagor o aneddiadau na'r 5,724 o unedau sydd eu hangen, er mwyn caniatáu ar gyfer dewis, hyblygrwydd ac adnewyddu'r stoc tai presennol ac ar gyfer peidio â defnyddio safleoedd. Mae maint y tir a ddarperir ar gyfer tai yn seiliedig ar dwf disgwyliedig yn y boblogaeth o oddeutu 9,000. Mae dadansoddiad manwl o ran yr anghenion tai wedi'i nodi yn y papur cefndir ar Faint a Lleoliad Twf ADENDWM 2011 sy'n defnyddio amcangyfrifon o boblogaeth ac aelwydydd a baratowyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru[52] a'r Cyngor Sir. Mae crynodeb o'r anghenion a'r cyflenwad tai wedi'i amgáu yn atodiad 3, ac mae canllawiau safle-benodol pellach wedi'u cynnwys yn y Canllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig ar Safleoedd Datblygu.

**SP 8 Targed Tai Fforddiadwy**

**Darperir o leiaf 980 o anheddau fforddiadwy newydd.**

*Materion allweddol cysylltiedig: Cymunedau Cynaliadwy*

*Bydd y Polisi Strategol hwn yn cyfrannu tuag at gyflawni Amcan(ion): D*

*Mae'r Polisïau Cyffredinol canlynol yn rhoi canllawiau manylach ar y Polisi Strategol hwn: GN.27, GN.28, ac GN.29*

[50] Cyhoeddwyd wedi'r dyddiad sylfaen ar gyfer y Cynllun
[51] Papur Cefndir Maint a Lleoliad Twf (2010) a Maint a Lleoliad Twf, Papur Adendwm (2011)
[52] Amcanestyniadau Aelwydydd Llywodraeth Cymru 2008

5.39 Dylai pawb yn y Sir fod mewn modd i gael cartref o ansawdd da sy'n diwallu eu hanghenion tai. Mae darparu dewis o dai sy'n fforddiadwy i'r boblogaeth leol yn hanfodol er mwyn cyflawni hyn.

5.40 Mae'r angen am dai fforddiadwy yn Sir Benfro yn ddifrifol ledled y Sir gyfan[53] a chaiff ei gyfarwyddo gan y Gofrestr Tai Gyffredin, Asesiad o Farchnad Dai Leol Sir Benfro (2012) a Strategaeth Tai Sir Benfro. Ym mis Ionawr 2010, roedd angen[54] tai fforddiadwy ar 2,427 o aelwydydd. Dynododd yr Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol (AFDL) ddiffyg blynyddol o 1656 o dai fforddiadwy dros 10 mlynedd i ddiwallu'r diffyg darpariaeth sydd wedi cronni'n hanesyddol. Yn ogystal â methodoleg amgen i ddeillio maint yr angen, mae'r papur cefndir 'Datganiad o Anghenion Tai, 2011' yn cynnwys beirniadaeth fanwl o'r diffygion ym methodoleg yr AFDL, yr ystyrir ei fod wedi rhoi asesiad llawer iawn rhy fawr o fraint yr angen trwy ddyblygu'r cyfrif.

5.41 Mae maint yr angen am dai fforddiadwy yn Sir Benfro yn sylweddol uwch na'r hyn a ellir ei ddarparu drwy lefelau presennol Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Gall y system gynllunio, drwy ddefnyddio ymrwymiadau Cynllunio, gyfrannu at y ddarpariaeth o dai fforddiadwy. Disgwylir i'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth tai fforddiadwy er mwyn cyrraedd y targed gael ei chyflawni drwy gyfraniad datblygwyr ar y safle.

5.42 Mae'r targed tai fforddiadwy yn cynnwys asesiad realistig o faint o dai fforddiadwy a gaiff eu datblygu dros gyfnod y Cynllun er mwyn diwallu anghenion newydd a chyfrannu at yr angen a nodwyd eisoes. Mae'r targed yn amodi ar gyfer darparu tai fforddiadwy eu darparu drwy amryw ffyrdd, gan gynnwys

- Ymrwymiadau Cynllunio wedi eu trafod yn rhan o bob datblygiad preswyl – oddeutu 476 o anheddau;
- Ar safleoedd a ddatblygir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig – oddeutu 401 o anheddau;
- Ffynonellau eraill, yn cynnwys safleoedd eithriedig a thai fforddiadwy hunan-adeiladu – oddeutu 105 o anheddau.

5.43 Mae'r Cyngor Sir wedi cyflawni trothwyau priodol a gwerthusiadau hyfywedd er mwyn sefydlu trothwyau a thargedau dangosol (canran) priodol ar gyfer tai fforddiadwy ar safloedd dyranedig gan ddatblygwyr. Mae'r rhain yn dangos bod darparu cartrefi fforddiadwy ar y safle fel arfer yn ddichonadwy ac mae targedau rhwng hyd at 5% a 25% wedi eu gosod.

---

[53] Strategaeth Dai Leol Sir Benfro 2007-2012
[54] Yn deillio o ddata'r Gofrestr Tai Gyffredin

5.44 Yn yr aneddiadau llaiaf yn yr hierarchaeth aneddiadau (y rheini a nodir yn Bentrefi Lleol bach) bydd pob datblygiad preswyl ar gyfer tai fforddiadwy anghenion lleol[55]. Bydd datblygu yn yr aneddiadau hyn yn debygol o fod yn ddatblygiadau plot sengl neu ddatblygiadau o hyd at 5 uned. Cefnogir cynigion ar gyfer Perchentyaeth Cost Isel hunanadeiladu i ddiwallu angen lleol yn y lleoliadau hyn. Mewn Pentrefi Lleol Mawr bydd angen tai fforddiadwy ar-safle ar gynigion o 2 uned neu ragor. Disgwylir i gyfran fach o'r targed tai fforddiadwy cael ei dwyn ymlaen o dan y dull hwn.

5.45 Ystyrir safleoedd eithriedig hefyd ar gyfer tai fforddiadwy. Mae'r Cyngor Sir yn ymrwymedig i gydweithio â Llywodraeth y Cynulliad ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i gael gwell dealltwriaeth o anghenion tai ar lefel gymunedol a chanfod safleoedd addas a'u dwyn ymlaen.

**SP 9 Yr Iaith Gymraeg**

**Caiff datblygu ei reoli yn sensitif mewn ardaloedd lle y mae eisoes gan yr iaith Gymraeg swyddogaeth sylweddol yn y gymuned leol. Gallai hyn gynnwys gweithredu fesul cyfnod, arwyddion ac / neu fesurau lliniaru priodol eraill.**

*Materion allweddol cysylltiedig: Cymunedau Cynaliadwy*

*Bydd y Polisi Strategol hwn yn cyfrannu tuag at gyflawni Amcan(ion): D ac H*

*Mae'r Polisïau Cyffredinol canlynol yn rhoi canllawiau manylach ar y Polisi Strategol hwn: GN.1*


5.46 Mae ei diwylliant ieithyddol yn rhan bwysig o'r hyn sy'n gwneud Sir Benfro yn arbennig i drigolion ac ymwelwyr. Mae Cynllun Gofodol Cymru yn cydnabod bod i'r iaith Gymraeg swyddogaeth sylweddol o fewn cymunedau ac y dylai gael ei hybu fel priodoledd gadarnhaol yn unol â gweledigaeth Iaith Pawb[56] o greu cymdeithas ddwyieithog fodern. Fel y dangosir yn Ffigur 4 isod, ledled y Sir roedd tua 23.9% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg adeg cyfrifiad 2001, cynnydd o 5.6% o gymharu â 1991. Ceir amrywiaeth ddaearyddol sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg, gyda chyfran isel iawn yn ne'r Sir a chyfran uwch o lawer yng ngogledd y Sir.

[55] Yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 6, adran 4.2 (Gorffennaf 2010)
[56] Llywodraeth Cymru, 2003

5.47 Mae'r polisi hwn yn pwysleisio bod angen gwarchod proffil diwylliannol ac ieithyddol y cymunedau lleol hynny lle y mae i'r iaith swyddogaeth sylweddol, i'r graddau y mae hynny'n bosibl drwy'r system gynllunio.

5.48 Ceisia'r Cynllun hwn gynnal amlygrwydd dwyieithog y Sir a chaiff y polisi ei gymhwyso ar gyfer cynigion datblygu ym mhob cyngor cymuned a ddiffinnir yn 'ieithyddol sensitif'; hynny yw, cymunedau lle y mae mwy na 25% o'r boblogaeth sy'n hŷn na 3 oed yn siarad Cymraeg[57]. Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â TAN 20 a'r CCA Safleoedd Datblygu. Mae'r CCA Safleoedd Datblygu yn nodi ble mae angen gweithredu fesul cyfnod ar gyfer dyraniadau yn y Cynllun. Lle mae cais am hap-safle a fyddai fel arall yn methu â chydymffurfio â maen prawf 1 ym Mholisi GN.1 Polisi Datblygu Cyffredinol ond a fyddai'n dderbyniol pe byddai fesul cyfnod, yna efallai y bydd angen gweithredu fesul cyfnod.

**Ffigur 4: Canrannau sy'n Siarad Cymraeg yn ôl Cyngor Cymuned (2001)**




57 Cafwyd cyfarwyddyd o "Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: y Ffordd Ymlaen (2005)"

**SP 10 Seilwaith Trafnidiaeth a Hygyrchedd**

**Bydd gwelliannau i'r seilwaith trafnidiaeth presennol a fydd yn gwella hygyrchedd o ran cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau, yn arbennig drwy ddulliau cynaliadwy, yn cael eu cymeradwyo.**

**Caiff gwelliannau a nodwyd i'r seilwaith trafnidiaeth presennol eu gwarchod.**


Materion allweddol cysylltiedig:
Economi wledig a threfol gref
Seilwaith, trafnidiaeth a hygyrchedd

*Bydd y Polisi Strategol hwn yn cyfrannu tuag at gyflawni Amcan(ion): E ac I*

*Mae'r Polisïau Cyffredinol canlynol yn rhoi canllawiau manylach ar y Polisi Strategol hwn: GN.1 a GN.39*

5.49 Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5, Tachwedd 2012) a Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 18, mae'r polisi hwn yn nodi ac yn gwarchod gwelliannau arfaethedig i'r seilwaith trafnidiaeth a fydd yn cefnogi twf economaidd. Mae'r gwelliannau a nodir yn y Cynllun ac ar y map cynigion yn debygol o gael eu gwneud yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru, rhaglenni Llywodraeth Cymru ar gyfer Cefnffyrdd a rhaglenni'r Cyngor Sir ar gyfer Ffyrdd Sirol.

Ffigur 5



**SP 11 Gwastraff**

**Sicrheir y bydd y gwastraff a gynhyrchir a'i effaith ar yr amgylchedd cyn lleied â phosibl gan wneud y mwyaf o'r defnydd o wastraff fel adnodd, drwy ailddefnyddio, adfer er mwyn creu deunyddiau neu ynni, a'i waredu'n ddiogel pan na fydd hyn yn bosibl, gan ddefnyddio'r dewis amgylcheddol ymarferol gorau.**

Materion allweddol cysylltiedig: Yr Amgylchedd

*Bydd y Polisi Strategol hwn yn cyfrannu tuag at gyflawni Amcan(ion): B a J*

*Mae'r Polisïau Cyffredinol canlynol yn rhoi canllawiau manylach ar y Polisi Strategol hwn: GN.24, GN.40 – GN.42*

5.50 Mae'r polisi hwn yn sefydlu dull strategol yr awdurdod o gynllunio rheoli gwastraff yn gynaliadwy ac yn integredig, yn unol â deddfwriaeth Ewrop, y DU a Chymru. Mae'n ymhelaethu ar ddarpariaethau Adolygiad 1af Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru (2008) (y CGRh), sy'n canolbwyntio ar:

a) Darparu lleoliadau / safleoedd sy'n addas i leoli cyfleusterau gwastraff 'o fewn adeilad' ychwanegol; a
b) Nodi safleoedd ac ardaloedd chwilio ar gyfer cyfleusterau gwastraff 'awyr agored' newydd. Mae Polisi'r CDLl yn rhoi ystyriaeth i effaith Strategaeth Wastraff Cymru (Tuag at Ddyfodol Diwastraff) ar y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol. Ym mhob achos mae'r CGRh yn ceisio lle ar gyfer cyfleusterau a allai wasanaethu mwy nag un ardal awdurdod lleol, ac mae'r mapiau atodol yn nodi amryw leoliadau, gan gynnwys rhai yn Sir Benfro.

5.51 Mae'r CGRh yn awgrymu bod cyfanswm arwynebedd y tir sydd ei angen yn Ne-orllewin Cymru ar gyfer cyfleusterau mewn adeilad yn amrywio rhwng 60 hectar a 85.2 hectar (yn dibynnu ar y dull a ddewisir) ac mae Atodiad i'r ddogfen honno yn rhestru safleoedd ym mhob ardal Awdurdod Unedol (gan gynnwys Sir Benfro) lle y gallai hyn ddigwydd (byddai'r rhain yn safleoedd diwydiant mawr a rhai safleoedd eraill lle y gallai Dosbarth Defnydd B2 gael ei dderbyn). Mae'r Cynllun hwn yn rhoi diweddariad ar safleoedd a allai fod yn addas ar gyfer y math hwn o ddefnydd. Mae'r CGRh yn nodi'n glir bod digon o dir dros ben ar gael at ddibenion yr amcangyfrif mwyaf, hyd yn oed, o'r tir sydd ei angen ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd yn y rhanbarth. Mae'r CDLl yn cynnig dewis o safleoedd a allai fod yn addas i nifer o wahanol weithgareddau rheoli gwastraff a bydd yn dibynnu ar y farchnad i wneud dewisiadau ynglŷn â lleoli yn ardal y Cynllun neu fannau eraill yn y rhanbarth. Mae'r safleoedd y mae polisi GN.40 yn eu cynnig a'r tir Dosbarth B2 sydd ar gael oddi mewn i'r safleoedd B2 sydd wedi eu rhestru yn yr un polisi yn cyflawni gofynion y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol ar gyfer ardal y Cynllun.

5.52 Mae'r papur cefndirol ar Gynllunio Gwastraff yn rhoi crynodeb o'r sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol o ran rheoli gwastraff a'i goblygiadau ar reoli gwastraff trefol yr Awdurdod Lleol. Mae'n rhoi amlinelliad o'r cyfleusterau gwastraff y gallai fod eu hangen yn ardal y Cynllun. Mae hefyd yn nodi'r cyfleusterau gwastraff presennol yn ardal y Cynllun.

5.53 Mae'r Polisïau gwastraff sy'n dilyn yn y bennod ar Bolisïau Cyffredinol yn nodi lleoliadau y gallai cyfleusterau rheoli gwastraff newydd gael eu darparu, ynghyd â chyflwyno Polisïau yn seiliedig ar feini prawf ar gyfer gwerthuso unrhyw gynigion o ddefnyddiau o'r fath a allai gael eu cynnig ar dir heb ei ddyrannu.

### Polisïau Strategol ar Sail Ardal

5.54 Mae'r Polisïau Strategol yn yr adran hon yn ymwneud â'r lleoliadau y caiff datblygiadau eu cynnal, ac yn esbonio sut mae maint a natur y datblygiad yn gysylltiedig â'i leoliad, gan roi ystyriaeth i gymhwyso effeithiau'r datblygiad yn effeithiol a chynaliadwy.

### Y Strategaeth Aneddiadau

5.55 Nod y strategaeth aneddiadau yw dosbarthu datblygiadau newydd yn briodol mewn ardaloedd gwledig a threfol, gan ddefnyddio hierarchaeth aneddiadau sy'n cynnwys egwyddorion Cynllun Gofodol Cymru. Mae'r strategaeth aneddiadau hefyd yn ceisio cyfeirio tai, cyflogaeth a gwasanaethau i leoliadau lle y mae pobl eisoes yn byw ac yn gweithio, yn unol â Chynllun Gofodol Cymru a'r hierarchaeth aneddiadau.

5.56 Caiff dyraniadau newydd ar gyfer datblygiadau tai eu cyfeirio at y Trefi Ffocws, sef Hwlffordd, Aberdaugleddau, Neyland, Penfro, Doc Penfro, Abergwaun ac Wdig, ac, yn Sir Benfro wledig, i'r aneddiadau hynny y nodwyd eu bod yn addas ar gyfer twf i'r dyfodol yn yr hierarchaeth aneddiadau. Mae'r hierarchaeth aneddiadau yn dosbarthu pob anheddiad yn ôl eu nodweddion swyddogaethol a'u darpariaeth o wasanaethau a chyfleusterau, gyda Ffiniau Aneddiadau wedi'u diffinio ar gyfer Arberth, y Canolfannau Gwasanaethol, y Pentrefi Gwasanaethol a'r Pentrefi Lleol[58].

5.57 Mae tua 45% o'r boblogaeth eisoes yn byw mewn ardaloedd gwledig, felly dylai dosbarthu twf tai a chyflogaeth yn decach ledled Sir Benfro roi rhagor o gyfleoedd i bobl i weithio a byw yn yr un ardal gan leihau'r angen i deithio.

5.58 Bu capasiti'r seilwaith o gymorth i ffurfio'r strategaeth aneddiadau. Trwy ganolbwyntio datblygiadau mewn pentrefi a threfi sydd eisoes â gwasanaethau a chyfleusterau, dylai fod llai o bwysau i ddarparu cyfleusterau newydd.

---

[58] Lluniwyd yr hierarchaeth aneddiadau gan ddefnyddio data o Astudiaethau Cyfleusterau Gwledig a Manwerthu Cyngor Sir Penfro ynghyd ag egwyddorion Cynllun Gofodol Cymru.

Byd y dull hwn o weithredu hefyd yn cefnogi'r gwasanaethau a'r cyfleusterau hynny sydd eisoes yn bodoli. Wrth ddyrannu safleoedd, rhoddwyd ystyriaeth i sut y gellir cyflawni'r datblygiadau a chafodd y broses ei chyfarwyddo gan gyngor Dŵr Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd ar seilwaith, adnoddau dŵr, draenio dŵr wyneb a pherygl llifogydd, er mwyn sicrhau y caiff datblygiadau eu cyfeirio at aneddiadau lle y mae capasiti ar gael neu'n debygol o fod ar gael yn ystod cyfnod y Cynllun, a chaiff rhai dyraniadau eu cyflwyno fesul cam gan roi ystyriaeth i gyfyngiadau ar y seilwaith presennol.

5.59 Mae datblygiadau tai yn Sir Benfro yn dibynnu'n fawr ar y nifer fawr o adeiladwyr sy'n canolbwyntio ar ddatblygu safleoedd llai. Rhan o'r rheswm bod cyflawniadau tai Sir Benfro wedi parhau'n gymharol sefydlog yn y blynyddoedd diwethaf, er gwaethaf yr amrywiadau economaidd, yw bod datblygiadau adeiladu ar y fath raddfa yn fwy cadarn i wrthsefyll grymoedd y farchnad ac yn haws i'w hariannu. Felly, o ran y gallu i gyflawni, y dull o weithredu mewn ardaloedd gwledig fu galluogi i ddwyn ymlaen safleoedd llai.

5.60 Mae cyfleusterau cymunedol yn elfen ganolog o gymunedau cynaliadwy. Mae'r aneddiadau hynny sydd â lefelau uchel o gyfleusterau cymunedol wedi'u nodi ar gyfer twf yn yr hierarchaeth aneddiadau. Mae'r polisi cyffredinol ar gyfleusterau cymunedol yn nodi dyraniadau i ddatblygu cyfleusterau cymunedol newydd, gan gynnwys ysgolion newydd, estyniadau i safleoedd ysgolion, estyniad i Ysbyty'r Llwyn Helyg ac estyniadau i fynwentydd lleol. Bydd y rhain yn helpu i sicrhau y caiff cymunedau eu gwasanaethu yn dda i'r dyfodol. Ceir polisi sy'n seiliedig ar feini prawf sy'n galluogi i ddatblygu cyfleusterau cymunedol newydd ar safleoedd priodol sydd heb eu dyrannu ac sy'n sefydlu profion a gaiff eu defnyddio i asesu cynigion a fyddai'n golygu colli cyfleuster cymunedol.

**SP 12 Hierarchaeth Aneddiadau**

**Mae hierarchaeth aneddiadau wedi'i diffinio ar sail nodweddion swyddogaethol a pha wasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael, fel a ganlyn:**

**1. Trefi Ffocws**

**Ffocws yr Hafan**
- **Aberdaugleddau**
- **Doc Penfro**
- **Hwlffordd**
- **Neyland**
- **Penfro**

**Ffocws Gogledd Sir Benfro**
- **Abergwaun**
- **Wdig**

**2. Aneddiadau Gwledig**

**2a Tref Wledig**
- **Arberth**

**2b Canolfannau Gwasanaethol**
- **Cilgeti**
- **Crymych**
- **Johnston**
- **Treletert**

**2c Pentrefi Gwasanaethol**

| | | |
|---|---|---|
| Abercych | Begeli | Blaenffos |
| Boncath | Broadmoor | Bwlch-y-Groes |
| Caeriw/ Sageston | Cas-blaidd | Cas-mael |
| Cilgerran | Clarbeston Road | Clunderwen |
| Cosheston | Croes Cas-lai[59] | Croesgoch |
| Cryndal | Eglwyswrw | Hermon |
| Hook | Houghton | Hundleton |
| Jeffreyston | Llanddewi Efelffre | Llandudoch |
| Llandyfái | Llandysilio | Llangwathen |
| Llangwm | Maenclochog | Mathri |
| Milton | New Hedges | Penalun |
| Pentlepoir | Pont yr Hafod[59] | Rhosfarced |
| Simpson Cross | Spital | St Florence |
| Tafarn Ysbyty | Tegryn | Tiers Cross |
| Tredeml | Y Garn | |

**2d Pentrefi Lleol Mawr**

| | | |
|---|---|---|
| Burton | Burton Ferry | Camros |
| East Williamston | Freystrop | Hill Mountain |
| Keeston | Llanstadwell | Mascle Bridge |
| Pen-y-bryn | Scleddau | Stepaside |
| Summerhill | Trefgarn Owen | Waterston |
| Yr Eglwys Lwyd | | |

**2e Pentrefi Lleol Bach**

| | | |
|---|---|---|
| Barnlake | Bentlass | Bethesda |
| Carregwen | Casmorys | Casnewydd Bach |
| Capel Newydd | Cas-wis | Cold Blow |
| Cold Inn | Eglwys Winnio | Glandŵr |
| Glog | Liddeston | Little Honeyborough |
| Llanbedr Efelffre | Llandeloy | Llanfyrnach |
| Llangolman | Llanhuadain | Llan-teg |
| Llanteglos | Llanychaer | Llwyncelyn |
| Llys-y-Frân | Lower Freystrop | Maddox Moor |
| Maidenwells | Martletwy | Pelcomb Cross |
| Penffordd | Penycwm | Pleasant Valley |
| Portfield Gate | Postgwyn | Princes Gate |
| Redberth | Reynalton | Rhoshill |
| Sardis | Sutton | Thomas Chapel |
| Thornton | Treamlod | Trefgarn |
| Treffynnon | Tremarchog | Troopers Inn |
| Tufton | Uzmaston | Wallis |
| Walton East | Wolfsdale | Woodstock |
| Y Mot | Y Sgwâr | |

Materion allweddol cysylltiedig: Cymunedau Cynaliadwy

*Bydd y Polisi Strategol hwn yn cyfrannu tuag at gyflawni Amcan(ion): A, C, D, F, I a J*

[59] Er lles gwneud-lle a chynnal bywiogrwydd a hyfywedd cymunedau gwledig yng ngogledd orllewin Sir Benfro, mae pentrefi Croes Cas-lai a Phont yr Hafod wedi eu cynnwys yn y categori Pentref Gwasanaeth.

5.61 Mae'r matrics canlynol yn dangos y lleoliadau y bydd rhai mathau o ddatblygiadau yn debygol o gael eu derbyn.

5.62 Mae'r matrics yn dangos bod y Cynllun hwn, ar bob lefel o'r hierarchaeth, yn darparu cyfleoedd ar gyfer amrywiaeth o ddatblygiadau a defnyddiau tir.

| Polisi | Trefi Ffocws yr Hafan | Trefi Ffocws Gogledd Sir Benfro | Tref Wledig | Canolfannau Gwasanaethol | Pentrefi Gwasanaethol | Pentrefi Lleol Mawr | Pentrefi Lleol Bach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyraniadau Tai | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | | |
| Tai'r farchnad ar safleoedd ar hap | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | |
| Tai fforddiadwy at anghenion lleol | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| Safleoedd eithriadau ar gyfer tai fforddiadwy | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| Dyraniadau Cyflogaeth | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | | |
| Safleoedd cyflogaeth drwy bolisïau yn seiliedig ar feini prawf | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |
| Cyfleusterau cymunedol - o fewn aneddiadau neu'n berthnasol dda aneddiadaus | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ |

**SP 13 Ffiniau Aneddiadau**

**Mae Ffiniau Aneddiadau wedi'u dangos ar gyfer pob anheddiad ac maent yn diffinio'r ardaloedd lle gallai cyfleoedd i ddatblygu fod yn briodol. Mewn Pentrefi Lleol Bach mae ffiniau Pentrefi Lleol wedi'u diffinio gan nodi lle y caniateir tai fforddiadwy anghenion lleol priodol. Mewn Trefi Ffocws a Gwledig, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaeth mae Ffiniau Anheddiad yn diffinio estyniad corfforol, ffwythiannol a gweledol yr anheddiad ac yn cymryd mewn i ystyriaeth dyraniadau arfaethedig. Mae Ffiniau Anheddiad Pentrefi Lleol wedi eu diffinio'n fwy caeth, gan gyfyngu ar gyfleoedd i dirlenwi ar raddfa fach a thalgrynnu.**

Materion allweddol cysylltiedig: POB UN

*Bydd y Polisi Strategol hwn yn cyfrannu tuag at gyflawni Amcan(ion): A, C, D, I a J*

5.63 Mae Ffin Anheddiad yn sicrhau bod gwaith datblygu yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy ac y caiff yr amgylchedd naturiol ei warchod. Ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o ddatblygiad y lleoliad mwyaf addas yw oddi mewn i Ffin Anheddiad, ond mewn rhai achosion bydd cyfiawnhad dros leoliad ar ymyl anheddiad neu yng nghefn gwlad. Mae'r Polisïau Cyffredinol yn rhoi eglurhad ar y lleoliadau a ystyrir yn dderbyniol ar gyfer defnyddiau tir penodol, yn cynnwys amgylchiadau eithriadol lle caiff datblygu ddigwydd y tu allan i ac yn agos at Ffin Anheddiad. Disgwylir i gynigion datblygu ar gyfer tai yn y Trefi Ffocws, y Trefi Gwledig, y Canolfannau Gwasanaeth a'r Pentrefi Gwasanaethol gymryd i ystyried, o ran y cymysgedd o

fathau, maint a deiliadaethau tai, y niferoedd cynyddol o dai un person a'r boblogaeth sy'n heneiddio.

**SP 14 Trefi Ffocws**

**Yn y Trefi Ffocws bydd gwaith datblygu yn annog cymunedau cynaliadwy a chydberthnasau ategol rhwng y Trefi drwy hybu pob un o'r canlynol:**

1. **Datblygiadau mewn lleoliadau sy'n ategu ac yn atgyfnerthu swyddogaethau'r trefi yn y Ffocysau**
2. **Llety o ansawdd uchel sy'n cynnal amrywiaeth yn y farchnad breswyl**
3. **Cyfleoedd ar gyfer cyfleusterau masnachol, manwerthu, twristiaeth, hamdden a chymunedol newydd**
4. **Defnyddiau tir addas sy'n berthynol dda i Ffin Anheddiad; a**
5. **Hygyrch o ran gwasanaethau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau teithio cynaliadwy**

Materion allweddol cysylltiedig: POB UN

*Bydd y Polisi Strategol hwn yn cyfrannu tuag at gyflawni Amcan(ion): A, C, D, E, F, G, I a J*

5.64 Mae Diweddariad 2008 o Gynllun Gofodol Cymru yn nodi pwysigrwydd datblygu tri Ffocws strategol yr Ardal, ac mae dau ohonynt (Ffocws yr Hafan a Ffocws Abergwaun ac Wdig) wedi'u lleoli yn Sir Benfro. Caiff cyfran sylweddol o'r datblygiadau preswyl eu cyfeirio at y Trefi Ffocws yn ystod cyfnod y Cynllun. Caiff tir ei ddyrannu ar gyfer datblygu at ddibenion cyflogaeth yn y rhan fwyaf o'r Trefi Ffocws, er mwyn cynnal eu swyddogaeth barhaus fel canolfannau gweithgarwch economaidd a chymdeithasol.

5.65 Mae i bob Tref Ffocws Ffiniau Anheddiad sy'n nodi'r ardaloedd lle y ceir rhagdybiaeth o blaid datblygu oddi mewn iddynt, yn amodol ar fodloni pob ystyriaeth polisi arall. Gall rhai defnyddiau gael eu cynnal os ydynt yn berthynol dda i Ffin Anheddiad, er enghraifft, datblygu cyflogaeth a thai fforddiadwy ar safleoedd eithriadau. Caiff ardaloedd y tu allan i Ffiniau Aneddiadau eu hystyried yn gefn gwlad.

### Hwlffordd

5.66 Hwlffordd yw tref sirol Sir Benfro; mae wedi'i lleoli yng nghanol y Sir ac mae iddi gysylltiadau ffyrdd da â phob ardal yn Sir Benfro a chysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd cryf â gweddill de a gorllewin Cymru a thu hwnt. Hi yw prif ganolfan weinyddol Sir Benfro ac mae yno ddarpariaeth Addysg Bellach / Addysg Uwch a gofal iechyd sylweddol. Bydd swyddogaeth Hwlffordd yn Ganolfan isranbarthol yn datblygu dros gyfnod y Cynllun, gyda thwf mewn poblogaeth, cyfleoedd cyflogaeth a gwell darpariaeth manwerthu. Bydd dyraniad tai strategol ar Slade Lane yn diwallu cyfran sylweddol o ofynion tai'r Cynllun yn Hwlffordd. Mae tir wedi'i ddyrannu at ddibenion cyflogaeth mewn amryw

leoliadau ledled y dref, gyda chyfleoedd datblygu sylweddol ym Mharc Busnes y Llwyn Helyg (safle cyflogaeth strategol sy'n nodedig am ddefnyddiau busnes o ansawdd da). Mae canol tref Hwlffordd wedi'i gyfyngu gan berygl llifogydd a thopograffi ond mae'r cyfle'n parhau i adfywio ac adeiladu ar gryfder Canol y Dref, ac mae safle yn union gerllaw'r ardal fanwerthu bresennol wedi'i nodi o fewn ffiniau Canol y Dref, er mwyn galluogi i unedau modern a mwy gael eu datblygu. Mae dyraniadau ar gyfer cyfleusterau cymunedol newydd gan gynnwys estyniad i'r ysbyty ac ysgolion cynradd newydd wedi'u nodi ar y Map Cynigion.

### Aberdaugleddau a Neyland

5.67 Caiff Aberdaugleddau a Neyland eu hystyried ar y cyd oherwydd eu hagosrwydd a natur patrymau byw a gweithio yn yr ardal, yn benodol, y nifer o safleoedd cyflogaeth mawr yn ymwneud ag ynni ger dyfrffordd Aberdaugleddau. Mae Aberdaugleddau yn dref sydd â dalgylch cyfyngedig, a chaiff canol y dref ei gyfnerthu a chaiff gwell cysylltiadau eu datblygu ag ardal y marina. Mae gan y ddwy dref farina a chysylltiadau cryf â dyfrffordd Aberdaugleddau, gan gynnig cyfleoedd i ddatblygu yn y diwydiannau hamdden thwristiaeth a physgota.

5.68 Ceir dyraniad cyflogaeth strategol yn Blackbridge, i'r dwyrain o dref Aberdaugleddau. Dyma un o'r safleoedd olaf ger Dyfrffordd Aberdaugleddau sydd heb eu datblygu sy'n cynnwys mynediad dŵr dwfn, gan gynnig potensial ar gyfer datblygiad mawr sy'n gallu manteisio ar botensial angori dŵr dwfn i longau.

### Doc Penfro

5.69 Mae Doc Penfro yn ganolfan wasanaethau, cyflogaeth a manwerthu allweddol yn ne Sir Benfro. Mae yno gyfleoedd i gryfhau Canol y Dref drwy ddatblygiadau dewisol a allai wella'r amgylchedd a chynnig rhagor o gyfleoedd ar gyfer unedau manwerthu mwy. Mae yno ganiatâd i greu marina yng Nghei Martello. Dylai'r cyfle hwn adeiladu ar gryfder masnachol y dref drwy ei gysylltu â Chanol y Dref. Dylai ailddatblygu dyraniad manwerthu a nodwyd hefyd gynnig y cyfle hwn. Mae porthladd Doc Penfro yn gyswllt rhwng yr ardal â masnach ryngwladol ac mae'n datblygu i fod yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer gweithgarwch cyflogaeth ym maes peirianneg forol. Dylid croesawu datblygiadau sy'n ceisio denu buddiannau i Sir Benfro o'r porthladdoedd hyn. Mae'r Canolfan Arloesedd y Bont ym Mharc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro yn cynnig potensial i gyfnerthu ac adeiladu ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â lleoliad strategol Sir Benfro a'i haddasrwydd ar gyfer datblygiadau yn ymwneud ag ynni.

### Penfro

5.70 Bydd tref hanesyddol Penfro yn elwa ar ddatblygiadau a fydd yn cryfhau ymhellach gadwraeth ei threftadaeth adeiledig a naturiol drawiadol. Mae'n gyrchfan bwysig i dwristiaid, yn ogystal â bod yn ganolfan tref sydd â darpariaeth sylweddol o ran manwerthu a gwasanaethau. Anogir cynigion i wella ansawdd cyfleusterau sy'n seiliedig ar hamdden. Mae'r Cynllun hefyd yn gwarchod tir ar gyfer amryw gynlluniau gwella ffyrdd yn y dref.

### Abergwaun ac Wdig

5.71 Mae i Abergwaun ac Wdig swyddogaeth bwysig o ran gwasanaethau yng Ngogledd Sir Benfro, a byddai ill dwy yn elwa ar fuddsoddiad i wella eu darpariaeth manwerthu a gwasanaethau ac yn lleihau'r angen i drigolion deithio i ardaloedd eraill i weithio a siopa. Ceir caniatâd i agor archfarchnad ar hen safle'r Ysgol Iau ac mae'r safle hwn wedi'i ddyrannu ar gyfer defnydd manwerthu yn y Cynllun hwn. Mae Harbwr Abergwaun yn darparu lleoliad cysgodol rhagorol i wasanaeth fferi i Iwerddon ac oddi yno, ac mae yno gysylltiadau da i'r rhwydwaith cefnffyrdd a'r rhwydwaith rheilffordd. Mae Diweddariad 2008 o Gynllun Gofodol Cymru yn nodi bod yr angen i wneud y mwyaf o botensial asedau arforol yr ardal a'i hagosrwydd i Iwerddon yn flaenoriaeth strategol. Mae safle marina wedi'i nodi yn Abergwaun er mwyn datblygu'r asedau arforol hyn. Er mwyn gallu cyflenwi unedau diwydiannol bach i ategu'r ddarpariaeth bresennol yn Feidr Castell, mae dau safle wedi'u nodi ar gyfer darpariaeth cyflogaeth newydd, un ar gyn safle ffatri Dewhirst ac un y tu ôl i'r Parrog. Bydd y dyraniadau safleoedd cyflogaeth hyn yn galluogi i ddatblygu unedau sy'n ategol eu natur i'r porthladd presennol a'r marina arfaethedig.

**SP 15 Aneddiadau Gwledig**

**Yn yr Aneddiadau Gwledig bydd gwaith datblygu yn annog cymunedau cynaliadwy ac economi wledig lewyrchus drwy hybu:**

1. **Datblygiadau o faint a natur y nodir eu bod yn addas i'r anheddiad.**
2. **Llety o ansawdd uchel o ddeiliadaeth(au) priodol ar gyfer yr anheddiad.**
3. **Cyfleoedd ar gyfer cyfleusterau masnachol, manwerthu, twristiaeth, hamdden a chymunedol newydd.**
4. **Defnyddiau tir priodol sy'n berthynol dda i Ffin Anheddiad neu bentref lleol.**
5. **Sicrhau bod gwasanaethau presennol a newydd yn fwy hygyrch**

Materion allweddol cysylltiedig: POB UN

*Bydd y Polisi Strategol hwn yn cyfrannu tuag at gyflawni Amcan(ion): A, C, D, E, G, I a J*

5.72 Mae ardal wledig Sir Benfro wedi'i diffinio fel pob ardal ar wahân i'r Trefi Ffocws, ac mae'n cynnwys tref farchnad fach Arberth. Mae ychydig o dan hanner poblogaeth Sir Benfro yn byw yn yr ardal wledig, ac mae'r strategaeth i gyfeirio cyfran sylweddol o ddatblygiadau preswyl newydd i aneddiadau yn yr ardal wledig wedi'i llunio er mwyn gwella lles economaidd a chymdeithasol cymunedau gwledig. Mae pentrefi yn yr ardal wledig wedi'u dosbarthu yn ôl hierarchaeth aneddiadau, yn seiliedig ar dystiolaeth o gyfleusterau a gwasanaethau sydd ar gael yn y pentrefi hynny a'u potensial i ymdopi â datblygiadau pellach. Caiff y rhai hynny sydd â lefel uwch o ddarpariaeth gwasanaethau - gan roi sylw yn benodol i wasanaethau megis siop, swyddfa bost neu ysgol gynradd - eu hystyried yn lleoliadau mwy cynaliadwy i'w datblygu ac felly cânt eu pwysoli yn fwy sylweddol yn yr hierarchaeth aneddiadau.

5.73 Mae'r hierarchaeth aneddiadau yn cydnabod bod cadw gwasanaethau yn hyfyw mewn ardaloedd gwledig yn gynyddol heriol, a'i nod yw datblygu'r aneddiadau hynny lle y mae gwasanaethau yn debygol o barhau'n hyfyw yn y tymor canolig i'r hirdymor. Caiff cyfleusterau cyflogaeth, manwerthu a chymunedol newydd i gynnal cymunedau gwledig presennol eu cefnogi, a bydd adolygiadau o'r Cynllun yn y dyfodol yn rhoi cyfle i adolygu sut mae pentrefi wedi'u dosbarthu yn yr hierarchaeth.

5.74 Yn y Canolfannau Gwasanaethol, y Pentrefi Gwasanaethol a'r Pentrefi Lleol Mawr, caiff amrywiaeth o gynigion tai gwahanol, cyflogaeth a gwasanaethau eu caniatáu. Mewn Pentrefi Lleol Bach caiff tai eu cyfyngu i dai fforddiadwy lleol yn unig[60]. Gall rhai defnyddiau gael eu cynnal pan fo cynnig yn berthynol dda i Ffin Anheddiad, er enghraifft rhai mathau o gynigion cyflogaeth a thai fforddiadwy ar safleoedd eithriadau. Mewn Pentrefi Bach Lleol defnyddir Ffiniau i ddangos yn glir lle gallai tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol fod yn addas, a lle gallai cyfleusterau cyflogaeth a chymunedol ddod ymlaen o fewn neu ger Ffin yr Anheddiad.

5.75 Mae Diweddariad 2008 o Gynllun Gofodol Cymru yn nodi pwysigrwydd lledaenu'r budd a'r twf o'r Ffocysau i'r cefnwledydd ehangach a'r cymunedau gwledig llai ac yn cydnabod bod angen cryfhau a chynnal pob cymuned a mynd i'r afael ag amddifadedd gwledig a threfol. Mae'n nodi ei bod yn bwysig bod twf tai hefyd yn ceisio ailfywhau a chynnal canolfannau a chymunedau llai. Mae Strategaeth Dai Leol Sir Benfro (2007 - 2012) yn nodi tai fforddiadwy a mwy hygyrch fel thema allweddol, yn enwedig

[60] Mae Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer tai fforddiadwy yn diffinio tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol.

mewn ardaloedd gwledig er mwyn helpu i gynnal cymunedau bregus.

5.76 Mae dull y Cynllun hwn yn dilyn arweiniad ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5 Tachwedd 2012) (paragraff 9.2.22) ac yn cydnabod y gallai darparu rhywfaint o dwf mewn cymunedau gwledig gynorthwyo i ddarparu galw digonol er mwyn cynnal cyfleusterau o fewn aneddiadau gwledig. Mae cyfeirio tai i aneddiadau sydd â darpariaeth gref o ran gwasanaethau hefyd yn lleihau'r angen i drigolion deithio. Mae'r hierarchaeth aneddiadau yn seiliedig ar y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau[61].

### Arberth

5.77 Mae Arberth yn dref farchnad ddeniadol yn nwyrain Sir Benfro sydd â darpariaeth fanwerthu arbenigol sy'n denu ymwelwyr o ddalgylch eang. Dylai datblygiadau yn Arberth gynnal nodweddion deniadol y profiad o fyw yn y dref ac o ymweld â hi. Bydd datblygiadau preswyl yn ystod cyfnod y Cynllun yn cynnwys amrywiaeth o wahanol fathau o dai. Mae Arberth yn cynnig cysylltiadau da i'r A40 ac felly mae dyraniad cyflogaeth wedi ei wneud ar hyd Heol Redstone. Mae anogaeth hefyd i ragor o gynigion i ddatblygu ac ehangu safleoedd cyflogaeth sydd o fewn Ffiniau Anheddiad y dref neu'n berthynol dda iddynt.

### Canolfannau Gwasanaethol

5.78 Mae pedwar anheddiad wedi'u nodi yn Ganolfannau Gwasanaethol yn yr hierarchaeth aneddiadau: Crymych, Johnston, Cilgeti a Threletert. Y weledigaeth ar gyfer Canolfannau Gwasanaethol yw eu bod yn cyfnerthu eu swyddogaethau fel lleoedd sy'n darparu amrywiaeth a dewis da o wasanaethau, sy'n hygyrch i'w poblogaeth eu hunain a chefnwlad wledig ehangach, ac yn lleihau'r angen i'r boblogaeth wledig deithio i drefi at ddibenion manwerthu, hamdden a chyflogaeth. Mae i'r pedair Canolfan Wasanaethol gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus rhagorol ac maent yn lleoliadau cynaliadwy ar gyfer datblygu yn Sir Benfro wledig. Mae dyraniadau tai, cyflogaeth neu ddefnydd cymysg a chyfleusterau cymunedol wedi'u nodi lle y mae hynny'n briodol ar gyfer Canolfannau Gwasanaethol.

### Pentrefi Gwasanaethol

5.79 Mae 44 o bentrefi wedi'u diffinio yn y categori hwn yn yr hierarchaeth aneddiadau. Mae pob un ohonynt yn cynnig darpariaeth dda o wasanaethau a chyfleusterau i ddiwallu anghenion bob dydd eu poblogaeth, ond mae iddynt swyddogaeth fwy cyfyngedig o ran y boblogaeth ehangach. Pan fo safleoedd priodol ar gael mae dyraniadau tai ar

[61] Gweler hefyd Nodyn Cyngor Technegol 6, adran 4 (Gorffennaf 2010)

gyfer tai'r farchnad a thai fforddiadwy wedi'u nodi mewn Pentrefi Gwasanaethol, ac mae'r union nifer ar gyfer pob pentref yn amrywio yn ôl eu lleoliad, y gwasanaethau a ddarperir a chapasiti i ymdopi â datblygiadau. Anogir cynigion i ddatblygu ac ehangu safleoedd cyflogaeth mewn Pentrefi Gwasanaethol, fel ffordd o leihau'r angen i bobl deithio pellteroedd hir i weithio mewn trefi.

### Pentrefi Lleol

5.80 Nid oes disgwyl i bentrefi sydd â darpariaeth fwy cyfyngedig o wasanaethau ymdopi â lefelau sylweddol o ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun. Caniateir rhai datblygiadau tai ar raddfa fach yn y pentrefi hyn o fewn ffiniau sydd wedi'u nodi. Ni chafodd dyraniadau tai eu nodi fan hyn. Nodir dau gategori o Bentrefi Lleol. Mae 16 Pentref Lleol Mawr sydd â mwy o nodweddion a phoblogaeth mwy. Yn y Pentrefi hyn caiff tai'r farchnad agored eu caniatáu, ond bydd Tai Fforddiadwy yn ofynnol ar bob datblygiad sydd â 2 uned neu fwy. Mae 56 Pentref Lleol Bach lle'r caniateir tai fforddiadwy anghenion lleol yn unig. Anogir cynigion i gynyddu'r ddarpariaeth o wasanaeth a chyfleoedd cyflogaeth yn y Pentrefi Lleol hyn, sydd o faint a natur addas.

**SP 16 Cefn Gwlad**

**Bydd gofynion hanfodol pobl sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad yn cael eu hateb gan warchod tirwedd ac amgylchedd naturiol ac adeiledig Sir Benfro a'r ardaloedd cyffiniol. Bydd datblygu sy'n effeithio cyn lleied ag y bo modd ar y dirwedd, ac sy'n ymwneud ag un o'r canlynol, yn cael ei hyrwyddo:**

1. **Mentrau sydd â lleoliad cefn gwlad yn hanfodol iddynt**
2. **Cyfleoedd i weithwyr mentrau gwledig gael eu hanheddu mewn llety addas sy'n cynorthwyo eu cyflogaeth[62]; ac**
3. **Ailddefnyddio adeiladau presennol priodol.**

Materion allweddol cysylltiedig: POB UN

*Bydd y Polisi Strategol hwn yn cyfrannu tuag at gyflawni Amcan(ion): A, C, D, E, G, I a J*

5.81 Ystyrir pob lleoliad y tu allan i Ffiniau Aneddiadau yn gefn gwlad. Yn gyffredinol, mae Polisïau Cynllunio cenedlaethol a lleol yn cyfyngu datblygiadau preswyl mewn ardaloedd a ddiffinnir i fod yng nghefn gwlad i rai sydd â'u cyflogaeth yn ei gwneud yn ofynnol iddynt fyw yn agos at eu gweithle yng nghefn gwlad. Caiff meini prawf ar gyfer cynigion o'r fath eu sefydlu gan bolisi cenedlaethol. Mewn rhai achosion caniateir addasu adeiladau traddodiadol neu hanesyddol yng nghefn gwlad

[62] Gweler hefyd Nodyn Cyngor Technegol 6, Adran 4 (Gorffennaf 2010)

at ddefnydd preswyl pan fo hynny'n golygu y cedwir ac y defnyddir adeilad a allai gael ei golli fel arall. Mae'n rhaid bod yn bosibl addasu'r adeilad at ddiben y defnydd newydd gan newid y nesaf peth i ddim o'r strwythur gwreiddiol. Gallai addasu adeiladau anhraddodiadol at ddiben defnydd cyflogaeth fod yn dderbyniol.

5.82 Bydd angen i gynigion datblygiadau busnes newydd yng nghefn gwlad ddangos bod lleoliad cefn gwlad yn hanfodol i'w busnes. Caiff busnesau presennol eu cefnogi drwy ganiatáu estyniadau pan fo hynny'n briodol. Pan fo angen gwneud gwaith datblygu er mwyn ateb gofynion hanfodol pobl sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad, mae'n bwysig y sicrheir y caiff unrhyw ddatblygiad cyn lleied o effaith weledol â phosibl.

5.83 Mae Polisi Cenedlaethol yn galluogi i Ddatblygiadau Un Blaned gael eu cynnal os ydynt yn ddi-garbon o ran eu hadeiladu a'u defnydd a bod iddynt ôl troed carbon o 2.4 hectar byd-eang i bob person neu lai o ran treuliant ac yn dangos potensial clir i symud tuag at 1.88 hectar byd-eang gydag amser.

5.84 Mae yn Sir Benfro a'i chyd-destun ehangach, amrywiaeth o amgylcheddau a thirweddau pwysig ac mae rhai ohonynt wedi'u dangos ar y Mapiau Cynigion fel ardaloedd natur dynodedig. Yn ychwanegol at yr amgylcheddau penodol a warchodir gan amrywiaeth o ddynodiadau, ceir nifer o dirweddau, coetiroedd, cloddiau, coed a rhywogaethau nad ydynt yn ddynodedig sydd i'w gweld ledled ardal y Cynllun ac sy'n cyfrannu tuag at sicrhau bod Sir Benfro yn lle arbennig. Mae rhai o'r rhywogaethau sydd i'w cael yn Sir Benfro o werth sylweddol i ecoleg yr ardal gan gynnwys rhywogaethau a warchodir gan Ewrop megis ystlumod, dyfrgwn, pathewod a gloÿnnod byw britheg y gors.

5.85 Mae amgylcheddau naturiol a hanesyddol nodedig Sir Benfro yn rhan o'r hyn sy'n denu niferoedd enfawr o ymwelwyr bob blwyddyn ac maent yn adnoddau gwerthfawr i'r Sir gyfan. Yn ogystal â bod yn amgylchedd gweithio, mae cefn gwlad yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd hamdden amrywiol i drigolion ac ymwelwyr. Ceisia'r Cynllun hwn warchod cefn gwlad a rheoli'r defnydd a wneir ohono er mwyn gallu darparu'r elfennau pwysig hyn.

5.86 Mae nifer o heriau ynghlwm wrth gynnal amgylchedd naturiol a hanesyddol cryf gan sicrhau y cyflawnir amcanion allweddol eraill yn y Cynllun, megis darparu tai neu adeiladu ar leoliad strategol y Sir ar gyfer datblygiadau yn ymwneud ag ynni neu borthladdoedd. Bydd Polisïau Cyffredinol ar ddatblygu yn sicrhau y caiff yr heriau hyn eu rheoli yn llwyddiannus.

# Pennod 6: Polisïau Cyffredinol



**GN.1 Polisi Datblygu Cyffredinol**

**Caniateir datblygu pe bodlonir y meini prawf canlynol:**

1. **Mae natur, lleoliad, safle a maint y datblygiad arfaethedig yn gydnaws â chapasiti a chymeriad y safle a'r ardal y mae wedi'i leoli ynddi;**
2. **Ni fyddai'n arwain at effaith andwyol sylweddol ar amwynder lleol o ran effaith weledol, colli golau neu breifatrwydd, aroglau, mwg, mygdarthau, llwch, ansawdd aer neu gynnydd mewn lefelau sŵn neu ddirgryndod;**
3. **Ni fyddai'n cael effaith andwyol ar gymeriad, ansawdd nac amrywiaeth y dirwedd, gan gynnwys priodweddau arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro[63] ac awdurdodau cyfagos;**
4. **Mae'n parchu ac yn gwarchod yr amgylchedd naturiol gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau a warchodir;**
5. **Byddai'n digwydd mewn lle hygyrch, byddai'n ymgorffori egwyddorion trafnidiaeth gynaliadwy a hygyrchedd ac ni fyddai'n arwain at effaith andwyol ar ddiogelwch ar y ffyrdd nac at lefel y traffig yn codi'n uwch na chapasiti'r rhwydwaith ffyrdd;**
6. **Gellir darparu'r seilwaith gwasanaeth[64], mynediad a pharcio sy'n angenrheidiol ac yn briodol;**
7. **Ni fyddai'n achosi nac yn arwain at niwed annerbyniol i iechyd a diogelwch;**
8. **Ni fyddai'n cael effaith andwyol sylweddol ar ansawdd dŵr; ac**
9. **Ni fyddai'n cyfrannu at gyfuno aneddiadau gwahanol nac yn creu na chyfnerthu datblygiad rhubanog.**

6.1 Diben y polisi hwn yw darparu fframwaith i werthuso effeithiau datblygiadau posibl. Defnyddir hwn ar y cyd â pholisïau eraill y Cynllun i benderfynu a yw'r datblygiad arfaethedig yn addas.

6.2 Bydd y polisi yn fecanwaith i sicrhau bod pob datblygiad yn addas ar gyfer y lleoliad cyfagos y bydd wedi'i leoli ynddo a'i sefyllfa/cyd-destun ehangach. Rhaid i gynigion barchu gallu aneddiadau unigol i ymdopi â thwf o ran maint a graddfa'r datblygiad, ac mewn perthynas â safle'r anheddiad yn yr hierarchaeth. Yng nghefn gwlad, rhaid i gynigion ddangos bod lleoliad o'r fath yn angenrheidiol i'r datblygiad a bod natur y cynnig yn briodol mewn ardal wledig. Rhaid i faint, natur a safle'r cynnig fod yn briodol i'r lleoliad arfaethedig ac ni ddylai danseilio cymeriad naill ai'r safle neu'r ardal leol.

---

[63] Yn unol ag adran 62(2) Deddf yr Amgylchedd 1995, fel y'i diwygiwyd.

[64] Mae seilwaith yn cynnwys cyflenwadau pŵer, dŵr, draenio a gwaredu dŵr budr a dŵr wyneb a thelegyfathrebu.

6.3 Caiff yr amwynder y mae pobl yn ei fwynhau yn eu cartrefi, gweithleoedd ac ardaloedd hamdden eu gwarchod rhag datblygiadau amhriodol a fyddai'n ei niweidio. Caiff amwynder ei ddiffinio fel yr elfennau hynny o olwg a chynllun anheddiad a chefn gwlad sy'n cynnig bywyd dymunol.

6.4 Caiff amgylchedd naturiol ac adeiledig Sir Benfro eu gwarchod rhag datblygiadau amhriodol, a'u gwella pan fo hynny'n bosibl. Mae amryw ddynodiadau, gan gynnwys dynodiadau natur, dynodiadau daearegol a geomorffolegol, Meysydd Trefi a Phentrefi, Tir Comin a Lletemau Glas[65], oll yn cyfrannu at warchod cymeriad mannau gwyrdd Sir Benfro a'u hamgylcheddau cylchynol. Hefyd, mae ardal y Cynllun yn cynnwys nifer o dirweddau swyddogaethol deniadol sy'n ddibynnol ar reoli'r tir yn dda ac arferion cadwraeth da ac mae iddi gydberthynas ffisegol a swyddogaethol agos â Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro sy'n gyfagos. Felly mae'n rhaid i unrhyw gynnig datblygiad ddangos ei fod yn parchu'r amgylchedd naturiol, cymeriad, cydlyniad a chyfanrwydd y dirwedd, rhywogaethau cynhenid, priddoedd, dŵr daear a dŵr wyneb. Anogir tirweddu a phlannu sensitif, ynghyd â chreu, cynnal a chadw a rheoli nodweddion y dirwedd sy'n bwysig i fywyd gwyllt. Pe byddai cynnig datblygiad yn arwain at golli nodwedd o'r dirwedd leol, rhaid iddo ddangos y byddai ei effaith gadarnhaol ar gymeriad nodedig cyffredinol yr ardal yn drech na hynny.

6.5 Gall coetiroedd, gorchudd coed a chloddiau, boed yn drefol neu'n wledig, hefyd gyfrannu at ansawdd ac amrywiaeth gweledol y dirwedd, ychwanegu at gyfleoedd hamdden ac addysgiadol a chynnig budd amgylcheddol sylweddol megis gwell cynefinoedd â blaenoriaeth a llefydd i fwydo neu ragor ohonynt, lloches, cysgod, dal carbon mwy effeithiol, gwella microhinsoddau ac ansawdd yr aer. Dylai cynigion datblygu ddefnyddio'r nodweddion naturiol sydd i'w cael ar y safle. Ar gyfer gwaith datblygu a fyddai'n effeithio ar goed, coetiroedd a/neu gloddiau, bydd angen cynnal arolwg coedyddiaeth a dylid ceisio eu cynnal a'u gwarchod yn ddigonol cyn y gwaith datblygu, yn ystod y gwaith datblygu ac wedi hynny. Dylai darpar ddatblygwyr Cynlluniau a allai effeithio ar Goetir Hynafol neu Led-Naturiol ymgynghori â'r Rhestr Coetir Hynafol[66] cyn aflonyddu ar safle. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ymgynghori â Chyngor Cefn Gwlad Cymru cyn awdurdodi datblygiadau ar safleoedd sy'n effeithio ar Goetir Hynafol neu Led-Naturiol. Mewn amgylchiadau eithriadol, pan fo'r angen am ddatblygiad yn drech na gwerth y bywyd gwyllt

[65] Gweler Polisi GN36 Lletemau Glas am ragor o fanylion
[66] Gweler gwefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru: http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-8VPJFD

a/neu'r gwerth amwynder, bydd yn rhaid cytuno ar safon dda o ddarpariaeth i'w gosod yn lle'r hyn a gollir cyn ei symud. Mae gan Sir Benfro set gyfan o haenau LANDMAP[67], sy'n gwerthuso'r dirwedd weledol a synhwyrol, y dirwedd ddiwylliannol, cynefinoedd y dirwedd, y dirwedd ddaearegol a'r dirwedd hanesyddol ac, ynghyd â pholisi Cynllunio cenedlaethol, anogir ymgeiswyr i ddefnyddio'r wybodaeth hon wrth wneud eu cynigion oherwydd caiff ei defnyddio wrth benderfynu ar waith datblygu[68].

6.6 Rhaid i ddatblygiadau fod o faint y byddai gan y rhwydwaith ffyrdd cyfagos y capasiti i'w gwasanaethu, heb niweidio'r rhwydwaith ffyrdd na nodweddion amgylcheddol y ffordd. Lle y bo'r angen, fe fydd datblygwyr yn ariannu gwelliannau priodol. Dylai pob datblygiad newydd fod yn hygyrch iawn ond mae'r modd y mae aneddiadau wedi'u dosbarthu yn golygu y bydd mynediad â char yn dal i fod yn bwysig mewn nifer o ardaloedd yn Sir Benfro. Mae i gerdded a beicio swyddogaeth bwysig, yn arbennig o fewn aneddiadau, er mwyn lleihau nifer y teithiau byr a wneir mewn car. Bydd gofyn i ddatblygwyr roi ystyriaeth ofalus i leoliad, dyluniad a threfniadau mynediad. Bydd gofyn cynnal Asesiadau Trafnidiaeth ar gyfer cynigion sy'n debygol o greu teithiau ychwanegol sylweddol, er mwyn dangos bod egwyddorion trafnidiaeth gynaliadwy a hygyrchedd wedi'u cynnwys yn rhan o'r datblygiad, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer parcio beiciau ac ardaloedd i fysiau 'ollwng teithwyr'.  Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol ar barcio yn rhoi cyngor ar lefelau priodol o ddarpariaeth ar gyfer amryw fathau o ddatblygiadau mewn gwahanol leoliadau yn dibynnu ar y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau.

6.7 Mae seilwaith gwasanaethau yn cynnwys parcio, cyflenwadau pŵer, dŵr, dulliau o waredu carthffosiaeth, gwaredu dŵr wyneb a thelegyfathrebu. Mewn rhai achosion gallai fod angen i ddatblygwr gyfrannu tuag at y gost o gynyddu'r seilwaith gwasanaethau pan fo yno brinder yn yr ardal.

---

[67] Gweler papur cefndir y CDLl 'Adroddiad Cryno ar LANDMAP' Ionawr 2009.
[68] Gweler y Polisïau ar yr Amgylchedd Naturiol, Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5, Tachwedd 2012) Penod 5 a Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) 5 a 10.

6.8 Lle y mae pryderon y byddai cynnig yn achosi niwed i iechyd a diogelwch drwy halogi, effaith andwyol ar ansawdd yr aer, ansefydlogrwydd tir, llifogydd neu erydu, ceisir cyngor proffesiynol gan yr awdurdod perthnasol. Lle y mae pryderon o'r fath yn ymwneud â llifogydd afonol neu arfordirol a / neu erydu, ystyrir y materion iechyd a diogelwch yng ngloeuni darpariaethau'r Cynllun Rheoli Traethlin priodol a / neu'r Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch. Mewn rhai achosion, gall problemau a ragwelir ar y safle neu oddi ar y safle beri i waith datblygu fod yn amhriodol; mewn achosion eraill, gall gwaith datblygu fod yn bosibl pe bai lliniaru ar gael, er mwyn gwneud y cynnig yn adlamol i'r problemau a nodwyd. Nid oes dyraniadau tai wedi eu dynodi yn y parthau llifogydd C1 neu C2 yn y Cynllun. Mae nifer fach o ddyraniadau eraill yn y parthau llifogydd C1 neu C2. Lle mae perygl o lifogydd afonol neu ddŵr wyneb i ddyraniadau, mae hyn wedi ei nodi o fewn y CCA Safleoedd Datblygu, gyda gofynion sy'n sefydlu lefel yr wybodaeth sydd i'w darparu wrth wneud y cais.

6.9 Penderfynir ar gynigion a wneir ym mharth diogelu gosodiad(au) presennol (yn cynnwys meysydd awyr) neu ar gyfer gosod(iadau) peryglus newydd yng ngoleuni cyfarwyddyd gan y mudiad(au) diogelu perthnasol ar oblygiadau iechyd a diogelwch y cynnig, gan gynnwys a yw'n cydweddu â defnydd tir cyfagos a gerllaw a'r goblygiadau ar lwybrau dynesu yn y cyffiniau. Bydd nodyn cynghorol ar wahân yn cael ei baratoi ar y gosodiadau peryglus sydd â pharthau diogelu a sut y mae modd cael rhagor o wybodaeth am y parthau hyn.

6.10 Mae rhan o'r gwaith o warchod nodweddion unigryw Sir Benfro, o ran tirwedd a diwylliant, yn golygu gwarchod natur unigryw ei haneddiadau. Felly ni chaiff cynigion a fyddai'n cyfrannu at gyfuno aneddiadau neu at ddatblygiad hirgul a fyddai'n ymledu i gefn gwlad eu caniatáu.

**GN.2 Dylunio Cynaliadwy**

**Caniateir datblygiad pe bodlonir y meini prawf perthnasol:**

1. **Mae ei ddyluniad o ansawdd uchel sy'n rhoi ystyriaeth ddigonol i nodweddion unigryw lleol ac yn cyfrannu'n gadarnhaol i'r cyd-destun lleol;**
2. **Mae'n briodol i'r cymeriad a'r cyd-destun tirlun/treflun lleol o ran Cynllun, maint, ffurf, safle, crynswth, uchder, dwysedd, cymysgedd, manylion, deunyddiau a ddefnyddir, tirlunio a threfniadau/Cynllun mynediad;**
3. **Mae'n ymgorffori dyluniad sy'n effeithlon o ran adnoddau ac sy'n ymateb i'r hinsawdd drwy leoliad, cyfeiriadedd, dwysedd, Cynllun, defnydd tir, deunyddiau, cadwraeth dŵr a defnyddio systemau draenio a dulliau rheoli gwastraff cynaliadwy;**
4. **Mae'n sicrhau dyluniad hyblyg ac addasadwy;**
5. **Mae'n creu amgylchedd cynhwysol a hygyrch i ddefnyddwyr sy'n mynd i'r afael â diogelwch cymunedol;**
6. **Mae'n darparu tir y cyhoedd o ansawdd uchel sydd yn integreiddio'n dda â strydoedd a gofodau cyfagos, ac**
7. **Mae'n cyfrannu at ddarparu gofod awyr sydd wedi'i ddylunio'n dda ac sydd â chysylltiadau da â strydoedd, gofodau a seilwaith gwyrdd eraill cyfagos.**

6.11 Mae sicrhau datblygiadau cynaliadwy yn rhan allweddol o'r system Gynllunio yng Nghymru. Fel rhan o'r agenda datblygu cynaliadwy gyffredinol ar gyfer Cymru ac ar gyfer Sir Benfro, mae'r polisi hwn yn ceisio sicrhau rhagor o adeiladau a lleoedd cynaliadwy drwy wneud yn siŵr y caiff pob datblygiad newydd eu dylunio a'u hadeiladu gan gyrraedd pob maen prawf polisi priodol gan wneud hynny â lefel isel o oblygiadau cynnal a chadw. Yn ogystal â bod o bwysigrwydd sylweddol i bob adeiladau newydd, caiff meini prawf y polisi hefyd eu cymhwyso ar gyfer addasiadau ac estyniadau i adeiladau presennol. Ar gyfer ceisiadau ar raddfa fach, bydd ystyriaethau meini prawf y polisi yn gyfrannol i'r math o ddatblygiad sy'n arfaethedig.

6.12 Mae dyluniad da yn ddibynnol ar gynigion yn codi o ddealltwriaeth o'r safle a'i gyd-destun, yn hytrach na dibynnu ar ddefnyddio Cynlluniau safleoedd safonol a mathau o adeiladau yn ddiddychymyg. Ceisia'r polisi hwn godi'r safonau dylunio ar gyfer pob datblygiad newydd ledled y Sir er mwyn creu adeiladau a gofodau deniadol ac ymarferol ac er mwyn gwella ardaloedd sydd wedi'u dylunio a'u Cynllunio yn wael.

6.13 Mae amgylchedd naturiol ac adeiledig Sir Benfro yn cyfrannu'n sylweddol i ansawdd bywyd trigolion yr ardal a'r rhai sy'n ymweld â'r ardal. Mae Cynllun Gofodol Cymru[69] yn ceisio dadwneud y duedd i Gymru droi yn unffurf gyda mathau safonol o adeiladau yn aml yn methu ag adlewyrchu dulliau adeiladu lleol traddodiadol, drwy hybu nodweddion nodedig lleol. Ceir gwahanol nodweddion dylunio mewn gwahanol ardaloedd yn y Sir felly mae'n bwysig bod datblygwyr yn mabwysiadu dull o weithredu a arweinir gan ddylunio sy'n sicrhau bod pob datblygiad newydd yn ymateb yn gadarnhaol i nodweddion y safle a'r hyn sydd o'i amgylch. Ceisia'r polisi hwn sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cyfrannu'n gadarnhaol i gymeriad a nodweddion nodedig lleol yr amgylchedd adeiledig a naturiol a'r cymunedau yn Sir Benfro. Pan nad oes nodweddion lleol cryf yn bodoli, yna bydd dyluniad da, cyfoes, cynaliadwy yn briodol.

6.14 Er bod creu lle yn golygu sicrhau bod ardal yn cynnal ei chymeriad unigryw, nid yw'r egwyddor hon yn groes i ddylunio da a chyfoes. Fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5, Tachwedd 2012)[70], mae 'dylunio' yn mynd y tu hwnt i ystyriaethau esthetig traddodiadol ac mae'n ymwneud â'r berthynas rhwng pob elfen o'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. Mae'r polisi hwn yn hybu dull o weithredu mwy ystyriol o ran dylunio adeiladau yn Sir Benfro yn hytrach na defnyddio datrysiad dylunio unffurf i bob ardal ac mae'n annog defnyddio agweddau priodol ar draddodiadau a nodweddion dylunio lleol i greu adeiladau cyfoes.

6.15 Mae newid hinsawdd yn her amgylcheddol hirdymor ac mae'r angen i leihau allyriadau a defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon yn hanfodol. Disgwylir i ddatblygiadau newydd gydymffurfio â safonau adeiladu cynaliadwy cenedlaethol cydnabyddedig y Cod Cartrefi Cynaliadwy a/neu Ddull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM). Nodir y rhain mewn polisi Cynllunio cenedlaethol[71]. Bydd gofyn i ddatblygwyr fynd i'r afael â dyluniad sy'n effeithlon o ran ynni ac sy'n ymateb i'r hinsawdd ar gam cynnar yn y broses ddylunio drwy ddwyseddau a phatrymau datblygu cynaliadwy a thrwy ymgorffori dyluniad adeilad cynaliadwy. Dylid ystyried lleoliad, Cynllun, cyfeiriadedd, dwysedd, defnydd tir, defnyddiau, technegau adeiladu, tirweddu, cadwraeth dŵr a defnyddio systemau draenio cynaliadwy (SDCau) a dulliau cynaliadwy o reoli gwastraff a, lle y bo'n briodol, defnyddio deunyddiau adeiladu wedi'u hailgylchu, gan gynnwys agregau eilaidd.

---

[69] Pobl, Lleoedd, Dyfodol: Cynllun Gofodol Cymru, Llywodraeth Cymru 2008.
[70] Pennod 4.11.1.
[71] Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5, 2012) Adran 4.12 Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy

6.16 Bydd angen i ddyluniadau gynnwys ymatebion i effaith debygol newid hinsawdd, o ran cynnydd yn y tymheredd drwy ddefnyddio dulliau cysgodi, oeri ac awyru naturiol, a goblygiadau stormydd a llifogydd. Dylid dylunio adeiladau a seilwaith cysylltiedig i fod yn hyblyg nid yn unig o ran newid hinsawdd ond hefyd er mwyn gallu ymdopi ag amrywiaeth o ddefnyddiau ac anghenion newidiol drwy eu hoes.

6.17 Dylid ystyried bod tir y cyhoedd yn elfen ganolog o'r broses ddylunio. Dylai cynigion datblygiadau gael eu dylunio, eu hadeiladu a'u cynnal i greu tir y cyhoedd o ansawdd dda sy'n hygyrch ac yn fywiog ac sy'n perthyn yn dda i strydoedd a gofodau cyfagos. Dylai cynigion integreiddio i rwydweithiau symud presennol, gan wneud y mwyaf o gysylltedd, a chynnig synnwyr o ddilyniant a lle caeedig er mwyn ategu'r broses o greu strydoedd a gofodau sy'n nodedig ac yn eglur yn lleol.

6.18 Dylai'r egwyddor o ddyluniad cynhwysol gael ei chymhwyso ar gyfer pob datblygiad newydd er mwyn creu amgylcheddau hygyrch i bob defnyddiwr sy'n annog pobl i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Dylai cynigion gynorthwyo strydoedd a gofodau i fod yn lleoedd amlswyddogaethol gan roi blaenoriaeth i gerddwyr, yn ôl cyngor y 'Llawlyfr Strydoedd'[72].

6.19 Bydd gofyn i ddatblygwyr wella diogelwch cymunedol drwy ddyluniadau datblygiadau newydd drwy gyflwyno mesurau diogelwch priodol a galluogi cymunedau i feithrin synnwyr o berchnogaeth a chyfrifoldeb dros ofod lleol. Yn ei dro, bydd hyn yn sicrhau bod cymunedau yn lleoedd mwy dymunol i fyw a gweithio ynddynt.

6.20 Caiff Canllawiau Cynllunio Atodol eu paratoi ar ddylunio.

[72] 'Llawlyfr Strydoedd' (DfT/CLG, 2007)

GN.3 Seilwaith a Datblygiadau Newydd

Os yw datblygiad yn arwain at angen uniongyrchol berthynol am seilwaith, gwasanaethau neu gyfleusterau cymunedol newydd neu well ac nid yw hyn eisoes wedi ei raglennu gan gwmni seilwaith neu wasanaeth, rhaid i hyn gael ei ariannu gan y datblygiad, a rhaid iddynt:

1. fod yn berthynol o ran maint a math i'r datblygiad; a
2. chael eu darparu ar y safle pan fo hynny'n briodol. Dan amgylchiadau eithriadol, gellir gwneud cyfraniadau tuag at ddarparu cyfleusterau mewn mannau eraill, cyhyd ag y gall eu lleoliad wasanaethu'r datblygiad yn ddigonol. Sicrheir y caiff seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol sy'n uniongyrchol berthynol eu darparu'n amserol drwy amod(au) Cynllunio, drwy geisio rhwymedigaeth(au) Cynllunio drwy drafod, a/neu drwy unrhyw gytundeb neu weithred arall.

Bydd hyfywedd datblygiad yn ystyriaeth o bwys wrth sicrhau ymrwymiadau Cynllunio ac efallai y caniateir goddefeb lle nad oes modd i werthoedd tir gynnal y gofynion hyn.

Bydd angen mesurau angenrheidol yn y lle cyntaf i gyflawni datblygiad mewn gwirionedd a sicrhau ei fod yn dderbyniol o ran Cynllunio. Lle mae'n briodol gellir ceisio cyfraniadau ar gyfer ystod o bwrpasau, yn cynnwys:

1) Tai fforddiadwy
2) Mannau Agored Adloniant ac Amwynder
3) Cyfleusterau Trafnidiaeth Cynaliadwy
4) Addysg
5) Cyfleusterau Cymunedol, yn cynnwys llyfrgelloedd,
6) Adfywio
7) Gwastraff
8) Ynni adnewyddadwy a charbon isel
9) Bioamrywiaeth

Pe digwyddai bod ystyriaethau ynghylch ymarferoldeb yn dangos nad oes modd gofyn yn rhesymol am bob un o'r cyfraniadau a ddynodwyd, yna penderfynir cyfraniadau blaenoriaeth ar sail amgylchiadau unigol pob achos. Gyda datblygu tai, rhoddir blaenoriaeth i dai fforddiadwy oni bai fod angen llethol dyrannu'r cyfraniad sydd ar gael, yn gyfan neu ran ohono, i ryw ddiben arall / dibenion eraill priodol.

6.21 Mae datblygiadau newydd yn gosod pwysau ychwanegol ar seilwaith a gwasanaethau ac felly bydd disgwyl iddynt gyfrannu[73] tuag at seilwaith cymdeithasol, diwylliannol a ffisegol. Mae darparu cyfleusterau digonol ac effeithlon, gan gynnwys gwasanaethau megis cyflenwad dŵr; draenio dŵr wyneb a dŵr budr; mesurau rheoli gwastraff; mesurau cynhyrchu a dosbarthu pŵer; telegyfathrebu, trafnidiaeth gyhoeddus, mannau agored a chyfleusterau cymunedol; yn helpu i sicrhau datblygu cynaliadwy yn ardal y Cynllun.

6.22 Mae hefyd yn bwysig y gwneir darpariaeth i liniaru effeithiau andwyol posibl y gallai datblygiad newydd ei gael ar fioamrywiaeth a threftadaeth ddiwylliannol. Gallai effeithiau andwyol gynnwys, er enghraifft, mwy o erydu, pwysau ar gynefinoedd a rhywogaethau, newidiadau i gymeriad y dirwedd, lleihau'r dreftadaeth ddiwylliannol neu fywiogrwydd ieithyddol, ymyrraeth sŵn, ansawdd aer a thagfeydd.

6.23 Os bydd angen, bydd gofyn i ddatblygiadau gyfrannu tuag at seilwaith, gwelliannau i'r dirwedd a mesurau lliniaru, drwy amodau Cynllunio[74], ymrywmaid unochrog neu Ardoll Seilwaith Cymunedol[75] fel sy'n briodol. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn asesu ei sefyllfa mewn perthynas â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol a bydd yn ystyried a fydd yn cyflwyno Rhaglen Godi Tâl ar gyfer prosiectau mwy. Byddai Rhaglen o'r fath yn gweithredu'r un pryd â pharhau i ddefnyddio ymrwymiadau Cynllunio ar gyfer seilwaith ar raddfa fach a sicrhau y darperir tai fforddiadwy. Gallai gofynion cyfraniadau gynnwys tai fforddiadwy, trafnidiaeth, seilwaith ffisegol, Cynlluniau lliniaru llifogydd, Systemau Draenio Cynaliadwy[76] (SDCau), Cynlluniau ynni, darpariaeth addysg, llyfrgelloedd, diogelwch cymunedol, creu neu wella'r rhwydwaith hamdden, cyfleusterau cymunedol a chadwraeth bioamrywiaeth / natur.

6.24 Mae manylion gofynion unrhyw gyfraniadau o'r fath (gan gynnwys blaenoriaethau) wedi'u nodi yn y Canllawiau Cynllunio Atodol er mwyn galluogi datblygwyr arfaethedig i roi ystyriaeth i'r costau angenrheidiol yng nghyllid eu datblygiad ar gam cynnar.

---

[73] Ffisegol a/neu ariannol

[74] Mae rhwymedigaethau cynllunio, a elwir weithiau yn "Gytundebau Adran 106" yn gytundebau cyfreithiol rhwymol rhwng awdurdod cynllunio lleol a datblygwr.

[75] Deddf Cynllunio 2008 (Cymal 11), Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010

[76] Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, 2010

6.25 Mae'r polisi hwn yn caniatáu adleoli seilwaith critigol, megis ffyrdd, is-orsafoedd trydan, gorsafoedd pwmpio a chyfleusterau trin dŵr gwastraff, yn eithriad, lle effeithir yn andwyol arno gan lifogydd afonol neu arfordirol a / neu erydu neu nodir ei fod mewn sefyllfa fregus dros ben yn y Cynllun perthnasol.

**GN.4 Effeithlonrwydd Adnoddau a Chynigion Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel**

**Dylai cynigion datblygu ceisio lleihau cymaint â phosibl ar y galw am adnoddau, gwella effeithlonrwydd adnoddau a cheisio pŵer a gynhyrchir gan adnoddau adnewyddadwy, lle bo hynny'n briodol. Bydd disgwyl iddynt fod wedi eu Cynllunio'n dda o ran defnyddio ynni[77 78].**

**Cefnogir datblygiadau sy'n galluogi i gyflenwi ynni adnewyddadwy drwy ddatrysiadau sy'n dderbyniol yn amgylcheddol.**

6.26 Mae effeithlonrwydd adnoddau cyffredinol o ran ynni, gwres a dŵr yn elfen bwysig o ddylunio da. Mae manteision enfawr i leihau cymaint â phosibl ar y galw am adnoddau, gan gynnwys helpu i gyrraedd targedau'r DU o ran mynd i'r afael â newid hinsawdd, lleihau'r pwysau ar adnoddau lleol megis cronfeydd dŵr a lleihau costau rhedeg hirdymor i ddeiliaid cartrefi unigol.

6.27 Mae'r DU wedi cytuno i Gyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy'r UE sy'n cynnwys targed i'r DU o 10% (2010) gan godi i 15% (2020) o ynni yn dod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020. Mae Deddf Cynllunio ac Ynni 2008 yn galluogi Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru i osod gofynion rhesymol yn y Cynllun hwn i "gynhyrchu ynni o ffynonellau adnewyddadwy lleol ac ynni carbon isel, ac ar gyfer effeithlonrwydd ynni"[79]. Mae gwaith a wnaed ar ran Llywodraeth Cymru[80] wedi dangos y potensial sydd i ynni adnewyddadwy gyfrannu tuag at anghenion ynni datblygiadau mawr yn Sir Benfro.

---

[77] Gweler Polisi Cynllunio Cymru (PCC), adran 4.12 a Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 22 (TAN22) – Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy

[78] Mae ymgynghori wedi bod ynglŷn â diwygiadau arfaethedig i Ran L o'r Rheoliadau Cynllunio. O'u cytuno, canlyniad y newidiadau hyn fyddai bod llawer o faterion sy'n ymwneud â safonau gwella ynni /di-garbon / carbon isel yn dod yn faterion i'w hystyried o dan y Rheoliadau Adeiladu. Er mwyn ceisio peidio â gwneud yr un peth eilwaith, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cael gwared yn rhannol ac yn raddol â'r polisi adeiladau cynaliadwy sydd ar hyn o bryd yn TAN22 a diwygiadau cysylltiedig i CCC.

[79] Nodyn Cyngor Technegol 22 Llywodraeth Cymru

[80] Ymchwil a wnaed gan Aecom ar ran Llywodraeth Cymru – Pecyn Cymorth Ynni Adnewyddadwy, astudiaeth beilot, Sir Benfro 2009/10 (2010)

6.28 Mae gan Sir Benfro botensial sylweddol i ddarparu rhagor o ynni o bob ffynhonnell adnewyddadwy, gan adeiladu ar ei swyddogaeth bresennol fel canolfan ynni. Mae Sir Benfro wedi'i lleoli y tu allan i'r Ardaloedd Chwilio Strategol[81]. Ceisia'r polisi hwn annog rhagor o ddefnydd o ffynonellau adnewyddadwy i gynhyrchu ynni, a fydd o gymorth i gyrraedd targedau'r Llywodraeth o ran cynhyrchu pŵer o ffynonellau adnewyddadwy.

6.29 Ceir technolegau ynni adnewyddadwy o amryw feintiau, o dechnoleg microgynhyrchu i dechnoleg ar raddfa fawr. Ceir hefyd amrywiaeth o wahanol dechnolegau, ac mae cyfleusterau oddi ar yr arfordir yn ddibynnol ar safleoedd seilwaith glanio. Mae'r rhain yn cynnwys:

a) Cynhyrchu pŵer o fiomas
b) Pŵer dŵr
c) Cynhyrchu pŵer o nwyon tirlenwi
ch) Cynhyrchu pŵer o wastraff trefol a diwydiannol
d) Gwresogi dŵr drwy ynni solar a systemau ffotofoltäig, ynghyd â dylunio solar goddefol
dd) Cynhyrchu pŵer o nwy carthffosiaeth
e) Ynni'r llanw ac ynni ffrwd llanw
f) Ynni'r tonnau
ff) Ynni gwynt ar y môr
g) Ynni gwynt ar y tir
ng) Amryw dechnolegau microgynhyrchu, gan gynnwys micro-dyrbinau, a phŵer solar ar raddfa fach, ynghyd ag inswleiddio ac ailgylchu dŵr glaw
h) Ffynonellau daear (a gyrchir gan ddefnyddio pympiau gwres)

6.30 Nid oes yn rhaid i'r safleoedd ar gyfer y cynigion hyn, o anghenraid, fod yn uniongyrchol gysylltiedig â chynigion datblygiadau newydd, ond yn aml bydd gofyn i gynlluniau mawr sicrhau cyswllt ymarferol rhwng ffynhonnell y pŵer a defnyddiwr y cynnyrch terfynol a/neu'r Grid Cenedlaethol. Gall aneddiadau neu ddatblygiadau cyflogaeth mwy ddarparu angor gwres ar gyfer cynigion o'r fath.

6.31 Mae effaith ar y tirwedd, yn unigol ac yn gyfunol, yn ystyriaeth berthnasol wrth werthuso cynigion yn ymwneud â ynni adnewyddadwy, a gellir defnyddio LANDMAP sy'n declun dadansoddi defnyddiol.

6.32 Bydd disgwyl i gynigion datblygu ddangos bod defnyddio ynni wedi ei ystyried wrth gynllunio. Mae hwn yn fater a reolir ar hyn o bryd trwy'r polisi Cynllunio, ond gallai rheoleiddio symud i Ran L o'r Rheoliadau Adeiladu yn ystod cyfnod y Cynllun.

[81] Wedi'u nodi yn Niweddariad 2010 o Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5, Tachwedd 2012) a Nodyn Cyngor Technegol 8

6.33 Mae datblygiadau ynni adnewyddadwy oddi ar yr arfordir fel arfer y tu allan i awdurdod y system gynllunio, ond gallai fod ar ddatblygiadau o'r fath angen safle glanio ar gyfer seilwaith ynni. Mae'r polisi hwn yn ategu polisi a chanllawiau'r Llywodraeth[82] gan ddarparu sail bellach i benderfynu ar gynigion ynni adnewyddadwy a charbon isel. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol Safleoedd Datblygu yn cynnwys gwybodaeth am ddyraniadau y gwelir y byddai modd iddynt ailddefnyddio gwres a phŵer, er enghraifft trwy Rwydweithiau Gwresogi Ardal[83].

6.34 Ar gyfer Safleoedd Datblygu Mawr, bydd disgwyl i gynigion ystyried y modd y gellid ailddefnyddio gwres a phŵer gwastraff mewn, er enghraifft, Rhwydweithiau Gwresogi Ardal yn unol â chasgliad y Papur Cefndirol E8 "Astudiaeth Ynni Adnewyddadwy".

**GN.5 Dyraniadau Cyflogaeth**

**Mae'r safleoedd canlynol wedi'u neilltuo at ddefnydd cyflogaeth:**

| Safle Cyflogaeth | Enw Safle | Arwynebedd (ha) | Defnyddio Derbyniol |
|---|---|---|---|
| EMP/040/00003 | Estyniad i Hufenfa Pont Fadlen | 5.13 | B1, B2, B8 |
| EMP/040/00005 | Y Llwyn Helyg i'r Gogledd o'r Parc Busnes | 6.09 | B1, B2, B8 |
| EMP/040/00004 and /040/00009 | Y Llwyn Helyg i'r Dwyrain o'r Parc Busnes | 15.38 | B1, B2, B8 |
| EMP/086/00001 | Estyniad Gogleddol Parc Busnes Haven Head, Aberdaugleddau | 3.82 | B1, B8 |
| EMP/086/LDP/01 | Ger Ffordd Marble Hall, Aberdaugleddau | 6.86 | B1, B8 |
| EMP/086/LDP/02 | Safle Storio Nwy Aberdaugleddau | 0.68 | B1, B8 |
| EMP/093/00001 | I'r gogledd o Ystad Ddiwydiannol Honeyborough | 8.55 | B1, B8 |
| EMP/034/LDP/01 | Wdig – Hen Ffatri Dewhirst | 0.99 | B1, B8 |
| EMP/034/LDP/02 | Wdig - Y Parrog | 0.6 | B1, B8 |
| EMP/030/00001 | Crymych - ger Riverlea / gyferbyn â Llygad-yr-Haul | 5.2 | B1, B8 |
| EMP/034/00006 | Parc Busnes Celtic Link, ger | 13.47 | B1, B2, B8 |
| EMP/132/00001 | A4115, Tredeml | 2.88 | B1, B8 |
| EMP/053/00001 | Old Station Yard, Treletert | 1.23 | B1, B8 |
| EMP/000/LDP/01 | Maes Awyr Caeriw | 5.6 | B1, B8 |
| EMP/088/LDP/01 | Estyniad i Barc Menter Rushacre | 1.32 | B1, B8 |

**Y dulliau defnyddio penodedig yw'r rhai a ganiateir ar y safleoedd rhestredig. Lle bo'n briodol, gellid hefyd caniatáu mathau eraill o ddefnyddio ar gyfer cyflogi neu ddefnyddiau cydnaws unigryw (neu gyfuniadau o ddulliau o ddefnyddio fel hyn).**

[82] adrannau 12.8 a 12.9 Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5, Tachwedd 2012) a Nodyn Cyngor Technegol 8 ar Ynni Adnewyddadwy (2005)
[83] Gweler Astudiaeth Ynni Adnewyddadwy'r CDLl, paragraffau 5.9 a 5.10

6.35 Mae'r dyraniadau tir cyflogaeth yn ategu'r safleoedd cyflogaeth presennol, ac mae'r rhai mwyaf sylweddol wedi'u rhestri yn y Canllawiau Cynllunio Atodol – Safleoedd Datblygu ynghyd â rhagor o wybodaeth am safleoedd datblygu a ddyrennir. Gyda'i gilydd, bydd datblygu safleoedd newydd a gwneud newidiadau i safleoedd presennol yn sicrhau y bydd cyflenwad parhaol o dir cyflogaeth addas ar gael ledled ardal y Cynllun, gan ddarparu dewis a hyblygrwydd, er mwyn ateb gofynion adran 7.5 a'r cyflwyniad i Ffigwr 7.1 o Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5, Tachwedd 2012).



**GN.6 Cynigion Cyflogaeth**

**Caniateir cynigion cyflogaeth (B1, B2 a B8) ar dir heb ei neilltuo:**

1. **Ar safleoedd oddi mewn i Ffiniau Anheddiad;**
2. **Ar safleoedd â chysylltiad da â Ffiniau Anheddiad os nad oes safleoedd oddi mewn i ffin yr un anheddiad ar gyfer y datblygiad;**
3. **Mewn mannau yng nghefn gwlad, dim ond os nad oes safleoedd addas eraill yn bodoli a bod y fenter yn gofyn lleoliad o'r fath; ac ym mhob achos ar yr amod nad oes modd rhesymol i'r datblygiad arfaethedig fod ar unrhyw safle dynodedig.**

6.36 Mae'r polisi hwn yn rhoi cymorth i'r economi, drwy gynnig cyfle i gynigion cyflogaeth newydd gael eu datblygu ar dir sydd heb ei ddyrannu sydd oddi mewn i anheddiad neu'n berthynol dda iddo a hefyd mewn lleoliadau yng nghefn gwlad pan fo lleoliad o'r fath wedi'i gyfiawnhau gan natur y cynnig. Rhoddir diffiniad o'r hyn a ystyrir yn berthynol dda yn yr Eirfa.

6.37 Mae'r polisi hwn o gymorth penodol o ran cefnogi cynigion datblygu gwledig[84]. Mae'n ofynnol cynnal prawf dilyniannol i sicrhau nad oes safle cyflogaeth presennol na safle cyflogaeth sydd wedi'i ddyrannu y gellir eu defnyddio yn rhesymol.

**GN.7 Dyraniadau Defnydd Cymysg**

**Mae'r safleoedd canlynol wedi'u neilltuo ar gyfer datblygiadau defnydd cymysg, a fydd yn cynnwys cyfran sylweddol o'r datblygiad hwnnw ar gyfer cyflogaeth:**

| Safle Defnydd Cymysg | Enw Safle | Arwynebedd (ha) |
|---|---|---|
| MXU/040/01 | Hwlffordd - Hen Ffordd Hakin | 1.31 |
| MXU/048/01 | Johnston - Arnold's Yard | 5.47 |
| MXU/086/01 | Ffordd Dale, Hubberston | 4.64 |

6.38 Gallai datblygiad defnydd cymysg gyfuno cyflogaeth a defnyddiau cydnaws eraill (fel cyfleusterau preswyl, hamdden a chymunedol) ar yr un safle. Gallai gynnwys unedau byw-gweithio, ond gallai yn hytrach, neu hefyd, gynnwys cymysgedd o wahanol ddefnydd tir ar un safle unigol. Mae dwy ran i ddiben y polisi hwn – yn gyntaf, trwy ddarparu amrywiaeth o ddefnyddiau, bydd yn hyrwyddo cymunedau cynaliadwy a ffyniannus lle gall pobl ymgymryd â mwy nag un gweithgaredd ar un safle, fel byw, gweithio a hamdden. Yn ail, gallai sbarduno buddsoddiad mewn datblygu cyflogaeth ar y cyd â datblygu tai preswyl a mathau eraill o ddatblygu ar y safle. Bydd dyraniadau'r polisi hwn hefyd yn cyfrannu tuag at gyflenwi tir cyflogaeth addas ledled ardal y Cynllun, gan gynorthwyo i ateb

[84] Gweler hefyd Nodyn Cyngor Technegol 6, paragraff 3.1.3

gofynion adran 7.5 a'r cyflwyniad i Ffigwr 7.1 o Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5, Tachwedd 2012).

6.39 Er mwyn sicrhau bod cynigion ar bob safle defnydd cymysg yn cynnwys cyfran o ddefnyddiau cyflogaeth, bydd Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn cael eu paratoi ar gyfer pob safle, gan ystyried materion ymarferoldeb a chynnig hefyd cymysgedd dangosol o ddefnyddiau er mwyn cynnig gwybodaeth ar gyfer cyflwyno unrhyw gais Cynllunio wedi hynny. Byddai ymgynghori lleol yn digwydd ynglŷn â'r CCA yn digwydd yn y modd arferol.

6.40 Lle bynnag y daw ceisiadau ymlaen ar safleoedd defnydd cymysg cyn mabwysiadu'r CCA bydd rhaid i'r cynigion ddangos y bydd y Cynllun yn darparu tir cyflogaeth sylweddol oni bai fod ystyriaethau ynglŷn ag ymarferoldeb economaidd yn cyfiawnhau llai o ddarpariaeth. Defnyddir amodau Cynllunio neu ymrwymiadau cyfreithiol i sicrhau bod Cynlluniau a ddefnyddir o dan y polisi hwn yn darparu'r elfen o ddatblygu economaidd a ragwelir. Lle bynnag y mae defnyddio ar gyfer cyflogaeth ar safleoedd defnydd cymysg (yn cynnwys y rhai mewn uned byw a gweithio) wedi eu cynnig ar gyfer eu newid i ddiben arall, bydd rhaid cyflawni gofynion polisi GN.8.

6.41 Ystyrir cynigion aml-ddefnydd ar safleoedd sydd heb eu dyrannu yn erbyn y Polisïau Cyffredinol perthnasol sy'n gynwysedig o fewn y Cynllun ar gyfer cyduno'r defnyddiau a gynigir. Mae'r Cyngor yn cefnogi cynigion aml-ddefnydd, unedau gwaith-byw a gweithio cartref lle mae'r lleoliad a gynigir yn briodol ar gyfer cyfuniad hwnnw o ddefnydd. Bydd gofyn i ymgeiswyr arddangos cydymffurfiaeth â phob polisi perthnasol, er enghraifft, ystyrir cynigion aml-ddefnydd sy'n cynnwys elfen o ddefnydd preswyl yn addas dim ond mewn lleoliadau a ystyrir yn addas ar gyfer defnydd preswyl. Mae'r Cyngor yn adnabod fod adeiladau cyflogaeth ar raddfa fechan yn gallu cydfodoli yn aml o fewn neu'n agos i ddatblygiad preswyl a bod cyd-leoli fel hyn mewn sawl achos yn dod a manteision cynaliadwy, cyhyd â bod yn mynd i'r afael â materion fel amwynder yn digwydd.

**GN.8 Diogelu Safleoedd ac Adeiladau Cyflogaeth**

**Ni chaniateir cynigion i ailddatblygu, neu ddefnyddio, safleoedd neu adeiladau busnes, diwydiannol cyffredinol, storio neu ddosbarthu at ddibenion eraill oni fodlonir un o'r meini prawf canlynol:**

1. **Mae'r defnydd presennol yn amhriodol i'r ardal leol**
2. **Mae darpariaeth amgen ddigonol o dir cyflogaeth yn y cyffiniau neu**
3. **Mae defnydd parhaus o'r safle neu'r adeilad yn dangos nad yw'n ddichonadwy.**

6.42 Diben y polisi hwn yw sicrhau na chaiff safleoedd presennol a ddefnyddir at ddibenion cyflogaeth (Dosbarthiadau Defnydd B1, B2 a B8) eu colli i ddefnyddiau eraill oni bai bod cyfiawnhad clir dros dderbyn defnydd gwahanol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod cyflenwad digonol o safleoedd cyflogaeth yn parhau ar gael yn ardal y Cynllun. Dim ond os bodlonir un o feini prawf y polisi y caniateir colli safle o'r fath.

6.43 Mae safleoedd cyflogaeth dyranedig a'r safleoedd cyflogaeth presennol wedi'u diogelu'n benodol rhag newidiadau o'r fath i'w defnydd, ac mae'r polisi hwn yn darparu diogelwch tebyg i safleoedd sydd heb eu dyrannu, ond gydag elfen o hyblygrwydd drwy feini prawf y polisi.

6.44 Er mwyn dangos bod defnydd presennol yn amhriodol i ardal leol, dylai datblygwr ddarparu tystiolaeth o ran ei natur, maint ac effaith ar y rhwydwaith ffyrdd lleol neu ar amwynder lleol.

6.45 Mewn perthynas â maen prawf 2, rhaid dangos bod darpariaeth amgen ddigonol ar gael yn y cyffiniau.

6.46 Dylai tystiolaeth o ddiffyg hyfywedd gynnwys tystiolaeth o ddiffyg elw ariannol (cyfrifon wedi'u cyhoeddi, er enghraifft) a thystiolaeth o fethu gwerthu / rhentu'r safle. Er mwyn dangos nad yw safle yn hyfyw i'w werthu neu'i osod, bydd disgwyl i'r datblygwr ddangos ei fod wedi marchnata'r safle ar bris priodol, mewn lleoliadau ac am gyfnod o amser sy'n briodol i lefel arbenigedd eiddo o'r fath a chyflwr cyffredinol y farchnad. Darperir rhagor o gyngor (mewn Nodyn Polisi Rheoli Datblygu) ar ofynion marchnata, yn cynnwys hyd yr amser ar y farchnad.

6.47 Gwrthwynebir colli safle cyflogaeth pe byddai hyn yn cael effaith andwyol ar swyddogaeth yr anheddiad yn yr hierarchaeth.

6.48 Os credir bod newid defnydd o gyflogaeth i dai yn dderbyniol, bydd yr anheddau a ychwanegir at stoc o ganlyniad yn cael eu cyfrif yn ddatblygiad ar hap (gweler Atodiad 3).

**GN.9 Estyniadau i Safleoedd Cyflogaeth**

**Caniateir cynigion i arallgyfeirio neu ddwysáu defnyddiau cyflogaeth a/neu eu hestyn i dir cyfagos pan fo maint a natur y datblygiad gwreiddiol ynghyd â'r estyniad yn gydnaws â'r lleoliad.**

6.49 Bydd y polisi hwn yn hybu economi Sir Benfro drwy hwyluso twf busnesau mewn achosion priodol.

**GN.10 Arallgyfeirio ar Fferm**

**Caniateir arallgyfeirio'r amrywiaeth o weithgarwch economaidd ar fferm pe bodlonir y meini prawf canlynol:**

1. **Mae'r defnydd arfaethedig yn helpu i gynnal gwaith amaethyddol parhaus y fferm;**
2. **Os yw adeilad newydd wedi'i gyfiawnhau[85], dylai gael ei leoli mewn grŵp o adeiladau presennol neu gerllaw ac**
3. **Os yw'r cynnig yn cynnwys defnydd manwerthu, ni fydd y maint na'r cwmpas yn niweidio bywiogrwydd na hyfywedd cyfleusterau manwerthu mewn unrhyw anheddiad gerllaw nac yn tanseilio'r hierarchaeth fanwerthu.**

6.50 Mae'n bwysig cynnal gweithgarwch economaidd mewn cymunedau gwledig wrth warchod cymeriad y dirwedd. Ceisia'r polisi hwn ddarparu ar gyfer arallgyfeirio ar fferm fel modd o gynnal hyfywedd ffermio yn Sir Benfro yn yr hirdymor. Gallai fod ar rai Cynlluniau angen adeiladau newydd a bydd ar eraill angen datblygu yng nghefn gwlad. Er hyn, mae gweithgarwch o'r fath yn debygol o gael llai o effaith ar ardal os gall gael ei gynnal mewn adeiladau presennol, a gorau i gyd os yw yn agos at ddaliadau fferm. Os yw hynny'n briodol, gosodir amod Cynllunio, neu sicrheir rhwymedigaeth gynllunio drwy gytundeb, i sicrhau bod y datblygiad yn parhau yn rhan o'r uned amaethyddol. Bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i effeithiau ar gymeriad yr ardal, ar amwynder trigolion neu ar gyfleusterau manwerthu ar raddfa fach gerllaw ar sail maint, natur a gweithrediad y datblygiad a sŵn y traffig a gynhyrchir gan y datblygiad. O ran siopau fferm, gallai amodau Cynllunio gael eu gosod i gyfyngu ar amrywiaeth a tharddle'r nwyddau y gellir eu gwerthu o'r safle ac er mwyn sicrhau bod yr arwynebedd llawr manwerthu net yn briodol.

[85] gweler Nodyn Cyngor Technegol 6 Llywodraeth Cymru: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy, Gorffennaf 2010, adran 3.7.

6.51 Mae polisi Cynllunio'r llywodraeth yn cynghori bod arallgyfeirio ar fferm yn gynnig arallgyfeirio economaidd ar fferm weithredol sy'n amodol ar reolaeth gynllunio. Fferm weithredol yw un sy'n ymwneud â hwsmonaeth tir neu anifeiliaid fel modd o ennill incwm. Mae cynigion arallgyfeirio ar fferm yn debygol o fod ar raddfa fach ac yn cynnig incwm ategol gan helpu i gynnal hyfywedd y fferm honno. Pan gaiff cynnig i arallgyfeirio ar fferm ei gynnig rhaid i'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth ychwanegol i gyfiawnhau'r cynnig. Disgwylir esboniad cryno o rai o'r canlynol neu bob un ohonynt: hanes y fferm, yr angen am adeiladau newydd a pham nad yw'r rhai presennol yn addas, y berthynas rhwng y gweithgarwch ffermio a'r gwaith arallgyfeirio arfaethedig neu unrhyw anghenion o ran ehangu yn y tymor hirach.

6.52 Bydd maint y datblygiad hefyd yn ystyriaeth allweddol wrth benderfynu a yw'r cynigion yn gydnaws â'r ardal leol, a chaiff y rhai y penderfynir eu bod yn amhriodol ar gyfer lleoliad yng nghefn gwlad eu cyfeirio at safleoedd cyflogaeth y darperir ar eu cyfer yn y Cynllun. Os bydd tystiolaeth yn dangos nad yw fferm bellach yn fferm weithredol neu y byddai'r cynnig i arallgyfeirio yn golygu na fyddai'r busnes bellach yn fferm weithredol, caiff y cynnig ei ystyried yn erbyn Polisïau cyflogaeth eraill y Cynllun a pholisïau addasu'r Cynllun fel sy'n briodol[86].



[86] Gweler hefyd GN12 Addasu neu Newid Defnydd Adeiladau Amaethyddol, Llywodraeth Cymru: Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad: Creu Dyfodol Cadarn, Mai 2009; Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5, Tachwedd 2012), Nodyn Cyngor Technegol 6, Adran 3 (Gorffennaf 2010), Nodyn Cyngor Technegol 18, Trafnidiaeth (Mawrth 2007)

**GN.11 Addasu neu Newid Defnydd Adeiladau Amaethyddol**

**Caniateir adnewyddu, addasu neu newid defnydd adeiladau amaethyddol y tu allan i unrhyw Ffin Anheddiad ar gyfer defnydd cyflogaeth, llety hunanddarpar neu ddefnydd preswyl, cyhyd ag y bodlonir y meini prawf canlynol:**

**Parthed gweithgarwch yn ymwneud â chyflogaeth (ac eithrio llety gwyliau):**

1. **Gall yr adeilad, yn ffisegol, ymdopi â'r defnydd newydd ac unrhyw ofynion cysylltiedig heb waith adnewyddu nac ymestyn helaeth;**
2. **Gellir darparu storfa y tu allan, gwasanaethau newydd, gwaith mynediad, ffensys, waliau neu strwythurau eraill sy'n gysylltiedig â defnydd yr adeilad a'i gwrtil, heb niweidio tirwedd y safle;**

**Parthed defnydd preswyl, llety gwyliau neu unedau byw-gweithio:**

1. **Mae'r adeilad yn draddodiadol ei natur a'i gymeriad;**
2. **Gall yr adeilad, yn ffisegol, ymdopi â'r defnydd newydd ac unrhyw ofynion cysylltiedig heb waith adnewyddu, ehangu nac ailadeiladu helaeth;**
3. **Gwneir cyn lleied â phosibl o unrhyw waith addasu sydd ei angen, gellir gwneud y gwaith heb effeithio'n andwyol ar gymeriad yr adeilad na'i safle, a defnyddir deunyddiau sy'n cyd-fynd ac/neu yn gydnaws;**
4. **Gellir darparu storfa y tu allan, gwasanaethau newydd, gwaith mynediad, ffensys, waliau neu strwythurau eraill sy'n gysylltiedig â defnydd yr adeilad a'i gwrtil, heb niweidio tirwedd y safle na chymeriad yr adeilad.**

6.53 Mae Sir Benfro yn Sir wledig ac felly ceir nifer o adeiladau traddodiadol y tu allan i'r prif aneddiadau y mae eu cymeriad a'u diwyg yn cyfrannu'n sylweddol at dirwedd, hanes a naws am le unigryw'r Sir. Mae'r polisi hwn felly yn galluogi ailddefnyddio adeiladau amaethyddol mewn amgylchiadau priodol ac mae'n gwahaniaethu rhwng achosion pan allai adeiladau amaethyddol presennol gael eu haddasu at ddefnydd cyflogaeth, a phan allai fod yn dderbyniol i addasu adeiladau mwy traddodiadol at ddefnydd preswyl neu lety gwyliau neu unedau byw-gweithio[87].

6.54 Dylai ceisiadau i addasu (newid defnydd ac ymaddasu) osgoi cyflwyno neu ddwysáu defnyddiau a fyddai'n andwyol i amwynder ardal. Rhaid i gynigion i ailddefnyddio cyfadeilad neu adeilad unigol sydd â chyfanswm arwynebedd llawr mawr ymdrin â'r cyfadeilad yn gyfan ac nid ceisio datblygu yn dameidiog. Bydd effaith y datblygiad ar fywiogrwydd a hyfywedd aneddiadau cyfagos hefyd yn ystyriaeth berthnasol[88].

---

[87] Gweler Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5, Tachwedd 2012), paragraff 7.6.5 a Nodyn Cyngor Technegol 6 (Gorffennaf 2010)
[88] Gweler hefyd Nodyn Cyngor Technegol 6, para 3.2 (Gorffennaf 2010)

6.55 Bydd amgylchiadau pan na ellir addasu adeilad am ei fod yn rhy fach i'r defnydd arfaethedig. Yn yr un modd, mae'n bosibl na fydd addasu yn bosibl oherwydd y bydd y defnydd ei hun neu'r addasiadau/estyniadau sydd eu hangen ar gyfer y defnydd hwnnw yn effeithio'n andwyol ar gymeriad yr adeilad. Yn yr achosion hyn, ni roddir caniatâd Cynllunio. Mewn rhai achosion, gellir sicrhau y caiff yr adeilad ei ailddefnyddio heb niweidio ei gymeriad ond dim ond drwy beidio â chaniatáu i du allan yr adeilad gael ei newid na'i estyn. Yn aml mewn achosion o'r fath caiff hawliau datblygu a ganiateir eu diddymu fel amod caniatâd, er mwyn gwarchod yr adeilad.

6.56 Wrth ystyried addasu adeilad amaethyddol at ddefnydd preswyl neu unedau byw-gweithio, rhaid i'r adeilad fod yn draddodiadol ei gymeriad ac o faint domestig, yn gadarn ei strwythur, wedi'i adeiladu'n barhaol a sylweddol a gellir ei addasu heb waith ailadeiladu sylweddol na'i ailadeiladu yn gyfan gwbl[89]. Dyma ddiffiniad o adeiladau amaethyddol traddodiadol:

- Rhai a adeiladwyd o ddeunyddiau a gynhyrchwyd yn lleol ac a ddefnyddiwyd ers amser hir yn yr ardal, (fel arfer mae hyn yn cyfeirio at waliau wedi'u gwisgo â cherrig lleol neu ddull adeiladu clom);
- Rhai sy'n adlewyrchu defnydd gwreiddiol yr adeilad yn gyffredinol (mewn nifer o achosion o'r fath bydd y dyluniad yn ategu'r diben gwreiddiol); a
- Rhai sydd i raddau helaeth yn eu ffurf wreiddiol (er y gellir ystyried adeiladau lle y rhoddwyd to llechi neu fetel rhychiog yn ddiweddarach yn lle to gwellt gwreiddiol yn rhai traddodiadol). Bydd adeiladau o'r fath yn gyffredinol o oed sylweddol, a phrin iawn fydd yr achosion lle y mae adeilad sy'n iau na chant oed yn gweddu i'r diffiniad.

6.57 Mae amgylchiadau pan fyddai defnyddio adeilad wedi ei addasu i fyw ynddo drwy'r amser yn amhriodol oherwydd y byddai'n cynnig amodau byw gyda safonau is o ran diffyg preifatrwydd neu amwynder. Yn y sefyllfaoedd hyn gellid defnyddio amodau meddiannaeth gwyliau, a fyddai'n cyfyngau ar yr amser y gallai un tyaid aros mewn uned a'r amser y gallent ddychwelyd.

---

[89] Gweler hefyd Nodyn Cyngor Technegol 6, para 3.5 a 3.6 (Gorffennaf 2010)

**GN.12 Datblygu Canol Trefi**

**Oddi mewn i'r Canol Trefi a nodir ar y Map Cynigion, caniateir datblygu pe bodlonir y meini prawf canlynol:**

1. **Y mae'n gorwedd o fewn dosbarthiadau defnydd A1, A2, A3, B1, C1, C2, C3, D1 neu D2 y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd neu o ddefnydd sui generis a welir gan amlaf mewn canolfannau siopa, neu unrhyw ddefnydd cymysg yn cynnwys un neu ragor o'r dosbarthiadau defnyddio hyn;**
2. **Nid yw'r cynnig yn creu crynodiad o ragor na thraean o ddefnyddiau ar wahân i A1 (manwerthu) yn gyfagos i'w gilydd mewn Ffryntiad Cynradd fel y diffinnir ar y Map Cynigion;**
3. **Nid yw'r datblygiad arfaethedig yn tanseilio nac yn rhwystro datblygu dyraniad manwerthu sydd wedi'i nodi yng Nghanol y Dref, a**
4. **Nid yw'n cynnig newid defnydd i ddefnydd preswyl (C3) ar lawr gwaelod mewn Ffryntiad Cynradd neu Eilradd.**

6.58 Mae ffiniau Canol Tref wedi'u nodi ar y mapiau cynigion ar gyfer pob Canol Tref a nodwyd gan y Polisïau Strategol (Hwlffordd, Doc Penfro, Aberdaugleddau, Penfro, Abergwaun ac Arberth). Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5, Tachwedd 2012)[90] yr ardaloedd hyn yw'r lleoliadau mwyaf addas ar gyfer datblygiadau manwerthu, masnachol a hamdden newydd gan fod eisoes ynddynt grynodiadau cryf o'r defnyddiau hyn ac maent wedi'u lleoli yn agos at gysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy.

6.59 Oddi mewn i Ganol y Trefi, mae Ffryntiadau Cynradd wedi'u nodi lle y ceir y grwpiau cryfaf o ddefnyddiau manwerthu (A1) ac mae Ffryntiadau Eilradd wedi'u nodi mewn ardaloedd sydd â chymysgedd ehangach o ddefnyddiau[91]. Mae'n bwysig bod defnyddiau A1 yn parhau yn fwyaf cyffredin mewn ardaloedd Ffryntiad Cynradd gan eu bod yn allweddol i gynnal bywiogrwydd a hyfywedd y canol trefi hyn. Fel canllaw ni ddylai rhagor na 30% o ffryntiad llinellol o fewn Ffryntiad Cynradd fod o ddefnydd ar wahân i ddosbarth defnydd A1. Mewn Ffryntiadau Eilaidd yn y ganolfan siopa, bydd newid defnydd i ddefnyddiau ar wahân i A1 yn dderbyniol ar yr amod na chynigir newid defnydd y llawr gwaelod i ddefnydd preswyl.

6.60 Yn y rhan fwyaf o achosion ni fydd addasu i ddefnydd preswyl yn briodol ar lawr gwaelod. Dyma'r achos yn benodol mewn Ffryntiadau Cynradd ac Eilaidd. Diben hyn yw cynnal y potensial ar gyfer defnyddiau manwerthu, hamdden a masnachol ar lefel llawr gwaelod o fewn Canol Trefi a gwarchod eu bywiogrwydd.

6.61 Mae dyraniadau manwerthu wedi'u nodi o fewn i rai Canol Trefi[92]; gyda rhagdybiaeth o blaid eu hailddatblygu ar gyfer defnydd manwerthu. Mae GN.13'Dyraniadau Manwerthu' yn rhestru'r safleoedd dyranedig unigol.

[90] Paragraff 10.1.2
[91] Papur Cefndir ar Fanwerthu: Prif Drefi 2008
[92] Astudiaeth Capasiti Manwerthu Ehangach Sir Benfro 2010

**GN.13 Dyraniadau Manwerthu**

**Mae'r safleoedd canlynol wedi'u dyrannu ar gyfer datblygiadau manwerthu:**

| ID Manwerthu | Enw Safle | Defnydd | Arwynebedd ha) |
|---|---|---|---|
| RT/040/01 | Safle Fred Rees, Hwlffordd | Unedau cymharu | 0.31 |
| RT/096/01 | Canolfan Sant Gofan, Doc Penfro | Cymysgwch o unedau cymharu ac unedau cyfleustra | 0.23 |
| RT/034/01 | Safle'r Hen Ysgol Gynradd, Abergwaun | Cyfleustra - siop fwyd | 1.34 |
| RT/088/01 | Safle'r Hen Ysgol Gynradd, Arberth | Cymysgwch o unedau cymharu ac unedau cyfleustra | 0.41 |
| RT/050/01 | Dyraniad siop fwyd Kingsmoor, Cilgeti | Cyfleustra - siop fwyd | 2.86 |

6.62 Bydd dyluniad tra theilwng sy'n cydweddu'n gadarnhaol â datblygiadau presennol yn ddisgwyliedig ar y safleoedd hyn. Mae potensial ar gyfer datblygiad preswyl ar lawr cyntaf Canolfan Sant Gofan ac ar safle Hen Ysgol Gynradd Arberth. Dylid dylunio'r holl ddatblygiadau gan wneud y mwyaf o gysylltiadau â threfluniau presennol a rhai arfaethedig, er enghraifft, mae cyfle wrth ddatblygu Canolfan Sant Gofan i adeiladu ar y cysylltiadau presennol â Chanol y Dref a datblygu cysylltiadau newydd â'r marina arfaethedig.

6.63 Gwnaed y dyraniadau yn unol â chanllawiau polisi Cynllunio cenedlaethol, yn dilyn asesiad anghenion[93].




[93] Gweler Astudiaeth Capasiti Manwerthu Sir Gyfan Sir Benfro 2010.

**GN.14 Datblygiadau Mawr y Tu Allan i Ganol y Dref**

**Ni chaniateir cynigion datblygiadau mawr y tu allan i ffiniau Canol Trefi oni fodlonir y canlynol:**

1. **Ni fydd y datblygiad yn tanseilio'r hierarchaeth fanwerthu a nodir yn y Polisïau Strategol; ac**
2. **Ni fydd y datblygiad ar ei ben ei hun, neu mewn cyfuniad â datblygiadau manwerthu eraill a ganiatawyd neu ddyranedig, yn tanseilio bywiogrwydd a hyfywedd unrhyw un o'r Canol Trefi neu Ganolfannau Manwerthu Lleol.**

6.64 Ystyrir bod cynnig manwerthu mawr yn golygu unrhyw gynnig sydd ag arwynebedd llawr sy'n fwy na 500 metr sgwâr. Byddai unrhyw gynnig i gael arwynebedd llawr ychwanegol a fyddai'n golygu bod cyfanswm siop unigol yn fwy na 500 metr sgwâr hefyd yn cael ei asesu o dan y polisi hwn. Caiff cynigion ar gyfer siopau sy'n llai na'r maint hwn ac a gaiff eu hanelu at wasanaethu anghenion cymdogaethau sy'n uniongyrchol gyfagos eu hasesu o dan GN.15 Manwerthu ar Raddfa Fach.

6.65 Mae polisi cenedlaethol yn sefydlu bod rhaid cyflwyno asesiad effaith manwerthu ar gyfer datblygiadau manwerthu sy'n fwy na 2,500 metr sgwâr o arwynebedd llawr gros[94]. Yn achos Sir Benfro, lle y mae i nifer o'r Canolfannau ddarpariaethau manwerthu bach, gall datblygiad ar raddfa lai gael effaith sylweddol ar fywiogrwydd a hyfywedd canol trefi a chanolfannau lleol presennol. Yn sgil hyn, yn gyffredinol bydd gofyn cynnal asesiad effaith manwerthu ar gyfer datblygiadau sy'n fwy na 500 metr sgwâr net. Mewn rhai achosion, gallai fod angen datganiad effaith manwerthu ar unedau llai lle yr ystyrir y gallai'r datblygiad, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â datblygiadau eraill, niweidio Canolfannau cyfagos. Mae dangosyddion y dylid eu cynnwys mewn asesiad effaith manwerthu wedi'u sefydlu gan bolisi cenedlaethol.

6.66 Mae polisi cenedlaethol yn sefydlu'r dull o gymhwyso'r prawf anghenion a'r prawf dilyniannol ar gyfer datblygiad manwerthu[95].

[94] Nodyn Cyngor Technegol 4: Manwerthu a Chanol Trefi (1996)
[95] Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5, Tachwedd 2012)

**GN.15 Manwerthu ar Raddfa Fach**

**Caniateir datblygu, neu ymestyn, cyfleusterau manwerthu ar raddfa fach pe bodlonir y canlynol:**

1. **Mae'r cyfleuster oddi mewn i Ffin Anheddiad ; ac**
2. **Ni fydd y defnydd arfaethedig yn effeithio'n negyddol ar fywiogrwydd a hyfywedd unrhyw Ganol Tref neu Ganolfan Manwerthu Leol.**

6.67 Mae'r polisi hwn yn gymwys ar gyfer cynigion sydd ag arwynebedd llawr yn llai na 500 metr sgwâr. Gall darpariaeth o'r fath fod yn ychwanegiad gwerthfawr i gymunedau lleol o fewn trefi mwy ac mewn aneddiadau llai neu wledig a gall gynyddu cynaliadwyedd cymunedau drwy leihau'r angen i deithio[96].

6.68 Bydd effaith bosibl y datblygiad ar fywiogrwydd a hyfywedd unrhyw Ganol Tref neu Ganolfan Manwerthu Leol yn ystyriaeth bwysig wrth asesu unrhyw gynnig. Ni chefnogir unrhyw gynnig a fyddai'n tanseilio'r hierarchaeth fanwerthu sydd wedi'i gosod yn y Polisïau Strategol.

6.69 Caiff cynigion sy'n fwy na'r maint hwn eu hasesu o GN.14 Datblygiadau Mawr y Tu Allan i Ganol y Dref a'r Profion Polisi Cynllunio Cenedlaethol a sefydlwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5, Tachwedd 2012). Caiff cynigion i newid defnydd a fyddai'n arwain at golli darpariaeth manwerthu eu hasesu yn unol â pholisi cenedlaethol[97] a Pholisi GN.33 Cyfleusterau Cymunedol.

**GN.16 Atyniadau Ymwelwyr a Chyfleusterau Hamdden**

**A. Caiff cynigion newydd ar gyfer atyniadau ymwelwyr a chyfleusterau adloniant a hamdden masnachol eu caniatáu pe bodlonir y ddau faen prawf canlynol:**

1. **Mae'r safle wedi'i leoli'n dda mewn perthynas â ffyrdd dosbarth A neu B a/neu orsafoedd rheilffordd neu fysiau ac**
2. **Mae'r safle mewn anheddiad neu'n ffinio'n union ag anheddiad, oni bai bod ar y cynnig angen lleoliad yng nghefn gwlad ac os felly rhaid darparu tystiolaeth i ategu hynny.**

**B. Caniateir ehangu arwynebedd, neu ddwysáu, y cyfleuster i ymwelwyr, adloniant masnachol neu hamdden lle byddai maint a natur y cyfleuster a'r estyniad arfaethedig yn gydnaws â'i leoliad.**

6.70 Mae Strategaeth Twristiaeth Sir Benfro yn canolbwyntio ar bwysigrwydd sicrhau darpariaeth o ansawdd sydd ar agor drwy gydol y flwyddyn gyda chynaliadwyedd yn elfen ganolog. Yn unol â'r Polisi Strategol ar yr Economi

---

[96] Papur Cefndir Canolfannau Manwerthu Lleol (2009)
[97] Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5, Tachwedd 2012) paragraff 10.3.9

Ymwelwyr, bydd disgwyl i gynigion ddangos eu bod yn adeiladu ar nodweddion nodedig yr ardal leol drwy'r hyn y maent yn cyflwyno.

6.71 Ceisia'r polisi hwn gefnogi atyniadau ymwelwyr a chyfleusterau hamdden newydd sydd wedi'u lleoli'n dda i wasanaethau trigolion ac ymwelwyr. Dylid lleoli atyniadau i ymwelwyr a chyfleusterau hamdden, lle bo hynny'n ymarferol, ar dir sydd eisoes wedi ei ddatblygu.

**GN.17 Llety Hunanddarpar a Llety â Gwasanaeth**

**Caniateir cynigion ar gyfer llety hunanddarpar, llety â gwasanaeth neu westy ac eithrio llety mewn carafán pe bodlonir:**

**A Ar gyfer datblygiadau newydd un ai**

1. **Mae'r cynnig wedi'i leoli mewn Tref, Canolfan Wasanaethau neu Bentref Gwasanaethol, neu'n berthynol dda i un ohonynt;**

**neu**

2. **Mae'r cynnig yn ymwneud ag addasu adeilad presennol, adeilad hanesyddol neu adeilad amaethyddol traddodiadol.**

**B Ar gyfer estyniadau:**

**Byddai graddfa a natur y llety, yn cynnwys yr estyniad, yn gydnaws â'i leoliad.**

6.72 Mae llety hunanarlwyo a gyda gwasanaethau yn cynnwys llety nad yw mewn carafán. Mae llety hunanddarpar yn cynnwys unrhyw adeilad y mae ei osod yn uned wyliau annibynnol yn brif ddiben iddo. Mae datblygiadau â gwasanaeth yn golygu llety lle y darperir elfen o wasanaeth, megis busnesau gwely a brecwast a gwestai.

6.73 Gall datblygiad hunanddarpar neu â gwasanaeth fod yn briodol naill ai pan mae o fewn anheddiad neu'n berthynol dda i anheddiad neu pan mae'n defnyddio annedd bresennol. Mae'r cyfiawnhad rhesymedig dros GN.26 Datblygiadau Preswyl yn gosod yr amgylchiadau pan fyddai addasu adeiladau hanesyddol yn dderbyniol at ddefnydd preswyl. Gallai adeiladau amaethyddol traddodiadol, o'u haddasu, hefyd fod yn briodol ar gyfer datblygiad hunanddarpar neu â gwasanaeth. Mae GN.11 Addasu neu Newid Defnydd Adeiladau Amaethyddol yn gosod meini prawf ar gyfer addasu neu newid defnydd adeiladau amaethyddol.

6.74 Pan fo hynny'n bosibl, anogir cynigion i ddefnyddio adeiladau presennol. Mae GN.1 Polisi Datblygu Cyffredinol yn ceisio sicrhau bod datblygiad o faint priodol i'r safle a'r ardal y mae wedi'i leoli ynddynt. Mae'r ystyriaeth hon o bwysigrwydd penodol wrth ystyried cynigion ar gyfer yr economi ymwelwyr.

6.75 Cynigion llety hunanddarpar, llety â gwasanaeth neu westy newydd y mathau hynny o lety nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd ar safle'r cais, tra ystyrir estyniadau yn estyniadau ar y defnydd presennol o fewn yr un math o lety.

6.76 Caiff amodau Cynlluniau eu gosod pan fo hynny'n briodol i sicrhau bod cyfleusterau yn parhau yn unedau llety gwyliau ac na chânt eu defnyddio fel llety parhaol nac fel prif breswylfa. Yn y sefyllfaoedd hyn gellid defnyddio amodau meddiannaeth gwyliau, a fyddai'n cyfyngau ar yr amser y gallai un tyaid aros mewn uned a'r amser y gallent ddychwelyd.

**GN.18 Safleoedd Carafanau Teithio a Phebyll**

**A. Canitateir safleoedd carafanau a phebyll teithiol os ydynt y tu allan i ardaloedd Cynghorau Cymunedol Llanrhath, St Florence, East Williamston, Penalun, Saundersfoot a Llanfair Dinbych-y-pysgod ac ar yr amod bodun ai:**

**1. Mae'r safle o fewn neu wedi ei gysylltu'n dda ag anheddiad wedi ei ddynodi yn yr hierachiaeth yn Dref, Canolfan Wasanaeth neu Bentref Gwasanaeth; neu**

**2. Mae'r safle o fewn neu wedi ei gysylltu'n dda â Phentref Lleol a bydd yn cynnig cyfleuster i'r gymuned nad yw'n bresennol yn yr anheddiad presennol;**

**B. Caniateir ychwanegu at faint safle carafanau teithiol neu bebyll yn llwyddo i wella'r amgylchedd yn gyffredinol ac amlwg o ran y safle a'i leoliad yn y dirwedd o'i amgylch;**

**C. Caniateir cynnydd yn nifer lleiniau carafanau teithiol neu bebyll lle mae'r safle y tu allan i ardaloedd Cynghorau Cymuned Llanrhath, St Florence, Dwyrain Williamston, Penalun, Saundersfoot a Llanfair Dinbych-y- pysgod, a byddai'n cyflawni gwelliant amgylcheddol cyffredinol dangosadwy ar gyfer y safle a'i leoliad yn y dirwedd o'i amgylch.**

6.77 Dylai'r hyn a gynigir o ran twristiaeth yn Sir Benfro fod yn ddarpariaeth gynaliadwy o ansawdd uchel, sy'n rhoi i ymwelwyr brofiad rhagorol ac sy'n gwneud y mwyaf o'r

buddion y mae twristiaeth yn ei greu ar gyfer cymunedau lleol gan sicrhau bod yr effeithiau posibl ar y dirwedd ac effeithiau posibl eraill ar yr amgylchedd cyn lleied â phosibl.

6.78 Mae'n rhaid i unrhyw safleoedd newydd i garafanau teithiol neu bebyll fod o fewn neu wedi eu cysylltu'n dda ag anheddiad sydd wedi ei ddynodi yn yr hierarchaeth yn Bentref Gwasanaeth, yn Ganolfan Wasanaeth neu'n Dref er mwyn cyflawni'r amcanion hyn. Bydd hyn yn sicrhau y gall ymwelwyr fanteisio'n hawdd ar y gwasanaethau a'r cyfleusterau hynny sydd ar gael mewn aneddiadau cyfagos, er enghraifft cerdded i dafarndai neu fwytai cyfagos. Rhoddir diffiniad o berthynol dda yn yr eirfa. Rhaid i unrhyw safle arfaethedig fod o fewn neu yn ffisegol agos i anheddiad a'i ystyried yn rhan o'r un dirwedd â'r anheddiad. Caniateir safleoedd newydd os ydynt o fewn neu yn berthynol dda i anheddiad sydd wedi'i nodi yn Bentref Lleol yn yr hierarchaeth, pan gynigir tystiolaeth y bydd y safle yn darparu gwasanaeth neu gyfleuster megis siop nad yw ar gael fel arall yn yr anheddiad ac a fydd ar gael ac yn hygyrch i'r gymuned leol ei ddefnyddio. Mewn achosion o'r fath bydd amodau Cynllunio, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfleuster fod ar agor i'r cyhoedd, ynghlwm wrth y caniatadau.

6.79 Mae osgoi gorddatblygu'r economi ymwelwyr yn hanfodol i sicrhau ei bod yn parhau'n llwyddiannus. Mae gwybodaeth arolwg[98] yn dangos bod pwysau ar safleoedd carafanau teithio a phebyll yn ne-ddwyrain Sir Benfro, y tu allan i'r Parc Cenedlaethol, lle y mae 20 o 48 safle teithio a 50% o'r holl leiniau teithio a ganiateir wedi'u lleoli yn yr wyth Cyngor Cymuned a enwir. Er mwyn cynnal ansawdd y ddarpariaeth dwristiaeth a'r dirwedd gyd-destunol yn yr ardal hon ac er mwyn annog y sector twristiaeth i wasgaru ledled Sir Benfro, byddai safleoedd ychwanegol neu estyniadau i safleoedd o fewn y Cynghorau Cymuned a enwir yn amhriodol.

6.80 Caiff cynigion ar gyfer mathau o lety dros dro megis iwrts neu dipis eu hystyried o dan y polisi hwn. Caiff amodau eu gosod i sicrhau bod lleiniau teithio a phebyll yn cael eu cynnal ar gyfer llety gwyliau ac nad ydynt yn troi yn nodweddion parhaol yn y dirwedd.

6.81 Mae'n rhaid i unrhyw safleoedd i garafanau teithiol neu bebyll fod wedi eu cysylltu'n dda ag anheddiad sydd wedi ei nodi yn yr hierarchaeth yn Bentref Gwasanaeth, yn Ganolfan Wasanaeth neu'n Dref er mwyn cyflawni'r amcanion hyn. Mae nifer o safleoedd presennol yn Sir Benfro eisoes yn cynnig darpariaeth o ansawdd uchel ac yn gweithredu i'w capasiti.

[98] Papur Cefndir: Safleoedd Carafanau Sefydlog a Theithio a Gwersylla 2010

Mae'n aml yn fwy dymunol ehangu'r safleoedd hyn na datblygu safleoedd newydd er mwyn ateb y galw.

6.82 Lle bynnag y mae cynigion yn ymwneud â chynnydd yn niferoedd lleiniau neu'n ceisio newid lleiniau pebyll yn lleiniau unedau (teithiol a phebyll) bydd yr Awdurdod fel arfer yn disgwyl i o leiaf un rhan o dair o nifer gyfan y lleiniau barhau i fod ar gyfer pebyll yn unig. Mae hyn er mwyn sicrhau bod Sir Benfro yn parhau i ddarparu amrywiaeth o fathau o lety ar gyfer ymwelwyr.

6.83 Mae'r polisi hwn yn gymwys ar gyfer y safleoedd hynny sydd â chaniatâd Cynllunio a rhai sydd â Thystysgrif Cyfreithlondeb Defnydd sy'n Bodoli neu Dystysgrif Defnydd Sefydledig. Nid yw safleoedd 'rheol 28 diwrnod' neu safleoedd a weithredir gan 'safydliadau eithriedig' yn rhan o gwmpas y polisi hwn. Ym mhob achos perthnasol mae'n ofynnol bod:

a) amod sy'n atal deiliadaeth drwy'r flwyddyn yn rhan o unrhyw ganiatâd a roddir ac
b) ni ddefnyddir tir ychwanegol o dan y rheol 28 diwrnod ar gyfer lleiniau pebyll. Caiff hyn ei sicrhau naill ai drwy gytundeb cyfreithiol neu rwymedigaeth Cynllunio.

**GN.19 Safleoedd Carafanau Sefydlog**

**A. Caniateir cynigion am safleoedd newydd ar gyfer carafanau sefydlog a chabannau neu estyniadau trwy gynnydd yn nifer y lleiniau lle bynnag lle:**

**1. mae'r safle o fewn Ffin Aneddiad unrhyw aneddiad diffiniedig:**

**B. Byddai ehangu arwynebedd safle carafanau sefydlog neu gabannau yn cyflawni gwelliant amgylcheddol cyffredinol y byddai modd ei ddangos a hynny i'r safle ac i'w leoliad yn y dirwedd o'i amgylch.**

**C. Caniateir uwchraddio lleiniau yn lleiniau sefydlog lle bynnag:**

**1. Y mae'r safle wedi ei gysylltu'n dda ag anheddiad sydd wedi ei nodi yn yr hierarchaeth yn Bentref Gwasanaeth, yn Ganolfan Wasanaeth neu'n Dref; neu**

**2. Y mae'r safle wedi ei gysylltu'n dda â Phentref Lleol, a bydd yn darparu cyfleuster i'r gymuned nad yw'n bresennol yn yr anheddiad presennol ac**

**3. Ym mhob achos dylai'r canlynol fod yn berthnasol:**

**i) Nid oes cynnydd cyffredinol yn nifer y lleiniau; a**

**ii) Byddai gwelliant amgylcheddol cyffredinol dangosadwy ar gyfer y safle a'i leoliad yn y dirwedd o'i gwmpas; ac**

**iii) Mae'r safle y tu allan i ardaloedd Cynghorau Cymunedol Llanrhath, St Florence, East Williamston, Penalun, Saundersfoot a Llanfair Dinbych-y-pysgod.**

6.84 Mae i garafannau sefydlog swyddogaeth bwysig yn economi ymwelwyr Sir Benfro[99] fodd bynnag, mae'r lleoedd sydd ar gael mewn carafanau sefydlog / lleiniau ledled Sir Benfro yn gyson uwch na'r galw. Mae tystiolaeth o waith monitro yn awgrymu nad yw'r carafanau sefydlog presennol sydd wedi'u lleoli ar safleoedd yn cael eu defnyddio'n llawn a bod mwy o gapasiti yn bodoli o dan y caniatadau presennol ar gyfer nifer sylweddol (365) o garafannau i gael eu hychwanegu at safleoedd presennol. Mae rhai safleoedd carafanau sefydlog yn weledol ymwthiol ac yn sgil hynny gallant fod yn andwyol i ansawdd a hyfywedd twristiaeth yn gyffredinol yn Sir Benfro. Er mwyn osgoi effeithiau andwyol pellach ystyrir mai amhriodol fyddai caniatáu datblygu safleoedd pellach ac eithrio mewn aneddiadau.

6.85 Er hyn, gall uwchraddio lleiniau teithio presennol mewn lleoliadau cynaliadwy gynnig y cyfle i wella'r stoc gyffredinol o leoedd gwyliau yn y sector carafanau sefydlog a gwella safleoedd teithio presennol. Bydd hyn yn gymwys ar gyfer lleiniau carafanau teithio sydd wedi'u hawdurdodi'n llawn drwy ganiatâd Cynllunio pendant. Ni ddylai datblygiad gael effaith andwyol ar y dirwedd a dylai gynnwys dulliau sgrinio i sicrhau bod y safle yn ymdoddi i'r dirwedd.

6.86 Gorfodir amodau Cynllunio lle bo hynny'n briodol er mwyn sicrhau y bydd cyfleusterau yn parhau i fod yn unedau llety gwyliau ac nad ydynt yn cael eu defnyddio i fod yn llety parhaol neu eu bod yn brif breswylfa. Yn y sefyllfaoedd hyn gellid defnyddio amodau meddiannaeth gwyliau, a fyddai'n cyfyngau ar yr amser y gallai un tyaid aros mewn uned a'r amser y gallent ddychwelyd.

6.87 Mae'r polisi hwn hefyd yn caniatáu gwneud gwelliannau i'r ddarpariaeth o fathau o lety, gan adlewyrchu tuedd gan rai gweithredwyr i droi at y math hwn o lety.

6.88 Mewn ambell achos mae cabanau gwyliau pren yn gallu gwella golwg safle. Ni ddylai'r cabanau gwyliau fod yn fwy na'r diffiniad cyfreithiol o garafán ac ni chefnogir newidiadau arfaethedig oni phennir bod y cynnig yn dderbyniol o ran effeithiau ar y dirwedd ac y lluniwyd dulliau sgrinio priodol.

[99] Gweler Papur Cefndir: Arolwg Carafanau 2009


**GN.20 Cyfleusterau Safle ar Safleoedd Carafanau a Gwersylla Presennol**

**Ni chaniateir cynigion i uwchraddio a gwella cyfleusterau ar safleoedd carafanau sefydlog, carafanau teithio a phebyll oni fodlonir y canlynol:**

1. **Ni fydd y cynnig yn tanseilio hyfywedd a bywiogrwydd cyfleuster mewn anheddiad cyfagos; ac**
2. **Mae'r cynigion yn cynnwys y safonau amgylcheddol ymarferol gorau sy'n cwmpasu pob agwedd ar y datblygiad.**

6.89 Mae'r Awdurdod yn awyddus i weld gwelliannau a fyddai'n gwella ansawdd yr hyn a gynigir gan y sector twristiaeth mewn modd na fyddai'n niweidio'r amgylchedd na'r dirwedd nac yn effeithio'n negyddol ar gyfleusterau sydd wedi'u lleoli mewn aneddiadau cyfagos. Mewn nifer o safleoedd bydd yn ddymunol gwella cyfleusterau ymolchi a thoiledau, ac mewn safleoedd mwy gellir cyfiawnhau darparu cyfleusterau ychwanegol megis cyfleusterau golchi dillad neu ystafell gemau. Os yw'n bosibl, dylid ailddefnyddio strwythurau neu adeiladau presennol.

6.90 Mae angen i gyfleusterau gael eu dylunio a'u gosod mewn modd sy'n sensitif i'r dirwedd. Pan fo hynny'n bosibl, dylai ymgeiswyr gynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy yn eu datblygiadau er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o ddŵr wyneb ffo. Dylai unrhyw gamau tirweddu wneud y mwyaf o fioamrywiaeth a defnyddio rhywogaethau brodorol sy'n briodol i'r dirwedd. Rhaid dangos bod unrhyw adeiladau yn cyd-fynd â gofynion Canllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor ar Ganllawiau Dylunio ar Gynaliadwyedd.



**GN.21 Marinas**

**Mae safleoedd ar gyfer marinas wedi'u dyrannu o fewn harbyrau a dociau presennol yn Wdig (Harbwr Abergwaun) a Doc Penfro.**

| Dyraniad Marina | Enw Safle |
|---|---|
| MAR/096/LDP/01 | Cei Martello, Doc Penfro |
| MAR/034/LDP/01 | Harbwr Abergwaun |

**Caniateir cynigion ar gyfer marinas newydd neu estyniadau i farinas pe bodlonir y meini prawf canlynol:**

1. **Mae'r datblygiad wedi'i leoli mewn anheddiad presennol neu'n gyffiniol ag anheddiad presennol**
2. **Ni fyddai'r datblygiad yn cael effaith andwyol sylweddol ar gymeriad tirwedd yr arfordir;**
3. **Ni fydd cynigion ategol yn tanseilio bywiogrwydd na hyfywedd cyfleusterau mewn canolfannau presennol;**
4. **Ni fyddai'r cynnig yn gwrthdaro â'r gwaith o reoli'r arfordir yn gynaliadwy.**

6.91 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cyfraniad pwysig y mae marinas yn ei wneud i economi ymwelwyr Cymru[100]. Mae cyflenwad o angorfeydd a gwasanaethau cysylltiedig bob hyn a hyn ar hyd arfordir Cymru yn ddymunol i hwyluso teithio morol hamdden.

6.92 Bydd disgwyl i leoliadau marina fod yn berthynol dda i anheddiad presennol oherwydd eu maint a'u natur, a bydd datblygiadau ar hyd arfordir sydd heb ei ddatblygu yn annerbyniol. Mae marinas yn darparu cyfleusterau datblygedig, parhaol arnofiol gydol y flwyddyn, ac yn aml y lleoliad gorau ar eu cyfer yw o fewn porthladdoedd, harbyrau a threfi arfordirol presennol. Yn aml, bydd angen datblygiadau ategol megis bwytai, siopau, cyfleusterau toiledau, siandleriaid a llefydd i storio cychod, llefydd parcio a thai, er mwyn cefnogi bywiogrwydd cymdeithasol a hyfywedd economaidd marinas. Mae lleoliadau datblygedig hefyd yn ffafriol ar gyfer y rhain lle na

[100] Llywodraeth Cymru: Strategaeth Twristiaeth Arfordirol 2008

fyddent yn effeithio ar dirweddau pwysig neu ardaloedd a warchodir oherwydd eu gwerth o ran cadwraeth. Bydd cynigion o'r fath yn dderbyniol pe dangosir na fyddent yn tanseilio bywiogrwydd a hyfywedd cyfleusterau yn y canolfannau presennol. Bydd hefyd angen mynediad da ar ffyrdd er mwyn gwasanaethu'r marinas o'r tir.

6.93 Bydd Policy GN.37 Gwarchod a Gwella Bioamrywiaeth yn arbennig o berthnasol i unrhyw gynigion marina sydd â photensial i effeithio ar safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol neu genedlaethol, yn enwedig ardal cadwraeth arbennig (ACA) Safle Morol Sir Benfro, ACA Bae Ceredigion a Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd.

6.94 Weithiau mae cynigion marinas y tu allan i awdurdod Cynllunio, sydd fel arfer yn gorffen ar y Marc Distyll Cymedrig. Er hyn, bydd i'r rhan fwyaf o gynigion oblygiadau ar y tir o ran mynediad a darparu gwasanaethau, sydd yn dod o dan awdurdod yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Yn aml, bydd angen Asesiad Effaith Amgylcheddol ar yr agweddau hyn ar gynigion datblygu. Bydd hefyd angen ystyriaeth o dan gyfundrefnau caniatáu eraill ar nifer o agweddau ar gynigion marina.

6.95 Yn Harbwr Abergwaun, mae caniatâd i adeiladu marina newydd. Mae ehangder hyn tua'r tir wedi'i ddangos ar y Map Cynigion. Yn Noc Penfro (West Llanion Pill) rhoddwyd caniatâd i ddatblygiad marina, a elwir yn Gei Martello, sydd hefyd wedi'i ddangos ar y Map Cynigion. Yn ychwanegol, mae'r polisi hwn yn gosod meini prawf i werthuso cynigion marinas newydd ac estyniadau i farinas mewn lleoliadau eraill.

6.96 Wrth werthuso cynigion marinas, dylid rhoi ystyriaeth hefyd i bolisïau a chynigion y Cynllun Rheoli Traethlin perthnasol.

**GN.22 Cloddio'r Adnodd Mwynau Ymlaen Llaw**


**Wrth ganiatáu datblygiad newydd mewn ardal o adnodd mwynau, rhaid sicrhau y caiff unrhyw adnodd mwynau wrth gefn ei gloddio, pan fo hynny'n briodol o ran ymarferoldeb economaidd ac ystyriaethau amgylcheddol a chynllunio eraill, cyn cychwyn ar y datblygiad.**

6.97 Diben y polisi hwn yw osgoi sterileiddio'r adnodd mwynau yn amhriodol lle y caiff datblygiad ei gynnig. Bydd galw'r farchnad am y deunydd o dan safle'r datblygiad ar adeg y datblygu yn ffactor wrth benderfynu a yw cloddio ymlaen llaw yn ddichonadwy. Hefyd, gallai fod amgylchiadau pan fyddai cadw nodweddion ar y safle (er enghraifft coed a chloddiau presennol) yn fwy dymunol na chloddio ymlaen llaw.

6.98 Mae'r hyn a ddiogelir yn cwmpasu ardal frig yr adnodd mwyn economaidd ond nid aneddiadau.

6.99 Bydd polisi GN.37 yn arbennig o berthnasol i gynigion ar gyfer gweithio mwynau mewn ardaloedd diogelu mwynau lle y mae dynodiadau gwarchod natur. Mae'r dynodiadau felly yn debygol o wahardd unrhyw weithio yn y dyfodol ar yr adnodd mwynau o dan y safleoedd a warchodir, er gwaetha'r diogelu.

6.100 Dim ond ychydig o ddyraniadau sydd yn y CDLl ar gyfer yr adnodd mwynau o fewn y parthau diogelu, ac yn yr achosion prin hyn rhoddir blaenoriaeth i'r dyraniad dros y gofyniad diogelu. Er hyn, yn unol â'r polisi ar Gloddio Ymlaen Llaw, disgwylir i'r adnodd mwynau mewn safleoedd o'r fath gael ei gloddio cyn dechrau ar waith datblygu pan fo hynny'n ddichonadwy.



**GN.23 Gwaith Mwynau Newydd**

**Caniateir cynigion ar gyfer gwaith mwynau ac estyniadau i safleoedd newydd pe bodlonir y meini prawf canlynol:**

1. **Yn achos mwynau nad ydynt ar gyfer ynni mae angen y mwyn i gyflenwi angen nodedig na ellir ei gyflenwi o nwyddau eilaidd neu wedi'u hailgylchu na chronfeydd wrth gefn presennol;**
2. **Yn achos mwynau nad ydynt ar gyfer ynni mae maint y datblygiad yn briodol i wasanaethu'r farchnad leol a chyfran addas o'r farchnad ranbarthol;**
3. **Yn achos safleoedd mwynau blaenorol, ni cheir effaith andwyol ar dir sydd wedi'i adfer yn foddhaol ac sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr i gymeriad y dirwedd leol a'r amgylchedd lleol; ac**
4. **Mae darpariaeth ar gyfer tirweddu, gwarchod dŵr daear, defnydd buddiol dilynol, gwaith adfer a rheoli'r safle ar ôl iddo gau, gan gynnwys, pan fo hynny'n bosibl, manylion adfer y safleoedd yn gynyddol.**

6.101 Bydd y polisi hwn yn gymwys ar gyfer gweithfeydd newydd, estyniadau i weithfeydd presennol, ac ail-weithio neu ailagor hen weithfeydd. Caiff ei ddefnyddio i ystyried ceisiadau ar gyfer pob math o fwynau gan gynnwys carreg galed, tywod a graean, glo, olew a nwy a nwy methan mewn meysydd glo.

6.102 Diben y polisi hwn yw darparu fframwaith i ystyried ceisiadau ar gyfer safleoedd mwynau newydd neu estyniadau i safleoedd mwynau. Rhoddir blaenoriaeth i ddefnyddio deunydd wedi'i ailgylchu ac agregau eilaidd dros ddatblygu ffynonellau cyflenwi newydd. Caniateir cloddio mwynau cynradd yn unig pe gellir dangos nad oes modd darparu unrhyw ddeunydd ymarferol arall ar gost amgylcheddol is. Mae'r awdurdod yn cydnabod bod angen newid y patrwm o gyflenwi agregau o ffynonellau cynradd i ffynonellau eraill, bod gorddarpariaeth o agregau cynradd o ganlyniad i ganiatadau Cynlluniau sy'n bodoli a byddai rhoi caniatadau Cynllunio newydd yn annog cynhyrchu adnoddau anghynaliadwy.

6.103 Er mwyn sicrhau yr aflonyddir cyn lleied â phosibl ar y tir, bydd disgwyl gwneud gwaith adfer cynyddol lle bynnag y mae hynny'n bosibl er y cydnabyddir bod hyn yn debygol o fod yn fwy priodol ar gyfer datblygiadau tywod a graean na gweithrediadau carreg galed, tymor hirach.

6.104 Yn flaenorol, ni echdynnwyd nwy methan o feysydd glo ar raddfa helaeth, ond yn sgil datblygiadau technolegol diweddar a newid yng ngofynion cyflenwi tanwydd, gallai hyn fod yn economaidd ddichonadwy yn ystod oes y Cynllun. Mae angen trwydded oddi wrth y Llywodraeth cyn y gellir echdynnu nwy methan o feysydd glo, ond mae hefyd angen caniatâd Cynllunio ar wahân cyn y gellir cynnal gweithgarwch o'r fath.

6.105 Pe cynhelir gwaith archwilio am fwynau i sefydlu a fyddai ymelwa yn economaidd ar adnodd mwynau yn ddichonadwy, mae'n bosibl na fyddai angen caniatâd Cynllunio. Er hyn, pe penderfynir rhoi caniatâd o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, bydd rhai amodau yn ofynnol. Pe byddai angen caniatâd, bydd disgwyl i'r cynnig ateb gofynion polisi cyffredinol y Cynllun hwn, yn benodol y rhai hynny a osodir yn GN.1 Polisi Datblygu Cyffredinol.

**GN.24 Nwyddau Gwastraff wedi'u Hailgylchu ac Agregau Eilaidd**

**Caniateir cynigion i ddefnyddio deunyddiau gwastraff wedi'u hailgylchu fel agregau eilaidd (gan gynnwys defnyddio deunyddiau adeiladu a ddaw i fod drwy ddymchwel) pe bodlonir y meini prawf canlynol:**

1. **Nid yw effaith defnyddio'r deunydd hwn yn gwneud niwed sylweddol i safleoedd, adeiladau, waliau neu nodweddion sydd o ddiddordeb hanesyddol, pensaernïol neu archeolegol;**
2. **Mae maint y gweithrediad yn briodol i'r ardal y canfyddir y deunydd craidd;**
3. **Pe cynigir safle unigol i ymdrin â gwastraff a ddaw o ragor nag un lleoliad, mae'r safle hwnnw, pan fo hynny'n bosibl, wedi'i leoli'n dda mewn perthynas â'r deunydd a ddefnyddir;**
4. **Caiff y cynnyrch gwastraff a'r agregau eilaidd eu cludo ar reilffordd neu ar ddŵr pan fo hynny'n ddichonadwy;**
5. **Mae darpariaeth ar gyfer tirweddu, gwarchod dŵr daear, defnydd buddiol dilynol, gwaith adfer a rheoli'r safle ar ôl iddo gau, gan gynnwys, pan fo hynny'n bosibl, manylion adfer y safle yn gynyddol.**

6.106 Mae canllawiau cenedlaethol[101] yn ei gwneud yn ddisgwyliedig y bydd agregau eilaidd yn gyfran gynyddol o'r cyflenwad agregau cyffredinol yn y blynyddoedd sydd i ddod, gan leihau'r angen i weithio ar agregau cynradd yn y tarddle.

**GN.25 Ardaloedd Byffer o amgylch Safleoedd Mwynau**

**Fel arfer ni chaniateir datblygiadau cloddio mwynau newydd a datblygiadau sensitif newydd o fewn Ardaloedd Byffer o amgylch safleoedd gwaith mwynau, pe gallai defnyddiau o'r fath gael effaith andwyol ar ei gilydd oherwydd eu hagosrwydd.**

6.107 Ar y Map Cynigion fe ddangosir Ardaloedd Byffer o amgylch safleoedd mwynau ac fe ddefnyddir er mwyn goresgyn gwrthdaro rhwng gweithfeydd mwynau a defnyddiau tir eraill[102]. Mae'r Ardaloedd Byffer hyn yn wahanol i'r rhai sy'n gysylltiedig â pharthau diogelu mwynau sy'n ofynnol o dan bolisi Cymru, sydd hefyd wedi'u dangos ar Fap Cynigion y CDLl. Mae'r Ardaloedd Byffer a gyflwynir gan y polisi hwn wedi'u nodi ar y Map Cynigion ac maent wedi'u gosod o amgylch pob gwaith mwynau gweithredol yn ogystal â chwarrau anweithredol (cwsg). Fel arfer ni chaniateir i weithfeydd mwynau a defnyddiau tir sensitif (tai, ysbytai ac ysgolion yn benodol) fod yn agos at ei gilydd o fewn Ardaloedd Byffer oherwydd effaith negyddol bosibl y naill fath o ddatblygiad ar y llall. Mae'r rhain yn codi yn sgil sŵn a llwch sy'n deillio o gloddio a phrosesu mwynau a dirgrynu sy'n deillio o gamau ffrwydro. Mae Ardaloedd Byffer yn darparu ardaloedd wedi'u gwarchod o amgylch gweithfeydd mwynau sydd

[101] MTAN 1 (Agregau), paragraff 157
[102] Polisi Cynllunio Mwynau Cymru ac MTANs

wedi'u caniatáu a rhai arfaethedig. Gallai rhai mathau o ddatblygiad llai sensitif (yn cynnwys efallai diwydiant, swyddfeydd a datblygiad ategol cysylltiedig â gwaith mwynau) fod yn dderbyniol mewn clustogfa ond, yn y rhan fwyaf o achosion, gwrthodir mathau penodol o ddatblygu a fyddai'n sensitif i waith mwynau, yn cynnwys tai, ysbytai ac ysgolion. Mae eithriad pellach i'r dull cyffredinol o weithredu wedi ei restru ym MholisiCynllunio Mwynau Cymru (paragraff 40), pan fyddai safle'r datblygiad newydd mewn perthynas â'r gwaith mwynau wedi'i leoli mewn ardal adeiledig sydd eisoes yn mynd i mewn i'r Ardal Byffer, neu ar ben draw ardal adeiledig o'r fath, a rhoddwyd ystyriaeth i hynny wrth baratoi cynigion safle-benodol y Cynllun hwn.

6.108 Mae maint mwyaf yr Ardal Byffer yn seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol safonol, sef 100 metr ar gyfer tywod a graean a 200 metr ar gyfer carreg galed (nid oes gweithgarwch gwaith glo yn weithredol nac yng nghwsg yn ardal y Cynllun) gan roi ystyriaeth i:

- Maint, math a lleoliad y gweithfeydd;
- Topograffi'r ardal o amgylch;
- Lefelau sŵn a llwch presennol a'r lefelau a ragwelir;
- Dirgryniadau presennol ac a ragwelir sy'n deillio o weithrediadau ffrwydro a pha gamau lliniaru sydd ar gael;
- Y mwyn a gloddir a natur y gwaith.

**GN.26 Datblygiadau Preswyl**

**Caniateir datblygiad preswyl os yw'r cynnig ar gyfer un neu ragor o'r canlynol:**

1. **tai ar y farchnad agored neu dai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol, wedi'u lleoli oddi mewn i Ffin Anheddiad Tref, Canolfan Wasanaethau, Pentref Gwasanaethol neu Bentref Lleol Mawr yn ôl diffiniad yr hierarchaeth aneddiadau;**
2. **tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol, wedi'u lleoli oddi mewn i ffin Pentref Lleol Bach;**
3. **disodli neu rannu anheddiad presennol;**
4. **addasu adeilad hanesyddol at ddefnydd preswyl;**
5. **anheddiad gweithiwr menter wledig;**

**Caiff tai newydd ar safleoedd o 0.10 hectar neu fwy eu hadeiladu ar ddwysedd o o leiaf 25 annedd i bob hectar, gan godi i o leiaf 30 annedd i bob hectar ar safleoedd Trefol. Mewn amgylchiadau eithriadol, gallai tystiolaeth o gyfyngiadau seilwaith neu ffisegol gyfiawnhau dwysedd is.**

6.109 Yn gyffredinol, caniateir cartrefi newydd oddi mewn i Ffiniau Anheddiad gan fod y rhain yn lleoliadau sydd â mynediad da at wasanaethau. Gall tai newydd mewn Trefi, Canolfannau Gwasanaethol, Pentrefi Gwasanaethol a Phentrefi Lleol Mawr fod ar werth ar y farchnad agored neu fod yn dai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol. Mae Polisi GN.29 yn rhoi sylw i ryddhau safleoedd bychain fel "eithriad" i'r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer tai.

6.110 Mewn Pentrefi Lleol Bach, mae tai fforddiadwy ar raddfa fach i ddiwallu anghenion lleol yn caniatáu i ddatblygu digwydd yn naturiol ac yn gynaliadwy, gan gefnogi gwasanaethau a chymunedau lleol. Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn cadw adeiladwaith cymdeithasol y gymuned, annog traddodiadau a diwylliannau lleol i barhau ac i gefnogi'r Iaith Gymraeg[103]. Mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5, Tachwedd 2012) yn caniatáu llenwi bylchau bach o fewn grwpiau bach o anheddau, neu fân estyniadau i grwpiau[104]. Yn y Cynllun hwn, dim ond oddi mewn i Ffiniau Aneddiadau y derbynnir achosion o lenwi o'r fath.

6.111 Gall ailddatblygu neu ddisodli alluogi datblygu tai sydd yn well o ran diwallu anghenion tai presennol ac i'r dyfodol a chyfrannu at effeithlonrwydd ynni a lleihau lefelau carbon deuocsid cyhyd â bod ansawdd yr amgylchedd yn cael ei wella. Anogir ailddefnyddio deunyddiau o'r annedd a ddymchwelwyd. Ni ddylai'r annedd bresennol fod yn Adeilad Rhestredig, nac yn adeilad pwysig sy'n diffinio cymeriad ardal.

6.112 Caniateir rhannu annedd bresennol yn ddwy neu ragor o anheddau ar wahân yn amodol ar fodloni meini prawf GN1 Polisi Datblygu Cyffredinol. Rhoddir ystyriaeth yn benodol i effaith y rhaniad arfaethedig ar amwynder y deiliaid y bwriedir iddynt fyw ynddynt a thrigolion cyfagos, yr effaith ar gymeriad a golwg yr adeilad a'r goblygiadau o ran capasiti parcio a thraffig lleol.

6.113 Caniateir addasu adeiladau hanesyddol at ddefnydd preswyl pan fo'r ymgeisydd yn dangos safonau tra theilwng o ddylunio a chynaliadwyedd. Gall adeiladau o'r fath wneud cyfraniad sylweddol i ansawdd esthetig tirweddau trefol a gwledig a rhaid dangos bod y cynnig yn cydweddu â'i amgylchoedd ac yn eu gwella. Caniateir addasu adeiladau hanesyddol cyhyd ag y gellir addasu'r strwythur heb newidiadau helaeth gan gadw'r ffurf wreiddiol yn sylweddol, gydag ychydig o newidiadau o ran manylion cosmetig. Gallai adeiladau o'r fath gynnwys tai trefol neu wledig, adeiladau crefyddol a chyn safleoedd milwrol. Rhaid i unrhyw waith i addasu adeilad hanesyddol gadw a gwella nodweddion

[103] Gweler Nodyn Cyngor Technegol 6, Adran 4 (Gorffennaf 2010)
[104] Paragraff 9.3.2

allanol a mewnol sy'n dangos ei ddefnyddiau blaenorol. Ymdrinnir ag addasu adeiladau amaethyddol o dan GN.11 Addasu neu Newid Defnydd Adeiladau Amaethyddol.

6.114 Caiff cynigion i ddarparu llety preswyl i weithiwr menter wledig hanfodol eu hystyried yn erbyn egwyddorion Nodyn Cyngor Technegol 6 (Gorffennaf 2010). Rhaid i'r ymgeisydd ddangos angen ymarferol i fod yn agos at y fenter, ac nad oes llety dichonol arall yn bodoli yn lleol, gan gynnwys cyfleoedd i addasu ac anheddau sydd ar gael ar y farchnad dai.

6.115 Mae'n bwysig bod datblygiad preswyl newydd yn defnyddio tir yn effeithlon. Mae lleiafswm dwysedd yn sicrhau defnydd effeithlon o dir ledled ardal y Cynllun. Bydd dwysedd datblygiad preswyl yn uwch mewn trefi gan y gall y crynodiad o wasanaethau yn y lleoliadau hyn wasanaethu poblogaeth fwy, a dylent wneud hynny. Mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft lle y byddai gwaith datblygu fel arall yn cael effaith annerbyniol ar faterion megis diogelwch priffyrdd neu gyflenwadau dŵr cynaliadwy, gellid derbyn dwysedd is.

## GN.27 Dyraniadau Preswyl

**Mae'r safleoedd canlynol wedi'u neilltuo ar gyfer datblygiadau preswyl.**

| Dyraniadau Tai | Cyfeirnod y Safle | Lleiaf swm nifer yr Unedau | Arwynebedd (ha) | Angen Mynegol am Dai Fforddiadwy |
|---|---|---|---|---|
| **Trefi Ffocws** | | | | |
| Hwlffordd - Fferm Hermitage | HSG/040/00269 | 38 | 1.26 | 25% |
| Hwlffordd - Gogledd Slade Lane | HSG/040/00273 | 48 (459*) | 15.31 | 25% |
| Hwlffordd - De Slade Lane | HSG/040/00274 | 512 | 17.05 | 25% |
| Hwlffordd – rhwng Shoals Hook Lane a'r ffordd osgoi | HSG/040/00275 | 277 | 9.26 | 25% |
| Hwlffordd - Scarrowscant / Glenover | HSG/040/00106 | 140 | 4.73 | 25% |
| Aberdaugleddau - Steynton, Ffordd Thornton | HSG/086/00223 | 224 | 7.49 | Hyd at 5% |
| Aberdaugleddau - Steynton, Beaconing Field | HSG/086/00129 | 149 | 4.54 | Hyd at 5% |
| Aberdaugleddau - Hubberston i'r Gorllewin o Silverstream | HSG/086/00095 | 50 | 1.66 | Hyd at 5% |
| Aberdaugleddau - i'r De-orllewin o'r Meads | HSG/086/00222 | 93 | 3.09 | Hyd at 5% |
| Aberdaugleddau - Castle Pill | HSG/086/00318 | 72 | 3.05 | Hyd at 5% |
| Aberdaugleddau - Hubberston ger Canolfan Kings, Ffordd Dale | HSG/086/00117 HSG/086/00225 | 151 | 5.16 | Hyd at 5% |
| Neyland – i'r Dwyrain o Poppy Drive | HSG/093/00066 | 101 | 3.37 | 10% |
| Doc Penfro – i'r Gogledd o Ffordd Penfro | HSG/096/00238 | 98 | 2.81 | Hyd at 5% |
| Doc Penfro – i'r Gogledd o Imble Lane | HSG/096/00231 | 96 | 2.75 | Hyd at 5% |
| Doc Penfro – i'r Dwyrain o Fferm Hill, Imble Lane | HSG/096/00233 | 63 | 1.79 | Hyd at 5% |
| Penfro – i'r Gogledd ac i'r Gorllewin o'r Twnnel Rheilffordd | HSG/095/00154 | 150 | 5.68 | 10% |
| Penfro - ger Monkton Swifts | HSG/095/00153 | 118 | 3.7 | 10% |
| Penfro – ger Long Mains a Phriordy Cil-maen | HSG/095/00147 | 115 | 7.57 | 10% |
| Penfro – i'r Gogledd o Gibbas Way | HSG/095/00144 | 70 | 2.85 | 10% |
| Penfro – i'r De o Gibbas Way | HSG/095/00144 | 58 | 2.33 | 10% |
| Abergwaun – Fferm Maesgwynne | HSG/034/00215 | 399 | 13.24 | 10% |
| Abergwaun – i'r Dwyrain o Faesgwynne | HSG/034/00165 | 24 | 0.81 | 10% |
| Abergwaun – Hen Ysgol y Babanod | HSG/034/LDP/01 | 21 | 0.7 | 10% |
| **Cyfanswm y Trefi Ffocws** | | **3,067** | **120.20** | |
| **Cyfanswm y Trefi Ffocws fel canran cyfanswm yr Holl Dynodiadau Tai** | | **67%** | **64%** | |
| | | | | |
| **Trefi Wledig** | | | | |
| Arberth – i'r Gorllewin o Erddi Bloomfield | HSG/088/00078 | 89 | 3.58 | 25% |
| Arberth – i'r Gorllewin o Rushacre | HSG/088/00077 | 58 | 2.4 | 25% |
| **Cyfanswm y Trefi Wledig** | | **147** | **5.98** | |
| **Cyfanswm y Trefi Gwledig fel canran cyfanswm yr Holl Dynodiadau Tai** | | **3%** | **3%** | |
| | | | | |

| Dyraniadau Tai | Cyfeirnod y Safle | Lleiaf swm nifer yr Unedau | Arwyn ebedd (ha) | Angen Mynegol am Dai Fforddiadwy |
|---|---|---|---|---|
| **Canolfannau Gwasanaethau** | | | | |
| Johnston – ger Ffordd Milffwrd | HSG/048/00038 | 130 | 5.21 | 10% |
| Treletert - Court Meadow | HSG/053/00009 | 90 | 2.28 | Hyd at 5% |
| Crymych – Rhwng yr Ysgol a Heol yr Orsaf | HSG/030/00043 | 60 | 2.07 | Hyd at 5% |
| Crymych – i'r Dwyrain o Waunaeron | HSG/030/LDP/01 | 35 | 1.24 | Hyd at 5% |
| Cilgeti – Estyniad i Barc James a Gerddi Cotswold | HSG/050/00042 | 75 | 3.03 | 20% |
| Cilgeti – Tir y tu ôl i Neuadd Newton | HSG/050/00043 | 26 | 1.33 | 20% |
| Cilgeti – Tir i'r Gorllewin o Ysgol Stepaside | HSG/050/00041 | 19 | 0.61 | 20% |
| Cilgeti – Tir i'r De o Barc Kilvelgy | HSG/050/00044 | 20 | 0.8 | 20% |
| **Cyfanswm y Canolfannau Gwasanaethau** | | **455** | **16.57** | |
| **Cyfanswm y Canolfannau Gwasanaeth fel canran cyfanswm yr Holl Dynodiadau Tai** | | **10%** | **9%** | |
| | | | | |
| **Pentrefi Gwasanaethau** | | | | |
| Begeli – i'r Gogledd o Heol Newydd | HSG/003/00024 | 65 | 3 | 10% |
| Blaenffos – Ger yr Hafod | HSG/006/00003 | 10 | 0.93 | Hyd at 5% |
| Boncath – i'r Gogledd o Gilfan y Coed | HSG/007/LDP/01 | 10 | 0.69 | Hyd at 5% |
| Broadmoor – i'r Gogledd-orllewin o Lyndhurst Avenue | HSG/008/LDP/01 | 12 | 0.48 | 10% |
| Cilgerran - Ger Holly Lodge | HSG/020/00062 | 24 | 1.1 | Hyd at 5% |
| Clarbeston Road – i'r Gorllewin o Ash Grove | HSG/022/00012 | 21 | 0.83 | 15% |
| Clunderwen – Safle Depo | HSG/152/LDP/01 | 28 | 0.96 | Hyd at 5% |
| Cosheston – i'r De o Tinkers Fold | HSG/025/00028 | 6 | 0.64 | 10% |
| Croes-goch - OS 7445, i'r Gogledd o'r Efail | HSG/028/00012 | 20 | 0.67 | Hyd at 5% |
| Croes-goch – i'r Dwyrain o'r Efail | HSG/028/00013 | 22 | 0.73 | Hyd at 5% |
| Crundale – Gyferbyn â Chlôs Woodholm | HSG/029/00014 | 13 | 0.51 | 25% |
| Crundale – Tir yn Cardigan Slade | HSG/029/00017 | 55 | 2.22 | 25% |
| Eglwyswrw – i'r De-orllewin o'r Ysgol | HSG/033/00035 | 15 | 0.51 | Hyd at 5% |
| Croes Cas-lai – Tir Gyferbyn â Barrowgate | HSG/041/LDP/01 | 6 | 0.43 | 10% |
| Hook – Tu ôl i Heol Pill | HSG/044/00050 | 15 | 0.59 | 10% |
| Houghton – Planhigfa | HSG/045/00008 | 15 | 2.18 | 10% |
| Hundleton – i'r Dwyrain o Heol Bentlass Road | HSG/046/00015 | 31 | 1.26 | Hyd at 5% |
| Jeffreyston – tu ôl i Beggars Roost a Sunny Side | HSG/047/LDP/01 | 18 | 0.9 | 25% |
| Llandyfái - i'r De o Barc Cleggar | HSG/052/00011 | 55 | 2.42 | 10% |
| Llandysilio - Pwll Quarry Cross | HSG/060/LDP/01 | 25 | 1.75 | 10% |
| Llanddewi Efelffre – i'r Gogledd o Neuadd y Pentref | HSG/057/LDP/01 | 12 | 0.5 | 10% |
| Llangwm – Gyferbyn â The Kilns | HSG/063/00024 | 25 (75*) | 3.01 | 15% |
| Maenclochog – i'r Gogledd Ddwyrain o'r Globe Inn | HSG/081/LDP/01 | 30 (58*) | 2.31 | Hyd at 5% |
| Mathri – i'r De o Woodturner | HSG/085/LDP/01 | 6 | 0.2 | Hyd at 5% |

| Dyraniadau Tai | Cyfeirnod y Safle | Lleiaf swm nifer yr Unedau | Arwynebedd (ha) | Angen Mynegol am Dai Fforddiadwy |
|---|---|---|---|---|
| **Pentrefi Gwasanaethau (parhau)** | | | | |
| Penalun – i'r Gogledd o The Paddock | HSG/097/LDP/01 | 8 | 0.29 | 25% |
| Penalun - Penalun Heights | HSG/097/LDP/02 | 11 | 0.56 | 25% |
| Pentlepoir – Tir Ger Coppins Lodge | HSG/099/LDP/01 | 35 | 1.68 | 25% |
| Cas-mael – Gyferbyn â Bro Dewi | HSG/108/LDP/01 | 6 | 0.39 | Hyd at 5% |
| Cas-mael – i'r Gorllewin o Awelfa | HSG/108/LDP/02 | 12 | 0.44 | Hyd at 5% |
| Llangwathen – i'r De o Robeston Court | HSG/113/LDP/01 | 14 | 0.63 | 25% |
| Y Garn – i'r Dwyrain o Pilgrim's Way | HSG/114/LDP/01 | 44 | 2.19 | 20% |
| Rhosfarced – Gyferbyn â The Glades | HSG/116/LDP/01 | 13 | 0.5 | 15% |
| Sageston – i'r De o'r Plough Inn | HSG/015/00022 | 31 | 1.27 | Hyd at 5% |
| Simpson Cross - i'r dwyrain o Hill Lane | HSG/119/LDP/01 | 11 | 0.54 | 20% |
| Spital – i'r Gogledd-orllewin o Ffordd Wesley | HSG/120/00018 | 22 | 0.87 | 15% |
| Llandudoch – Estyniad i Awel y Môr | HSG/122/00035 | 16 | 0.55 | Hyd at 5% |
| St. Florence – i'r Gogledd o Parsons Green | HSG/123/LDP/01 | 26 | 1.17 | 25% |
| Tre-deml – i'r De o'r B4315 | HSG/132/00030 | 18 | 1.21 | 15% |
| Tre-deml – i'r De o Gyffordd Boars Head | HSG/132/LDP/01 | 28 | 1.13 | 15% |
| Tiers Cross – i'r Gogledd o Heol Bulford | HSG/135/00004 | 23 | 0.91 | Hyd at 5% |
| Cas-blaidd – gyferbyn â Haul y Bryn | HSG/149/LDP/01 | 30 | 1.2 | 15% |
| **Cyfanswm y Pentrefi Gwasanaethau** | | **887** | **44.35** | |
| **Cyfanswm y Pentrefi Gwasanaeth fel canran cyfanswm yr Holl Dynodiadau Tai** | | **20%** | **24%** | |
| **Cyfanswm yr Holl Ddyraniadau Tai** | | **4, 556** | **187.10** | |

* Mae hwn yn dynodi safleoedd na fydd wedi eu datblygu'n gyfan gwbl yn ystod cyfnod y Cynllun. Ceir rhagor o wybodaeth yn y canllawiau Cynllunio atodol ar Safleoedd Datblygu.

6.116 Dangosol yw lleiafswm nifer yr unedau ar gyfer bob safle. Bydd disgwyl i ddatblygwyr ddangos eu bod yn darparu cymysgedd o fathau o dai, er mwyn darparu ar gyfer patrymau newidiol ym maint aelwydydd, gan yr amcangyfrifir y bydd 30% o'r holl aelwydydd yn aelwydydd un person erbyn 2021 (Asesiad o Farchnad Dai Leol Sir Benfro 2007).

6.117 O ran cyflwyno fesul cam, mae'n bwysig bod datblygiadau mewn ardaloedd penodol yn digwydd mewn ymateb i amgylchiadau lleol. Bydd cyflwyno datblygiadau fesul cam yn helpu i integreiddio tai newydd i mewn i gymunedau sydd â nodweddion a diwylliannau arbennig, megis yr iaith Gymraeg, gan ymateb hefyd i gyfyngiadau ar ddarparu seilwaith hanfodol.

6.118 Ceir rhagor o wybodaeth am gyflenwi safleoedd datblygu dyranedig, gan gynnwys gwybodaeth am waith fesul cyfnod, yn y Canllawiau Cynllunio Atodol am Safleoedd Datblygu.



GN.28 Tai Fforddiadwy Anghenion Lleol

Ceisir tai fforddiadwy anghenion lleol ar bob datblygiad o dai. Mae'r targedau dangosol ar gyfer darparu ar safleoedd dyranedig wedi eu rhestru ym Mholisi GN.27, ac ar safleoedd nad ydynt wedi eu dyrannu bydd y ddarpariaeth fel a ganlyn:

1. Mewn Trefi, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaeth bydd 10% o'r anheddau arfaethedig yn rhai fforddiadwy.
2. Mewn Pentrefi Lleol Mawr bydd 50% o'r anheddau arfaethedig yn rhai fforddiadwy.
3. Mewn Pentrefi Lleol Llai bydd rhaid i bob annedd newydd fod yn un fforddiadwy.

Lle bynnag y mae wedi ei ddangos nad oes modd darparu annedd fforddiadwy ar safle[105] yna ceisir cyfraniad o swm gohiriedig ar gyfer tai fforddiadwy. Bydd y swm gohiriedig yn berthnasol i'r cyfraddau cyfrannu sydd wedi eu rhestru uchod ac yn cael ei godi ar sail gofod llawr (fesul metr sgwâr).

Gallai'r awdurdod geisio cyfraniad o ganran uwch ar unrhyw safle lle mae amgylchiadau lleol ac/neu ddatblygiadau diweddar yn yr ardal yn awgrymu y byddai'n ymarferol o safbwynt ariannol. Lle mae modd dangos trwy fonitro bod newid cadarnhaol cynaliadwy o ran ymarferoldeb ariannol datblygiad[106] bydd yr awdurdod lleol yn ceisio cyfraniad o ganran uwch tuag at dai fforddiadwy. Mewn Trefi, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Gwasanaeth, gallai darpariaeth is na'r ffigwr targed o dai fforddiadwy fod yn briodol lle mae tystiolaeth o ymarferoldeb economaidd i gefnogi hynny.

[105] Er enghraifft ar safleoedd bychain lle nad oes modd darparu anedd fforddiadwy gyfan
[106] Bydd dangosyddion a fframiau amser ar gyfer gweithredu'r newidiadau yn y targed yn y Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy

6.119 Mae dir angen tai fforddiadwy yn Sir Benfro. Yn dystiolaeth i hynny mae data rhestri aros am dai, Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol ac arolygon y Cyngor Sir. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud darparu tai fforddiadwy yn flaenoriaeth ar gyfer y system gynllunio[107], ac mae angen y gymuned am dai fforddiadwy yn ystyriaeth o bwys ar gyfer Cynllunio. Rhagwelir y darperir o leiaf 980 o gartrefi fforddiadwy newydd yn ystod cyfnod y Cynllun.

6.120 Bydd yr awdurdod yn ceisio cyfraniad perthnasol neu ariannol i dai fforddiadwy gan bob datblygiad newydd o dai ar y farchnad agored er mwyn darparu cymaint ag y bo modd o dai fforddiadwy mewn ymdrech i ddiwallu'r angen nawr ac i ddod. Lle bynnag y mae'r safle yn ddigon mawr bydd disgwyl i'r datblygwr ddarparu tai fforddiadwy ar y safle, yn unol â'r targedau canran sydd wedi eu datgan yn GN.27 (ar gyfer dyraniadau tai) neu GN.28 (ar gyfer hap-safleoedd). Mae'r targedau hyn yn deillio o brofion ymarferoldeb tai ac maent yn cynnig targed dangosol. Mae'r profion ymarferoldeb, a gynhaliwyd trwy ddefnyddio'r Pecyn Offer Arfarnu Datblygiad 3 Draig, yn rhoi ystyriaeth i nodweddion unigryw safleoedd ac yn darparu ar gyfer newidiadau yng nghyflwr yr economi ac economeg datblygiad. Lle gall datblygwr ddangos nad oes modd darparu'r ganran a ddisgwylir, gall drafod gyda'r ACLl i sicrhau y darperir nifer resymol o gartrefi fforddiadwy, sy'n cyfrannu at ddiwallu'r angen am gartrefi fforddiadwy yn Sir Benfro. Mewn Pentrefi Lleol, amcan datblygu preswyl yw diwallu'r angen am gartrefi mwy fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig ac felly nid yw pryderon ynglŷn ag ymarferoldeb datblygu yn cyfiawnhau unrhyw lacio gyda'r polisi.

6.121 Os yw darparu ar y safle yn anymarferol, er enghraifft ar ddatblygiadau bychain neu os trwy 'dalgrynnu' y bydd safle wedi ei adael gyda rhan o annedd fforddiadwy i'w darparu, bydd y Cyngor yn ceisio cyfraniad o swm gohiriedig i gefnogi darpariaeth o dai fforddiadwy oddi ar y safle.

6.122 Mae'n rhaid i bob tŷ fforddiadwy fod ar gael am byth i bobl y mae angen tai fforddiadwy arnynt a bydd unrhyw ganiatâd Cynllunio yn rhwym wrth amodau neu ymrwymiad Cynllunio i sicrhau mai felly y bydd. Ni fydd yr Awdurdod yn derbyn datblygu tameidiog ar safleoedd mwy, boed y rheini wedi eu dyrannu neu fel arall, yn fodd osgoi'r gofyn am dai fforddiadwy. Mae'r CCA Tai Fforddiadwy yn cynnwys manylion pwysig ynglŷn â deiliadaeth a'r math o dai fforddiadwy y mae'r awdurdod yn ei geisio. Mae'n sefydlu hefyd y modd y gellir addasu cyfradd canran y cyfraniad a'r modd y cymhwysir swm gohiriedig.

[107] Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5, Tachwedd 2012), Nodyn Cyngor Technegol 2 (2006), Nodyn Cyngor Technegol 6, Adran 4.2 (Gorffennaf 2010)

**GN.29 Safleoedd Eithriedig ar gyfer Tai Fforddiadwy Anghenion Lleol**

**Caniateir tai fforddiadwy anghenion lleol ar dir na fyddai fel arall yn cael ei ryddhau ar gyfer tai dan amgylchiadau eithriadol pe bodlonir y meini prawf canlynol:**

1. **Mae'r safle oddi mewn i Ffin Anheddiad neu'n union gyffiniol â Ffin Anheddiad;**
2. **Mae angen lleol am dai fforddiadwy wedi'i nodi;**
3. **Caiff y gymuned y mae'r safle wedi'i leoli ynddi ei gwasanaethu'n ddigonol gan gyfleusterau i gefnogi'r datblygiad arfaethedig; a**
4. **Bydd holl fuddion darpariaeth tai fforddiadwy, a adeiladwyd yn unig ar gyfer deiliadaeth pobl leol sydd angen tai fforddiadwy, yn trosglwyddo i'r deiliaid cychwynnol a phob deiliad wedi hynny.**

6.123 Pe caiff angen ei nodi am dai fforddiadwy na ellir ei diwallu gan ddarpariaeth bresennol, gellir darparu tai fforddiadwy anghenion lleol fel eithriad i bolisïau Cynllunio arferol. Gellir casglu tystiolaeth o angen o'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, data'r Gofrestr Tai Gyffredin ac arolygon y Cynghorau Cymuned. Rhaid i unrhyw gais ar gyfer safle eithriedig fod yn gymesur o ran maint a natur i'r anheddiad lle y'i lleolir.

6.124 Darperir gwybodaeth bellach o fewn polisi cenedlaethol[108].

**GN.30 Llety Arbenigol a Llety â Chymorth**

**Caniateir datblygu llety preswyl arbenigol oni fodlonir y meini prawf canlynol lle nodwyd yr angen am y fath gyfleuster:**

1. **Lle cynigir cyfleuster newydd, y mae oddi mewn neu'n ffinio'n union syth â berthynol dda i Ffin Anheddiad, neu'n cynnig addasu neu drosi adeilad bresenol briodol; neu**
2. **Lle cynigir estyniad, mae maint a natur y cyfleuster gwreiddiol ynghyd â'r estyniad yn gymwys â'i leoliad; ac**
3. **Ym mhob achos mae trefniadau mynediad yn galluogi cerddwyr, ceir, ambiwlansys a cherbydau dosbarthu a gwasanaeth i symud yn ddiogel.**

**Caiff safle ei glustnodi ar gyfer cyfleuster gofal ychwanegol yn:**

| Cyfeirnod y Safle | Enw Safle | Arwynebedd (Ha) |
|---|---|---|
| SSA/089/01 | Park House, New Hedges | 1.65 |

[108] Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5, Tachwedd 2012), Nodyn Cyngor Technegol 2 (2006), Nodyn Cyngor Technegol 6, para 4.2.2 (Gorffennaf 2010)

6.125 Sir Benfro sydd â'r gyfran uchaf ond un o bobl hŷn yn ei phoblogaeth yng Nghymru, gydag amcangyfrif o ragor na 26% o'r boblogaeth dros 65 oed erbyn 2021[109]. Felly mae'r polisi hwn yn ceisio darparu llety ar gyfer anghenion arbennig amryw grwpiau, yn arbennig pobl hŷn (ond grwpiau eraill hefyd) o ran llety gwarchod, gofal preswyl, gofal ychwanegol a gofal cartref, neu ofal seibiant, lliniarol neu hosbis (Dosbarth C2 o Orchymyn Dosbarthiadau Defnydd 1987 fel y'i diwygiwyd).

6.126 Mae'n bwysig bod y Cynllun hwn yn darparu cyfleoedd digonol i ddatblygu cyfleusterau gofal, boed wedi'u cyllido gan arian preifat neu gyhoeddus, er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth a nodwyd. Ym mhob achos, mae'n rhaid profi bod yr angen am y cyfleuster yn glir, yn fesuradwy a dynodedig. Dylid hefyd ystyried sut mae'r datblygiad yn ategu cymeriad yr ardal leol ac amwynder y trigolion lleol.

6.127 Mae'r dyrnaiad yn Park House, New Hedges, yn mynd i'r afael â angen wedi'i brofi am gyfleuster gofal-bellach yn yr ardal. Mae'r safle hwn yn addas am ei fod yn hygyrch ac wedi ei leoli'n gyfleus i gwrdd â'r gofynion lleol. Fe fydd angen i gynigion pellach i ymestyn llety preswyl arbenigol nodi angen am y cyfleuster a bod yn dderbyniol o ran maint, natur ac effaith ar yr ardal leol.

**GN.31 Polisi Safleoedd a Lleiniau Sipsiwn-Teithwyr**

**Mae tir wedi'i ddyrannu ar gyfer llety ychwanegol i sipsiwn-teithwyr yn:**

| Cyfeirnod y Safle | Enw Safle | Arwynebedd (ha) | Nifer ddangosol o leiniau |
|---|---|---|---|
| GT/095/001 | Chwarel Catshole (Castell) | 0.39 | 8 |
| GT/050/001 | Comin Kingsmoor Cilgeti | 0.78 | 15 |

6.128 Mae gan Sir Benfro fwy o safleoedd sipsiwn awdurdodedig nag unrhyw Awdurdod Lleol arall yng Nghymru. Mae'r Awdurdod Lleol yn berchen ac yn rheolwr ar y rhan fwyaf o'r safleoedd hyn ond mae rhai safleoedd preifat awdurdodedig yn bodoli hefyd.

[109] Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, 2007; Amcanestyniadau o'r Boblogaeth, Aelwydydd a'r Llafurlu, Medi 2008; Crynodeb o Faterion sy'n Deillio o Ddigwyddiadau Ymgynghori Cyhoeddus, Hydref 2008; Materion Allweddol ar gyfer y CDLl a nodwyd o dan Flaenoriaethau'r Cynllun Cymunedol, Hydref 2008

6.129 Dangosodd yr Asesiad o Angen Llety Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Benfro (2010) bod angen darparu rhagor o leiniau yn ystod pum mlynedd cyntaf cyfnod y Cynllun. Mae dyraniadau wedi eu dyrannu i ddiwallu'r angen hwn. Ni ddangosodd yr Asesiad bod angen lleiniau tros dro yn ystod yr un cyfnod. Pe byddai monitro yn dangos unrhyw ddiffygion pellach, yna bydd y Cyngor yn dynodi safleoedd addas ar gyfer y math hwn o ddatblygiad.

**GN.32 Safleoedd a Lleiniau Sipsiwn-Teithwyr**

**Y Tu Allan i Ffiniau Anheddiad ni chaniateir cynigion ar gyfer safleoedd sipsiwn newydd parhaol neu dros dro neu estyniadau i'r safleoedd awdurdodedig presennol oni bai fod modd dangos:**

1. **Nad oes modd i'r datblygiad arfaethedig ar safleoedd awdurdodedig presennol ac mae i ddiwallu'r angen sy'n digwydd yn lleol neu anghenion teuluoedd â chysylltiad lleol;**
2. **Yn hygyrch i wasanaethau cymunedol, cymdeithasol ac addysgol presennol a chyfleusterau eraill; ac**
3. **Ei fod wedi ei leoli'n sensitif yn y dirwedd a bod tirlunio boddhaol wedi ei ddarparu.**

6.130 Rhaid i gynigion am safleoedd newydd neu estyniadau i safleoedd presennol gael mynediad da i wasanaethau, yn arbennig gwasanaethau hanfodol megis ysgolion cynradd a feddygfeydd.

6.131 Rhaid i ddyluniad safle gyfuno Cynllun a fydd yn diwallu anghenion trigolion y safle, yn cyrraedd safonau ar gyfer gwahanu lleiniau ac yn lliniaru effaith weledol y datblygiad ar y dirwedd.

6.132 Mae ar safleoedd Sipsiwn-Teithwyr angen mynediad ffordd da, yn arbennig rhai sy'n cynnwys elfen o safle dros dro neu rai sy'n gwbl dros dro. Maen prawf arall sydd o bwysigrwydd penodol yw'r effaith bosibl ar amwynder unrhyw eiddo sydd o amgylch. Bydd GN.1 Polisi Datblygu Cyffredinol felly yn ystyriaeth o bwys ar gyfer unrhyw gynnig.

GN.33 Cyfleusterau Cymunedol

A Caniateir datblygu cyfleusterau cymunedol newydd[110] pe lleolir cynigion oddi fewn i aneddiad, neu'n berthynol dda i anheddiad;

B Caniateir estyniad(au) i gyfleuster cymunedol presennol pe lleolir y cyfleuster yn briodol i ddiwallu anghenion y gymuned y mae'n ei gwasanaethu.

C Caniateir newid defnydd cyfleuster cymunedol yn unig lle:

Naill ai

1. Gellir dangos nad yw parhau i ddefnyddio'r cyfleuster bellach yn ddichonadwy;

Neu

2. Sicrheir y bydd cyfleuster addas ar gael i gymryd ei le.

D Mae'r safleoedd canlynol wedi'u dyrannu ar gyfer datblygu cyfleusterau cymunedol:

| Cyfleusterau Cymunedol | Defnydd | Enw Safle | Arwynebedd (ha) |
|---|---|---|---|
| CF/040/01 | Ysgol Gynradd Newydd | Safle Ysgol Slade Lane, Hwlffordd | 5.83 |
| CF/040/02 | Estyniad i'r Ysbyty | Estyniad Ysbyty'r Llwyn Helyg, Hwlffordd | 2.57 |
| CF/040/03 | Estyniad i'r Safle | Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Marc, Hwlffordd | 0.72 |
| CF/096/01 | Estyniad i'r safle a mynediad newydd i'r ysgol | Ysgol Gynradd Pennar, Doc Penfro | 1.4 |
| CF/095/01 | Estyniad i'r Fynwent | Mynwent Cil-maen, Cil-maen | 0.21 |
| CF/048/01 | Estyniad i'r Fynwent | Popehill, Johnston | 0.77 |
| CF/035/01 | Estyniad i'r Fynwent | Mynwent Freystrop, Freystrop | 0.21 |

[110] Mae cyfleusterau cymunedol yn golygu unrhyw gyfleusterau sy'n gwasanaethu'r gymuned ac yn cyfrannu tuag at ansawdd bywyd bob dydd, gan gynnwys siopau lleol, ysgolion, llyfrgelloedd, adeiladau crefyddol, neuaddau chwaraeon a chanolfannau hamdden, sinemau a theatrau, neuaddau cymunedol, tafarndai, swyddfeydd post a chanolfannau iechyd, meysydd chwarae, mynwentydd a chyfleusterau ailddefnyddio ac ailgylchu ar raddfa fach yn seiliedig yn y gymuned (gan gynnwys safleoedd dod â gwastraff).

6.133 Mae cyfleusterau cymunedol yn hanfodol i sicrhau cydlyniad cymunedol ac i feithrin cymunedau cynaliadwy. Ceisia'r polisi hwn gynnal y defnydd o gyfleusterau cymunedol oni bai nad ydynt bellach yn ddichonadwy.

6.134 Mae cyfleuster cymunedol yn cynnwys yr adeilad(au), ei gwrtil ac unrhyw gyfleusterau cysylltiedig.

6.135 Pe cynigir cyfleuster newydd y tu allan i anheddiad, bydd disgwyl i'r ymgeisydd ddangos mai'r lleoliad arfaethedig yw'r lleoliad gorau sydd ar gael a'i fod yn agos i'r anheddiad. Bydd angen i'r ymgeisydd ddangos nad oes safleoedd sy'n berthynol well i'r anheddiad y gallai'r cyfleuster gael ei leoli ynddynt.

6.136 Caniateir estyniadau i gyfleusterau cymunedol presennol nad ydynt mewn anheddiad nac yn berthynol dda i anheddiad pe gall yr ymgeisydd ddangos bod y cyfleuster wedi'i leoli'n dda i ddiwallu anghenion y gymuned y bydd yn ei gwasanaethu.

6.137 Gall tystiolaeth dderbyniol nad oes bellach angen y cyfleuster gynnwys unrhyw un o'r canlynol:

i) Penderfyniad y Cyngor Sir neu'r Cyngor Cymuned i gau'r cyfleuster.
ii) Mae'r gost o adnewyddu neu atgyweirio neu'r costau cynnal yn fwy na'r incwm y gall y cyfleuster ei gynhyrchu ac nid oes cyllid addas ar gael i'w gynorthwyo.
iii) Diffyg defnydd rhesymol yn y gorffennol e.e. dangos defnydd cyfyngedig iawn o ran oriau neu gan nifer fach iawn o bobl.
iv) Diffyg galw gan ddarpar weithredwyr a dystiolaethir gan farchnata priodol i werthu neu rentu am 6 mis neu ragor.

6.138 Rhaid i unrhyw gyfleuster sy'n dod yn lle un arall gael ei leoli i ddiwallu anghenion yr un gymuned leol a darparu'r un fath o gyfleuster â'r cyfleuster blaenorol. Gallai cyfleusterau amgen gynnwys gwasanaeth symudol, darpariaeth ar-lein neu wasanaeth mewn anheddiad arall, cyhyd â bod hyn o fewn pellter rhesymol i'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu.



**GN.34 Gwarchod a Chreu Ardaloedd Hamdden Awyr Agored**

**A Mae ardaloedd hamdden awyr agored, sy'n cynnwys mannau cyhoeddus agored, llwybrau hamdden a chyfleusterau hamdden, wedi'u gwarchod.**

**Caniateir datblygu ar ardaloedd hamdden awyr agored lle:**

1. **Nad oes gan yr ardal unrhyw werth hamdden cyhoeddus sylweddol; neu**
2. **Bydd cyfleuster addas arall yn dod yn ei le; neu**
3. **Bydd y cyfleusterau hamdden yn cael eu gwella trwy ail-ddatblygu rhan o'r safle.**

**B Caniateir ardalo(edd) hamdden awyr agored newydd pe bodlonir y meini prawf canlynol:**

1. **Y mae wedi'i leoli'n dda i wasanaethu anghenion y gymuned,**
2. **Y mae o faint, dyluniad a ffurf briodol i ddiwallu anghenion y bobl y bwriedir iddo eu gwasanaethu, ac**
3. **Darperir ar gyfer rheoli a chynnal a chadw'r safle/llwybr i'r dyfodol.**

6.139 Mae gweithgareddau hamdden yn ffyrdd pwysig o wella ansawdd bywyd trigolion Sir Benfro a rhai sy'n ymweld â'r Sir. Caiff lleoedd a chyfleusterau megis parciau chwarae, caeau chwarae, parciau a llwybrau beiciau eu defnyddio gan bobl o bob oed ledled Sir Benfro gyfan ac maent yn hybu ffyrdd iachach o fyw a rhyngweithio cymdeithasol. Mae ardaloedd hamdden awyr agored[111] hefyd yn bwysig i'r amgylchedd gan y gallant hybu bioamrywiaeth, gwella ansawdd yr aer a lleihau dŵr wyneb ffo. Ceisia'r polisi hwn warchod ardaloedd pwysig a gwerthfawr a ddefnyddir at ddibenion hamdden ac annog i greu rhai newydd.

6.140 Wrth asesu gwerth hamdden ardal awyr agored, dylid ystyried y materion canlynol:
- ansawdd y cyfleusterau a'r offer;
- pa mor amlwg yw'r safle o gartrefi cyfagos, a diogelwch defnyddwyr wrth fynd i'r safle a'i ddefnyddio;
- cyfraniad y safle at ddarpariaeth leol gyffredinol o ardaloedd hamdden;
- trefniadau rheoli a chynnal a chadw'r safle;

6.141 Rhaid i ailddatblygu ardaloedd hamdden, gan gynnwys rhai sydd heb eu dangos ar y map mewnosod, gael eu cyfiawnhau trwy ddangos nad oes gan y safle unrhyw werth hamdden sylweddol, gan ddefnyddio'r materion a restrir uchod. Pe na all yr ymgeisydd ddarparu'r cyfiawnhad hwn, bydd yn ofynnol bod cyfleuster arall yn cael ei ddarparu.

[111] Mae mannau hamdden awyr agored sy'n fwy na 0.25 hectar a phob lle chwarae i blant sydd wedi eu lleoli mewn trefi, canolfannau gwasanaethol a phentrefi gwasanethol wedi'u nodi yn yr Asesiad o Fannau Agored 2010 ac maent wedi'u dangos ar Mapiau Mewnosod priodol.

6.142 Pe darperir cyfleuster yn lle un blaenorol, rhaid bodloni'r canlynol:

- bydd wedi'i leoli i ddiwallu anghenion yr un gymuned leol ag a wasanaethwyd gan y cyfleuster blaenorol;
- bydd o faint ac ansawdd digonol i fod cystal neu'n well na gwerth hamdden y cyfleuster blaenorol;
- bydd yn darparu'r un cyfleuster â'r un blaenorol, neu o fath y cydnabyddir bod prinder ohono yn yr ardal; a
- bydd yn cynnwys cytundeb ar gyfer rheoli a chynnal a chadw'r safle i'r dyfodol.

6.143 Gall fod yn briodol i ganiatáu i ran fach o'r safle gael ei ailddatblygu ar gyfer dibenion eraill pe bai'n gwella cyflwr neu ddarpariaeth y cyfleusterau hamdden.

6.144 Caiff ardaloedd hamdden awyr agored newydd eu hannog. Dylent roi ystyriaeth i'w heffaith ar gymeriad yr ardal ac ansawdd bywyd y gymuned leol, dylent fod o fath sy'n addas ar gyfer patrymau demograffig lleol ac mewn lleoliadau lle y mae modd mynd atynt drwy ddefnyddio amryw fathau o drafnidiaeth.

6.145 Asesir datblygu caeau chwarae ysgolion gan ddefnyddio GN.33 polisi Cyfleusterau Cymunedol.

**GN.35 Gwarchod Safleoedd Agored sydd â Gwerth Amwynder**

**Fel arfer ni chaniateir datblygiad a fyddai'n effeithio'n andwyol ar olwg, cymeriad neu werth amwynder lleol ardaloedd o fannau agored cyhoeddus neu breifat. Dan amgylchiadau eithriadol, pe byddai'r cynnig yn sicrhau buddion cymdeithasol a/neu economaidd clir i'r gymuned leol ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r amgylchedd adeiledig, gallai datblygiad gael ei ganiatáu lle mae modd dangos nad oes safle amgen addas ar gael.**

6.146 Ceisia'r polisi hwn warchod safle agored sydd iddo werth amwynder lleol[112], oherwydd ei olwg neu'i gymeriad er enghraifft. Gall safleoedd o'r fath gynnwys gerddi, mannau dinesig, mynwentydd, coridorau gwyrdd, mannau gwyrdd o amgylch adeiladau, meysydd pentref a thir sy'n sefydlu safle anheddiad.

6.147 Er mwyn bod o werth amwynder, nid oes raid i fan agored fod o ddefnydd ffurfiol na bod ar agor i'r cyhoedd, cyhyd â'i fod yn cyfrannu at olwg, cymeriad neu werth amwynder lleol yr anheddiad neu'i sefyllfa. Mae lle rhwng adeiladau ac o'u hamgylch yn rhan hanfodol o'r amgylchedd adeiledig ac maent yn aml yn rhoi i anheddiad ei gymeriad

[112] Mae mannau agored amwynder sy'n fwy na 0.25 hectar ac sydd wedi'u lleoli mewn Trefi, Canolfannau Gwasanaethol a Phentrefi Gwasanaethol wedi'u nodi yn yr Asesiad o Fannau Agored 2010 ac maent wedi'u dangos ar y Mapiau Mewnosod priodol.

nodedig. Yn ychwanegol, gall bylchau rhwng grwpiau o adeiladau neu sy'n rhan o sefyllfa'r dirwedd wneud cyfraniad pwysig.

6.148 Rhaid i gynigion ar gyfer datblygu mannau agored amwynder ddangos na ellir dod o hyd i safle addas arall ar gyfer y datblygiad ac y sicrhawyd fod y golled arfaethedig o fan agored / nodweddion naturiol cyn lleied â phosibl. Rhaid i'r cynnig wneud cyfraniad cymdeithasol a/neu economaidd clir a chadarnhaol i'r ardal leol a rhaid i unrhyw ddatblygiad ar fan agored amwynder wella'r amgylchedd adeiledig.

**GN.36 Lletemau Glas**

**Er mwyn atal aneddiadau rhag cyfuno mae Lletemau Glas wedi eu dynodi yn y lleoliadau canlynol:**

- **Hwlffordd / Pont Fadlen (dwyrain)**
- **Hwlffordd / Pont Fadlen (gorllewin)**
- **Hwlffordd / Portfield Gate**
- **Neyland / Llanstadwel**
- **Abergwaun / Wdig**
- **Abergwaun / Y Dref Isaf**
- **Dinbych-y-pysgod / Penalun**

**Mae'r rhain yn ardaloedd o bwys arbennig o ran cynnal hunaniaeth arbennig cymunedau gwahanol. O fewn y Lletemau Glas bydd rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn datblygu amhriodol.**

6.149 Mae swyddogaeth bwysig i'r Lletemau Glas o ran cynnal tirwedd Sir Benfro a chadw ei natur agored. Mae tir ar ymyl Trefi Canolog a chanolfannau twristiaeth yn agored i niwed gan bwysau datblygu, a gall hyn yn ei dro droi ardaloedd gwledig yn drefol, cyfuno aneddiadau a cholli mannau agored o bwys. Nod y polisi hwn yw canfod a diogelu'r cyfryw ardaloedd agored i niwed rhag datblygu amhriodol, fel y mae wedi ei ddiffinio yn mewn polisi cenedlaethol[113], gyda chynigion datblygu wedi eu penderfynu'n unol â pharagraffau 4.8.14-4.8.18. ym Mholisi Cynllunio Cymru.

6.150 Mae manylion penodol pob un o'r dynodiadau ym mhapur cefndir y CDLl 'Lletemau Glas' Medi 2010. Map Cynigion y CDLl yn dangos estyniad gofodol y dyraniadau Lletemau Glas.

[113] Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5, Tachwedd 2012), adran 4.8.

**GN.37 Gwarchod a Gwella Bioamrywiaeth**

**Dylai pob datblygiad ddangos dull cadarnhaol o ymdrin â chynnal a chadw a, lle bynnag y bo modd, cyfoethogi bioamrywiaeth. Dim ond dan amgylchiadau arbennig lle y sicrheir bod yr effeithiau cyn lleied â phosibl neu y caiff yr effeithiau eu lliniaru drwy ddylunio gofalus, amserlennu gwaith neu gamau priodol eraill, y caniateir datblygiad a fyddai'n amharu neu'n niweidio mewn modd arall ar rywogaethau a warchodir neu'u cynefinoedd, neu gyfanrwydd cynefinoedd, safleoedd neu nodweddion eraill o bwysigrwydd i fywyd gwyllt a rhywogaethau unigol.**

6.151 Mae gwarchod a gwella bioamrywiaeth yn allweddol er mwyn cynnal ansawdd amgylcheddol uchel Sir Benfro. Mae cynigion Cynllunio sy'n effeithio ar safleoedd dynodedig rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol neu leol, a ddangosir ar y Mapiau Cynigion, yn ystyriaeth berthnasol wrth ystyried cynnig datblygu a chânt eu hasesu yn unol â pholisi a chanllawiau Cynllunio cenedlaethol[114], gan gydweithio â rhanddeiliaid ac ymgynghoreion statudol, a chan ddefnyddio ffynonellau data priodol[115]. Bydd ar gynigion datblygu a allai amharu ar safleoedd o bwys rhyngwladol neu genedlaethol angen asesiad manwl cyn mynd ymlaen. Yn benodol, os yw'n debygol y bydd unrhyw gynnig datblygu[116] yn effeithio'n sylweddol ar safle neu rywogaeth Ewropeaidd, bydd eisiau Asesiad Priodol[117] arno o'r goblygiadau mewn perthynas ag amcanion cadwraeth y safle.

6.152 Ceisia'r polisi hwn sicrhau y caiff rhywogaethau a'u cynefinoedd, mewn amgylchedd ehangach cefn gwlad neu mewn amgylchedd trefol, eu gwarchod rhag effeithiau andwyol posibl datblygiadau, a lle y bo'n bosibl eu gwella. Gall effeithiau andwyol posibl gynnwys tarfu ar rywogaethau a chynefinoedd cyn, yn ystod ac/neu ar ôl adeiladu, neu effeithiau cronnol datblygiad, er enghraifft effeithiau sŵn, golau neu draffig annerbyniol. Ceisia'r polisi hwn warchod yn erbyn effeithiau andwyol o'r fath ac felly mae'n bosibl y bydd angen lliniaru a/neu wella yn rhan annatod o gynnig datblygu. Mae hefyd yn ceisio gwarchod a chynnal coridorau cysylltedd ecolegol a chynefinoedd 'cerrig camu', megis ymylon ffyrdd, gerddi, afonydd a mannau gwyrdd, a phan fo hynny'n bosibl, eu hehangu er mwyn diogelu bioamrywiaeth a chynefinoedd

[114] Llywodraeth Cymru: Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5, Tachwedd 2012), Pennod 5 a Nodyn Cyngor Technegol 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio 2009.

[115] LANDMAP, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Mapiau Rhywogarthau Gwarchodedig, Cynlluniau Rheoli Craidd Safleoedd Ewropeaidd Perthnasol, Cam 1 data'r Arolwg o Gynefinoedd, a chronfa ddata ddaearyddol Canolfan Wybodaeth Fioamrywiaeth Gorllewin Cymru o gofnodion rhywogaethau a gwybodaeth am gynefinoedd.

[116] yn unigol neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill

[117] Nodyn Cyngor Technegol 5 Bioamrywiaeth Cadwraeth Natur a Chynllunio 2009, adran 5.3



a'u hatal rhag darnio a/neu atal rhywogaethau rhag cael eu hynysu.

6.153 Mae'r egwyddorion sy'n sylfaen i'r polisi hwn yn ganolog i Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Benfro (CGBLl) a'r cysyniad o ddatblygu cynaliadwy. Mae'r CGBLl yn nodi'r rhywogaethau a'r cynefinoedd blaenoriaeth hynny a ystyrir i fod o bwysigrwydd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol y mae'r polisi hwn yn ceisio eu gwarchod. Rhoddir sylw priodol hefyd i Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (2006) Adran 42 "Rhestr o Rywogaethau a Chynefinoedd Pwysig Iawn er mwyn Gwarchod Amrywiaeth Fiolegol Cymru". Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y caniateir cynigion datblygu sy'n effeithio'n andwyol ar rywogaethau o'r fath a/neu'u cynefinoedd, ac o dan amgylchiadau o'r fath rhaid i'r effeithiau gael eu lliniaru drwy ddylunio neu amserlennu gwaith yn ofalus. Anaml y bydd trawsleoli yn llwyddiannus o ran cynnal budd cadwraeth natur cynefinoedd a gaiff eu heffeithio ac ni ddylid ei ddefnyddio fel modd o gefnogi cynnig a fyddai'n annerbyniol fel arall.

**GN.38 Gwarchod a Gwella yr Amgylchedd Hanesyddol**

**Ni chaniateir datblygu sy'n effeithio ar safleoedd a thirweddau o rinwedd pensaernïol a/neu hanesyddol neu bwysigrwydd archeolegol, neu'u safleoedd, oni ellir dangos y byddai'n gwarchod neu'n gwella eu cymeriad a'u cyfanrwydd.**

6.154 Mae i Sir Benfro amgylchedd hanesyddol cyfoethog ac amrywiol sy'n cynnwys nodweddion pensaernïol, hanesyddol ac archeolegol sy'n ganolog i'w hansawdd a'r hyn sy'n ei gwneud yn nodedig. Mae'r amgylchedd hanesyddol

yn gwella ansawdd bywyd, yn creu hunaniaeth ddiwylliannol a chydlyniad cymunedol ac mae'n ased pwysig i economi ymwelwyr Sir Benfro. Mae'r polisi hwn yn adeiladu ar bolisi cenedlaethol er mwyn tynnu sylw at faint ac arwyddocâd yr asedau hyn yn Sir Benfro ac er mwyn gwarchod, cadw a gwella'r nodweddion a'r dynodiadau hyn. Mae'n sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Sir Benfro, gan gynnwys safleoedd dynodedig ynghyd ag adeiladau a nodweddion o bwysigrwydd a diddordeb lleol, a'u safleoedd, yn cael eu gwarchod a'u gwella yn briodol[118]. Ni chaniateir datblygiadau a allai effeithio'n andwyol ar gymeriad neu gyfanrwydd ardaloedd o'r fath.

6.155 Gellir deillio rhinweddau arbennig yr amgylchedd hanesyddol o nifer o ffactorau eraill, yn ychwanegol at y rhai sydd wedi'u rhestru mewn dynodiadau ffurfiol, megis ffurf, maint neu ddosbarthiad adeiladau; golygfeydd a chyfansoddiad gweledig y treflun/tirwedd; manylion pensaernïol; deunyddiau adeiladu; coed a nodweddion eraill y dirwedd. Mae llawer o'r nodweddion hyn yn gwneud cyfraniad pwysig i gymeriad a golwg cymunedau lleol. Mae trefi a phentrefi Sir Benfro yn cynnwys llawer o adeiladau sydd o bwysigrwydd lleol ac sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i gymeriad ac ansawdd yr ardal leol[119]. Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau y cymhwysir newidiadau angenrheidiol heb aberthu cyfanrwydd, cydlyniad a chymeriad anhepgor[120] y dirwedd a bydd yn talu sylw penodol i ddatblygiadau posibl a fyddai, ar eu pen eu hunain neu mewn cyfuniad, yn cael effaith sylweddol ar dirweddau sydd wedi'u cynnwys yn y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru[121].

6.156 Wrth asesu datblygiad a allai effeithio ar weddillion archeolegol bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i'r canlynol:

1. Gwybodaeth (gan gynnwys gwybodaeth o Gofnod yr Amgylchedd Hanesyddol, a gedwir gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed) am gymeriad, cwmpas a phwysigrwydd y gweddillion,
2. I ba raddau y mae'n debygol y bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio arnynt,
3. Dulliau o liniaru effaith y datblygiad arfaethedig drwy ail-ddylunio er mwyn sicrhau cadwraeth ffisegol in situ.

---

[118] Caiff ei gynnal fel cofrestr ar wahân

[119] Gweler 'Addasu Adeiladau Fferm Hanesyddol'(2004) gan CADW am ragor o fanylion.

[120] Mae cyfanrwydd yn golygu sut beth yw'r dirwedd gyfan, ac mae cydlyniad yn golygu sut mae cydrannau unigol y dirwedd yn clymu wrth ei gilydd. Mae cymeriad yn golygu'r cyfuniad o elfennau hanesyddol hanfodol sy'n sicrhau bod y naill dirwedd yn wahanol i'r llall.

[121] Cadw, 1998/2001; yn bennaf seiliedig ar i ba raddau y mae nodweddion hanesyddol ac archeolegol wedi parhau, y cymeriad a graddau'r diddordeb hanesyddol a sut mae hyn yn amlwg yn y dirwedd heddiw, ynghyd â ffactorau eraill megis cysylltiadau â chelf, llenyddiaeth, crefydd, technoleg neu lên gwerin.

6.157 Caiff ardaloedd a safleoedd o arwyddocâd cenedlaethol eu gwarchod gan bolisi cenedlaethol, gan gynnwys Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth, Henebion Cofrestredig, Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol a Pharciau a Gerddi Hanesyddol. Yn ychwanegol at bolisi cenedlaethol, bydd Gwerthusiad Cymeriad Ardal Gadwraeth sydd wedi'i fabwysiadu hefyd yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau Cynllunio.

**GN.39 Llwybrau Trafnidiaeth a Gwelliannau**

**Caniateir gwelliannau i'r rhwydwaith trafnidiaeth (priffyrdd ac is-ffyrdd newydd ac wedi'u gwlla, gwelliannau yn rhwydwaith y rheilffyrdd, llwybrau seiclo, llwybrau amlddefnydd, safleoedd Cynlluniau parcio a theithio a mannau gwasanaeth ymyl y ffordd) lle mae'r meini prawf canlynol wedi eu bodloni:**

**a) Mae'r dewis o lwybr ac/neu safle yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol, tirweddau ac eiddo; ac**

**b) Mae'r tir a gymerir yn barhaol yn cael ei gadw i'r lleiafswm sy'n gyson â dylunio da a thirlunio o ansawdd uchel; ac**

**c) Yn achos ffyrdd, llwybrau seiclo, llwybrau amlddefnydd a pharcio a theithio, bydd y Cynllun yn helpu i wella diogelwch y ffyrdd; ac**

**ch) Yn achos ffyrdd mae amrediad cyflawn o ddatrysiadau ymarferol i'r broblem drafnidiaeth wedi ei ystyried ac mae gwella'r ffordd yn cynnig y datrysiad gorau; ac**

**d) Yn achos mannau gwasanaeth ymyl ffordd, mae'n rhaid i'r Cynllun gydffinio â'r rhwydwaith ffyrdd strategol, canolbwyntio'n bennaf ar ddiwallu anghenion modurwyr, peidio â rhwystro symudiad traffig strategol a pheidio â thanseilio'r ddarpariaeth fanwerthu yng nghanol trefi, canolfannau leol neu bentrefi'.**

**Caiff y llwybrau trafnidiaeth a'r gwelliannau canlynol eu gwarchod rhag datblygu a fyddai'n debygol o amharu ar eu gweithrediad.**

**Cynlluniau Gwella Ffyrdd Llywodraeth Cymru:**

**1. A40 Llanddewi Efelffre i Benblewyn – Cynllun Cam 3 LlCC Cynllun Gwella Rhanbarthol**

**2. Gwelliant i'r A40 i'r gorllewin o Sanclêr[122]**

**Cynlluniau gwella ffyrdd lleol:**

**3. Rhwydwaith Dosbarthu Gogleddol – cyswllt Ffordd Bulford (Johnston i Tiers Cross)**

**4. Prosiect Adfywio Cymunedol Penfro Cam 1 (Gwyriad Bridgend Terrace) a Cham 2 (ffordd osgoi Bush Hill i Gil-maen)**

**5. Gwelliant Mynediad Blackbridge a ffordd osgoi Waterston[123]**

[122] Gan gynnwys creu ffordd ddeuol, yn ddibynnol ar brofi'r achos busnes

[123] Bydd angen i ddatblygu ar y safle hwn gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010.

**6. Llwybr Strategol Deheuol – Gwelliant Coridor A 477 Nash Fingerpost i'r Safle Ynni**

**Cyfnewidfeydd bysiau a rheilffordd:**

**7. Abergwaun (canolbwynt bysiau)**

**8. Gorsaf Reilffordd Wdig (cyfnewidfa fysiau / rheilffordd)[124]**

**9. Aberdaugleddau (cyfnewidfa fysiau / rheilffordd)**

**10. Doc Penfro (cyfnewidfa fysiau / rheilffordd)**

**Gwelliannau i'r rhwydwaith rheilffordd:**

**11. Gwelliant i orsaf reilffordd Clunderwen**

**Cynlluniau parcio a theithio:**

**12. Dinbych-y-pysgod[125]**

**Cynlluniau priffyrdd y Cyngor Sir sydd wedi'u rhaglennu:[126]**

**13. Gwyriad B4318 Gumfreston i Ddinbych-y-pysgod a gwelliant cam 3**

**14. Adlinio B4320 Cil-maen**

**15. A40 Stryd Fawr i A487 Stryd y Gorllewin (cyswllt 'Chimneys'), Abergwaun[127]**

**16. Llwybr Cyd-ddefnyddio o Hwlffordd i Arberth**

**17. Prosiect Canol Tref Gynaliadwy Hwlffordd**

6.158 Mae'r polisi hwn yn cynnig dull seiliedig ar feini prawf o ymdrin â gwerthuso Cynlluniau trafnidiaeth newydd ac mae'n dynodi prif gynigion yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol[128] sy'n ymwneud ag ardal y Cynllun, ynghyd â nifer llai o gynlluniau'r Cyngor Sir sydd hefyd yn debygol o gael eu gweithredu o fewn cyfnod y Cynllun. Os ydynt yn wybyddus, mae'r llwybrau/safleoedd a warchodir wedi'u dangos ar y Map Cynigion ac mae gwybodaeth am y rhaglen[129] i'w gweld yn Atodiad 5.

6.159 Dylid ystyried y cynigion hyn ar y cyd â Ffigur 5, sy'n nodi llwybrau trafnidiaeth allweddol i ategu'r Polisïau trafnidiaeth ac yn diffinio rhwydwaith ffyrdd strategol, yn unol â gofynion Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 18, a phan fo hynny'n briodol, yn seiliedig ar wybodaeth yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

6.160 Ni ystyrir ei bod yn briodol[130] i'r Cynllun hwn nodi cynigion sy'n ddyheadau pan nad oes sicrwydd y cânt eu gweithredu o fewn cyfnod y Cynllun.

---

[124] Mae posibilrwydd hefyd y gallai gorsaf cyfnewid nwyddau ryngfoddol gael ei chodi ar y safle hwn yn ystod cyfnod y cynllun ond nid oes cyfeiriad at hyn yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru

[125] Goblygiadau i leoliadau y tu allan i'r Parc Cenedlaethol

[126] Heb eu cynnwys yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru

[127] Hyd yma, nid oes arian wedi'i neilltuo ar gyfer cynllun Abergwaun, ond mae disgwyl y gallai gael ei weithredu yn ystod cyfnod y Cynllun.

[128] 'Cynnydd mewn Partneriaeth – Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru 2010 hyd 2015', Hydref 2009

[129] yn unol â TAN 18, Trafnidiaeth, paragraff 2.8.

[130] Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5, Tachwedd 2012)

**GN.40 Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Newydd**

**Mae'r safleoedd canlynol wedi'u dyrannu ar gyfer darparu cyfleusterau rheoli gwastraff newydd:**

| Cyfeirnod y Safle | Enw Safle | Arwynebedd (ha) |
|---|---|---|
| WST/LDP/040/01 | **Estyniad i'r safle amwynder dinesig presennol** Winsel ger Pont Fadlen | 4.95 |
| EMP/040/00004 and 040/00009 | **Safle newydd i drafod a thrin gwastraff mewn adeilad** Y Llwyn Helyg, i'r Dwyrain o'r Parc Busnes safle dros ben heb ei ddatblygu) | 15.38 |
| EMP/040/00005 | Y Llwyn Helyg, i'r Gogledd o'r Parc Busnes | 6.09 |
| EMP/040/00003 | Hufenfa Pont Fadlen a safle estyniad | 7.63 |
| EMP/000/00003 | Purfa Aberdaugleddau (Murco), Aberdaugleddau | 123.7 |
| EMP/000/00004 | Petro Plus / Dragon LNG | 177.2 |
| EMP/086/00003 | Ystad Ddiwydiannol Thornton | 22.07 |
| EMP/146/00001 | Ystad Ddiwydiannol Waterston | 9.48 |
| EMP/095/00001 | Safle Gorsaf Bŵer Penfro | 195.1 |
| EMP/096/00005 | Kingswood, Doc Penfro | 8.39 |
| EMP/096/00006 | Waterloo, Doc Penfro | 19.67 |
| EMP/000/00002 | Purfa Valero, Rhoscrowdder | 215.3 |
| EMP/034/00006 | Parc Busnes Celtic Link, Scleddau | 13.47 |
| S/EMP/136/00001 | Trecŵn | 21.11 |

6.161 Mae'r safleoedd a gynigir yn y polisi hwn yn ymateb i'r anghenion[131] sydd wedi'u nodi am gyfleusterau newydd i reoli a thrin gwastraff yn ystod cyfnod y Cynllun.

6.162 Mae'r safle Amwynder Dinesig yn y Salterns, Dinbych-y-pysgod wedi ei gyfyngu o ran maint. Mae'n gwasanaethu cymunedau ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro a thu allan iddo. Mae angen safle newydd i wasanaethu De Ddwyrain Sir Benfro a gallai hwn fod un ai yn y Parc Cenedlaethol neu'r tu allan iddo. Mae'r Cyngor wedi dynodi lle a allai fod yn safle i'r cyfleuster newydd yn y Parc Cenedlaethol ac mae'n bwriadu cyflwyno cais Cynllunio i Awdurdod y Parc Cenedlaethol cyn bo hir. Os bydd y cais yn methu, bydd y chwilio am safle yn parhau. Os deuir o hyd i safle o'r fath yn ardal gynllunio'r Cyngor, byddai unrhyw gais Cynllunio cysylltiedig yn cael ei ystyried trwy bolisi GN.41 Lleihau, Ailddefnyddio ac Adennill Gwastraff, Compostio a Thrin, unrhyw bolisïau perthnasol eraill yn y CDLl a chanllawiau cenedlaethol a rhanbarthol.

[131] ibid

6.163 Yn Winsel, mae angen dynodedig a photensial i'r safle ehangu i dir cyffiniol, yn ddibynnol ar welliannau i'r rhwydwaith ffyrdd lleol.

6.164 Yn unol â'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol, darperir dewis o leoliadau a safleoedd ar gyfer cyfleusterau newydd i drafod a thrin gwastraff mewn adeilad ac ar gyfer cyfleusterau awyr agored newydd i drafod a thrin gwastraff. Fel arfer, caiff y cyfleusterau hyn eu darparu ar safleoedd cyflogaeth B2 priodol a safleoedd sydd wedi'u dynodi ar gyfer diwydiant sylweddol, ac mae rhai ohonynt yn dir llwyd a/neu'n ymwneud â phorthladdoedd.  Mae'r safleoedd B2 sydd wedi eu rhestru yn y polisi hwn wedi eu dynodi yn unol â'r dull o weithredu sydd wedi ei nodi yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol, paragraff 10.2.2. Bydd y safleoedd sydd wedi eu rhestru oherwydd y byddai modd iddynt dderbyn cyfleusterau newydd mewn adeilad ar gyfer trin a thrafod gwastraff yn cyfrannu at ddarparu cyfleusterau rheoli gwastraff yn hytrach na'u bod wedi eu neilltuo'n gyfan gwbl i'r dibenion hynny. Bwriad eu rhestru yn y polisi yw cyfeirio diddordeb mewn datblygu at safleoedd a allai fod yn briodol.

6.165 Mae'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol yn rhoi mapiau ardaloedd chwilio am safleoedd newydd ar gyfer cyfleusterau gwastraff mewn adeilad ac awyr agored, pe na lwydda'r safleoedd a nodwyd i ddarparu digon o dir i ateb y gofynion. Er hyn, disgwylir y bydd y cyfuniad o'r cyfleusterau gwastraff presennol (fel y nodir yn y Papur Cefndirol ar Gynllunio Gwastraff) a'r safleoedd sydd wedi'u rhestru yn y polisi hwn yn ddigonol i ddiwallu anghenion o fewn cyfnod y Cynllun.

GN.41 Lleihau, Ailddefnyddio, Adfer, Compostio a Thrin Gwastraff

Caniateir cynigion i ddatblygu cyfleusterau lleihau, ailddefnyddio, adfer, compostio a thrin gwastraff, gan gynnwys gorsafoedd trosglwyddo gwastraff a chyfleusterau 'ynni o wastraff', pe bodlonir y canlynol:

1. Mae'r safle wedi'i leoli ar safle rheoli gwastraff presennol neu ar uned / safle sydd wedi'i ddyrannu neu'i ddiogelu at ddefnyddiau B2 neu os yw'n briodol, ar y math o safle a ddynodir fel arall gan Nodyn Cyngor Technegol 21 Llywodraeth Cymru (TAN 21) Gwastraff, paragraff C36: neu
2. Gellir cael mynediad i'r safle o ffyrdd dosbarth A neu B os mai cludo ar y ffyrdd yw'r unig ddewis sydd ar gael, ac ym mhob achos;
3. Mae angen dynodedig am y cyfleuster yn genedlaethol, rhanbarthol neu'n lleol;
4. Ystyriwyd a lliniarwyd pob gwastraff a fydd yn deillio o'r cyfleuster newydd;
5. Ystyriwyd cydleoli'r cyfleusterau newydd gyda defnyddwyr ynni posibl gan weithredu ar hynny pan fo hynny'n bosibl;

Yn ychwanegol, mewn perthynas â datblygu cyfleusterau arbenigol i brosesu neu waredu gwastraff peryglus:

6. Rhaid dangos na achosir effeithiau andwyol sylweddol i iechyd a diogelwch y cyhoedd, yr economi na'r amgylchedd.



6.166 Mae cyfleusterau adfer ac ailddefnyddio, gan gynnwys gorsafoedd trosglwyddo gwastraff, yn bodoli at ddibenion tebyg i safleoedd Amwynder Dinesig, ond gallant hefyd drafod gwastraff diwydiannol a masnachol, casglu a phrosesu metel sgrap ond nid llosgi gwastraff. Mae datblygiadau ym maes technoleg a deddfwriaeth, Polisïau ac arferion newydd sydd wedi'u cyflwyno yn golygu nad yw nifer o gyfleusterau rheoli gwastraff / adfer adnoddau modern yn edrych yn wahanol o'r tu allan i unrhyw brosesau diwydiannol eraill. Y tu mewn, nid yw prosesau dadweithgynhyrchu diwydiannol neu weithgarwch cynhyrchu ynni yn wahanol o gwbl i nifer o brosesau diwydiannol modern eraill o ran eu gweithrediad neu'u heffaith.

6.167 Os nad yw lleihau, ailddefnyddio, adfer a chompostio gwastraff, mewn cyfuniad, yn ddigonol i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru, bydd angen rhagor o gyfleusterau trin gwastraff er mwyn sicrhau bod faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi neu dirgodi cyn lleied â phosibl, gan helpu i ateb gofynion y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol o ran gwastraff dros ben a deddfwriaeth Cymru, Ewrop a'r DU y mae'n ymateb iddynt. Bydd elfen ranbarthol i'r modd y darperir cyfleusterau o'r fath. Mae elfen ranbarthol hefyd i'r modd y darperir Treulwyr Anerobig, a gall eu defnyddio gyfrannu at leihau'r gwastraff dros ben sy'n mynd i safleoedd tirlenwi / tirgodi. Hefyd, mae mwy o ddisgwyliad bellach gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am weithio mewn partneriaeth, a fyddai o bosibl yn cynnwys mwy nag un awdurdod lleol yn rhannu cyfleusterau gwastraff.

6.168 Mae treulwyr anerobig mawr i ateb galw rhanbarthol yn addas i'w lleoli ar safleoedd cyflogaeth Dosbarth Defnydd B2 presennol ac arfaethedig ac ar safleoedd sy'n agos i ddefnyddwyr ynni masnachol a allai ddefnyddio cynnyrch y cyfleuster. Yn gyffredinol, caiff cyfleusterau ar raddfa lai (rhai sy'n llai na 0.25 hectar) eu lleoli ar y cyd â Gwaith Trin Dŵr Gwastraff neu ar ffermydd gweithredol ac weithiau cyfeirir atynt fel 'cyfleusterau modiwlar'. Yn gyffredinol, bydd y rhain yn prosesu carthffosiaeth neu slyri, ond gallant hefyd gymryd rhywfaint o fwyd gwastraff i'w gwneud yn ddichonadwy. Weithiau gallai fod ar safleoedd angen tir agored gerllaw er mwyn rhesgompostio'r deunydd a gynhyrchir.

6.169 Mae compostio yn ffordd o brosesu a thrin gwastraff gwyrdd yn gynaliadwy. Rhaid i'r cynnyrch fod o ansawdd digonol i fod o ddefnydd buddiol wedi hynny a gallai hyn olygu bod angen cynnal prosesau cysylltiedig megis rhwygo.

6.170 Caiff rhesgompostio ei wneud ar dir agored, mae'n fwyaf addas mewn lleoliadau gwledig ac weithiau defnyddir y broses fel elfen o arallgyfeirio ar fferm.

6.171 Mae cynhyrchu ynni o wastraff yn ddewis arall yn hytrach na thirlenwi neu dirgodi. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd cyfleusterau Ynni o Wastraff yn cael eu lleoli yn agos i gyfleuster a allai ddefnyddio'r ynni a gynhyrchir. Mae hynny fel arfer yn golygu gosodiad diwydiannol mawr neu ystad ddiwydiannol sydd â nifer o fusnesau.

6.172 Yn aml, bydd rheoli gwastraff peryglus yn ei darddle yn fwy derbyniol na'i gludo i safle pellach oddi mewn i ardal y Cynllun neu'r tu allan. Oddi mewn i ardal y Cynllun, caiff llawer o'r gwastraff peryglus neu arbennig ei greu gan safleoedd diwydiannol mawr sy'n ffinio â Dyfrffordd Aberdaugleddau, ac yn aml ymdrinnir â'r gwastraff hynny oddi mewn i'r safleoedd hynny neu'n gyfagos iddynt. Mae peth o'r gwastraff hynny hefyd yn cael ei greu gan weithgarwch morol.

**GN.42 Gwaredu Gwastraff ar Dir**

**Caniateir cynigion i waredu gwastraff ar dir pe bodlonir y meini prawf canlynol:**

1. **Y cynigion yw'r unig ddatrysiad ymarferol, gan roi ystyriaeth i'r hierarchaeth wastraff, i anghenion cenedlaethol, rhanbarthol a lleol dynodedig;**
2. **Mae camau digonol (gweithredol a gofal dilynol) wedi'u cynnig i ymdrin ag unrhyw drwytholch neu nwy tirlenwi a allai ddeillio o'r cynnig;**
3. **Mae'n bosibl sicrhau ffurf tir sy'n gydnaws â'r dirwedd gyffiniol ar ôl gorffen gweithredu a**
4. **Gwneir darpariaeth ar gyfer tirweddu, adfer yn gynyddol, defnydd(iau) buddiol priodol wedi'r gwaith, adfer a rheoli'r safle ar ôl iddo gau.**

6.173 Mae angen y polisi hwn er mwyn sicrhau bod tir digonol a phriodol ar gael ar gyfer gwastraff / gwastraff anadweithiol, na ellir ymdrin ag ef mewn unrhyw ffordd arall ac er mwyn sicrhau dulliau diogelu cadarn a gaiff eu defnyddio tra bod y safle yn weithredol ac wedi iddo gau. Bydd hefyd angen i ymgeiswyr gael Caniatâd Amgylcheddol gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

# Pennod 7: Gwireddu'r Weledigaeth: Gweithredu a Monitro

**Cyflwynia**

7.1 Mae'r adran hon yn esbonio sut y caiff y Cynllun ei gyflawni, sut beth fydd 'llwyddiant', sut caiff cynnydd ei asesu a pha fesurau y bydd y Cyngor yn eu defnyddio i benderfynu ai adolygiad llawn neu rannol o'r Cynllun sydd ei angen.

7.2 Mae'r Cynllun Datblygu statudol yn darparu fframwaith er mwyn gwneud penderfyniadau yn rhesymol ac yn gyson. Drwy ymgysylltu â'r cyhoedd wrth baratoi'r Cynllun hwn, galluogwyd y gymuned gyfan – busnesau, sefydliadau a'r cyhoedd yn gyffredinol – i ymwneud yn llawn yn y broses o ffurfio Polisïau Cynllunio ar gyfer ardal y Cynllun. Mae proses y CDLl yn rhoi pwyslais ar amcanion a pholisïau y gellir eu cyflawni ac ar fonitro yn rheolaidd a chyson er mwyn cofnodi cynnydd. Mae monitro ac adolygu'r Cynllun a pharatoi a chyhoeddi adroddiadau monitro blynyddol yn ofynion statudol.

7.3 Mae'r Cyngor Sir yn ymrwymedig i ddangos cynnydd wrth gyflawni'r Cynllun. Mae Ffigur 2, pennod 2 yn gosod y berthynas rhwng materion, amcanion, Polisïau a monitro er mwyn hwyluso'r gwaith o fonitro strategaeth a pholisïau'r Cynllun yn effeithiol ac effeithlon o ran cyfeirio datblygiadau o'r maint a'r math cywir i'r lleoliadau cywir. Cychwynnir ar adolygiad llawn o'r Cynllun bedair blynedd ar ôl ei fabwysiadu. Pe byddai'r gwaith monitro yn dangos nad yw'r amcanion bellach yn berthnasol neu nad ydynt yn cael eu cyflawni, bydd y Cyngor yn adolygu Polisïau unigol, y dull gweithredu strategol neu'r Cynllun cyfan. Fel rhan o unrhyw adolygiad, ystyrir p'un a yw Polisïau'r Cynllun a'r amcanion sy'n sail iddynt yn dal i fod yn gyflawnadwy a ph'un a ydynt yn parhau i fod yn ddigon cadarn i lwyddo drwy gydol cyfnodau o amrywiadau economaidd a chymdeithasol.

7.4 Caiff dylanwad yr economi rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol ehangach, gan gynnwys y sector preifat, ar gyflawniad amcanion, strategaeth a pholisïau'r Cynllun eu hystyried wrth werthuso cyflawniad y Cynllun.

7.5 Yn gyffredinol, bydd 'llwyddiant' wrth gyflawni'r Cynllun yn arwain at:

- Gyflawni gwaith datblygu trefol a gwledig sy'n fwy cytbwys;
- Gwelliant cyffredinol o ran dylunio a chynaliadwyedd;
- Datblygiadau newydd sy'n well o ran gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd megis tywydd eithafol a llifogydd;
- Parhau i ddiogelu a chyfoethogi bioamrywiaeth a thirwedd
- Twf yn y ddarpariaeth o dai fforddiadwy a thai'r farchnad gyffredinol;
- Gwell dewis o ddaliadaeth;
- Sylfaen economaidd gadarnach, gan gynnwys
  - Cyflenwi safleoedd strategol allweddol;
  - Cymryd cyfleoedd i arallgyfeirio ar ffermydd, a thai fforddiadwy yn seiliedig ar ffermydd drwy bolisi cenedlaethol er mwyn hyrwyddo dilyniant rheoli fferm;
  - Gwell bywiogrwydd yn y Trefi Ffocws drwy ddatblygiadau ategol, ac adfywio ac adfywhau canol trefi sy'n nodedig yn lleol, gyda chyfran dda o fasnachwyr annibynnol a lleihad yn y nifer o leoedd gwag yn y prif ardaloedd masnachol; a
  - Chyflenwi cyfleusterau cymunedol.

**Gweithrediad**

7.6 Bydd gan y Cyngor Sir swyddogaeth uniongyrchol o ran datblygu, mewn rhai agweddau ar weithrediad y Cynllun, pan fo ganddo gyfrifoldebau statudol neu bwerau caniataol i ddarparu gwasanaeth (megis ei swyddogaeth fel Awdurdod Priffyrdd Lleol Awdurdod Addysg Lleol a'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol). Serch hynny, bydd mwyafrif helaeth o'r cynigion datblygu newydd, gan gynnwys cyflogaeth a chynlluniau tai, yn cael eu cyflawni gan y sector preifat, fel yn achos nifer o fathau eraill o ddatblygiadau. Gallai fod i sefydliadau'r trydydd sector (gwirfoddol) ac amryw sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus swyddogaeth mewn perthynas â chyflawni rhai mathau penodol o ddatblygiadau newydd.

7.7 Mae darparu seilwaith digonol ac effeithlon, gan gynnwys gwasanaethau megis cyflenwad dŵr, carthffosydd, rheoli gwastraff (gan gynnwys trin dŵr gwastraff), trydan, nwy, telegyfathrebu a chyfleusterau cymunedol, yn hanfodol ar gyfer twf economaidd cynaliadwy yn Sir Benfro. Bydd gwaith datblygu newydd yn gosod pwysau ychwanegol ar seilwaith, yn strategol ac mewn safleoedd penodol.




7.8 Mewn rhai achosion, caiff y seilwaith sydd ei angen ar gyfer y gwaith datblygu newydd sydd wedi'i nodi yn y Cynllun hwn ei raglennu gan ddarparwyr gwasanaethau a chwmnïau cyfleustodau, gan weithio ochr yn ochr â datblygwyr y sector preifat. Pan na fydd gwelliannau sydd eu hangen i'r seilwaith wedi'u rhaglennu o fewn yr amserlen ddatblygu a ragwelwyd gan y datblygwr, bydd darparu'r seilwaith sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad yn ofyniad hanfodol er mwyn caniatáu i'r datblygiad fynd rhagddo. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd angen i ddatblygwyr arfaethedig ddarparu'r seilwaith angenrheidiol (neu gyfraniad ariannol tuag at y gost yn achos gwaith oddi ar y safle) er mwyn caniatáu i'r datblygiad fynd rhagddo ac felly rhaid iddynt ystyried y costau angenrheidiol ar gam cynnar wrth baratoi eu cyllid datblygu. Lle mae angen gwelliannau nad ydynt yn y rhaglen ar gyfer systemau draenio er mwyn i ddatblygiadau fynd ymlaen, mae'n rhaid i'r rhain fod i safon fabwysiadwy.

7.9 Gallai gofynion llymach o ran seilwaith a chyfyngiad ar fuddsoddiad y sector cyhoeddus mewn darparu seilwaith ac adeiladau newydd effeithio ar gynnydd yn ystod blynyddoedd cynnar y Cynllun. Fodd bynnag, gallai ffynonellau cyllid fel y Rhaglen Gyd-gyfeirio gynnig adnoddau a fyddai'n fodd i gyflawni cynigion, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â datblygu economaidd.

7.10 Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol ar Safleoedd Datblygu yn darparu gwybodaeth fanylach am ofynion seilwaith er mwyn cynorthwyo'r Cynllun.

## Monitro

7.11 Mae'r adran hon yn amlinellu'r fframwaith monitro a fydd yn galluogi'r Cyngor i adolygu effeithiolrwydd y Cynllun. Mae'r fframwaith yn nodi'r Polisïau craidd a gaiff eu monitro ynghyd â chyfres o ddangosyddion a thargedau a'r ffynonellau data a ddefnyddir er mwyn mesur cynnydd dros amser (cyflwynir hyn yn y tabl yn Atodiad 4).

7.12 Fel rhan o'r fframwaith monitro bydd y Cyngor yn paratoi ac yn cyhoeddi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) gan gynnwys rhanddeiliaid fel sydd yn briodol. Yr AMB yw'r prif ddull o asesu perthnasedd a llwyddiant y Cynllun hwn a nodi unrhyw newidiadau sydd eu hangen. Y bwriad yw gwella tryloywder y broses gynllunio a hysbysu aelodau etholedig, y gymuned, busnesau a sefydliadau amgylcheddol ynghylch materion yn ymwneud â'r Cynllun datblygu sy'n wynebu'r ardal. Drwy'r AMB bydd y Cyngor yn adrodd ar gyd-destun y Cynllun, y data a gesglir fel rhan o'r gwaith monitro a gwerthusiad o effeithiolrwydd y Cynllun. Bydd pob adroddiad yn rhoi ystyriaeth i wybodaeth gyd-destunol gan gynnwys, pan fo hynny'n briodol, monitro canlyniadau Cynllun Gofodol Cymru 2008 a Chynllun Cymunedol Sir Benfro 2010.

7.13 Caiff yr Adroddiadau Monitro Blynyddol eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor Sir a'u cyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru bob blwyddyn, gan gychwyn yn y flwyddyn yn dilyn mabwysiadu'r CDLl.

7.14 Mae Llywodraeth y Cynulliad[132] yn cydnabod mai afrealistig fyddai monitro pob polisi gan y byddai hyn yn arwain at ddogfen sy'n ddianghenraid o fawr a chymhleth. Bydd yr AMB yn canolbwyntio ar fonitro canlyniadau Polisïau allweddol yn gyson, gan ddefnyddio set safonol o brofion a gofynion monitro er mwyn gallu gwerthuso ar sail tueddiadau, gan adrodd ar agweddau eraill ar bolisi yn llai aml. Pan fo methiant i gyrraedd targed yn hanfodol i lwyddiant neu fethiant y Cynllun, cynhwysir mesurau i sbarduno camau pellach gan y Cyngor Sir. Nodir yn yr AMB y sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, yr ymgymerwyr statudol a'r sector preifat, y mae eu gweithgarwch yn dylanwadu ar ba mor gyflawnadwy yw'r Cynllun.

7.15 Caiff rhai o elfennau'r Cynllun eu monitro drwy waith arolwg yn rheolaidd, er enghraifft tai, datblygu cyflogaeth a newidiadau i ardaloedd canol trefi. Mewn achosion eraill, gallai dulliau eraill fod yn fwy priodol. Gallai'r rhain gynnwys y canlynol:

- Arolygon trigolion;
- Cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allweddol a'r Fforymau Cyswllt Ardal;
- Trafodaethau gydag arbenigwyr maes neu ardal; a
- Dadansoddi cofnodion ceisiadau Cynllunio, gan gynnwys cymeradwyaethau, gwrthodiadau, penderfyniadau apêl a gwyriadau.

7.16 Pan fo gwaith datblygu yn cael ei gyflwyno fesul cam, er enghraifft er mwyn caniatáu darparu seilwaith hanfodol, bydd hyn wedi'i gynnwys yn rhan o'r disgwyliad o'r hyn a allai gael ei gyflenwi ar wahanol ddyddiadau (mae hyn yn arbennig o berthnasol i gyflenwi tai).

7.17 Bydd y cwestiynau allweddol i'w hystyried gan yr AMB yn cynnwys:-

- Pa faterion newydd sydd wedi codi yn yr ardal neu mewn polisi lleol/cenedlaethol (newidiadau allweddol diweddar, rhagolygon i'r dyfodol)?
- Beth yw'r ffactorau achosol sy'n sail i'r materion newydd hyn (er enghraifft, grymoedd cymdeithasol, economaidd a demograffig strwythurol newydd a fydd yn ardaro ar ardal)?
- Pa mor berthnasol, addas a chyfoes yw strategaeth y CDLl a'i bolisïau a'i dargedau?

---

[132] 'Llawlyfr CDLl' Llywodraeth Cymru (2006).

- Pa safleoedd sydd wedi'u datblygu mewn perthynas â disgwyliadau'r Cynllun o ran lleoliad ac amseru?
- Beth fu effeithiolrwydd Polisïau (a chanllawiau Cynllunio atodol cysylltiedig) o ran ymdrin â cheisiadau, a phan fo hynny'n berthnasol, o ran arwain at geisiadau Cynlluniau gwell, ac annog i beidio â chyflwyno ceisiadau amhriodol?
- Beth fu effeithiolrwydd Polisïau (a chanllawiau Cynllunio atodol cysylltiedig) o ran delio ag apeliadau?
- A yw'r Polisïau wedi arwain at unrhyw sgil effeithiau a oedd heb eu rhagweld?

7.18 Mae'r canlyniadau monitro allweddol a ddangosir yn Ffigur 2 y Cynllun hwn yn dangos yr elfennau hynny o'r Cynllun a fydd yn denu'r rhan helaeth o'r sylw wrth gynnal gwaith monitro blynyddol. Gan grynhoi, y canlyniadau hynny yw:

- Sicrhau bod gwaith datblygu yn cyd-fynd â strategaeth y CDLl (canlyniad 1);
- Sicrhau nad oes unrhyw berygl ychwanegol o lifogydd yn codi yn sgil gwaith datblygu (canlyniad 2);
- Sicrhau y cyflawnir gwaith datblygu yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau (canlyniad 3);
- Sicrhau tir ar gyfer y sectorau cysylltiedig â phorthladdoedd ac ynni/ynni cynaliadwy (canlyniad 4);
- Monitro lefelau seilwaith newydd a ddarperir yn ystod oes y Cynllun a symud ymlaen gyda blaenoriaethu/cyllido a datblygu Cynlluniau trafnidiaeth allweddol strategol a gwell cysylltedd TGCh (canlyniad 5);
- Sicrhau y cynhelir bywiogrwydd ac amrywiaeth canol trefi a chanolfannau lleol ac y cryfheir swyddogaeth Hwlffordd fel canolfan isranbarthol (canlyniad 6);
- Darparu amrywiaeth o llety gwyliau ac atyniadau ar gael ar gyfer gwahanol anghenion ymwelwyr (canlyniad 7);
- Sicrhau y darperir safleoedd cyflogaeth a defnydd cymysg newydd ar gyfer unedau byw/gweithio mewn ardaloedd trefol a gwledig ac y diogelir safleoedd presennol (canlyniad 8);
- Sicrhau bod amrywiaeth o safleoedd datblygu yn bodoli mewn ardaloedd trefol a gwledig (canlyniad 9);
- Sicrhau na chaniateir datblygu a fyddai'n sterileiddio'r adnodd mwynau a ddiogelir (canlyniad 10);
- Sicrhau y darperir 5,724 o anheddau newydd er mwyn darparu 4,274 o anheddau marchnad a 1,450 o anheddau fforddiadwy (canlyniad 11);

- Sicrhau bod gwaith datblygu yn sensitif i anghenion cymunedau lle mae iaith yn fater o bwys o ran graddfa a natur (canlyniad 12);
- Gwarchod cyfleusterau cymunedol presennol a gwella darpariaeth(canlyniad 13);
- Cadw ansawdd y dirwedd, ei hamrywiaeth a'i nodweddion unigryw (canlyniad 14);
- Sicrhau nad yw datblygiad yn peryglu statws cadwraeth ffafriol rhywogaethau a chynefinoedd o bwys Ewropeaidd (canlyniad 15);
- Darparu cyfleusterau gwastraff i gwrdd ag anghenion y Sir (canlyniad 16);
- Sicrhau amgylchedd hanesyddol ac adeiledig llewyrchus (canlyniad 17).
- Cyflawni dyluniad cynaliadwy o'r radd flaenaf (canlyniad 18).

## Adolygu'r Cynllun

7.19 Bydd canlyniadau'r gwaith monitro yn bwydo i mewn i adolygiad ac addasiad y CDLl a chanllawiau Cynllunio atodol. Beth bynnag y bo'r canlyniadau a gyflwynir mewn unrhyw Adroddiad Monitro Blynyddol penodol, bydd disgwyl i'r Cyngor Sir adolygu'r CDLl bob pedair blynedd yn dilyn y dyddiad mabwysiadu cyntaf a'r rhai dilynol, er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol.

7.20 Gallai adolygiad fod ar ffurf:

- Olynydd i'r CDLl, hynny yw Cynllun cwbl newydd pe ceir bod y Cynllun presennol wedi dyddio yn sylweddol a bod nifer y newidiadau angenrheidiol yn sylfaenol fawr; neu
- Addasiadau ar ffurf treiglo'r CDLl yn ei flaen yn rhannol, pan fo rhai rhagolygon a thybiaethau wedi newid, pan fo angen newid rhywfaint o bolisi neu pan fo angen ychwanegu rhywfaint o bolisïau er mwyn ymdrin â meysydd sydd wedi newid yn sylweddol neu gadwraeth neu ddigwyddiadau anrhagweladwy.

7.21 Dim ond mewn achosion eithriadol y cynhelir adolygiad o'r CDLl cyn yr adolygiad ffurfiol pedair blynedd. Mae'r asesiad o lwyddiant neu fethiant y Cynllun fel Cynllun strategol yn un eang a bydd amgylchiadau yn newid dros gyfnod y Cynllun. O'r herwydd, ystyrir mai amhriodol yw defnyddio perfformiad yn erbyn targedau unigol a chanlyniadau Dangosyddion unigol i sbarduno adolygiad o'r Cynllun yn uniongyrchol.

7.22 Yn gyffredinol, ni fydd Fframwaith Monitro'r CDLl yn nodi sbardunau penodol i gynnal adolygiad gan y bydd camau eraill llai llym yn fwy priodol mewn llawer o achosion, megis ymchwil pellach neu baratoi Canllawiau Cynllunio Atodol. Gwneir dyfarniad ynghylch yr angen i gynnal adolygiad llawn neu

rannol yn seiliedig ar ystyriaeth o'r ffactorau canlynol ac ar sail ymgysylltu â rhanddeiliaid:

- Newid sylweddol mewn amodau allanol;
- Newid sylweddol mewn polisi neu ddeddfwriaeth;
- Newid sylweddol mewn cyd-destun lleol, er enghraifft cau safle cyflogaeth sylweddol sy'n tanseilio'r economi lleol neu effaith cronnus cyfres o safleoedd cyflogaeth yn cau;
- Newid sylweddol mewn pwysau neu anghenion datblygu a strategaethau buddsoddi buddsoddwyr cyhoeddus a phreifat mawr; a
- Phryderon sylweddol yn codi o ganfyddiadau'r AMB yn nhermau effeithiolrwydd polisi, cyflenwi safleoedd, cyfraddau cynnydd, ac unrhyw broblem o ran gweithredu.

# Atodiad 1: Geirfa

| | |
|---|---|
| Adroddiad Gwerthusiad Cynaliadwyedd (GC) Cychwynnol | Fersiwn o’r adroddiad Gwerthusiad Cynaliadwyedd, a gynhyrchir ar gam y Strategaeth a Ffefrir. |
| Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) | Adroddiad sy’n asesu i ba raddau y caiff y Polisïau yn y CDLl eu gweithredu’n llwyddiannus a chaiff ei gyhoeddi yn flynyddol. |
| Anheddiad | Grŵp o anheddau sy’n ffurfio pentref neu bentrefan lle y ceir cydlyniant ffisegol o anheddau. |
| Arallgyfeirio Amaethyddol | Datblygu ar fferm weithredol sy’n golygu newid defnydd tir, neu adeiladau, neu ddatblygiad newydd nad yw’n dod o dan ddiffiniad amaethyddiaeth. |
| Ardal Cadwraeth Arbennig | Ardal a ddynodwyd o dan y Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar Gadwraeth Cynefinoedd Naturiol a Fflora a Ffawna Gwyllt er cadwraeth safleoedd o bwysigrwydd cadwraeth rhyngwladol. |
| Ardal Gwarchodaeth Arbennig | Ardal a ddynodwyd o dan y Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar Gadwraeth Adar Gwyllt, er mwyn gwarchod adar gwyllt a’u cynefinoedd. |
| Ardaloedd Cadwraeth | Ardaloedd o bwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol arbennig y mae’n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu’u golwg. |
| Ardaloedd hamdden awyr agored | Mae ardaloedd hamdden awyr agored yn cynnwys mannau megis caeau chwarae, meysydd chwarae a pharciau, a llwybrau hamdden megis llwybrau beiciau a llwybrau ceffylau. Mae iddynt swyddogaethau cymdeithasol ac amgylcheddol pwysig ac fe’u gwarchodir rhag datblygu amhriodol. |
| Arolygydd | Y person a benodir gan yr Arolygaeth Gynllunio i gynnal archwiliad annibynnol i’r CDLl Adnau a dogfennau cysylltiedig. |
| Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) | Term cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio asesiad amgylcheddol mewn perthynas â pholisïau, Cynlluniau a rhaglenni. Mae “asesiad amgylcheddol o gynlluniau a rhaglenni penodol, gan gynnwys rhai ym maes Cynllunio a defnydd tir” ffurfiol yn ofynnol o dan reoliadau AAS. |
| Ategol | Defnydd o dir neu adeiladau sy’n wahanol yn dechnegol i’r prif ddefnydd (neu’r defnydd pennaf), ond sydd yn llai pwysig ac a gaiff ei ganiatáu oherwydd ei gyswllt â’r defnydd pennaf hwn. |
| Awdurdod Cynllunio Lleol | Awdurdod Cynllunio sy’n gyfrifol am baratoi’r CDLl. |
| Bioamrywiaeth | Cyfoeth ac amrywiaeth pethau byw (planhigion, adar, anifeiliaid, pysgod, pryfed ac ati) sy’n bodoli mewn ardal benodol, a’r cynefinoedd sy’n eu cefnogi. |
| Brigiad | Adnodd mwynol sy’n brigo ar wyneb y ddaear. |



| | |
|---|---|
| Cadernid | Mae cadernid y Cynllun yn cyfeirio at a yw'r Cynllun yn graff ei farn ac a oes modd rhoi ffydd ynddo. Mae'r profion o gadernid yn brofion diffiniedig o weithdrefn, cysondeb, cydlyniant ac effeithiolrwydd y caiff y CDLl ei archwilio yn ei erbyn gan Arolygwr Cynllunio Annibynnol. |
| Canllawiau Cynllunio Atodol | Canllawiau neu wybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r Polisïau mewn Cynllun Datblygu, sy'n egluro sut y rhoddir Polisïau ar waith. Nid yw'r Canllawiau yn ffurfio rhan o'r Cynllun Datblygu ac nid yw'n destun archwiliad annibynnol ond rhaid iddo ddeillio o'i bolisïau a'i gynigion a bod yn gyson ag ef ac â pholisi Cynllunio cenedlaethol. |
| Canolfan Wasanaethol | Anheddiad sydd ag amrywiaeth ragorol o wasanaethau ac amrywiaeth o siopau (Gweler Hierarchaeth Aneddiadau hefyd). |
| Cefnwlad | Ardal o dir sy'n gorwedd y tu hwnt i'r trefi. |
| Cod Cartrefi Cynaliadwy | Safon genedlaethol ar gyfer dylunio ac adeiladu tai newydd a ddefnyddir gan ddylunwyr ac adeiladwyr tai fel canllaw i ddatblygu, a chan brynwyr tai i'w cynorthwyo i ddewis tŷ. Mae'r Cod yn mesur perfformiad cynaliadwyedd tŷ yn erbyn naw categori dylunio, gan roi iddo radd o un i chwe seren. Caiff canlyniadau asesiad y Cod eu cofnodi mewn tystysgrif sydd wedi'i phennu i'r annedd. |
| Cwmpasu | Y broses o benderfynu ar gwmpas a lefel manylder Gwerthusiad Cynaliadwyedd, gan gynnwys effeithiau cynaliadwyedd ac opsiynau sydd angen eu hystyried, y dulliau asesu i'w defnyddio a strwythur a chynnwys yr adroddiad GC. |
| Cyfranogiad | Rhanddeiliaid a'r gymuned yn rhyngweithio gyda gwneuthurwyr y Cynllun. |
| Cyfleusterau Cymunedol | Cyfleusterau, sydd fel arfer wedi'u lleoli mewn pentref neu dref, a gaiff eu defnyddio yn rheolaidd gan y gymuned leol. Gallant gynnwys: siopau, tafarndai, gorsafoedd petrol, meddygfeydd a chyfleusterau gofal iechyd eraill, ysgolion, neuaddau pentref/cymunedol, adeiladau crefyddol, neuaddau chwaraeon, canolfannau hamdden, sinemâu and theatrau, cyfleusterau addysg gymunedol a mannau ailgylchu cymunedol graddfa fach. |
| Cymuned | Pobl sy'n byw mewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig, neu sy'n rhannu buddiannau cyffredin. |
| Cyngor | Cyngor Sir Penfro. |
| Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC) | Rhan o'r Cytundeb Darparu sy'n amlinellu Cynllun y Cyngor ar gyfer cynnwys y bobl hynny sydd â buddiannau yn y broses o baratoi'r CDLl, gan gynnwys busnesau. |
| Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) | Y Cynllun Datblygu Statudol ar gyfer pob ardal Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru, fel sy'n ofynnol o dan Adran 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. |

| | |
|---|---|
| Cynllun Gofodol Cymru | Cynllun a baratowyd ac a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gosod fframwaith strategol i arwain gwaith datblygu ac ymyraethau polisi i'r dyfodol. |
| Cynnwys | Term cyffredinol sy'n cynnwys cyfranogi ac ymgynghori. |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Y corff yng Nghymru sy'n dadlau a chymeradwyo deddfwriaeth ac sy'n dal Llywodraeth Cymru i gyfrif. |
| Cysylltedd | Rhwyddineb symud rhwng tarddbwynt a phen y daith. |
| Cytundeb Darparu | Dogfen sy'n cynnwys Cynllun prosiect yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer paratoi'r CDLl a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau a gytunwyd rhwng y Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru. |
| Dangosydd | Mesur o newidynnau dros amser a ddefnyddir i asesu cynnydd wrth gyflawni amcanion, targedau a pholisïau. |
| Datblygiadau defnydd cymysg | Datblygiadau sy'n cynnwys mwy nag un math o ddefnydd tir o fewn safle unigol. |
| Datblygu | Yng nghyfraith Cynllunio, caiff hyn ei ddiffinio fel 'cynnal gwaith adeiladu, peirianneg, cloddio neu weithrediadau eraill mewn, ar, dros neu o dan dir.' (Adran 55 o Ddeddf Cynllunio 1990 fel y'i diwygiwyd). |
| Datblygu Cynaliadwy | Nod datblygu cynaliadwy yw "galluogi'r holl bobl drwy'r byd i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol a mwynhau gwell ansawdd bywyd heb gyfaddawdu ar ansawdd bywyd cenedlaethau'r dyfodol" (cyd-fframwaith y DU ar gyfer datblygu cynaliadwy). Yng nghyd-destun Cymru (Cynllun Datblygu Cynaliadwy LICC, Tachwedd 2008), mae datblygu cynaliadwy yn golygu gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau gwell ansawdd bywyd i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol. Rhaid gwneud hyn mewn ffyrdd sy'n hybu cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal, ac sy'n gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu ei gyfyngiadau, gan ddefnyddio ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear yn unig a chynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol. Mae datblygu cynaliadwy yn rhan o'r broses a ddefnyddiwn er mwyn cyrraedd y nod o gynaliadwyedd. |
| Datblygu Gwledig | Yn gyffredinol mae hyn yn dynodi y gweithrediadau a'r mentrau a wneir er mwyn gwella ffyniant ac ansawdd ardaloedd annhrefol: yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn amgylcheddol. |
| Datblygiad Mawr | Datblygiad o 10 neu ragor o unedau preswyl neu ddatblygiadau masnachol sydd ag arwynebedd llawr sy'n fwy na 1000 $m^2$ |
| Datganiad Dylunio a Mynediad | Mae datganiad dylunio a mynediad yn ofynnol gan ddeddfwriaeth i gyd-fynd ag unrhyw geisiadau Cynllunio (gydag eithriadau). Mae'r datganiad yn esbonio sut mae'r cais yn rhoi ystyriaeth i amcanion dylunio da ac yn ymateb i faterion mynediad. Felly, lle y bo angen datganiad, y mae'n ystyriaeth berthnasol y mae'n rhaid i'r un sy'n gwneud penderfyniad roi sylw iddi wrth ystyried y cais |

| | |
|---|---|
| Dosbarthiadau Defnydd | Mae Dosbarth A y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd (1987, fel y'i diwygiwyd) yn cynnwys y mathau canlynol o safleoedd:<br>A1: Siopau - er enghraifft: warysau manwerthu, trin gwallt, trefnwyr angladdau, asiantaethau teithio a thocynnau, swyddfeydd post, sychlanhawyr, siopau brechdanau ac ati.<br>A2: Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol - banciau, cymdeithasau adeiladu, arwerthwyr tai, asiantaethau cyflogaeth, swyddfeydd betio.<br>A3: Bwyd a diod - bwytai, tafarndai, bariau byrbrydau, caffis, bariau gwin, siopau sy'n gwerthu bwyd twym.<br>Mae Dosbarth B y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd (1987, fel y'i diwygiwyd) yn cynnwys y mathau canlynol o safleoedd:<br>B1: Swyddfeydd (nid y rhai o fewn Dosbarth Defnydd A2), ymchwil a datblygu, stiwdios, labordai, uwch-dechnoleg.<br>B2: Defnydd diwydiannol cyffredinol.<br>B8: Storio (ac eithrio defnyddiau niwclear) a dosbarthu.<br>Mae Dosbarth C y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd (1987, fel y'i diwygiwyd) yn cynnwys y mathau canlynol o safleoedd:<br>C1: Gwestai, tai preswyl a thai llety<br>C2: Ysgolion a cholegau preswyl, ysbytai a chartrefi ymadfer/nyrsio<br>C3: Aneddiadau, busnesau bach yn y cartref, tai cymunol i bobl hŷn a phobl dan anfantais.<br>Mae Dosbarth D y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd (1987, fel y'i diwygiwyd) yn cynnwys y mathau canlynol o safleoedd:<br>D1: Mannau addoli, neuaddau eglwys, clinigau, canolfannau iechyd, crèche, meithrinfeydd dydd, ystafelloedd ymgynghori, amgueddfeydd, neuaddau cyhoeddus, llyfrgelloedd, orielau celf, neuaddau arddangos, canolfannau addysg a hyfforddiant amhreswyl.<br>D2: Sinemâu, neuaddau cerdd a chyngerdd, neuaddau dawns a chwaraeon, baddonau nofio, rinciau sglefrio, campfeydd, defnyddiau chwaraeon a hamdden eraill dan do ac awyr agored, neuaddau bingo, casinos.<br>Sui Generis: Mae nifer o ddefnyddiau nad ydynt yn gorwedd mewn unrhyw Ddosbarth Defnydd ac felly fe'u disgrifir fel Sui Generis - dosbarth ar eu pen eu hunain. Er enghraifft, mae theatrau, canolfannau difyrrwch, ystafelloedd arddangos ceir, gorsafoedd petrol a swyddfeydd hurio ceir ymhlith mathau o ddefnydd sydd wedi'u heithrio yn benodol rhag bod mewn unrhyw Ddosbarth diffiniedig. |

| | |
|---|---|
| Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) | Y safon adeiladu amgylcheddol genedlaethol sy'n graddio cynaliadwyedd amgylcheddol datblygiadau amhreswyl mawr. Nod asesiad amgylcheddol BREEAM yw lleihau effaith amgylcheddol drwy sicrhau bod arferion gorau yn eu lle o ran cynaliadwyedd yn ogystal â lleihau costau sefydliadau drwy effeithlonrwydd ynni. |
| Dyraniad | Tir sydd wedi'i gynnig at ddefnydd penodol, wedi'i nodi ar y Map Cynigion yn y CDLl. |
| Economi Wledig | Cyfuniad o fusnesau a mentrau yn seiliedig mewn ardaloedd gwledig sy'n cynnal bywyd a gwaith yng nghefn gwlad. |
| Ffin Anheddiad | Mae Ffiniau Anheddiad yn nodi cyfyngiadau ffisegol yr ardal adeiledig bresennol a hefyd yn cynnwys tir ymyl yr anheddiad sydd wedi'i ddyrannu neu sydd wedi'i ganiatáu i'w ddatblygu o natur adeiledig ac a fyddai, wedi iddo gael ei gwblhau, yn ffurfio rhan gydlynol o ffabrig yr anheddiad. |
| Ffocws | Dyma derm Cynllun Gofodol Cymru a ddefnyddir i ddisgrifio ardal strategol sydd iddi swyddogaeth ranbarthol bwysig ac a ddylai felly fod yn ganolbwynt pwysig o ran buddsoddi i'r dyfodol. Mae Trefi Ffocws o fewn ardal y Cynllun yn cynnwys: Hwlffordd, Doc Penfro, Penfro, Aberdaugleddau a Neyland (Ffocws yr Hafan) ac Abergwaun ac Wdig (Ffocws Gogledd Sir Benfro). |
| Ffryntiad Cynradd | Strydoedd neu grwpiau o adeiladau o fewn canol trefi lle y ceir crynodiad uchel o ddefnyddiau A1 ar hyn o bryd. Er mwyn gwarchod bywiogrwydd a hyfywedd y lleoliadau hyn caiff nifer a chrynodiad defnyddiau ar wahân i A1 eu cyfyngu ac fel arfer ni chaniateir newid i ddefnydd preswyl ar lawr gwaelod. |
| Ffryntiad Eilaidd | Strydoedd neu grwpiau o adeiladau o fewn canol trefi sy'n cynnwys amrywiaeth eang o ddefnydd. Er mwyn gwarchod bywiogrwydd a hyfywedd y lleoliadau hyn fel arfer ni chaniateir newid i ddefnydd preswyl ar lawr gwaelod. |
| Grant Tai Cymdeithasol | Grant a roddir i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw'r Grant Tai Cymdeithasol i ariannu Cynlluniau tai sy'n darparu tai fforddiadwy. |
| Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG) | Ardal a ddynodwyd oherwydd ei phwysigrwydd cenedlaethol o ran cadwraeth natur, ac a reolir yn unol â chytundeb cadwraeth natur â thirfeddianwyr a deiliaid. |
| Gwarchodfa Natur Leol | Ardal a ddynodwyd am ei phwysigrwydd o ran cadwraeth natur. |

| | |
|---|---|
| Gwarchod y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlddefnydd | Tir o raddau 1, 2 a 3a yn ôl Dosbarthiad Tir Amaethyddol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yw'r tir gorau a mwyaf amlddefnydd, a dylid ei warchod fel adnodd meidraidd i'r dyfodol. Mewn Polisïau Cynllun datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygu, dylid rhoi pwysau sylweddol i warchod tir o'r fath rhag cael ei ddatblygu, oherwydd ei bwysigrwydd arbennig. (Paragraff 4.10 Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 5, 2012). |
| Gweithredu | Rhoi Cynllun neu system ar waith. |
| Gwerthusiad Cynaliadwy (GC) | Mae hwn yn ofynnol yn gyfreithiol i werthuso Cynlluniau, gan gynnwys CDLlau, er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu tuag at ddatblygu cynaliadwy. Mae'n llwyr ymgorffori gofynion y Gyfarwyddeb AAS yn ôl y canllawiau. |
| Gwerthusiad Rheoliadau Cynefinoedd | Mae angen ARhC o dan Gyfarwyddeb Ewropeaidd 92/43/EEC ac asesiad yw hyn o effeithiau Cynllun neu brosiect ar Safle Natura 2000. Diben hyn yw ystyried effeithiau Cynllun defnyddio tir yn erbyn amcanion cadwraeth y safle a phenderfynu a fyddai'n amharu ar gyfanrwydd y safle. Lle gwelir bod effeithiau negyddol sylweddol, dylid ymchwilio i ddewisiadau eraill er mwyn osgoi unrhyw effeithiau a allai beri niwed. Mae Asesiad Priodol (AP) yn un rhan o broses yr ARhC. Nid oes ei angen oni bai fod y corff sy'n gwneud y Cynllun o'r farn ei bod yn debygol y bydd y Cynllun yn effeithio'n sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd Dynodedig, un ai'n unigol neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill. Mae'n ystyried a yw effeithiau Cynllun neu brosiect wedi eu hasesu yn erbyn amcanion cadwraeth Safle Ewropeaidd, er mwyn darganfod a yw'n debygol y bydd effeithiau anffafriol ar gyfanrwydd y safle a nodweddion y safle. |
| Hap-safle | Safle ar gyfer datblygiad newydd sydd heb ei ddyrannu ar hyn o bryd ond sydd â'r potensial i ddod gerbron i'w ddatblygu yn ystod cyfnod y Cynllun. |

| | |
|---|---|
| Hierarchaeth Aneddiadau | Aneddiadau Cynllun wedi'u trefnu i hierarchaeth, a ddefnyddir i benderfynu ar faint priodol o ddatblygu. Ar gyfer y CDLl diffiniwyd yr hierarchaeth ar sail amrywiaeth a nifer y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd wedi'u lleoli mewn aneddiadau gan ddefnyddio Cynllun Gofodol Cymru a chanlyniadau Arolwg Cyfleusterau Gwledig y Cyngor. Rhannwyd gwasanaethau i dri chategori, gyda sgôr wedi'i bwysoli i adlewyrchu pwysigrwydd y cyfleuster o ran cyfrannu at aneddiadau cynaliadwy: Gwasanaethau lefel uchaf - siop leol (5 pwynt), Swyddfa Bost (3 phwynt), ysgol gynradd (3 phwynt). Prif wasanaethau, gyda phob un yn werth 2 bwynt - neuadd/canolfan gymunedol, meddygfa meddyg teulu, fferyllfa, tafarn, gwasanaeth bws aml, gwasanaeth trên dyddiol, ardal chwarae neu chwaraeon i blant. Gwasanaethau ychwanegol, gyda phob un yn werth 1 pwynt - man addoli, crèche / cylch chwarae, trafnidiaeth gyhoeddus afreolaidd, cyfleuster ailgylchu, maes pentref / tir comin, llyfrgell barhaol, cysylltiad â phrif system garthffosiaeth a chapasiti prif system garthffosiaeth dros ben (os yw'n wybyddus). |
| Dosbarthiadau'r Hierarchaeth | Trefi: pum prif anheddiad Ffocws yr Hafan (Hwlffordd, Aberdaugleddau, Neyland, Doc Penfro a Phenfro), dau anheddiad Ffocws Gogledd Sir Benfro (Abergwaun ac Wdig) ac Arberth.<br>Canolfan Wasanaethau: Mae gan yr aneddiadau hyn sgôr wedi'i bwysoli o 27 neu uwch, yn ogystal ag amrywiaeth o siopau. Y pedair canolfan wasanaethau yw Crymych, Johnston, Cilgeti a Threletert.<br>Pentrefi Gwasanaethol: Cafodd yr aneddiadau hyn sgôr o 12 neu uwch, sy'n awgrymu amrywiaeth dda o wasanaethau. Mae 45 o bentrefi yn y categori hwn.<br>Pentrefi Lleol: Cafodd pentrefi lleol lai na 12 o bwyntiau yn yr arolwg o Gyfleusterau Gwledig ond mae ganddynt fannau addas a phriodol ar gyfer lefelau isel o ddatblygu preswyl newydd. Ceir 86 o bentrefi lleol.<br>Mae pob ardal arall yn ardal y Cynllun wedi'i diffinio fel bod yn rhan o gefn gwlad. |
| Hunaniaeth Ddiwylliannol | Mae hyn yn cyfeirio at y dreftadaeth, yr arferion, yr ieithoedd, y gwerthoedd a'r byd-olygon sy'n diffinio ardal. |
| Hygyrchedd | Pa mor hawdd y gall unrhyw berson sy'n dymuno gwneud hynny gyrraedd cyfleuster neu ardal a/neu drwy wasanaethau symudol. |
| Llinell Sylfaen | Disgrifiad o gyflwr presennol ardal a ddefnyddir i fesur newid dilynol yn ei erbyn. |
| Llwybrau Hamdden | Llwybrau ar gyfer symudiadau hamdden drwy ddulliau di-fodur, er enghraifft llwybrau beicio, llwybrau troed cyhoeddus a llwybrau ceffylau, dyfrffyrdd ac afonydd. |
| Llywodraeth Cymru (LICC) | Y corff yng Nghymru sy'n datblygu a gweithredu polisi drwy'r Gwasanaeth Sifil ac amrywiaeth o gyrff a noddir. |

| | |
|---|---|
| Monitro | Defnyddio tystiolaeth a gasglwyd i asesu cynnydd a wnaed o ran gweithredu Polisïau'r CDLl. Gweler Adroddiad Monitro Blynyddol. |
| Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) | Dogfennau a gynhyrchir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n rhoi canllawiau technegol manwl i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar faterion Cynllunio penodol. Dylid darllen Nodiadau Cyngor Technegol ar y cyd â Pholisi Cynllunio Cymru a dylai Awdurdodau Cynllunio lleol roi ystyriaeth iddynt wrth baratoi Cynlluniau datblygu. Gallant hefyd fod yn ystyriaethau Cynllunio perthnasol wrth benderfynu ar geisiadau Cynllunio unigol. Gweler y rhestr isod:<br>TAN 1: Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai - 2006<br>TAN 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy - 2006<br>TAN 3: Parthau Cynllunio Syml - 1996<br>TAN 4: Manwerthu a Chanol Trefi - 1996<br>TAN 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur - 2009<br>TAN 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy -2010<br>TAN 7: Rheoli Hysbysebion Awyr Agored - 1996<br>TAN 8: Ynni Adnewyddadwy - 2005<br>TAN 9: Gorfodi Rheolaeth Gynllunio - 1997<br>TAN 10: Gorchmynion Cadw Coed - 1997<br>TAN 11: Sŵn - 2007<br>TAN 12: Dylunio - 2009<br>TAN 13: Twristiaeth - 1997<br>TAN 14: Cynllunio'r Arfordir - 1998<br>TAN 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd - 2004<br>TAN 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored - 2009<br>TAN 18: Trafnidiaeth- 2007<br>TAN 19: Telathrebu - 2002<br>TAN 20: Yr Iaith Gymraeg - Cynlluniau Datblygu Unedol a Rheoli Cynllunio - 2000<br>TAN 21: Gwastraff - 2001<br>TAN 22: Adeiladau Cynaliadwy - 2010 |
| Pentrefi Gwasanaethol | Anheddiad sydd ag amrywiaeth dda o wasanaethau sy'n cefnogi yn ehangach na'r gymuned uniongyrchol (Gweler Hierarchaeth Aneddiadau hefyd). |
| Pentref Lleol | Pentrefi yw'r rhain sydd â lefelau is o wasanaeth na Phentrefi Gwasanaethol. |
| Rhanddeiliad | Unigolyn, grŵp neu sefydliad sydd â buddiannau yng nghynnwys y CDLl. |
| Rhesgompostio | Caiff rhesgompostio ei ddefnyddio i brosesu gwastraff gardd, megis porfa, tociadau a dail naill ai mewn amgylchedd awyr agored neu mewn ardaloedd mawr wedi'u gorchuddio lle y gall y deunydd ddadelfennu. |



| | |
|---|---|
| Safleoedd Maes Glas | Tir na fu unrhyw adeiladu arno, sydd fel arfer yn laswelltir, tir fferm neu rostir. |
| Safleoedd Tir Llwyd | Tir sydd, neu a oedd, yn flaenorol yn lleoliad i strwythur parhaol (ac eithrio adeiladau amaethyddiaeth neu goedwigaeth) a seilwaith arwyneb sefydlog cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys cwrtil datblygiad, adeiladau amddiffyn a thir a ddefnyddiwyd i gloddio am fwynau a gwaredu gwastraff lle na wnaed darpariaeth i adfer y tir. Gweler hefyd Ffigur 4.3 Diffiniad o Dir a Ddatblygwyd yn Flaenorol ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 5, 2012). |
| Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig | Safle cenedlaethol wedi ei ddynodi oherwydd ei ddiddordeb gwyddonol arbennig o ran ei blanhigion ac anifeiliaid, neu ei nodweddion daearegol neu ffisiograffigol. |
| Safle sy'n berthynol dda | Ystyr 'â chysylltiad da' yw perthyn yn dda neu fod yn gydnaws â ffurf adeiledig anheddiad o ran agosrwydd, cysylltedd corfforol a pherthyn o ran yr olwg. |
| Safonau Cartrefi Gydol Oes | Meini prawf a ddatblygwyd gan grŵp a gynullwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree ym 1991 i helpu adeiladwyr tai i gynhyrchu cartrefi newydd sy'n ddigon hyblyg i ddelio â newidiadau i sefyllfaoedd bywyd y deiliaid e.e. gofalu am blant ifanc, anafiadau dros dro, dirywiad mewn symudedd gydag oed. |
| Seilwaith | Cyflenwadau pŵer, cyflenwad dŵr, cyfleusterau carthffosiaeth a dulliau gwaredu carthffosiaeth, gwaredu dŵr wyneb, ffyrdd a thrafnidiaeth, cymuned leol, telegyfathrebu, siopa a chyfleusterau eraill sydd eu hangen fel fframwaith i ddatblygu. |
| Seilwaith Cyfathrebu | Eitemau o offer technegol sefydlog sy'n galluogi pobl i gysylltu â'i gilydd. |
| Seilwaith Gwasanaeth | Gwasanaethau sylfaenol sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal gwaith datblygu, er enghraifft, ffyrdd, trydan, carthffosiaeth, dŵr, cyfleuster trin dŵr gwastraff, addysg a chyfleusterau iechyd. |
| Seilwaith Gwyrdd | Rhwydwaith o leoedd gwyrdd a chysylltiadau rhyng-gysylltiol a gaiff ei lunio, ei ddatblygu a'i reoli i ddiwallu anghenion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd cymunedau. Mae'n rhan o, ac yn cyfrannu tuag at, amgylchedd naturiol ac adeiledig o ansawdd uchel sy'n gwella ansawdd bywyd trigolion ac ymwelwyr presennol ac i'r dyfodol. |
| Sipsiwn  Teithwyr | Pobl sy'n byw wrth grwydro o le i le beth bynnag fo eu hil neu darddiad, yn cynnwys y bobl hynny sydd ar sail hanghenion eu hunain neu eu teuluoedd neu ddibynyddion o ran addysg neu iechyd neu henaint wedi peidio â theithio tros dro neu'n barhaol, ond heb gynnwys aelodau o grŵp trefnedig o bobl sioe deithiol neu bobl syrcas sy'n teithio gyda'i gilydd fel y cyfryw. (Ffynhonnell: Cylchlythyr LlC 30/2007 'Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn neu Deithwyr'). |

| | |
|---|---|
| Sylfaen Dystiolaeth | Gwybodaeth sylfaenol, gan gynnwys dogfennau ymchwil, data, arolygon a gwaith dehongli a ddefnyddir wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol. |
| Systemau Draenio Cynaliadwy | Mae Systemau Draenio Cynaliadwy wedi'u dylunio i leihau'r posibilrwydd o lifogydd ar ddatblygiadau newydd a rhai presennol. Yn wahanol i systemau draenio dŵr storm traddodiadol, maent hefyd yn helpu i warchod a gwella ansawdd dŵr wyneb. |
| Tai Fforddiadwy | Tai sydd â systemau yn eu lle i sicrhau eu bod yn hygyrch yn ariannol i rai na allant fforddion tai ar brisiau'r farchnad. Dylai tai fforddiadwy fod yn fforddiadwy i'r rhai sy'n byw yno gyntaf ac i bawb a fydd yn byw yno wedi hynny. Gellir sicrhau bod tai fforddiadwy ar gael ar rent neu i'w prynu ar gost sy'n is na gwerth y farchnad. |
| Tai Fforddiadwy Safle Eithriadau | Safle tai ar raddfa fach, oddi fewn neu'n gyffiniol ag aneddiadau presennol ar gyfer darparu tau fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol, na fyddai'n cael eu dyrannu fel arall yn y Cynllun datblygu. |
| Tir / Safleoedd Cyflogaeth | Tir a ddefnyddir at ddibenion cyflogaeth, naill ai ar gyfer busnesau meddiannaeth unigol neu yn rhan o ystad ddiwydiannol neu barc busnes, sy'n cynnwys un neu ragor o'r canlynol: swyddfeydd, gweithgynhyrchu, ymchwil a datblygu, storio a dosbarthu. |
| Tir y Cyhoedd | Mae Tir y Cyhoedd yn cyfeirio at bob rhan o'r amgylchedd adeiledig lle y mae gan y cyhoedd fynediad rhydd. Mae'n cwmpasu: pob stryd, sgwâr, a hawliau tramwy eraill, boed yn bennaf at ddefnydd preswyl, masnachol neu gymunedol/dinesig; yr ardaloedd agored a pharciau; a'r lleoedd 'cyhoeddus/preifat' lle y mae mynediad i'r cyhoedd yn anghyfyngedig (o leiaf yn ystod oriau'r dydd). Mae'n cynnwys rhyngwynebau â lleoedd mewnol a phreifat allweddol y mae gan y cyhoedd fynediad rhydd iddynt fel arfer. |
| Treftadaeth Ddiwylliannol | Mae hyn yn cwmpasu yr amgylchedd hanesyddol, etifeddiaeth ddiwylliannol a threftadaeth ieithyddol. Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynnwys archeoleg, henebion, adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, a pharciau, gerddi a thirweddau hanesyddol a'r hanes cymdeithasol eang sydd wedi helpu i lunio nodweddion unigryw lleol. Mae treftadaeth ieithyddol yn cynnwys yr iaith Gymraeg a thafodieithoedd gwahanol, gan gydnabod bod treftadaeth ieithyddol Sir Benfro yn cynnwys y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae llinell Landsger yn cynrychioli'r rhaniad yn fras rhwng y ddau draddodiad hyn. Gyda'i gilydd, mae'r dreftadaeth hanesyddol, ddiwylliannol ac ieithyddol yn ffurfio treftadaeth ddiwylliannol sy'n cyfrannu at greu ymdeimlad o hunaniaeth ddiwylliannol. |




| | |
|---|---|
